Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16

Tachwedd 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddPlant**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPlant@senedd.cymru**
X: **@SeneddPlant**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16

Tachwedd 2025

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddPlant**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Buffy Williams AS**
Llafur Cymru



**Natasha Asghar AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Cefin Campbell AS**
Plaid Cymru



**Russell George AS**
Aelod Annibynnol



**Vaughan Gething AS**
Llafur Cymru



**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru

---

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Joel James AS**
Ceidwadwyr Cymreig

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Peter Fox AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion** .......... **7**

**1. Cyflwyniad** .......... **11**

Cefndir yr ymchwiliad .......... 11

Casglu tystiolaeth .......... 12

**2. Y cyd-destun polisi** .......... **14**

Y Warant i Bobl Ifanc .......... 14

Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol .......... 16

Medr .......... 19

Strategaeth genedlaethol .......... 22

Parch cydradd .......... 24

Ein barn ni .......... 26

**3. Addysg cyn-16** .......... **29**

Cyngor gyrfaoedd cynnar: y Cwricwlwm i Gymru cyn-16 .......... 29

Cymwysterau .......... 32

Prentisiaethau Iau a llwybrau galwedigaethol yn 14-16 oed .......... 34

Ein barn ni .......... 39

**4. Pontio i addysg a hyfforddiant 16-18** .......... **42**

Cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd cyn-16 .......... 42

Profiad gwaith .......... 65

Rhwystrau i gynnydd yn 16 oed .......... 70

Ein barn ni .......... 98

**5. Darpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed** .......... **107**

Data cyrchfannau ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed....107

Y cymysgedd o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed....113

Heriau sy'n wynebu sefydliadau addysg 16-18....124

Pobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET)....128

Addysg orfodol hyd 18 oed....132

Ein barn ni....134

**6. Pontio i addysg a hyfforddiant ôl-18....138**

Cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd ôl-16....138

Rhwystrau i gynnydd yn 18 oed....140

Ein barn ni....148

**7. Darpariaeth ar gyfer pobl ifanc 18+ oed....152**

Data ar gyrchfannau pobl ifanc 18+ oed....152

Y cymysgedd o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 18+ oed....156

Yr heriau sy'n wynebu sefydliadau AU....161

Pobl ifanc 18+ oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET)....166

Ein barn ni....168

**Atodiad 1 : Gweithgareddau ymgysylltu....173**

**Atodiad 2 : Rhestr o'r rhai a fynychodd y digwyddiad i randdeiliaid....174**

**Atodiad 3 : Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar. ....175**

**Atodiad 4 : Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig....178**

Gwybodaeth ychwanegol....180

Gwybodaeth ychwanegol....180

# Rhagair y Cadeirydd

Ar 12 Awst 2025, tra roeddem yn drafftio'r adroddiad hwn, fe wnaethom golli cydweithiwr a chyfaill annwyl iawn. Roedd marwolaeth Hefin David yn ergyd i bawb ohonom ar draws y Senedd. Rydym yn teimlo'r golled yn arbennig o gryf ar y Pwyllgor hwn. Roedd Hefin yn gyn-aelod o'r Pwyllgor, yn ystod y Senedd hon a'r Senedd ddiwethaf. Roedd ei adroddiad dylanwadol 'Pontio i fyd gwaith' yn fan cychwyn allweddol ar gyfer y darn hwn o waith. Mae'n parhau i ddylanwadu ar ymateb Llywodraeth Cymru i wella cyfranogiad mewn addysg ôl-16, a chyfeirir ato'n gyson yn yr adroddiad hwn drwyddo draw. Mae llawer wedi cyfrannu at yr ymchwiliad hwn, ac mae llawer o bobl eraill wedi gweithio i wella cyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 yn fwy cyffredinol. Mae Hefin wedi gwneud llawer iawn mwy na'r mwyafrif.

Mae'r adroddiad hwn yn benllanw bron i flwyddyn o waith casglu tystiolaeth am lwybrau pobl ifanc at addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae wedi bod yn ymchwiliad eang iawn – yn fwriadol felly, i gydnabod arwyddocâd y llu o lwybrau gwahanol y gall pobl ifanc eu dilyn ar ôl addysg orfodol, a'r rhwystrau a'r heriau y mae llawer yn eu hwynebu.

Pwyllgor sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc yw hwn, felly mae'r adroddiad wedi'i ysgrifennu gan ddilyn teithiau dysgwyr wrth iddynt baratoi i adael y system addysg orfodol a chymryd camau i fyd addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae cymhlethdod yr adroddiad yn adlewyrchiad o'r dirwedd gymhleth y disgwylir i bobl ifanc ymdopi â hi.

Yn yr adroddiad hwn, gwneir 16 o argymhellion penodol a realistig sy'n canolbwyntio ar dair thema allweddol.

Y cyntaf ohonynt yw pwysigrwydd parch cydradd rhwng llwybrau ôl-16 galwedigaethol ac academaidd. Dyma'r egwyddor sylfaenol sy'n sail i'n hadroddiad. Rydym wedi ymwrthod â rhagfarn o blaid y naill lwybr neu'r llall, ac rydym yn herio categoreiddio dysgwyr i lwybrau wedi'u pennu ymlaen llaw yn seiliedig ar stereoteipiau a rhagdybiaethau di-fudd. Dylai dysgwyr allu dewis llwybrau galwedigaethol neu academaidd, neu lwybrau sy'n gyfuniad o'r ddau, ac ni ddylai'r dewisiadau hynny eu hatal rhag symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant ar lefel uwch os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Yr ail yw y dylai pobl ifanc fod wedi'u paratoi'n dda i wneud penderfyniadau ynghylch yr hyn y maen nhw am ei wneud ar ôl gadael addysg orfodol, ac y dylai

eu teuluoedd gael y wybodaeth sydd eu hangen arnynt i wneud hynny. Dylai cyngor gyrfaoedd o ansawdd uchel ddechrau yn yr ysgol a hynny ar oedran ifanc a chael ei ategu gan gyngor gyrfaoedd cefnogol, annibynnol a gwybodus yn yr ysgol uwchradd. Cawsom sioc o ddarganfod mai dim ond tua chwarter y bobl ifanc sy'n cael cyfle i wneud profiad gwaith, sy'n fath pwysig o gyngor gyrfaoedd ynddo'i hun. Dylid gwneud mwy i nodi a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal cynifer o bobl ifanc rhag cael y profiad amhrisiadwy hwnnw o fyd gwaith.

Y trydydd yw bod sector addysg drydyddol a hyfforddiant llwyddiannus yng Nghymru yn dibynnu ar gydweithio rhwng ysgolion a cholegau. Deuwn i'r casgliad yn yr adroddiad hwn na ddylai'r system bresennol o gyllido addysg ôl-16 fod yn rhwystr anfwriadol i gydweithio rhwng ysgolion a cholegau. Rhaid i'r sefydliadau hyn gydweithio i roi'r cynnig gorau ac ehangaf i bobl ifanc ac i gael gwared ar gymhellion i roi cyngor rhagfarnllyd i bobl ifanc yn y frwydr dros gyllid ar gyfer addysg ôl-16. Wrth wneud hynny, gall ysgolion a cholegau hefyd elwa drwy roi eu darpariaeth ôl-16 ar sylfaen fwy sefydlog yn ariannol ac, yn y pen draw, hybu cyfranogiad ar bob lefel.

Hoffwn ddiolch i'm cyd-aelodau ar y Pwyllgor am eu hymroddiad i'r maes polisi hanfodol hwn, am eu parodrwydd i geisio dod o hyd i gyfaddawd rhwng y pleidiau, ac am y ffordd feddylgar ac ystyriol y bu iddynt ymdrin â'r dystiolaeth a glywsom.

Wrth gwrs, ni fyddai dim o hynny wedi bod yn bosibl heb amser ac arbenigedd y llu o weithwyr proffesiynol, academyddion, rhieni, ac – yn bwysicaf oll – pobl ifanc eu hunain, a roddodd dystiolaeth mor gadarn inni ar gyfer ein gwaith. Fel gyda'n holl waith drwy gydol y Senedd hon, mae'r adroddiad hwn yn llawer cyfoethocach a mwy manwl oherwydd eu cefnogaeth a'u hymgysylltiad parhaus.

Er ein bod yn galw am newidiadau yn yr adroddiad hwn, rydym hefyd yn cydnabod arferion gorau ar draws y sector, a lle mae Llywodraeth Cymru ac eraill wedi gwneud cynnydd gwirioneddol. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Llywodraeth hon a Llywodraethau olynol Cymru i godi uchelgais ein pobl ifanc a darparu'r system addysg drydyddol a hyfforddiant y maent yn ei haeddu.

**Buffy Williams AS**
Cadeirydd

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru lunio strategaeth genedlaethol gadarn, gyffredinol ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 sy'n cynnwys llwybrau i gyflogaeth, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Dylai'r strategaeth gwmpasu llwybrau academaidd a galwedigaethol, gan greu gweledigaeth strategol ar gyfer sector ôl-16 cydlynol a chydweithredol sy'n annog dysgwyr i gael addysg a methrin sgiliau drwy ba bynnag lwybr addysgol sy'n iawn iddyn nhw............................................ Tudalen 27

**Argymhelliad 2.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei hasesiad ynghylch a fyddai'n fuddiol ehangu'r arferion da a welir gydag Addewid Caerdydd a rhaglen beilot Llwybrau Gyrfa Ynys Môn i rannau eraill o Gymru, ac unrhyw rwystrau a fyddai'n atal hynny ar lefel awdurdod lleol neu ranbarthol............................................................................................................................... Tudalen 28

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ehangu'r cynllun Prentisiaethau Iau i sicrhau ei fod ar gael i ddysgwyr ledled Cymru sydd mewn perygl o ymddieithrio o'u haddysg. Wrth wneud hynny, dylai fynd i'r afael â phryderon Estyn ynghylch Prentisiaethau Iau, gan gynnwys y pryderon ynghylch anghysondebau yn y meini prawf atgyfeirio, yn y wybodaeth a ddarperir i rieni ac mewn prosesau sicrhau ansawdd; a sicrhau bod mesurau diogelu cadarn wedi'u hymgorffori yn y rhaglen i amddiffyn dysgwyr 14-16 oed wrth iddynt gael addysg mewn lleoliad ôl-16. ............................................................................................................................................Tudalen 40

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei dull o ymdrin ag addysg alwedigaethol cyn-16 ledled Cymru. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir sut y mae darpariaeth fel Prentisiaethau Iau, addysg cyn-16 arall mewn coleg, a chymwysterau TAAU yn ffurfio cynnig galwedigaethol cydlynol a chyfannol ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol orfodol..................................................... Tudalen 41

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru, gan gydweithio â Medr, gynnal adolygiad o gyllid a deddfwriaeth ôl-16 i archwilio:

- a yw'r system gyllido bresennol yn cymell cystadleuaeth rhwng darparwyr sy'n effeithio ar natur ddiduedd y cyngor gyrfaoedd a roddir i ddysgwyr, ac i ba raddau y mae hynny'n digwydd;
- sut y mae ysgolion a cholegau unigol wedi goresgyn heriau cyllido er mwyn cydweithio'n effeithiol;

- a ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r system gyllido ôl-16 a'r ddeddfwriaeth i ysgogi cydweithio rhwng sefydliadau ôl-16 (e.e. drwy roi'r gorau i ddefnyddio model cyllido yn seiliedig ar niferoedd y disgyblion, drwy ddarparu cyllid grant i wobrwyo cydweithio, neu fel arall). ........Tudalen 99

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ehangu'r Hawl i Ddysgu 14-16 oed presennol i gynnwys y pecyn ehangach o gyngor, cyfarwyddyd a chyfleoedd y mae gan ddysgwyr hawl i'w gael yng Nghyfnod Allweddol 4. Dylai'r Hawl i Ddysgu 14-16 estynedig hon gynnwys elfennau sylfaenol trefniadau pontio effeithiol o ansawdd uchel i addysg ôl-16, megis yr hawl i ddysgwyr gael cyngor gyrfaoedd o ansawdd uchel gan eu hysgolion a Gyrfa Cymru; mynediad at gynrychiolwyr colegau, darparwyr seiliedig ar waith a phrifysgolion; a phrofiad gwaith. Dylai'r hawliau penodol adlewyrchu cynnig polisi ehangach Llywodraeth Cymru, cael eu hyrwyddo'n uniongyrchol i ddysgwyr a'u teuluoedd, a'u defnyddio gan Estyn ac eraill i ddwyn darparwyr gwasanaethau i gyfrif am y cymorth y maent yn ei ddarparu i ddysgwyr. ........Tudalen 100

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu Estyn i gynnal adolygiad thematig o wasanaeth cyngor gyrfaoedd Gyrfa Cymru. Dylai'r adolygiad ganolbwyntio'n benodol ar gynnig 'safonol' Gyrfa Cymru, a dylai ystyried a yw'n diwallu anghenion yr holl ddysgwyr a'u teuluoedd, a pha newidiadau, os o gwbl, y gellid eu gwneud i wella'r ddarpariaeth. ........Tudalen 102

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu darn penodol o ymchwil i ddeall yn well pam nad yw rhai cyflogwyr yn gallu cynnig lleoliadau profiad gwaith, neu pam eu bod yn amharod i wneud hynny, a pha gamau y gall Llywodraeth Cymru neu eraill eu cymryd i oresgyn y rhwystrau hynny. ........Tudalen 103

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys yn benodol yr effaith ar fynediad pobl ifanc at addysg a hyfforddiant ôl-16 yn ei chylch gorchwyl ar gyfer y gwerthusiad annibynnol arfaethedig o'i chynllun peilot tocynnau bws sengl am uchafswm o £1/tocynnau teithio dyddiol am uchafswm o £3 i bobl ifanc. ........Tudalen 106

**Argymhelliad 10.** Dylai Medr wella ansawdd ac amseroldeb y data cyhoeddedig am addysg a hyfforddiant dysgwyr rhwng 16 a 18 oed, mewn ymateb i'r pryderon a nodir yn yr adroddiad hwn. Wrth wneud hynny, dylai Medr roi sylw arbennig i:

- ddata sy’n dilyn llwybrau dysgwyr ar bob cam ar ôl iddynt adael blwyddyn 11, i helpu i ddeall dewisiadau dysgwyr a ble, pam a phryd y gallai dysgwyr fod yn gadael neu’n rhoi’r gorau i addysg a hyfforddiant; a
- data am ddysgwyr mewn colegau AB a dysgu seiliedig ar waith, yn enwedig dysgwyr sy’n ymgymryd â chyrsiau lefelau 1 a 2, gan gynnwys cyrchfannau ar gyfer y rhai ar gyrsiau blwyddyn. ……………………………Tudalen 134

**Argymhelliad 11.** Yn ei hymateb i’r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru roi dadansoddiad o:

- pam mae’n credu bod cymaint o anghysondeb rhwng cyfran y dysgwyr sydd eisiau ymgymryd â phrentisiaeth a chyfran y dysgwyr sy’n gwneud hynny mewn gwirionedd; a
- y graddau y mae’r rhwystrau sy’n wynebu cyflogwyr (megis y cyllid ar gyfer rhaglenni prentisiaeth, a diffyg ymwybyddiaeth ymhlith busnesau bach a chanolig) wedi cyfrannu at y gwahaniaeth sylweddol rhwng y galw am brentisiaethau ymhlith pobl ifanc a nifer gwirioneddol y prentisiaethau sydd ar gael. ……………………………………………………………Tudalen 136

**Argymhelliad 12.** Yn ei hymateb i’r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu:

- pam mae’n credu bod dynion ifanc yn gyson fwy tebygol o ddod yn NEET o gymharu â menywod ifanc;
- sut y mae ei gwaith i wella cyfraddau cyfranogi mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 wedi ystyried y gwahanol heriau sy’n wynebu menywod a dynion ifanc;
- a yw’n credu bod angen gwneud unrhyw waith pellach i ddeall yn well pam mae rhai pobl ifanc yn dod yn NEET, yn enwedig mewn perthynas ag amrywiadau mewn cyfraddau rhwng menywod a dynion ifanc yng Nghymru.

…………………………………………………………………………………Tudalen 137

**Argymhelliad 13.** Yn ei hymateb i’r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei disgwyliadau o ran sut y dylai darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 ddarparu cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd i bobl ifanc i’w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu camau ôl-18. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu’n glir pwy sy’n gyfrifol am y cyngor hwnnw a rôl

Estyn o ran dwyn sefydliadau i gyfrif am y cymorth y maent yn ei ddarparu. ........................................................................................................................................... Tudalen 149

**Argymhelliad 14.** Dylai Medr weithio gyda Colegau Cymru i ganfod y bylchau yn y data am ddysgwyr mewn colegau AB (megis eu cyrchfannau ôl-18), a chymryd camau i fynd i'r afael â'r bylchau hynny drwy ddatblygu set ddata fanwl gywir, amserol a dibynadwy gyda'r nod o'i rhyddhau'n flynyddol erbyn diwedd y flwyddyn academaidd 2025/26. .............................................................................. Tudalen 169

**Argymhelliad 15.** Fel rhan o'i ddull o ddatblygu fframwaith gradd-brentisiaethau i'w weithredu o fis Awst 2027 ymlaen, dylai Medr gynnal asesiad o fanteision neu anfanteision y canlynol mewn perthynas â chynyddu nifer y gradd-brentisiaethau sydd ar gael:

- cyflogwyr yn cyfrannu at gost ffioedd dysgu gradd-brentisiaethau, ochr yn ochr â'r cyflog y maent yn ei dalu i'r prentis; a
- rhoi'r ymreolaeth i sefydliadau AU ddatblygu gradd-brentisiaethau yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. ........................................................ Tudalen 171

**Argymhelliad 16.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar ei thrafodaethau parhaus â Llywodraeth y DU ynghylch sut y gellir mynd i'r afael â'r pwysau ariannol sy'n wynebu sefydliadau Addysg Uwch ar lefel y DU gyfan. .......................................................................................................................... Tudalen 171

# 1. Cyflwyniad

Mae Pennod 2 o'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cyd-destun polisi cyffredinol sy'n berthnasol i addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru. O bennod 3 ymlaen, mae'r adroddiad yn adlewyrchu taith person ifanc o oedran ysgol gorfodol, wrth iddo dderbyn cyngor gyrfaoedd a dechrau ystyried ei opsiynau ôl-16, a mynd ymlaen i addysg a hyfforddiant ôl-16.

## Cefndir yr ymchwiliad

**1.** Ym mis Mawrth 2024, ysgrifennodd Prifysgolion Cymru atom i fynegi eu pryderon ynghylch lefel cyfranogiad pobl ifanc Cymru mewn addysg uwch ("AU"). I grynhoi, roedd y llythyr yn nodi pryderon ynghylch:

- Y ffaith bod canran y bobl ifanc 18 oed sydd â'u domisil yng Nghymru ac a aeth i addysg uwch yn 2023/24 yn 29.9%, o'i gymharu â 49.5% yn Llundain, 40.2% yng Ngogledd Iwerddon a 38.5% yn Ne-ddwyrain Lloegr.

- Yn y DU yn gyffredinol, bod cyfradd y rhai yng nghategori cwintel 1 y Mynegai Amddifadedd ("MALI") (y rhai â'r amddifadedd mwyaf) sy'n mynd ymlaen i AU yn 26%, ond yng Nghymru mae'n 18.9%. Ceir anghydraddoldeb rhanbarthol sylweddol hefyd: mae pobl ifanc yng nghwintel 1 yn ne Cymru yn fwy tebygol o fanteisio ar AU na phobl ifanc yng nghwintel 1 yng ngogledd Cymru.

- Mae data cyrchfannau ôl-16 ar gyfer pobl 16-17 oed yn anghyson ar hyn o bryd.[1]

**2.** Fe wnaethom gytuno i gynnal ymchwiliad i gyfranogiad pobl ifanc ôl-16 mewn AU ar 6 Tachwedd 2024. Fodd bynnag, o ystyried bod AU yn un o ystod o opsiynau sydd ar gael i bobl ifanc ar ôl iddynt adael yr ysgol, penderfynwyd

---

[1] 'Llythyr gan Brifysgolion Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Pwyllgor', 12 Mawrth 2024 (Saesneg yn unig)

ehangu'r ymchwiliad y tu hwnt i'r pryderon a amlinellwyd yn y llythyr i ystyried y dirwedd addysg a hyfforddiant ôl-16 ehangach. Roeddem hefyd yn awyddus i ganolbwyntio'n benodol ar blant oedran ysgol gorfodol a'r hyn sy'n eu helpu i benderfynu i barhau â'u haddysg a'u hyfforddiant ar ôl blwyddyn 11, yn ogystal â'r hyn sy'n eu llesteirio rhag gwneud hynny.

**3.** Mae ein hymchwiliad wedi canolbwyntio ar:

- ansawdd y wybodaeth a roddir i ddysgwyr am yr ystod lawn o opsiynau ôl-16;
- pa mor effeithiol yw cymorth gyrfaoedd yn ystod oedran ysgol gorfodol;
- newidiadau mewn llwybrau ôl-18;
- darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- mynediad cyfartal;
- data ar gyrchfannau ôl-16; a
- rôl Llywodraeth Cymru.

Mae'r cylch gorchwyl llawn ar gael ar-lein.[2]

## Casglu tystiolaeth

**4.** Fe wnaethom gyhoeddi galwad am dystiolaeth ysgrifenedig ar 3 Rhagfyr 2024, a ddaeth i ben ar 27 Ionawr 2024. Daeth 47 o ymatebion i law, ac mae pob un ohonynt wedi cael eu cyhoeddi (gweler Atodiad 4).[3]

**5.** Cynhaliwyd cyfres o sesiynau tystiolaeth lafar ffurfiol rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2025. Clywsom dystiolaeth lafar gan gyfanswm o 17 o sefydliadau (gweler Atodiad 3).

**6.** Fe wnaethom hefyd gynnal digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau i siarad yn uniongyrchol â dysgwyr a staff sy'n ymwneud â dysgu ôl-16. Cyhoeddwyd adroddiad cryno ar y gweithgareddau anffurfiol hynny ym mis Mai 2025.[4] Mae

[2] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16'
[3] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16'
[4] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025

rhagor o fanylion am y rhai a fynychodd y gweithgareddau hynny i'w gweld yn atodiadau 1 a 2 i'r adroddiad hwn.

**7.** Rydym wedi gofyn i rai rhanddeiliaid anfon gwybodaeth ychwanegol atom yn dilyn sesiynau tystiolaeth lafar, y digwyddiad i randdeiliaid neu ymweliadau ymgysylltu. Mae'r dystiolaeth ychwanegol hon hefyd wedi'i chyhoeddi fel 'gwybodaeth ychwanegol'.[5]

**8.** Cynhaliodd Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion Comisiwn y Senedd weithgareddau ymgysylltu â dinasyddion ar ein rhan. Lansiodd y tîm ddau arolwg: un wedi'i anelu at rieni/gwarcheidwaid pobl ifanc 16–20 oed ac un arall wedi'i anelu at bobl ifanc. Cawsom 331 o ymatebion gan bobl ifanc, a 140 o ymatebion gan rieni a gwarcheidwaid. Cynhaliodd y tîm gyfweliadau wyneb yn wyneb hefyd gyda hwyluswyr a phobl ifanc lleoliad addysg amgen i ategu'r arolygon. Mae adroddiad cryno o ganfyddiadau'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion hefyd wedi'i gyhoeddi.[6]

**9.** Yng ngwanwyn 2025, mewn ymateb i gyhoeddiadau ar dorri costau gan brifysgolion Cymru, fe wnaethom lansio ymchwiliad i broblemau sy'n wynebu'r sector AU.[7] Rydym wedi defnyddio llawer o'r dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a gasglwyd gennym fel rhan o'r ymchwiliad hwnnw yn yr adroddiad hwn oherwydd y goblygiadau mawr yn sgil yr heriau sy'n wynebu prifysgolion i gyfranogiad dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

**10.** Hoffem ddiolch i'r holl sefydliadau, gweithwyr proffesiynol, rhieni a gwarcheidwaid, ac yn enwedig y bobl ifanc a rannodd eu barn gyda ni ac a gefnogodd ein gwaith o gasglu tystiolaeth drwy gydol yr ymchwiliad hwn.

[5] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16'
[6] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu', Mawrth 2025
[7] Senedd Cymru, 'Materion sy'n wynebu'r Sector Addysg Uwch', 11 Mawrth 2025

# 2. Y cyd-destun polisi

Mae'r cyd-destun polisi cenedlaethol yn fframio teithiau pobl ifanc i a thrwy addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae Llywodraeth Cymru wedi talu cryn sylw i'r sector ôl-16 yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan lansio'r cynllun blaenllaw Gwarant i Bobl Ifanc ac ailstrwythuro sut y mae'r sector yn cael ei reoleiddio a'i ariannu.

## Y Warant i Bobl Ifanc

**11.** Mae'r Warant i Bobl Ifanc ("y Warant ") yn un o bolisïau blaenllaw Llywodraeth Cymru. Nod y Warant yw rhoi cymorth i bawb rhwng 16 a 24 oed sy'n byw yng Nghymru i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, neu gymorth i gael gwaith neu hunangyflogaeth. Mae'r Warant yn strwythur ymbarél sy'n cwmpasu nifer o opsiynau, gan gynnwys:

- prentisiaethau, ble mae Llywodraeth Cymru yn talu costau'r hyfforddiant a'r cyflogwr yn talu cyflogau'r prentisiaid;
- Syniadau Mawr Cymru, sy'n helpu pobl o dan 25 oed i ddechrau eu busnes eu hunain;
- Cymunedau dros Waith a Mwy, sy'n darparu cyngor arbenigol ar gyflogaeth i bobl dros 20 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ("NEET") ac sydd â rhwystr cymhleth i gyflogaeth;
- addysg bellach ("AB") mewn chweched dosbarth neu goleg;
- AU mewn prifysgol;
- Twf Swyddi Cymru+, sy'n rhoi'r sgiliau, y cymwysterau a'r profiad i'r rhai rhwng 16 a 19 oed i gael swydd neu hyfforddiant pellach. Fel rhan o'r rhaglen, mae pobl ifanc yn gallu cael lwfans hyfforddi yn dibynnu ar yr oriau o hyfforddiant a pha elfen o'r cynllun y maen nhw'n ei dilyn; a

- ReAct+, sy'n cynnig cymorth wedi'i deilwra i bobl dros 20 oed sydd wedi colli eu swyddi'n ddiweddar, neu sy'n gyn-droseddwr neu'n droseddwr sy'n bwrw dedfryd gymunedol.[8]

**12.** Mae'r Warant i Bobl Ifanc yn bolisi eang a chynhwysfawr, ac mae llawer ohono y tu allan i'n cylch gwaith ni. Fodd bynnag, fe wnaethom ofyn i randdeiliaid am eu barn ynghylch a yw teuluoedd ac ysgolion yn ymwybodol o'r gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chynnig drwy'r Warant.

**13.** Roedd y rhanddeiliaid yn gefnogol i'r Warant yn gyffredinol, ond roeddent yn teimlo y gellid gwneud mwy i wella ymwybyddiaeth o'r hyn y mae'n ei olygu'n ymarferol i ddysgwyr ymhlith dysgwyr eu hunain, eu teuluoedd a staff ysgolion a cholegau.[9] Roedd barn Coleg Sir Gâr yn gynrychioliadol o'r dystiolaeth a gawsom:

> *"The Welsh Government's initiatives, such as the Young Person's Guarantee, have provided valuable resources to support learners in accessing a full range of post-16 education and training options. Programs like the Employability Bureaus are particularly effective, offering impartial advice and guidance, connecting learners with employers, and promoting clear progression pathways. Continued efforts are needed to ensure widespread awareness among learners, families, and schools about these resources and programs."*[10]

**14.** Fodd bynnag, er gwaethaf y pryderon hyn, dywedodd Gyrfa Cymru fod rhestrau aros hir ar gyfer rhaglenni fel Twf Swyddi Cymru, a bod cyllid ychwanegol wedi'i ddarparu i gyd-fynd â hynny.[11]

**15.** Nododd Llywodraeth Cymru, ers lansio'r Warant i Bobl Ifanc, fod dros 48,500 o bobl ifanc wedi cael eu cefnogi drwy raglenni cyflogadwyedd a sgiliau sy'n dod o dan ymbarél y Warant. Eglurodd mai Cymru'n Gweithio sy'n darparu'r prif fecanwaith atgyfeirio, sy'n cynnig cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd diduedd, am ddim i'r rhai sy'n 16 oed neu'n hŷn.[12] Dywedodd y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol wrthym fod y Warant yn llwyddiant mawr o ran

---

[8] Llywodraeth Cymru, 'Gwarant i Bobl Ifanc'
[9] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 12 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 26 Cyngor Sir Powys; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 40 Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTFW)
[10] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 35 Coleg Sir Gâr
[11] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 17 Gyrfa Cymru
[12] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 47 Llywodraeth Cymru

ymgysylltu â phobl ifanc a allai fel arall fod yn NEET, a bod Twf Swyddi Cymru a'r Warant i Bobl Ifanc yn bethau y dylai'r pwyllgor eu canmol.[13]

## Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

**16.** Ar hyn o bryd mae pedair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yng Nghymru:

- Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru
- Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin Cymru

**17.** Mae pob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn fwrdd gwirfoddol, anstatudol sy'n cynnwys cyflogwyr, darparwyr addysg ac eraill. Wedi'u sefydlu gan Lywodraeth Cymru, rôl partneriaethau hyn yw ysgogi buddsoddiad mewn sgiliau yn seiliedig ar anghenion lleol a rhanbarthol. Mae'r byrddau'n gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch cyrsiau coleg a phrentisiaeth amser llawn a niferoedd y dysgwyr. Crëwyd pob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar wahanol adegau rhwng 2014 a 2022 ac maent wedi esblygu'n annibynnol, ac wedi'u llunio gan eu rhanbarthau eu hunain a'u Bargeinion Dinesig a'u Bargeinion Twf eu hunain.[14]

**18.** Eto, mae ystyriaeth fanwl o gylch gwaith, cyfansoddiad a gweithgareddau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol y tu hwnt i gwmpas yr ymchwiliad hwn. Fodd bynnag, cawsom dystiolaeth gyson gan rai rhanddeiliaid a oedd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cysylltu marchnadoedd llafur rhanbarthol â'r cyngor a roddir i ddysgwyr am addysg ôl-16.[15] Tynnodd rhanddeiliaid hefyd sylw'n rheolaidd at effeithiolrwydd Addewid Caerdydd a chynllun peilot llai Llwybrau Gyrfa Ynys Môn, sydd ill dau yn cael eu cefnogi gan eu priod Fwrdd Sgiliau Rhanbarthol. Mae'r ddau gynllun yn anelu at greu cysylltiadau rhwng dysgwyr a chyflogwyr mewn ardaloedd lleol i wella parodrwydd dysgwyr ar gyfer gyrfa a chynnwys cyflogwyr yn

[13] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 26 a 197
[14] Llywodraeth Cymru, 'Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol'
[15] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 22 (UCAC); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 211 (Estyn); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 23 Horticultural Trades Association; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 34 Colegau Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 14 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)

well mewn cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd.[16] Awgrymodd Estyn nad yw'n gyd-ddigwyddiad bod y ddau gynllun hynny yn yr ardaloedd sydd â'r Byrddau Sgiliau Rhanbarthol cryfaf:

> *"I would say you've got the stronger regional skills partnerships there, so, that actual joined-up, more forensic, analytical, research-based thinking at that more regional level about what the skills gaps are, what the industry needs are, which then are actually impacting on the curriculum that is being offered in schools and colleges"*[17]

**Astudiaeth achos 1: Addewid Caerdydd**

Cynghrair o dros 400 o sefydliadau ar draws y ddinas gyfan sydd wedi addunedu i weithio gyda'i gilydd i wella deilliannau addysgol a rhagolygon gyrfa plant a phobl ifanc ledled Caerdydd, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig, yw Addewid Caerdydd.

Nod blaenoriaeth 'Llwybrau Dysgu' Addewid Caerdydd yw ailgyflwyno profiad gwaith i ysgolion gydag ymrwymiad i ehangu'r fenter hon ar draws y ddinas.

Mae'r prif gyflawniadau a adroddwyd gan Addewid Caerdydd yn cynnwys ehangu profiad gwaith (gan ddarparu 450 o leoliadau yn ystod Haf 2024 ar draws pedair ysgol), darparu rhaglenni wedi'u teilwra ar gyfer pobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ("ADY") a Phlant sy'n Derbyn Gofal, ymgysylltu â phartneriaid (mae'r rhwydwaith wedi tyfu i 588 o bartneriaid gan gynnwys cyflogwyr o sectorau twf allweddol), effaith ar werth cymdeithasol a chael ei ddyfarnu'n Sefydliad Sector Cyhoeddus y Flwyddyn yng Ngwobrau Symudedd Cymdeithasol y DU 2024.

Mae rhai effeithiau mesuradwy rhwng 2022-24 yn cynnwys:

- trefnu 152 o leoliadau profiad gwaith, ble y cafwyd adborth cadarnhaol ar bob un o'r myfyrwyr ynghylch eu parodrwydd ar gyfer byd gwaith; a
- 39 o interniaid ADY wedi cymryd rhan mewn llwybrau cyflogaeth â chymorth, a 12 o'r rheini wedi llwyddo i symud ymlaen i gyflogaeth.

[16] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 231 (Gyrfa Cymru); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 07 Grŵp Hyfforddi Educ8; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 40 Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTFW)
[17] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 211

Mae tîm Addewid Caerdydd yn cael ei ariannu drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin tan fis Mawrth 2026. Nodwyd mai cyllid yw'r her fwyaf arwyddocaol i Addewid Caerdydd.

**Astudiaeth Achos 2: Rhaglen beilot Llwybrau Gyrfa Ynys Môn**

Nod rhaglen beilot Llwybrau Gyrfa Ynys Môn yw gwella parodrwydd pobl leol ar gyfer gyrfaoedd, sicrhau cyfatebiaeth rhwng llwybrau addysgol ag anghenion y gweithlu, a hybu twf economaidd yn Ynys Môn gyda'r nod o amlygu llwybrau gyrfa. Mae'r rhaglen beilot yn bwriadu cyflawni hyn drwy:

- gefnogi pobl ifanc i ddeall yr holl gyfleoedd lleol;
- sicrhau bod llwybrau dilyniant ôl-16 yn cael eu deall, a bod parch cydradd rhwng llwybrau galwedigaethol a llwybrau academaidd;
- annog cyfleoedd ymgysylltu rhwng athrawon, dysgwyr a chyflogwyr;
- datblygu gwybodaeth i athrawon am y farchnad lafur;
- cefnogi athrawon i ymgorffori profiadau gyrfa a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith yn y cwricwlwm a'r cynlluniau dysgu;
- cefnogi cyflogwyr i ddylanwadu ar y cwricwlwm lleol a helpu pobl ifanc i sylweddoli pa sgiliau a rhinweddau sydd eu hangen arnynt i ymuno â'r gweithle.

Er bod y rhaglen beilot yn cynnwys wyth ffrwd waith, dim ond un o'r ffrydiau gwaith hyn ('Ysbrydoli i Adeiladu') a arweiniodd at gostau. Dim ond £1,400 oedd cyfanswm y costau hyn, yn bennaf i dalu am dacsis i gludo'r bobl ifanc o'r ysgol i'r coleg ac yn ôl.

Mae deilliannau allweddol y peilot yn cynnwys:

- dysgwyr sy'n fwy parod ar gyfer gyrfa;
- gwell cyfatebiaeth rhwng addysg ac anghenion gweithlu rhanbarthol;
- partneriaethau ac ymgysylltiad cymunedol cryfach;
- deilliannau gwell i ddysgwyr a llwybrau cliriach;
- potensial ar gyfer ehangu ac atgynhyrchu'r model.

Mae llwyddiant y cynllun peilot yn sylfaen addawol ar gyfer rhaglenni'r dyfodol sydd â'r nod o gysoni llwybrau addysg a chyflogaeth mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill ledled Gogledd Cymru.

**19.** Cododd rhai rhanddeiliaid bryderon ynghylch effeithiolrwydd Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol mewn perthynas â chefnogi dysgwyr i fynd ymlaen i addysg a hyfforddiant ôl-16. Dywedodd Hyfforddiant Cambrian wrthym fod oedi o ran amser gyda'r data (gweler paragraff 248 ymlaen am drafodaeth am ddata) yn ei gwneud hi'n anodd i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol gyflawni eu cylch gwaith.[18] Awgrymodd Make UK y gall dulliau anghyson rhwng awdurdodau lleol ei gwneud hi'n anodd i weithgynhyrchwyr sy'n gweithredu ar draws sawl safle. Dadleuodd y bydd gan Medr rôl hanfodol o ran sicrhau cysondeb ledled Cymru yn ei waith o gydlynu'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.[19]

**20.** Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol a oedd yn credu bod potensial i gyflwyno'r model Addewid Caerdydd mewn rhanbarthau eraill ledled Cymru. Esboniodd y Gweinidog inni y dylai Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ganolbwyntio ar ymgysylltu â chyflogwyr, a darganfod beth yw'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol, ac y dylai Gyrfa Cymru ac eraill ganolbwyntio mwy ar ddod â busnes a diwydiant i ysgolion.[20] Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg fod Addewid Caerdydd wedi gwneud cryn argraff arni, a'i bod yn arbennig o awyddus i'w ystyried o safbwynt dysgwyr ag anghenion ychwanegol.[21]

## Medr

**21.** Sefydlwyd y Comisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil (a gafodd ei alw'n "Medr" yn ddiweddarach) gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("Deddf 2022"). Daeth Medr yn weithredol ym mis Awst 2024, ac mae ganddo gyfrifoldeb am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio'r holl addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae hyn yn cynnwys AB, chweched dosbarth a gynhelir gan awdurdodau lleol, AB, prentisiaethau, dysgu oedolion yn y gymuned, ac ymchwil ac arloesi.

[18] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 211
[19] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 33 Make UK
[20] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 20-21
[21] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 23

**22.** Ym mis Medi 2024, cyhoeddodd Medr ei Gynllun Strategol Drafft ar gyfer ymgynghoriad. Cwblhawyd y cynllun ym mis Mawrth 2025, ac mae'n cynnwys nod sefydlu a 5 nod strategol:

- Nod sefydlu: Sefydlu Medr fel sefydliad hynod effeithiol rheoleiddiwr yr ymddiriedir ynddo.
- Nod strategol 1: Sicrhau bod y sector addysg drydyddol yn canolbwyntio ar anghenion y dysgwr.
- Nod strategol 2: Creu system addysg drydyddol hyblyg a chydgysylltiedig lle gall pawb gaffael y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt ar gyfer economi a chymdeithas sy'n newid.
- Nod strategol 3: Sicrhau bod dysgwyr yn cael darpariaeth o'r ansawdd gorau mewn system addysg drydyddol sy'n ymegnïo i wella'n barhaus.
- Nod strategol 4: Tyfu ymchwil o fri rhyngwladol a rhoi ysbrydoliaeth i arloesi drwyddi draw yn y sector addysg drydyddol.
- Nod strategol 5: Hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, gan gynyddu'r galw am, a chyfranogiad mewn, dysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.[22]

**23.** Cyfeiriwyd at Medr droeon yn yr holl dystiolaeth a gawsom mewn cyfres o gyd-destunau gwahanol a chan nifer o sefydliadau gwahanol. Rydym yn ystyried y pwyntiau mwy penodol am rôl Medr yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

**24.** Ar lefel fwy strategol, mae'n amlwg bod gan sefydliadau ddisgwyliadau uchel o Medr i lunio system addysg ôl-16 fwy cyfartal a chydlynol yng Nghymru. Cyfeiriodd sefydliadau at y potensial i Medr ddatrys problemau sylfaenol fel mynd i'r afael ag anghydraddoldeb[23], cyfraddau cyfranogi mewn AU[24], a dyfodol chweched dosbarth bach[25]. Ar y llaw arall, mae adroddiad Dr Hefin David AS o gyhoeddwyd yn 2023, sef 'Pontio i Fyd Gwaith', yn argymell y dylai Medr weithio gyda darparwyr academaidd a galwedigaethol i "atal y sector rhag darnio".[26]

[22] Medr, 'Cynllun Strategol 2025-30'
[23] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 17 Gyrfa Cymru
[24] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 15 Y Brifysgol Agored yng Nghymru
[25] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 34 Colegau Cymru
[26] Dr Hefin David AS, 'Pontio i Fyd Gwaith', Mehefin 2023, tudalen 9

**25.** Nid yw Medr ei hun wedi osgoi wynebu'r heriau hyn. Yn ei dystiolaeth, roedd yn cydnabod ei gyfrifoldebau mewn perthynas ag ystod eang o heriau sy'n wynebu'r sector ôl-16:

> *"Un o egwyddorion canolog cynllun strategol Medr fydd creu un system gydlynol y bydd dysgwyr, darparwyr a chyflogwyr fel ei gilydd yn gallu ei deall a'i llywio'n haws. Un ffordd y bydd Medr yn gwella'r system honno yw drwy ei gwneud yn fwy cydweithredol, gan gydnabod y rhan y mae chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach yn ei chwarae yn ein tirlun ôl-16, a sicrhau bod dysgwyr yn cael dewis a darpariaeth o ansawdd uchel."*[27]

**26.** Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn uchelgeisiol ynghylch rôl Medr o ran gwella cyfranogiad ôl-16. Tynnodd sylw at y ffaith mai un o ddyletswyddau strategol Medr o dan Ddeddf 2022 yw "annog mwy o gyfranogiad teg mewn addysg drydyddol"[28] Yn 2024, o dan adran 13 o Ddeddf 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei 'Datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi'. Mae'r datganiad yn nodi'r "rôl allweddol a fydd gan Medr o ran sicrhau llwybrau clir trwy addysg ôl-16"[29], ac mae'n cynnwys yr ymrwymiadau canlynol:

- "Datblygu system drydyddol sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer economi ddeinamig a chyfnewidiol lle gall pob un gaffael y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt er mwyn llwyddo mewn bywyd a gwaith…
- Cynnal a gwella ansawdd y system drydyddol, parhau a dwysáu gwaith ar ehangu cyfranogiad a chymryd camau i sicrhau system fwy teg a rhagorol i bawb …
- Rhoi'r dysgwr wrth wraidd y system drwy ganolbwyntio ar brofiad dysgwyr yn y system drydyddol a'u llesiant".[30]

**27.** Cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at Medr mewn perthynas â nifer o feysydd gwaith sy'n dod o fewn cwmpas yr ymchwiliad hwn, gan gynnwys canllawiau ar gwricwla lleol, anghydraddoldebau o ran cyfranogiad mewn addysg ôl-16,

[27] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 41 Medr
[28] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 47 Llywodraeth Cymru
[29] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 47 Llywodraeth Cymru
[30] Llywodraeth Cymru, 'Datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi', 28 Chwefror 2024

Anghenion Dysgu Ychwanegol ("ADY"), y Gymraeg, cymorth iechyd meddwl, a sgiliau galwedigaethol. Fel arwydd o bwysigrwydd Medr i'r sector trydyddol yng Nghymru, cyfeiriwyd at "Medr" dros 40 o weithiau yn y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd inni gan Lywodraeth Cymru [31] a thua 30 o weithiau yn ystod y sesiwn graffu lafar[32].

## Strategaeth genedlaethol

**28.** Yn 2023, cyhoeddodd y Grŵp Llywio ar gyfer yr Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru, dan gadeiryddiaeth Sharron Lusher MBE, ei adroddiad 'Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru' ("adolygiad Lusher"). Roedd y grŵp llywio yn cynnwys gweithwyr proffesiynol a chanddynt arbenigedd mewn addysg a hyfforddiant galwedigaethol o gyrff cyhoeddus, sefydliadau proffesiynol ac undebau llafur. Mae'r adroddiad yn dadlau'n gryf o blaid llunio strategaeth ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol fel rhan o strategaeth ehangach ar gyfer dysgu ôl-16:

> *"Nid oes gan Gymru strategaeth ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol – yn wir nid oes ganddi strategaeth gyffredinol ar gyfer dysgu ôl-16. Mae angen strategaeth arnom sy'n cyfuno'r gwahanol elfennau sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant galwedigaethol a darparu cymwysterau, mewn un cynllun cydlynol."*[33]

**29.** Argymhellodd y grŵp llywio:

> *"Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol, a fyddai yn ei thro yn llywio'r cyfeiriad strategol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Dylai'r strategaeth hon fod yn rhan o strategaeth ehangach ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-orfodol."*

[31] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 47 Llywodraeth Cymru
[32] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 20-21
[33] Grŵp Llywio ar gyfer yr Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru, 'Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru', Gorffennaf 2023, tudalen 7

Dadleuodd y dylai strategaeth o'r fath gynnwys gweledigaeth ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol ôl-16, disgwyliadau gan ddarparwyr dysgu, a mapiau llwybrau dilyniant drwy gymwysterau galwedigaethol.[34]

**30.** Cawsom dystiolaeth gyson i gefnogi strategaeth genedlaethol. Ond roedd hollt clir rhwng y rhai a oedd yn dadlau o blaid strategaeth gyffredinol, gyfannol ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 ar y naill law, ac eraill a oedd yn dadlau dros strategaeth a fyddai'n canolbwyntio'n benodol ar addysg a hyfforddiant galwedigaethol.

**31.** Dadleuodd Estyn nad oes strategaeth genedlaethol glir ar gyfer addysg a hyfforddiant 16-19, sy'n arwain at ddisgwyliadau aneglur ar gyfer ysgolion ac anghysondeb rhwng, ac o fewn, ardaloedd a darparwyr. Beirniadodd y "diffyg cyfeiriad cydlynus gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dysgwyr 16-19 oed."[35] Yn yr un modd, fe wnaeth Prifysgolion Cymru bwyso ar Lywodraeth Cymru i edrych yn ehangach ar yr hyn y mae am i'r system addysg drydyddol ei gyflawni:

> *"I think there's a wider question for me here about actually what we're trying to achieve from the system overall … So, one of the things that, of course, we're seeing, is a significant under participation of learners in higher education when you compare that to England. And I think that isn't just an issue that is about education—that's actually a strategic economic issue. If we ask ourselves the question, 'What sort of economy do we want to build, and therefore what sorts of qualifications do we require in order to build it?' …."*[36]

Cytunodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru fod angen cynllun sgiliau cyffredinol ar Gymru fel y gall y sector ôl-16 fodloni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.[37]

**32.** Fodd bynnag, dadleuodd Colegau Cymru o blaid strategaeth addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn benodol:

> *"I think focusing on vocational makes more sense. I think that's the bit of the system where it's weakest in terms of the*

[34] Grŵp Llywio ar gyfer yr Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru, 'Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru', Gorffennaf 2023, tudalen 47
[35] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 24 Estyn; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 193-4
[36] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 301
[37] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 423

> *understanding of parents and stakeholders. So, I think that's where we probably do need to focus. I understand the point around wouldn't it make sense to have a broader [strategy], but, actually, we think this is the area where you could make greatest progress and fill some more gaps quickest."*[38]

Roeddent hefyd yn dadlau dros Lwybr Dysgu a Phontio 14-19 newydd i fynd i'r afael â gwendidau yn y cyfnod pontio o addysg a hyfforddiant gorfodol i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.[39]

**33.** Nid yw tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn cyfeirio o gwbl at strategaeth alwedigaethol genedlaethol ôl-16, nac unrhyw strategaeth arall ôl-16. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch wrthym fod gweithredu ar argymhellion adolygiad Lusher yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol. Eglurodd fod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Medr ac eraill i ymchwilio i'r potensial ar gyfer strategaeth addysg a hyfforddiant galwedigaethol, ac ychwanegodd fod strategaeth integredig, gynhwysfawr yn sicr yn uchelgais hirdymor.[40] Mae gohebiaeth ddilynol gan Lywodraeth Cymru atom ni a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn awgrymu y gallai strategaeth addysg a hyfforddiant galwedigaethol ddrafft gael ei chyhoeddi yn ystod hanner cyntaf 2026 (er bod Llywodraeth Cymru yn ychwanegu y gallai trafodaethau gyda rhanddeiliaid effeithio ar yr amserlen hon). Nid yw'n cyfeirio ymhellach at strategaeth ôl-16 gyfannol sy'n cyfuno addysg a hyfforddiant galwedigaethol ac academaidd.[41]

## Parch cydradd

**34.** Yn ystod ein gwaith craffu ar Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn 2021/22, pwysleisiodd rhanddeiliaid ar draws y sector ôl-16 y potensial i'r Comisiwn Addysg Drydyddol (Medr bellach) gynyddu parch cydradd rhwng llwybrau galwedigaethol ac academaidd.[42]

**35.** Yn ystod yr ymchwiliad hwn hefyd, pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd addysg a hyfforddiant galwedigaethol, a gochelu rhag tybio bod cymwysterau

---

[38] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 219
[39] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 34 Colegau Cymru
[40] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 199-209
[41] Llythyr gan Lywodraeth Cymru at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2025; Llythyr gan Lywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Mai 2025
[42] Senedd Cymru, 'Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor', Mawrth 2022, paragraffau 26-31

academaidd yn fwy gwerthfawr na chymwysterau galwedigaethol cyfatebol. Teimlai llawer fod rhagfarn ddiwylliannol ddofn o blaid cymwysterau Safon Uwch ac addysg academaidd yn gyffredinol.[43]

**36.** Teimlai rhai fod diffyg parch cydradd yn arwain at ganlyniadau uniongyrchol i ansawdd ac argaeledd y ddarpariaeth i ddysgwyr.[44] Roedd yr Horticultural Trades Association o blaid sicrhau gwell dealltwriaeth o gymhwyso pynciau academaidd i arddwriaeth amgylcheddol yn benodol.[45]

**37.** Dadleuodd rhanddeiliaid eraill fod diffyg parch cydradd yn golygu nad oedd dysgwyr a oedd yn dilyn llwybrau galwedigaethol cyn 18 oed bob amser yn gallu symud ymlaen i AU. Nododd Gyrfa Cymru, er y gall cymwysterau galwedigaethol arwain at AU, fod y llwybr yn llai llinol ac nad oes dealltwriaeth cystal ohono â llwybrau academaidd.[46] Ar y llaw arall, adroddodd Grŵp Hyfforddi Educ8 ei fod yn gweithio i annog y Gwasanaeth Derbyniadau Prifysgolion a Cholegau ("UCAS") i gydnabod gwerth cymwysterau galwedigaethol i ddarpar fyfyrwyr prifysgol.[47] Pwysleisiodd Undeb y Prifysgolion a'r Colegau:

> *"… any successful tertiary system should enable arrival at the same destination via a variety of different routes. Moreover, some of those routes should be assessed as much based on a candidate's ability to 'learn through doing', as more abstract methods which capture knowledge and power of recall."*[48]

**38.** Dadleuodd Prifysgolion Cymru fod y gwahaniaeth rhwng 'galwedigaethol' ac 'academaidd' yn artiffisial yn ei hanfod:

> *"I think one of the things that I have to say I find frustrating sometimes is the semantics around this, this kind of idea that there are academic pathways and vocational pathways. Give me a non-skilled engineer, or a non-skilled nurse, or a non-*

[43] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 45 Grŵp Colegau NPTC; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 33 Make UK; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 36 Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 133 (Parents' Voices in Wales); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 18 Comisiynydd Plant Cymru; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 93 (Undeb Addysg Cenedlaethol); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 45 Grŵp Colegau NPTC; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe
[44] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 93 (Undeb Addysg Cenedlaethol); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 33 Make UK
[45] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 23 Horticultural Trades Association
[46] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 239
[47] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 130
[48] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 36 Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru

> *skilled lawyer or a non-skilled cyber security expert. I think we have to be really careful about the language, because I think these things are actually important. The issue is qualification level. We're not pushing enough people through to graduation qualification level … And if we don't, then we probably accept that we're in a situation where we're saying to our future generations that they're going to be in a low-skilled economy, and I'm not sure that's where I would want to be."*[49]

Roedd gan rai o fynychwyr ein digwyddiad i randdeiliaid farn debyg.[50]

**39.** Pwysleisiodd Llywodraeth Cymru droeon bwysigrwydd sicrhau parch cydradd rhwng cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau academaidd ôl-16. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg drafodaethau ynghylch dewis dysgwyr, canllawiau statudol ynghylch Hawl i Ddysgu 14-16 a'r Tystysgrifau Addysg Gyffredinol Galwedigaethol ("TAAU") newydd yng nghyd-destun hyrwyddo gwerth llwybrau galwedigaethol.[51] Dywedodd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch wrthym ei bod yn hanfodol ymgorffori parch cydradd yn niwylliant yr ysgol drwy herio rhagdybiaethau am lwybrau dysgwyr. Defnyddiodd yr enghraifft ddiweddar o sylw cyhoeddus a oedd yn awgrymu nad oedd prentisiaethau gradd yn "raddau go iawn" i ddangos y rhagfarn ddiwylliannol y mae'n credu sy'n dal i fodoli.[52]

## Ein barn ni

### Sicrhau parch cydradd: strategaeth genedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16

**40.** Fel yr ydym yn ei drafod drwy'r adroddiad cyfan, un o'r themâu mwyaf cyson yn yr ymchwiliad hwn yw bod y labeli traddodiadol o bynciau 'academaidd' a 'galwedigaethol' wedi'u diffinio'n wael ar y gorau, ac ar y gwaethaf gallant danseilio parch cydradd rhwng gwahanol lwybrau ôl-16.

**41.** Rydym wedi clywed rhanddeiliaid yn dadlau y gall rhagfarnau traddodiadol tuag at lwybrau academaidd fel y'u gelwir effeithio ar ansawdd y cyngor y mae plant yn ei gael, a'u gwthio i addysg a hyfforddiant nad yw'n briodol iddynt.

---

[49] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 322
[50] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 4
[51] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 28, 40-41 ac 89-91
[52] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 30 a 206

Gwyddom fod rhai dysgwyr sy'n cael trafferth yn yr ysgol yn cael eu hatal yn annheg rhag dilyn llwybrau academaidd ôl-16 pan fyddent, gyda'r gefnogaeth gywir ac yn yr amgylchedd dysgu cywir, yn gallu ffynnu. Yn yr un modd, rydym wedi clywed am blant sy'n gwneud yn dda yn eu harholiadau TGAU, ac a allai elwa o fynd i'r coleg neu ddysgu seiliedig ar waith, ond sy'n cael eu gwthio i'r chwech dosbarth i astudio cymwysterau Safon Uwch ac yn cael trafferth o ganlyniad i hynny. Rydym hefyd wedi cael ein hatgoffa'n rheolaidd y gall cymwysterau galwedigaethol arwain at lle mewn prifysgol, yn union fel y gall cymwysterau academaidd arwain at brentisiaethau lefel uwch a gradd-brentisiaethau.

**42.** Credwn y dylid llunio strategaeth genedlaethol gynhwysfawr, gyffredinol i ddod â gwahanol elfennau addysg a hyfforddiant ôl-16 ynghyd. Ar yr olwg gyntaf, efallai ei bod yn ymddangos nad oes cysylltiad rhwng yr heriau o fewn pob elfen: sut y mae argaeledd lleoliadau prentisiaeth yn gysylltiedig â chyfraddau cyfranogi mewn AU? Neu beth yw'r cysylltiad rhwng hyfywedd chwech dosbarth bach a gwaith y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol? Ond mae cysylltiad rhyngddynt, fel y trafodir yn fanwl yn yr adroddiad hwn. Os ydym am annog dysgwyr i gyflawni eu potensial drwy gael y lefelau uchaf posibl o addysg a hyfforddiant, rhaid inni eu galluogi i symud rhwng gwahanol sectorau ôl-16 mor ddi-dor â phosibl. Er mwyn gwneud hyn, rhaid inni gysylltu'r sectorau hynny â'i gilydd o fewn un strategaeth genedlaethol.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru lunio strategaeth genedlaethol gadarn, gyffredinol ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 sy'n cynnwys llwybrau i gyflogaeth, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Dylai'r strategaeth gwmpasu llwybrau academaidd a galwedigaethol, gan greu gweledigaeth strategol ar gyfer sector ôl-16 cydlynol a chydweithredol sy'n annog dysgwyr i gael addysg a methrin sgiliau drwy ba bynnag lwybr addysgol sy'n iawn iddyn nhw.

## Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

**43.** Fe wnaeth y dystiolaeth a gawsom am Addewid Caerdydd a rhaglen beilot Llwybrau Gyrfa Ynys Môn argraff arnom. Mae'r mathau hyn o brosiectau – prosiectau sy'n cysylltu cyflogwyr ag ysgolion a sefydliadau addysg ôl-16 i wella a chysoni cyfarwyddyd gyrfaoedd a darparu cyfleoedd profiad gwaith hanfodol – yn dangos gwerth a photensial y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol o ran gwella deilliannau i bobl ifanc a'r economi ehangach.

**44.** Roedd sylwadau Estyn am y ddau brosiect hyn yn drawiadol: nid yw'n gyd-ddigwyddiad bod y cynlluniau wedi'u sefydlu yn yr ardaloedd â'r Partneriaethau

Sgiliau Rhanbarthol cryfaf. Mae'r prosiectau'n cael effaith gadarnhaol mewn dwy ran wahanol iawn o Gymru, sydd â heriau a chyfleoedd lleol gwahanol iawn. Nid welwn unrhyw reswm pam na allai awdurdodau lleol eraill sefydlu fersiynau o'r cynlluniau hyn – wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion lleol – mewn partneriaeth â'u priod Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

**Argymhelliad 2.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei hasesiad ynghylch a fyddai'n fuddiol ehangu'r arferion da a welir gydag Addewid Caerdydd a rhaglen beilot Llwybrau Gyrfa Ynys Môn i rannau eraill o Gymru, ac unrhyw rwystrau a fyddai'n atal hynny ar lefel awdurdod lleol neu ranbarthol.

# 3. Addysg cyn-16

Mae'r camau hanfodol cyntaf y mae dysgwyr yn eu cymryd tuag at addysg a hyfforddiant ôl-16 yn digwydd ymhell cyn Blwyddyn 11. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn nodi rôl allweddol i ysgolion o ran darparu addysg gyrfaoedd i blant mor gynnar â 3 oed. I rai disgyblion, gallai darparu cyfleoedd dysgu galwedigaethol cyn-16 roi'r cyfle gorau iddynt symud ymlaen i addysg a sgiliau ar lefel uwch.

## Cyngor gyrfaoedd cynnar: y Cwricwlwm i Gymru cyn-16

**45.** Mae addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith (addysg a phrofiadau byd gwaith) yn thema drawsbynciol yn y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer dysgwyr o 3 i 16 oed. Noda canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion:

> *"Dylai cwricwlwm ysgol alluogi dysgwyr i gael profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith a gyrfaoedd, gan feithrin gwybodaeth am ehangder y cyfleoedd a fydd ar gael iddyn nhw gydol eu hoes. Gall y dysgu hwn eu helpu i wneud penderfyniadau deallus am eu llwybrau gyrfa."*

Mae'r canllawiau'n nodi'n glir y dylid ymgorffori addysg a phrofiadau byd gwaith ledled cwricwla ysgolion a'i addysgu i blant o 3 oed ymlaen ar draws y cwricwlwm, nid ei addysgu fel pwnc annibynnol.[53]

**46.** Clywsom gefnogaeth eang i ymgorffori addysg a phrofiadau byd gwaith yn y cwricwlwm a dechrau rhoi cyngor gyrfaoedd cyn Cyfnod Allweddol 4[54], gan

[53] Llywodraeth Cymru, 'Themâu trawsgwricwlaidd ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm'
[54] Yn dilyn cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, mae 'cyfnodau allweddol' yn cael eu disodli gan un continwwm dysgu. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at 'gyfnodau allweddol' er mwyn hwyluso dealltwriaeth.

gynnwys gan ddysgwyr.[55] Dadleuodd rhai rhanddeiliaid yn benodol y dylai cyngor gyrfaoedd ddechrau mewn ysgolion cynradd, fel sy'n ofynnol gan y Cwricwlwm i Gymru.[56] Croesawodd Gyrfa Cymru yr hyn a alwodd yn "cyflwyno 'amser cwricwlwm penodedig' i ddysgwyr archwilio opsiynau ôl-16."[57] Eglurodd fod addysg a phrofiadau byd gwaith fel thema i blant 3 i 16 oed yn "gam sylweddol ymlaen", gan bwysleisio bod pobl ifanc yn gwneud penderfyniadau gyrfa ystrydebol sy'n cyfyngu arnynt erbyn iddyn nhw adael yr ysgol gynradd.[58] Yn yr un modd, tynnodd Grŵp Hyfforddi Educ8 sylw at bwysigrwydd dechrau rhoi cyngor gyrfaoedd mewn ysgolion cynradd i oresgyn anghydraddoldebau rhwng y rhywiau:

> *"But, actually, if we don't get these young children, even at primary—. You look at trying to get more women and young girls into science, technology, engineering and mathematics areas; if you haven't got them before they've left primary school, good luck with that. I think there's been data and some work done on—. By the end of year 7, a young person—a child at that point—pretty much knows where their pathway is going to be for the next six to eight years. That's frightening."*[59]

Tynnodd eraill sylw at fanteision rhoi cyngor gyrfaoedd cynnar i rai grwpiau o ddysgwyr, fel y rhai ag ADY.[60]


**47.** Er gwaethaf y gefnogaeth hon i ddarparu cyngor gyrfaoedd cynnar, clywsom hefyd y gallai ysgolion gael anhawster i ddod o hyd i'r amser yn amserlenni ysgolion i wneud hynny.[61] Esboniodd Gyrfa Cymru ei fod yn gallu cynorthwyo ysgolion i gyflawni eu rhwymedigaethau o ran addysg a phrofiadau byd gwaith. Nododd bod ganddo dîm o "arbenigwyr ar y cwricwlwm" sy'n darparu cymorth i

---

[55] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 23 a 29 (NASUWT); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 45 Grŵp Colegau NPTC; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 34 Colegau Cymru; Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu', Mawrth 2025, paragraffau 22-24
[56] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 3
[57] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 17 Gyrfa Cymru
[58] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 207-8
[59] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 142
[60] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 16 Cymdeithas Syndrom Down
[61] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 22 (UCAC); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 07 Grŵp Hyfforddi Educ8; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 45 Grŵp Colegau NPTC

ysgolion i'w helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau cwricwlwm o ran addysg a phrofiadau byd gwaith:

> *"Rydym mewn sefyllfa unigryw i gynorthwyo ysgolion ledled Cymru i weithredu Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith, a chyfeirir at gyfraniad y tîm, a'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig, mewn nifer o ddogfennau polisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru a'r canllawiau dysgu 14 i 16. Mae trafodaethau hefyd wedi cael eu cynnal i nodi rôl bresennol y tîm, a'i rôl yn y dyfodol o bosibl, yn rhan o'r dull sy'n datblygu o ran gwella ysgolion yng Nghymru."*[62]




***Ffigur 1. Yr oedran y trafodwyd opsiynau ar ôl Blwyddyn 11 gyda dysgwyr am y tro cyntaf. Canfyddiadau arolwg pobl ifanc Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd. Daeth cyfanswm o 311 o ymatebion ysgrifenedig i law. Ffynhonnell: Senedd Cymru, '***Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu***', Mawrth 2025, tudalen 12***

**48.** Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wrthym fod y daith tuag at addysg ôl-16 yn dechrau o'r cychwyn cyntaf, yn y blynyddoedd cynnar.

[62] Llythyr gan Gyrfa Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2025

Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru wedi datblygu pecyn cymorth addysg gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith mewn partneriaeth â'r Sefydliad Datblygu Gyrfaoedd a Gyrfa Cymru, sy'n cefnogi cydlynwyr cwricwlwm i weithio i gefnogi ysgolion i ymgorffori addysg a phrofiadau byd gwaith yn eu cwricwla.[63] Yn ddiweddarach, cyfeiriodd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch at enghreifftiau o arfer gorau ym Mhrifysgolion Wrecsam a Chaerdydd, sy'n ymgysylltu â phobl ifanc mewn ysgolion cynradd.[64]

## Cymwysterau

**49.** Mewn ymateb i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, mae Cymwysterau Cymru wedi diwygio'r cynnig cymwysterau cenedlaethol ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed. Mae addysgu o dan y 'Cymwysterau Cenedlaethol' newydd bellach wedi dechrau, o fis Medi 2025, a bydd yr ystod lawn o gymwysterau'n cael eu cyflwyno o hynny tan fis Medi 2027.[65] Mae'r Cymwysterau Cenedlaethol yn cynnwys:

- Tystysgrifau Cyffredinol Addysg Uwchradd ("TGAU"), sy'n cwmpasu Lefel 1 a Lefel 2, sy'n cael eu haddysgu o fis Medi 2025.
- Tystysgrifau Galwedigaethol Addysg Uwchradd ("TAAU"), sy'n cwmpasu Lefel 1 a Lefel 2. Bydd cymwysterau TAAU yn cael eu haddysgu o fis Medi 2027 ymlaen. Ar ôl cwblhau eu cymwysterau TAAU, gall dysgwyr symud ymlaen i astudiaethau galwedigaethol ôl-16. Gall dysgwyr sy'n astudio cyfuniad o TAAU, TGAU a chymwysterau galwedigaethol eraill hefyd symud ymlaen i astudio cymwysterau Safon Uwch Gyfrannol (UG) a Safon Uwch.
- Cyfres o Gymwysterau Sgiliau, sy'n cwmpasu Lefel Mynediad i Lefel 2, i'w haddysgu o fis Medi 2027. Cyfres o gymwysterau Sgiliau wedi'u cynllunio i weithio i bob dysgwr a gellir eu hastudio ochr yn ochr â chymwysterau TGAU, TAAU a/neu Sylfaen. Gall dysgwyr sy'n astudio'r cymwysterau hyn symud ymlaen i astudiaethau academaidd neu alwedigaethol ôl-16.
- Cymwysterau sylfaen, yn cwmpasu Lefel Mynediad i Lefel 1, i'w haddysgu o fis Medi 2027. Bydd dysgwyr nad ydynt yn barod i astudio cymhwyster

[63] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 4-13
[64] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 113
[65] Senedd Cymru, 'Sut bydd cymwysterau'n newid o dan y Cwricwlwm i Gymru?', 17 Gorffennaf 2024

TAAU yn gallu astudio unrhyw un o'r 15 pwnc TAAU fel cymwysterau Sylfaen.[66]

**50.** Gan adleisio themâu a nodwyd gennym yn ystod ein hymchwiliad parhaus i 'weithredu diwygiadau addysg'[67], mynegodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru, Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru a rhai o'r cynrychiolwyr a fynychodd ein digwyddiad i randdeiliaid bryder y gallai'r cymwysterau fod yn anghyson â bwriadau'r Cwricwlwm i Gymru o ran hyblygrwydd a chanolbwyntio ar y dysgwr.[68] Ar y llaw arall, galwodd Cymwysterau Cymru am eglurder ynghylch ailsefyll arholiadau TGAU er mwyn sicrhau nad yw cyfranogiad dysgwyr ôl-16 yn cael ei effeithio'n amhriodol.[69] Dadleuodd y Sefydliad Ffiseg fod y penderfyniad i gynnig tri llwybr gwahanol yn ymwneud â'r gwyddorau yn peryglu dilyniant i addysg ôl-16 mewn disgyblaeth wyddonol.[70]

**51.** Gwnaeth rhai rhanddeiliaid sylwadau cadarnhaol ynghylch cyflwyno TAAU o fis Medi 2027. Roedd Hyfforddiant Educ8 ac Undeb y Prifysgolion a'r Colegau yn eu croesawu fel cyfle i ysgolion, colegau a darparwyr sy'n cefnogi dilyniant galwedigaethol ôl-16 gydweithio i ehangu'r cynnig i ddysgwyr.[71] Dadleuodd eraill, yn ymarferol, ei bod yn afrealistig i bob ysgol gynnig pob cymhwyster, felly byddai TAAU yn ysgogi cydweithio rhwng sefydliadau ôl-16.[72]

**52.** Fodd bynnag, clywsom hefyd nifer o bryderon ynghylch cymwysterau TAAU gan rai gweithwyr proffesiynol a oedd, yn gyffredinol, yn gynrychiolwyr o'r sector addysg bellach ("AB"), gan gynnwys:

- diffyg capasiti, arbenigedd a chyfleusterau i addysgu cymwysterau TAAU, yn dda mewn ysgolion;
- y gall cymwysterau TAAU effeithio ar y rhaglen prentisiaethau iau, y clywsom ei bod yn effeithiol iawn i rai dysgwyr;

[66] Ac eithrio'r Celfyddydau Perfformio lle y cynigir cymhwyster Sylfaen yn y Celfyddydau Mynegiannol yn lle hynny. Mae cymwysterau Sylfaen ar gael ar Lefel Mynediad a Lefel 1.
[67] Senedd Cymru, 'Gweithredu diwygiadau addysg'
[68] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 06 Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 36 Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru; Senedd Cymru, Llwybrau i addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, tudalen 4
[69] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 20 Cymwysterau Cymru
[70] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 42 Y Sefydliad Ffiseg
[71] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 152; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 07 Grŵp Hyfforddi Educ8; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 36 Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru
[72] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 6

- y gall cymwysterau TAAU greu system ddwy haen os rhoddir llai o werth arnynt na chymwysterau TGAU; ac
- mai 'cyrsiau rhagflas' yw cymwysterau TAAU yn hytrach na llwybr i gyflogaeth (h.y. ni fyddant yn gwneud rhywun yn gymwys mewn galwedigaeth).[73]

**53.** Nododd Llywodraeth Cymru fod cynnydd yng nghyfran y dysgwyr sy'n gadael blwyddyn 11 i astudio cymwysterau Lefel 3 wedi gostwng ers 2021/21, a bod darpariaeth drydyddol Lefel 2 wedi cynyddu yn yr un cyfnod. Fodd bynnag, pwysleisiodd Llywodraeth Cymru hefyd fod Lefel 2 yn "elfen ragflaenol o ran cynyddu nifer y bobl ifanc 16-24 oed â chymhwyster lefel 3". Dywed mai nod y cymwysterau TGAU a TAAU newydd 'a wnaed i Gymru' yw hwyluso hwyluso dysgwyr i gamu ymlaen at addysg a hyfforddiant ôl-16.[74]

**54.** Fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gysylltu cyflwyno'r cymwysterau TAAU newydd â sefydlu parch cydradd rhwng cymwysterau academaidd a galwedigaethol. Dywedodd wrthym fod y cymwysterau TAAU wedi'u cynllunio mewn ffordd sy'n rhesymol i ysgolion a lleoliadau cyn-16 eraill eu darparu, ac fe'n hatgoffodd fod cymwysterau galwedigaethol Lefelau 1 a 2 eisoes yn cael eu darparu mewn llawer o ysgolion. Cydnabu fod rhai tensiynau yn y system, a phryderon ymhlith colegau ac ysgolion. Dywedodd wrthym y bydd cymwysterau TAAU yn cynnwys mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion a cholegau, a chyrff dyfarnu yn ymgynghori â darparwyr addysg. Fodd bynnag, pwysleisiodd mai cyflwyno cymwysterau TAAU oedd y peth iawn i'w wneud er mwyn rhoi cydnabyddiaeth i waith y bobl ifanc hynny sy'n fwy tueddol o ddilyn y llwybr galwedigaethol.[75]

## Prentisiaethau Iau a llwybrau galwedigaethol yn 14-16 oed

**55.** Mae ein tystiolaeth wedi tynnu sylw at y ffaith y gallai rhai dysgwyr, gan gynnwys pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio o'r ysgol, elwa o addysg alwedigaethol cyn iddynt adael addysg orfodol. Yng nghanfyddiadau gwaith ymgysylltu Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd, cofnodwyd cefnogaeth gan rieni a dysgwyr i ddarpariaeth alwedigaethol yng nghyfnod oedran ysgol orfodol. Adroddodd rhai ymatebwyr fod ysgolion yn fwy tueddol o helpu pobl ifanc a

[73] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 7; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 36 Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru
[74] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 47 Llywodraeth Cymru
[75] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 89-91

chanddynt ffocws academaidd ac nad oedd opsiynau ar gael i ddiwallu anghenion amrywiol pobl ifanc bob tro. Dywedodd un rhiant wrthym fod ei blentyn yn casáu'r ysgol, a'i fod yn "teimlo bod yr ysgol ar gyfer plant academaidd yn unig a ddim ar gyfer plant sydd methu eistedd yn llonydd neu'n dawel am 6 awr y dydd."[76]

**56.** Mae gwahanol fathau o ddarpariaeth alwedigaethol i ddysgwyr 14-16 oed ledled Cymru lle mae ysgolion yn cydweithio â cholegau lleol, yn aml gyda chefnogaeth cyllid gan awdurdodau lleol a/neu Lywodraeth Cymru.

**57.** Tynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ("CLlLC") a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru ("CCAC") sylw at un rhaglen o'r fath a oedd yn cael ei chynnal yng Ngwynedd ac Ynys Môn.[77] Yn yr un modd, nododd ColegauCymru fod 900 o ddysgwyr o ysgolion ledled Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn treulio rhwng dwy a phedair awr yr wythnos mewn sesiynau dysgu galwedigaethol. Mae ysgolion sy'n cymryd rhan yn trefnu bws i gludo'r disgyblion i'r colegau, neu mae staff y coleg yn cyflwyno'r cymhwyster galwedigaethol yn yr ysgolion.[78]

**58.** Rhaglen ddysgu alwedigaethol, amser llawn i bobl ifanc ym mlynyddoedd 10 ac 11 yw Prentisiaethau Iau. Bydd dysgwyr sy'n cymryd rhan ynddi yn mynychu'r coleg ar sail amser llawn. Mae'r rhaglenni'n cynnig addysg sy'n gysylltiedig â gwaith gyda phrofiad gwaith wedi'i gynnwys, ochr yn ochr â chwrs Lefel 2 sy'n cyfateb i bedwar neu bum cymhwyster TGAU. Mae pob dysgwr hefyd yn astudio cymwysterau TGAU mewn mathemateg a Saesneg.[79] Caiff y rhaglenni eu rhedeg – a'u hariannu – mewn partneriaeth rhwng ysgolion, colegau, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

**59.** Mae Prentisiaethau Iau wedi'u targedu at ddysgwyr sydd mewn perygl o ddod yn NEET, ond sy'n dangos diddordeb mewn addysg a hyfforddiant galwedigaethol. Yn aml, ystyrir y rhaglen Prentisiaeth Iau fel llwybr amgen i opsiynau Addysg Heblaw yn yr Ysgol eraill, fel unedau cyfeirio disgyblion.[80] Ym mis

[76] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu', Mawrth 2025, paragraffau 14-15
[77] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 14 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)
[78] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 34 Colegau Cymru
[79] Llythyr gan ColegauCymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2025; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 47 Llywodraeth Cymru
[80] Llythyr gan ColegauCymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2025

Mai 2024, roedd tua 150 o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn rhaglen Prentisiaeth Iau ar draws pum coleg yng Nghymru.[81]

**60.** Daeth adolygiad thematig Estyn o Brentisiaethau Iau yn 2024 i'r casgliad fod y rhaglenni wedi bod yn "yn effeithiol yn ymestyn cyfleoedd galwedigaethol cyn 16 i ddysgwyr sy'n ei chael yn anodd ymgysylltu â'r cwricwlwm ysgol brif ffrwd". Nododd fod yr adborth gan ddysgwyr ar eu profiad o Brentisiaeth Iau yn "eithriadol o gadarnhaol". Mae'r adroddiad hefyd yn canmol cyfradd llwyddiant cymwysterau dysgwyr a chyfraddau dilyniant uniongyrchol i addysg a hyfforddiant ôl-16, y mae'n ei alw'n "gyflawniad sylweddol ac yn [un sy'n] adlewyrchu effaith fawr cymryd rhan yn y rhaglenni hyn a newid nodedig yn agweddau'r dysgwyr hyn at ddysgu, a'u hamgyffrediad o ddysgu".[82]

**61.** Fodd bynnag, pwysleisiodd Estyn hefyd fod effaith gyffredinol y rhaglen yn gyfyngedig oherwydd dim ond mewn pump o blith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru y mae ar gael. Cododd bryderon ynghylch diffyg mynediad agored i'r rhaglen; anghysondebau mewn gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd; a threfniadau sicrhau ansawdd sydd heb eu datblygu'n ddigonol.[83]

**62.** Clywsom yn rheolaidd, gan amrywiaeth o randdeiliaid, fod y rhaglen Prentisiaethau Iau yn ffordd effeithiol o ailennyn diddordeb rhai pobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET mewn dysgu, a chyflwyno cyfleoedd iddynt symud ymlaen i addysg a hyfforddiant ôl-16.[84] Nododd Colegau Cymru ystadegau am ddeilliannau i ddysgwyr ar rai rhaglenni Prentisiaethau Iau:

> *"Bridgend College has seen 86% of their learners on a JA [Junior Apprenticeship] programme progress into another full-time course during the academic year 2022/2023.6 The JA program at Cardiff and Vale College has seen high success rates, with an average of 86-88% of learners achieving vocational qualifications and GCSEs. The majority of these*

[81] Estyn, 'Adolygiad o'r rhaglen prentisiaethau iau yng Nghymru', Mai 2024, tudalennau 1-2
[82] Estyn, 'Adolygiad o'r rhaglen prentisiaethau iau yng Nghymru', Mai 2024, tudalennau 24-26
[83] Estyn, 'Adolygiad o'r rhaglen prentisiaethau iau yng Nghymru', Mai 2024, tudalennau 24, 16-17, a 22-23
[84] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 222-224 (Estyn); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 147 (Medr); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 147 (Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru); Senedd Cymru, 'Llwybrau i addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraffau 8-13

> *learners have progressed to further education or employment opportunities."*

Fe wnaethant bwysleisio pwysigrwydd cydweithio a phontio rhwng ysgolion, colegau, rhieni a'r dysgwyr eu hunain. Roeddent hefyd yn dadlau y dylai rhiant-ysgol y dysgwr fod yn rhwyd ddiogelwch drwy gydol y cyfnod y mae'r dysgwr yn cymryd rhan yn y rhaglen y Prentisiaethau Iau.[85]

**63.** Esboniodd ColegauCymru fod cost rhaglen Prentisiaethau Iau Coleg Caerdydd a'r Fro rhwng £10,500 a £12,500 fesul dysgwr y flwyddyn (gan gynnwys yr holl ddarpariaeth, cludiant a phrydau ysgol am ddim). Daw'r cyllid hwn gan yr awdurdod lleol a darperir cyllid ychwanegol gan Medr. Mae Prentisiaid Iau yn parhau i fod wedi eu cofrestru yn eu hysgol letyol drwy gydol y rhaglen. Felly, mae'r costau hyn yn ychwanegol at y cyllid fesul disgybl y mae rhiant-ysgol y dysgwr yn ei gael gan yr awdurdod lleol.

**64.** Er gwaethaf y 'cyllido dwbl' hwn, dadleuodd ColegauCymru fod cyfanswm cost y rhaglen rhwng £4,633 a £6,333 yn llai fesul dysgwr y flwyddyn o'i gymharu â darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol debyg. Mae hefyd yn tynnu sylw at astudiaeth gan Dr Steve Garner sy'n awgrymu y bydd rhaglen Prentisiaethau Iau Coleg Caerdydd a'r Fro yn arbed £570,000 i'r economi fesul person mewn gwariant ataliol dros fywyd gwaith 40 mlynedd a 60 mlynedd oedolyn, yn ogystal â darparu manteision eraill i'r cyfranogwyr.[86]

**65.** Serch hynny, clywsom gan randdeiliaid allweddol mai cyllid oedd y prif rwystr i gyflwyno'r rhaglen yn genedlaethol.[87] Esboniodd Estyn yr heriau sy'n wynebu cyrff cyhoeddus sy'n ymwneud â darparu'r rhaglen Prentisiaethau Iau:

> *"So, we didn't just visit those that were currently providing the programme, but we talked to those who aren't about why. Inevitably, funding comes out as part of the issue, because the grant that supports junior apprenticeships doesn't really cover the full cost to all the providers involved, whether you're talking from the school perspective or from the college or the local authority perhaps, as a co-ordinating body. So, there were additional moneys needed to be found from somewhere to help make it happen, whether that was individual schools or*

[85] Llythyr gan ColegauCymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2025
[86] Llythyr gan ColegauCymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2025
[87] Llythyr gan Colegau Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2025; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 77 (CLILC)

*the college or the local authority, businesses, or a combination of all of those. So, there's a cost implication there."*[88]

**66.** Roedd pryderon eraill am y rhaglen Prentisiaethau Iau yn canolbwyntio ar y cymwysterau y mae cyfranogwyr yn eu hennill. Dywedodd rhai rhanddeiliaid wrthym nad yw Prentisiaethau Iau yn gerrig camu gwarantedig i gymwysterau ôl-16 lefel uwch.[89] Dywedodd Prifysgolion Cymru wrthym:

*"So, the issue is where does that journey take people: can you progress from a junior apprenticeship; can you move your skill level up; can you move into those higher level skills; and are we building those ladders? … how do we build those ladders so that people can potentially progress from vocational pathways into higher skilled work."*[90]

**67.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wrthym ei bod yn hoff iawn o'r rhaglen Prentisiaethau Iau, a phwysleisiodd ei bod yn awyddus iawn i sicrhau bod prentisiaethau iau ar gael ledled Cymru. Dywedodd wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r cyllid ar gyfer y rhaglen 50% (i £600,000 ar gyfer 2025/26), ac yn gweithio gyda Medr i gyflwyno'r rhaglen Prentisiaethau Iau yn raddol ym mhob rhan o Gymru. Rhybuddiodd ei bod yn bwysig ystyried darpariaeth cyfrwng Cymraeg a sicrhau trefniadau cydweithio ar draws sefydliadau wrth i'r rhaglen gael ei hehangu. Pwysleisiodd hefyd fod Prentisiaethau Iau yn rhan o ddarpariaeth ehangach nad yw'n ddarpariaeth ysgol, sy'n cynnwys addysg heblaw yn yr ysgol ac unedau cyfeirio disgyblion.[91]

**68.** Nododd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch hefyd fod llawer o golegau'n cynnig rhaglenni galwedigaethol i bobl ifanc 14–16 oed, hyd yn oed os nad ydynt wedi'u labelu'n ffurfiol fel Prentisiaethau Iau. Cyfeiriodd at enghreifftiau o Goleg Cambria, Grŵp Llandrillo Menai, a Choleg y Cymoedd.[92]

---

[88] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 225
[89] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 10
[90] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 335
[91] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 72-73
[92] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 74-84

## Ein barn ni

### Addysg alwedigaethol a chymwysterau rhwng 14-16

**69.** Mae cyfran sylweddol o'n gwaith craffu drwy gydol yr ymchwiliad hwn wedi canolbwyntio ar brofiadau addysgol dysgwyr nad ydynt yn dilyn llwybr academaidd traddodiadol. Rydym yn falch o weld *bod* llwybrau amgen ar gael i rai pobl ifanc nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu gan addysg brif ffrwd, ac a all eu helpu i symud ymlaen i addysg a hyfforddiant ôl-16. Gwyddom o'n hymchwiliad diweddar yn dwyn y teitl 'Plant sydd ar yr ymylon' y gall ymddieithrio o'r ysgol roi plant mewn perygl o gamfanteisio.[93] Credwn y dylid gwneud popeth posibl i osgoi rhoi pobl ifanc yn y sefyllfa honno. Un ffordd o wneud hynny yw drwy greu opsiynau galwedigaethol credadwy a gwerthfawr i bobl ifanc 14-16 oed sy'n cael anhawster i gyflawni eu potensial mewn lleoliad ysgol academaidd traddodiadol.

**70.** Gwnaeth y rhaglen Prentisiaethau Iau gryn argraff arnom. Yn ogystal â chael ein synnu gan ddeilliannau'r rhaglen o ran presenoldeb, pontio i ddysgu ôl-16, ac yn y blaen (sy'n galonogol iawn), cawsom hefyd ein synnu gan y ffordd yr oedd dysgwyr ar y rhaglen yn ymgysylltu â'u haddysg. Roedd y bobl ifanc y gwnaethom siaradon â nhw a oedd yn dilyn rhaglen Prentisiaeth Iau yn ymddangos yn hapus eu byd, yn ymgysylltiedig, ac yn gyffrous am eu dyfodol. Awgryma adolygiad thematig Estyn fod canfyddiadau ein gwaith ymgysylltu yn gynrychioliadol o brentisiaid iau ar raglenni eraill ledled y wlad.

**71.** Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud i fireinio, egluro a safoni'r Prentisiaethau Iau sydd ar gael. Nid yw'n dderbyniol nad yw Prentisiaethau Iau ar gael i ddysgwyr a allai elwa ohonynt ledled Cymru gyfan. Rydym hefyd yn ochelgar o bryderon Estyn ynghylch diffyg meini prawf clir a chyson ar gyfer atgyfeirio dysgwyr a allai elwa o Brentisiaeth Iau, gwybodaeth anghyson a ddarperir i rieni am y rhaglen, a diffyg mesurau sicrhau ansawdd.

**72.** Rhaid inni gofio hefyd y gallai llawer o ddysgwyr ar raglenni Prentisiaethau Iau fod yn bobl ifanc agored i niwed, sy'n cael eu rhoi mewn amgylchedd dysgu mwy annibynnol gyda phobl ifanc hŷn ac oedolion ifanc. Nid oes gennym unrhyw reswm i gredu bod y trefniadau diogelu ar raglenni Prentisiaethau Iau yn ddim byd ond cadarn. Ond os bwriedir ehangu'r rhaglen, bydd yn gwbl hanfodol sicrhau bod dysgwyr yn cael eu diogelu'n briodol.

[93] Senedd Cymru, 'Plant sydd ar yr ymylon', Rhagfyr 2024, paragraffau 223-239 a 282-287

**73.** Ar sail y dystiolaeth, credwn fod Prentisiaethau Iau yn ddull cyffrous ac addawol o ddarparu addysg orfodol i nifer cyfyngedig o ddisgyblion sy'n ymddieithrio o addysg.

**74.** Nid ydym yn cefnogi ymestyn rhaglenni Prentisiaethau Iau yn gyffredinol i ddysgwyr nad ydynt mewn perygl o ymddieithrio o addysg ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i safoni addysg alwedigaethol ehangach i bob dysgwr cyn iddynt adael blwyddyn 11. Mae gwahanol ffyrdd o wneud hynny.

**75.** Mae rhai colegau'n cynnig profiadau galwedigaethol i ddisgyblion ysgol yn rhan-amser, y tu allan i'r cynllun Prentisiaethau Iau swyddogol. Ni chawsom ddigon o wybodaeth am y cynlluniau penodol hynny i ddod i gasgliad amdanynt.

**76.** Yn 2027, mae'n amlwg y bydd y cymwysterau TAAU newydd yn dod yn rhan allweddol o sut y mae addysg alwedigaethol yn cael ei darparu mewn ysgolion. Yn gyhoeddus, roedd yn ymddangos bod y rhanddeiliaid yn croesawu'r cymwysterau newydd fel ffordd o ddarparu opsiynau mwy amrywiol i ddysgwyr cyn-16 oed, a gwella parch cydradd rhwng llwybrau academaidd a galwedigaethol. Mewn sefyllfaoedd preifat, anffurfiol, roedd y rhanddeiliaid yn amlwg yn fwy pryderus. Fe wnaethant nodi'r pryder ymhlith rhai ynghylch capasiti gweithlu'r ysgol a'r adnoddau ffisegol sydd ar gael i staff addysgu i ddarparu profiadau addysgol galwedigaethol go iawn. Fel llawer o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw, rydym yn obeithiol ynghylch y cymwysterau TAAU, ond nid ydym yn gwbl hyderus y byddant yn gallu darparu dewis amgen galwedigaethol ystyrlon sydd ar gael yn eang yn lle TGAU.

**77.** Mae posibilrwydd cryf y bydd modd cynnig arlwy gwell ac ehangach i ddysgwyr 14-16 oed o oedran ysgol gorfodol ledled Cymru sy'n eu cefnogi i symud ymlaen i AU a sgiliau ôl-16. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig hwnnw'n ddigon clir a thryloyw. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i adeiladu ar y rhaglen Prentisiaethau Iau addawol, ac i nodi'n gliriach sut y mae'r rhaglen honno'n cyd-fynd â rhaglenni eraill, gan gynnwys y cymwysterau TAAU newydd, wrth ddarparu cynnig galwedigaethol cyn-16 cydlynol a chyson.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ehangu'r cynllun Prentisiaethau Iau i sicrhau ei fod ar gael i ddysgwyr ledled Cymru sydd mewn perygl o ymddieithrio o'u haddysg. Wrth wneud hynny, dylai fynd i'r afael â phryderon Estyn ynghylch Prentisiaethau Iau, gan gynnwys y pryderon ynghylch anghysondebau yn y meini prawf atgyfeirio, yn y wybodaeth a ddarperir i rieni ac mewn prosesau sicrhau

ansawdd; a sicrhau bod mesurau diogelu cadarn wedi'u hymgorffori yn y rhaglen i amddiffyn dysgwyr 14-16 oed wrth iddynt gael addysg mewn lleoliad ôl-16.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei dull o ymdrin ag addysg alwedigaethol cyn-16 ledled Cymru. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir sut y mae darpariaeth fel Prentisiaethau Iau, addysg cyn-16 arall mewn coleg, a chymwysterau TAAU yn ffurfio cynnig galwedigaethol cydlynol a chyfannol ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol orfodol.

# 4. Pontio i addysg a hyfforddiant 16-18

Ar hyn o bryd, mae dysgwyr yn cael y rhan fwyaf o'u cyngor a'u cyfarwyddyd gyrfaoedd yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae gan ysgolion, Gyrfa Cymru ac eraill rolau allweddol i'w chwarae o ran sicrhau bod dysgwyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16. Yn anffodus, mae gwrthdaro buddiannau rhwng sefydliadau, llwyth gwaith staff a phroblemau cyllido wedi dod yn rhwystrau sy'n atal pobl ifanc rhag cael y cymorth sydd ei angen arnynt.


## Cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd cyn-16

### Rôl ysgolion

#### Rôl ysgolion o ran rhoi cyngor i ddysgwyr

**78.** Mae ymchwil yn canfod yn gyson bod dysgwyr yn fwy tebygol o droi at staff yr ysgol am gyngor a chyfarwyddyd ynghylch eu hopsiynau ôl-16 nag at unrhyw ffynhonnell gyngor arall.[94] Canfu ein hymchwil ein hunain fod 31% o'r 311 o bobl ifanc a holwyd gan Dîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd wedi nodi mai eu hysgol oedd y brif ffynhonnell o gyngor ar gyfer opsiynau ôl-16 – mwy nag unrhyw ffynhonnell gyngor arall.[95] Gan danlinellu'r rôl hanfodol y mae ysgolion yn ei chwarae o ran rhoi cyngor i ddysgwyr, roedd Estyn yn cytuno fod ymwybyddiaeth dysgwyr o'r dewisiadau sydd ar gael iddynt yn amrywio'n sylweddol, yn dibynnu ar ansawdd y wybodaeth a ddarperir iddynt gan eu hysgol.[96]

[94] Er enghraifft, gweler: Gyrfa Cymru, 'Gwarant i Bobl Ifanc: Sgwrs Genedlaethol', Mawrth 2024, tudalen 47; Y Sefydliad Ffiseg, 'Support young people to change the world', Hydref 2020, tudalen 26;
[95] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu', Mawrth 2025, paragraffau 25-30
[96] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 24 Estyn




***Ffigur 2. Y nifer o weithiau y cyfeiriwyd at wahanol ffynonellau gan bobl ifanc fel prif ffynhonnell gwybodaeth a chyngor am opsiynau ar ôl Blwyddyn 11. Gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un ffynhonnell. Canfyddiadau arolwg pobl ifanc Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd. Daeth cyfanswm o 311 o ymatebion ysgrifenedig i law. Ffynhonnell: Senedd Cymru, '*Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu*', Mawrth 2025, paragraff 27***

**79.** Cawsom gryn dipyn o dystiolaeth am ansawdd y cyngor a'r cyfarwyddyd y mae pobl ifanc yn ei gael yn uniongyrchol gan staff ysgolion, a sut y mae ysgolion yn gweithredu fel ceidwaid ar gyfer cyngor a chyfarwyddyd o ffynonellau eraill.

**80.** Fe wnaeth rhai, gan gynnwys ambell undeb llafur sy'n cynrychioli staff ac arweinwyr ysgolion, sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r rôl y mae ysgolion yn ei chwarae o ran sicrhau bod dysgwyr yn cael cyngor gyrfaoedd o ansawdd uchel. Nodwyd bod ysgolion yn gweithio'n galed i ddarparu gwybodaeth o ansawdd

uchel i ddysgwyr[97] a bod ysgolion yn ymroi i gyflwyno gwybodaeth fanwl i ddysgwyr am gyfleoedd ôl-16, yn enwedig pan nad oes gan ysgolion chweched dosbarth[98]. (Gweler paragraff 87 ymlaen am drafodaeth fanwl ynglŷn â gwrthdaro buddiannau mewn ysgolion â chweched dosbarth.) Roedd Estyn yn cytuno bod llawer o ysgolion yn darparu neu'n hwyluso cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd o ansawdd da i'w disgyblion:

> *"So, there are really good examples. Lots of schools do it really well: they get a really wide range of colleges, training providers, Careers Wales, and employers involved in young people's chances to make that decision."*[99]

Dywedodd Estyn wrthym hefyd fod disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion fel arfer yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda i feddwl am eu camau nesaf ar ôl blwyddyn 11.[100]

**81.** Awgrymodd rhanddeiliaid eraill fod ansawdd y cyngor gyrfaoedd a roddir gan ysgolion ledled Cymru yn anghyson.[101] Dywedodd CLILC fod y cyngor yn anghyson, ond bod pocedi o arferion rhagorol.[102] Nododd Gyrfa Cymru fod rhai ysgolion yn rhoi gwerth ar gyngor gyrfaoedd ac wedi mabwysiadu arferion rhagorol, ond nad yw eraill yn ystyried bod addysg gyrfaoedd yn bwysig ac efallai nad oes ganddynt hyd yn oed arweinydd gyrfaoedd.[103] Awgrymodd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau ("NASUWT") fod anghysondebau'n gysylltiedig â demograffeg a daearyddiaeth:

> *"… there's a difference or a variance in the information provided according to the geographical location, primarily because, obviously, in the more populous areas of the country, the range of options available in terms of post-16 provision is all the more abundant than in rural areas. And so, associated with that abundance of opportunities, whether they be further education*

[97] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 03 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 38 Into Film Cymru
[98] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 12 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig: RET 45 Grŵp Colegau NPTC
[99] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 201
[100] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 24 Estyn
[101] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 119 (Hyfforddiant Cambrian); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 26 Cyngor Sir Powys; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 35 Coleg Sir Gâr; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 46 Dr Elisa Vigna ac Andrea Meek, Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, Prifysgol Caerdydd
[102] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 15
[103] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 205

*colleges, tertiary colleges or, I'll say, traditional sixth-form provision within secondary schools, you then have more support and information provided by the various bodies who provide this information, be it in-house or in-school careers advice or from outside agencies."*[104]

**82.** Clywsom safbwyntiau mwy beirniadol am ansawdd y cyngor y mae llawer o ddysgwyr yn ei gael yn yr ysgol am addysg a hyfforddiant galwedigaethol.[105] Dywedodd Grŵp Hyffordd Educ8 wrthym fod rhai ysgolion yn wych, ond eu bod yn aml yn canfod bod y cyngor a roddir yn gul iawn o ran AB a'r chweched dosbarth.[106] Dywedodd Hyfforddiant Cambrian wrthym:

*"It doesn't matter whether that individual, that pupil, is academically able or not, they have to have the same choices available, from A levels to FE to apprenticeships. But also, I think, it does need to be careers. It needs to be teachers, it needs to be everybody giving independent advice that is learner centric. Because there are a lot of influences that learner has at that age and we need to make sure we take account of all of those influences and give them fair, independent advice."*[107]

**83.** Roedd tystiolaeth Estyn yn gyson â'r pryderon hynny ynghylch y cyngor y mae dysgwyr yn ei gael am ddysgu seiliedig ar waith. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd mai "lleiafrif" o ysgolion nad oes ganddynt chweched dosbarth sy'n sicrhau bod dysgwyr yn rhyngweithio â darparwyr darpariaeth dysgu seiliedig ar waith.[108]

**84.** Nododd y rhanddeiliaid wahanol resymau pam nad yw ysgolion yn sicrhau bod dysgwyr yn cael gwybodaeth gyrfaoedd o ansawdd uchel yn barhaus. Teimlai rhai nad oedd gan staff ysgolion y wybodaeth a'r adnoddau o bosibl i roi cyngor cadarn a diduedd i ddysgwyr, yn enwedig ynghylch cyfleoedd galwedigaethol.[109] Awgrymodd eraill, fel Grŵp Hyfforddi Educ8 ac Into Film Cymru, fod angen

[104] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 6
[105] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 33 Make UK; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 22 Coleg y Cymoedd; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 40 Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTFW)
[106] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 121
[107] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 137
[108] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 24 Estyn
[109] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 45 Grŵp Colegau NPTC; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 29 Gofal Cymdeithasol Cymru;

hyfforddiant a chefnogaeth ychwanegol ar athrawon.[110] Dywedodd Prifysgolion Cymru fod prifysgolion yn cael trafferth cael cysylltiad uniongyrchol â disgyblion uwchradd oherwydd llwyth gwaith athrawon a phwysau mawr ar amserlenni ysgolion.[111] Ar y llaw arall, dadleuodd CLlLC fod pwysau ariannol yn effeithio ar ansawdd cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd mewn ysgolion.[112]

**85.** Er gwaethaf y pryderon hynny ynghylch cyllid ar gyfer ysgolion, nododd Medr fod £3 miliwn o 'Gyllid Pontio' wedi'i ddarparu yn 2023/24 ac yn 2024/25 i hwyluso mwy o gydweithio rhwng ysgolion, colegau AB a darparwyr hyfforddiant. Adroddodd fod ysgolion a cholegau wedi rhoi adborth cadarnhaol ynghylch sut y mae'r cyllid hwnnw wedi cynyddu gweithgareddau sy'n ymwneud â phontio ôl-16, fel diwrnodau blasu mewn colegau, dosbarthiadau meistr, neu raglenni haf.[113]

**86.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yr angen i newid diwylliant mewn ysgolion er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael gwybodaeth am yr ystod lawn o opsiynau ôl-16, gan gynnwys llwybrau galwedigaethol.[114] Roedd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch yn cytuno, a chydnabu fod rhai ysgolion yn disgwyl y byddai rhai myfyrwyr â sgiliau academaidd penodol yn aros yn y chweched dosbarth. Cadarnhaodd nad dyna farn Llywodraeth Cymru:

> *"There are some really very valuable, wonderful vocational opportunities that our FE colleges offer, and we need to ensure that all staff within each section of the teaching profession really understand and value that, so that those barriers can be broken down and we can celebrate young people who say they have these predicted grades, but, actually, they'd really like to go to an FE college and do a vocational qualification or A levels that may not be offered in their school sixth form. Or, for some, there is that need to have that change, to go to an FE college to do their sixth-form studies, which could be better for them."*[115]

[110] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 07 Grŵp Hyfforddi Educ8; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 38 Into Film Cymru
[111] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 19 Prifysgolion Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 29 Gofal Cymdeithasol Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 45 Grŵp Colegau NPTC
[112] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 15
[113] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 41 Medr
[114] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 40-42
[115] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 29-33

### Achosion o wrthdaro buddiannau rhwng ysgolion â chweched dosbarth a darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 eraill

**87.** Y pryder a godwyd amlaf yn yr ymchwiliad hwn yw bod rhai ysgolion sydd â chweched dosbarth yn hyrwyddo eu cyrsiau chweched dosbarth eu hunain yn hytrach nag opsiynau ôl-16 eraill er mwyn cadw dysgwyr a'r cyllid sy'n gysylltiedig â nhw. Roedd darparwyr cyrsiau galwedigaethol[116], sefydliadau annibynnol[117], a hyd yn oed undebau llafur sy'n cynrychioli staff ac arweinwyr ysgolion yn cytuno ar farn hon (ond i amrywiol raddau)[118].

**88.** Clywsom fod yr achosion hyn o wrthdaro buddiannau yn dod i'r amlwg mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys:

- drwy ysgolion yn rhoi cyngor rhagfarnllyd am yr opsiynau sydd ar gael i'r person ifanc, gan gynnwys drwy or-hyrwyddo darpariaeth chweched dosbarth yr ysgol ei hun, peidio â darparu gwybodaeth am opsiynau eraill, neu gynghori yn erbyn darpariaeth gan ddarparwyr eraill;[119]
- amharodrwydd gan staff ysgolion i adael i golegau AB neu ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith ymgysylltu â dysgwyr[120], neu ddim ond gadael i ddarparwyr ôl-16 eraill ymgysylltu â grwpiau penodol o blant nad yw'r ysgol yn credu eu bod eisiau/sy'n anaddas ar gyfer astudio yn y chweched dosbarth[121]; a

[116] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 04 Mark Jones, Prif Weithredwr, Coleg Gŵyr Abertawe; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 07 Grŵp Hyfforddi Educ8; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 34 Colegau Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 35 Coleg Sir Gâr; Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraffau 22-30
[117] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 28; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 17 Gyrfa Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 25 Estyn; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 26 Cyngor Sir Powys; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 37 Unigolyn
[118] Tystiolaeth ychwanegol: Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 12-13 (NASUWT); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 03 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 12 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Cymru;
[119] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 04 Mark Jones, Prif Weithredwr, Coleg Gŵyr Abertawe; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 24 Estyn
[120] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 35 Coleg Sir Gâr; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 126; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 17 Gyrfa Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 05 Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT); Senedd Cymru, 'Llwybrau i addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 24
[121] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 126 (ColegauCymru)

- staff ysgolion yn herio cynghorwyr gyrfaoedd pan fyddant yn rhannu gwybodaeth am opsiynau ôl-16 eraill.[122]

**89.** Roedd y dystiolaeth a gawsom gan bobl ifanc a rhieni yn gyson â'r safbwyntiau hyn. Dywedodd un person ifanc a ymatebodd i arolwg ein Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion wrthym:

> *"Ym mlwyddyn 11 mae'n cael ei wthio ar fyfyrwyr i barhau i astudio trwy gario mlaen gyda'u Safon Uwch. Ychydig iawn o drafodaeth a gwybodaeth oedd ar gael am y gwahanol opsiynau eraill sydd ar gael."*

Ysgrifennodd un arall:

> *"Ym mlwyddyn 11 roedd cymaint o athrawon yn ceisio fy argyhoeddi mai aros yn y chweched dosbarth yn hytrach na mynd i'r coleg fyddai'r opsiwn gorau a diystyru'r syniad o fynd i goleg o hyd e.e. dweud y byddwn i'n ei gasáu"*[123]

**90.** Roedd rhai gwahaniaethau cynnil yn y safbwyntiau a gyflwynwyd gan wahanol randdeiliaid ynghylch pam a phryd y mae'r gwrthdaro buddiannau'n digwydd. Y farn fwyaf cyffredin oedd bod gwrthdaro buddiannau yn sgil-gynnyrch sylfaenol ac anochel system gyllido sy'n annog cystadleuaeth am ddysgwyr.[124] Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Colegau Cymru:

> *"Currently, funding models drive competition between different types of providers. This has created barriers to colleges being able to access learners in some schools to set out the options available to them and means there is variation across Wales, and even within local authority areas, on the quality and amount of advice given to pupils."*[125]

---

[122] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 17 Gyrfa Cymru
[123] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Adroddiad ar ganfyddiadau'r gwaith ymgysylltu' Mawrth 2025, tudalennau 14-15
[124] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 28; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 04 Mark Jones, Prif Weithredwr, Coleg Gŵyr Abertawe; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 05 Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 12 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 26 Cyngor Sir Powys; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 12-13 (UCAC); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 43 Coleg Cymraeg
[125] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 34 Colegau Cymru

**91.** Esboniodd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru ("UCAC") sut y mae'r system gyllido yn dylanwadu ar ymddygiad ar lefel leol. Dywedodd wrthym fod rhywfaint o'i waith diweddar gydag aelodau'r undeb wedi ymwneud â'u cefnogi yn ystod prosesau diswyddo. Mae'r diswyddiadau wedi'u hachosi'n bennaf gan ostyngiad yn nifer y dysgwyr sy'n mynd i'r chweched dosbarth:

> *"Y peth olaf y maen nhw'n mynd i'w wneud ydy annog y rheini sydd â chyfle da i wneud Safon Uwch i lefel dda—dydyn nhw ddim yn mynd i'w hannog nhw i fynd i wneud dim byd arall, nac ydyn?"*[126]

**92.** Dadleuodd eraill fod gwrthdaro buddiannau yn tueddu i ddigwydd mewn perthynas â grwpiau penodol o blant neu mewn sefyllfaoedd penodol. Dadleuodd yr NASUWT mai dim ond pan fydd y cyrsiau a gynigir gan chweched dosbarth yr ysgol yn union yr un fath â'r rhai a gynigir gan ddarparwr lleol arall y mae gwrthdaro buddiannau'n digwydd. Mewn achosion o'r fath, dywedodd y bydd yr ysgol yn hyrwyddo ei chwrs ei hun i'r dysgwr yn naturiol yn hytrach na'r dewis arall.[127] Ar y llaw arall, dadleuodd UCAC fod gwrthdaro buddiannau'n effeithio'n bennaf ar ddysgwyr nad yw'n glir ai cymwysterau Safon Uwch neu gymwysterau eraill yw'r opsiynau gorau iddynt. Awgrymodd y gallai ysgolion llai sydd â chweched dosbarth fynd ar drywydd y dysgwyr hynny, ond y gallent elwa o fynd i sefydliad AB yn lle hynny.[128]


**93.** Dadleuodd rhai rhanddeiliaid ei bod yn bosibl i ysgolion sydd â chweched dosbarth roi cyngor diduedd i ddysgwyr am eu holl opsiynau ôl-16 hyd yn oed os yw'r system gyllido'n annog cystadleuaeth rhwng darparwyr.[129] Dywedodd Estyn nad yw rhai ysgolion â chweched dosbarth yn cydweithio'n ddigonol â darparwyr eraill,[130] ond amlygodd arferion da serch hynny:

> *"In other areas, where there are schools with sixth forms, there's really good collaboration with local colleges, and, actually, it is a shared offer that they've thought about together and tried to make as broad as possible, collectively. So, it's not just those schools not with a sixth form, it is down to that wider relationship and collaboration that's happening, and, in some*

[126] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 12-13
[127] Tystiolaeth ychwanegol: Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 07 Grŵp Hyfforddi Educ8
[128] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 43
[129] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 45 Grŵp Colegau NPTC
[130] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 24 Estyn

*areas with sixth forms, we see that happening really well and young people getting a really good mix of options available to them."*[131]

**94.** Fodd bynnag, er i'r NASUWT gydnabod bod achosion o wrthdaro buddiannau yn codi, pwysleisiodd nad yw pryderon colegau ynghylch mynediad at ddysgwyr yn ymddangos yn y data. Tynnodd sylw at y ffaith bod cyfran fwy o bobl ifanc yng Nghymru yn astudio mewn colegau nag yn unrhyw wlad arall yn y DU, a bod canran y bobl ifanc sy'n astudio mewn chweched dosbarth yng Nghymru yn gostwng mewn gwirionedd[132] (gweler ffigur 3). Mae data gan Medr hefyd yn nodi, yn y flwyddyn academaidd 2024/25, bod 49% o ddysgwyr a aeth ymlaen o Flwyddyn 11 wedi astudio am gymwysterau Safon UG. Dyma'r tro cyntaf i lai na hanner y dysgwyr a aeth ymlaen i addysg ôl-16 astudio am gymwysterau Safon UG, a'r gyfradd isaf o ddysgwyr a aeth ymlaen i Safon UG yn y cyfnod a gwmpesir gan ddadansoddiad Medr.[133]




[131] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 208
[132] Tystiolaeth ychwanegol: Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT);
[133] Medr, 'Dilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol, Awst 2017 i Ionawr 2025', 25 Chwefror 2025, tudalennau 6-7

***Ffigur 3. Cyfrannau'r dysgwyr sy'n gadael Blwyddyn 11 ac yn mynd i addysg amser llawn mewn chweched dosbarth, addysg amser llawn mewn colegau, a phob cyrchfan arall. Ffynhonnell: Gyrfa Cymru, '****Hynt disgyblion****'***

**95.** Roedd cytundeb cyffredinol, pan fydd achos o wrthdaro buddiannau yn codi, bod ansawdd y cyngor y mae dysgwyr yn ei gael yn dioddef.[134] Clywsom droeon y dylai'r cyngor y mae dysgwyr yn ei gael fod yn seiliedig ar eu hanghenion nhw, nid ar anghenion unrhyw sefydliad penodol.[135] Daeth Dr Hefin David AS i gasgliadau tebyg yn ei adroddiad 'Pontio i Fyd Gwaith', ac argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru "sicrhau bod dysgwyr yn meddu ar eglurder llawn ynghylch pa opsiynau sydd ar gael iddynt yn dilyn addysg ôl-orfodol yn gynnar yn y broses".[136] Fodd bynnag, cymharol brin yw'r cynigion pendant a glywsom ynghylch sut i sicrhau bod hynny'n digwydd yn ymarferol mewn ysgolion ledled Cymru.

**96.** Dadleuodd nifer cyfyngedig o randdeiliaid, a oedd yn cynrychioli darparwyr addysg bellach neu ddysgu seiliedig ar waith yn unig, o blaid system addysg 'drydyddol' lawn, lle mae pob dysgwr yn symud ymlaen o flwyddyn 11 mewn ysgolion i golegau, boed hynny fel rhan o lwybr galwedigaethol/academaidd/cymysg. Adroddwyd bod y cyngor a'r gefnogaeth y mae pobl ifanc yn eu cael yn yr ysgol ynglŷn â'u hopsiynau ôl-16 yn well oherwydd nad oes cystadleuaeth rhwng ysgolion sydd â chweched dosbarth a cholegau.[137]

**97.** Ar y llaw arall, awgrymodd Medr y dylid cynnig cymhellion i gydweithio o fewn methodolegau cyllido.[138] Nododd:

> *"Un o egwyddorion canolog cynllun strategol Medr fydd creu un system gydlynol y bydd dysgwyr, darparwyr a chyflogwyr fel ei gilydd yn gallu ei deall a'i llywio'n haws. Un ffordd y bydd Medr yn gwella'r system honno yw drwy ei gwneud yn fwy cydweithredol, gan gydnabod y rhan y mae chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol a cholegau*

[134] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 37 Unigolyn Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 25 Estyn; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 34 Colegau Cymru
[135] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 62 (CLlLC); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 130 (Medr);
[136] Dr Hefin David AS, 'Pontio i Fyd Gwaith', Mehefin 2023, tudalen 8
[137] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad o randdeiliad ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, tudalen 30; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 312-313 (Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru)
[138] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 130

> *addysg bellach yn ei chwarae yn ein tirlun ôl-16, a sicrhau bod dysgwyr yn cael dewis a darpariaeth o ansawdd uchel."*[139]

Roedd y farn a gyflwynwyd gan Brif Weithredwr Coleg Gŵyr Abertawe yn debyg.[140]

**98.** Awgrymodd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru ("NTfW"), y gallai deddfwriaeth Gymreig sy'n cyfateb i'r ddeddfwriaeth mynediad at ddarparwyr sydd ar waith yn Lloegr (a elwir yn gyffredin yn "Gymal Baker") wella natur ddiduedd y wybodaeth a roddir i bobl ifanc yng Nghymru.[141] Mae Cymal Baker yn ofyniad statudol yn Lloegr ers 2018 i ysgolion uwchradd y wladwriaeth ddarparu mynediad at wybodaeth am gymwysterau addysg technegol a phrentisiaethau i ddysgwyr ym mlynyddoedd 8 i 13. Fodd bynnag, canfu adroddiad yn 2019 ar gyfer y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus fod cydymffurfiaeth â Chymal Baker wedi bod yn wael iawn.[142]

**99.** Ers hynny mae Llywodraeth y DU wedi ceisio cryfhau'r ddeddfwriaeth drwy'r Ddeddf Sgiliau ac Addysg Ôl-16.[143] Fodd bynnag, yn ei adroddiad 'Pontio i Fyd Gwaith', daw Dr Hefin David AS i'r casgliad bod "yr union ffaith bod Llywodraeth y DU y teimlo bod angen deddfwriaeth ychwanegol arni i wella effeithiolrwydd y Cymal yn awgrymu bod gwaith craffu gofalus yn ofynnol."[144] Mynegodd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, amheuaeth hefyd ynghylch a fyddai Cymal Baker Cymreig yn gweithio, o ystyried, yn ei barn hi, bod ei effeithiolrwydd yn gyfyngedig yn Lloegr.[145]

**100.** Teimlai rhai fod rôl i Estyn, neu gyrff arolygu eraill, o ran dwyn ysgolion i gyfrif am ba mor dda y maent yn hysbysu dysgwyr am yr holl opsiynau ôl-16.[146] Fodd

[139] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 41 Medr
[140] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 04 Mark Jones, Prif Weithredwr, Coleg Gŵyr Abertawe
[141] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 316; Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, tudalen 10
[142] IPPR, 'The Baker Clause: One year on', 9 January 2019; Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, tudalen 10
[143] Senedd y DU, 'Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 [HL]: Cynnydd y Bil', 29 Ebrill 2022 (Saesneg yn unig)
[144] Dr Hefin David AS, 'Pontio i Fyd Gwaith', Mehefin 2023, tudalen 12
[145] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 57; Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 30
[146] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe; Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 30

bynnag, eglurodd Estyn, er bod gyrfaoedd a chyngor yn ffocws yn ei arolygiadau, yn ymarferol, gall fod yn her cael darlun cywir o'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad:

> *"Mae'n ffocws mewn arolygiadau. Rydyn ni'n triongli gwybodaeth, mae gyda ni'r holiaduron i ddisgyblion, dŷn ni'n cyfarfod gyda phobl ifanc, rŷn ni'n holi eu barn nhw, dŷn ni'n edrych ar wybodaeth gan yr ysgol—natur y cwricwlwm ac yn y blaen—ac yn cael adborth gan rieni. Felly, mae'n ddarlun eithaf eang, ond, wrth gwrs, yn ystod arolygiad, dŷn ni ddim yn cael cyfle efallai i gwrdd â rhai o'r plant sydd efallai yn anfodlon gyda'r arweiniad maen nhw wedi'i gael. Maen nhw wedi gadael yr ysgol, ac felly mae'n anodd i retrospectively edrych yn ôl ar beth oedd y cyngor."*[147]

**101.** Roedd Grŵp Llandrillo Menai o blaid cryfhau hawliau mynediad colegau i ddysgwyr 15 oed a gwella prosiectau pontio i sicrhau y gall dysgwyr wneud dewisiadau gwybodus am eu camau ôl-16.[148] Roedd Colegau Cymru yn cytuno, gan ddadlau nad yw Llywodraeth Cymru wedi mynd ati'n ddigon cyflym i weithredu'r argymhellion yn adroddiad Dr Hefin David AS ac adolygiad Lusher ynghylch rhoi mynediad i golegau at ddysgwyr.[149] Tynnodd eraill sylw at y rôl y gall colegau eu hunain ei chwarae wrth ymgysylltu'n weithredol ag ysgolion i siarad â dysgwyr, gan gynnwys o oedran ifanc.[150]

**102.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg fod heriau'n deillio o wrthdaro buddiannau rhwng ysgolion â chweched dosbarth a darparwyr ôl-16 eraill. Pwysleisiodd fod Llywodraeth Cymru eisiau i bawb roi anghenion dysgwyr wrth wraidd popeth a wnânt, ac y dylai ysgolion gefnogi pobl ifanc i ystyried yr ystod lawn o opsiynau, nid dim ond eu chweched dosbarth eu hunain. [151]

**103.** Pwysleisiodd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch fod Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn glir i Medr nad oes lle i gystadleuaeth a bod angen dileu hynny a gweithio ar gydweithio. Fodd bynnag, gwrthododd y cynnig i greu fersiwn gyfatebol o Gymal Baker ar gyfer Cymru, gan ddadlau bod deddfwriaeth bresennol yng Nghymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ôl-16 gydweithio a

[147] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 217
[148] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 10 Grŵp Llandrillo Menai
[149] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 34 Colegau Cymru
[150] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 22 Coleg y Cymoedd; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 35 Coleg Sir Gâr
[151] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 28

chydweithredu, a dadleuodd fod hynny'n ddull gwell oherwydd bod y ddeddfwriaeth yn ehangach na Chymal Baker.[152]

**Yr Hawl i Ddysgu 14 i 16**

**104.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol ar ddysgu mewn perthynas â phobl ifanc 14 i 16 oed ym mis Medi 2024. Mae'r canllawiau'n nodi bod yn rhaid i gwricwlwm ysgol ym Mlynyddoedd 10 ac 11 "roi proffil eang a chytbwys o ran dysgu a phrofiadau i ddysgwyr" a dylid ei gynllunio gan gyfeirio at 4 elfen yr hawl i ddysgu 14 i 16. Mae pedair elfen i'r hawl i ddysgu 14 i 16 oed:

- Myfyrio ar ddysgu a chynnydd a chynllunio ôl-16;
- Cymwysterau mewn llythrennedd a rhifedd;
- Cymwysterau i annog ehangder; a
- Dysgu a phrofiadau ehangach ar draws y cwricwlwm[153].

**105.** Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig sefydlu Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16. Byddai'r fframwaith yn nodi pa ddata y dylai ysgolion eu cyhoeddi am y cyfnod pontio i addysg a hyfforddiant ôl-16, gan ddisodli'r mesurau Cyfnod Allweddol 4 Dros Dro sydd wedi bod ar waith yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Amlinellodd yr ymgynghoriad 'ddangosyddion' arfaethedig ar gyfer cyhoeddi data deilliannau. Mae'r dangosyddion yn cynnwys gwybodaeth am gynllunio ôl-16 a chynllunio ar gyfer cyfnod pontio mewn ysgol; cyrchfannau dysgwyr blwyddyn 11; a dysgwyr heb gymwysterau. Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ddatganiad ysgrifenedig yn crynhoi canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw ym mis Gorffennaf 2025.[154]

**106.** Roedd yr ychydig a glywsom gan randdeiliaid am yr Hawl i Ddysgu a'r Fframwaith Dangosyddion Hawl i Ddysgu yn gadarnhaol. Dadleuodd Gyrfa Cymru y byddai cael ysgolion i gyhoeddi data ar fynediad at brofiad gwaith, cyfarwyddyd gyrfaoedd, ac amser a dreulir ar gynllunio cyfnodau pontio yn gwneud y system yn fwy atebol.[155] Roedd Medr yn pwyso ar y system addysg i gofleidio'r canllawiau statudol 14-16, gan ddadlau bod angen neilltuo amser i gefnogi dysgwyr i ddeall

[152] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 29-33
[153] Llywodraeth Cymru, 'Canllawiau ar ddysgu 14 i 16'
[154] Llywodraeth Cymru, 'Data a gwybodaeth i gefnogi dysgu a gwelliant: ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y system ysgolion', 10 Ionawr 2025; Llywodraeth Cymru, 'Datganiad Ysgrifenedig: Canlyniad ymgynghoriad - Data a gwybodaeth i gefnogi dysgu a gwelliant a Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16', 16 Gorffennaf 2025
[155] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 209

beth yw eu llwybrau ôl-16, a'u holl lwybrau nid dim ond y llwybr ysgol.[156] Adroddodd Estyn y byddai'r dysgwyr eu hunain yn croesawu cael mwy o ddata gan ddarparwyr ôl-16 megis ysgolion a cholegau. Roedd rhai, meddai, yn teimlo nad oes digon o wybodaeth am ansawdd darpariaeth y sefydliadau a'r deilliannau a gyflawnir gan eu dysgwyr.[157]

**107.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg fod y canllawiau statudol ar ddysgu 14-16 yn amlinellu disgwyliadau cenedlaethol clir i helpu i ddarparu dull gweithredu cyson ar draws yr holl ysgolion. Dadleuodd hefyd y byddai'r data cyhoeddedig arfaethedig yn elfen bwysig o atebolrwydd.[158] Nododd Llywodraeth Cymru ar wahân y byddai ysgolion yn cael eu dwyn i gyfrif am y ffordd y maent yn cyflwyno'r Hawl i Ddysgu gan Estyn yn ei arolygiad o ysgolion uwchradd o fis Medi 2025 ymlaen, gan Medr (yng nghyd-destun eu dyletswydd strategol ynghylch cydweithio) a chan awdurdodau lleol.[159]

## Rôl Gyrfa Cymru

**108.** Rhan o'r cylch gorchwyl a roddwyd i Gyrfa Cymru gan Lywodraeth Cymru yw darparu cyngor gyrfaoedd i bobl ifanc 14-19 oed. Mae'n darparu pedair lefel o gymorth, sy'n gyson i ddysgwyr ledled Cymru:

- Cymorth cyffredinol: Arolwg 'Gwiro Gyrfa' o ddisgyblion blwyddyn 10 a chynnig cyfweliad cyfarwyddyd cyn iddynt adael addysg statudol.
- Cymorth Gwirio Gyrfa: Cymorth un i un ar gyfer pobl ifanc y nodwyd bod angen cyfarwyddyd ac anogaeth arnynt.
- Cymorth wedi'i dargedu: Ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET.
- Cymorth ADY: Cymorth un i un ar gyfer pobl ifanc y nodwyd bod ganddynt ADY.[160]

**109.** Mae Gyrfa Cymru hefyd yn cefnogi rhieni a gofalwyr drwy fynychu digwyddiadau i rieni, cynnal sesiynau rhyngweithio un-i-un â rhieni, cylchlythyrau tymhorol, a thrwy'r wybodaeth am y farchnad lafur ar ei wefan. Yn y flwyddyn ariannol 2024-25, cofnododd Gyrfa Cymru 13,966 o sesiynau rhyngweithio â rhieni

[156] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 133
[157] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 24 Estyn
[158] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 6
[159] Llythyr gan Lywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Mai 2025
[160] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 17 Gyrfa Cymru

a gwarcheidwaid, a chyfranogiad mewn 3,021 o weithgareddau rhieni. Mae hefyd yn darparu cymorth parhaus i ysgolion drwy Gydlynydd Cwricwlwm, sy'n "darparu ymgynghoriaeth a hyfforddiant pwrpasol". Fel rhan o'i gwaith gydag ysgolion, mae'n cynnal cynllun peilot Gwobr Ansawdd Gyrfa Cymru gyda 49 o ysgolion a lleoliadau ledled Cymru i gyd-fynd â'u thema drawsbynciol addysg a phrofiadau byd gwaith yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae Gyrfa Cymru hefyd yn darparu cymorth wedi'i dargedu mewn perthynas â phrofiad gwaith, a drafodir ar wahân isod.[161]

**110.** Dywedodd Gyrfa Cymru wrthym fod ganddo ddau ddangosydd perfformiad allweddol sy'n gysylltiedig â chyfweliadau cyfarwyddyd gyrfaoedd:

- Bydd 95% o bobl ifanc ym mlwyddyn 11 sy'n cael cyfweliad cyfarwyddyd yn "mynd i gyrchfan gadarnhaol". Dywed ei fod yn rhagori ar y targed hwn yn gyson.
- Bydd 85% o bobl ifanc sy'n dod o fewn y grwpiau targed ar gyfer cymorth ychwanegol (megis pobl ifanc ag ADY, gofalwyr ifanc, pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, pobl ifanc â hawl i brydau ysgol am ddim, pobl ifanc sydd mewn darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol, a phobl ifanc sydd â chofnod presenoldeb gwael) yn mynd i "gyrchfan gadarnhaol". Dywed fod dros 90% o'r grŵp hwn yn mynd i gyrchfan gadarnhaol bob blwyddyn.[162]

**111.** Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid yn cytuno bod cyngor gyrfaoedd diduedd a gwybodus gan gynghorwyr gyrfaoedd annibynnol – fel rhan o rwydwaith ehangach o gynghorwyr – yn hanfodol i sicrhau bod dysgwyr yn gwneud y dewisiadau cywir ar ôl blwyddyn 11.[163]

**112.** Roedd rhywfaint o'r dystiolaeth a gawsom yn canmol y cymorth a ddarparwyd gan Gyrfa Cymru i ddysgwyr.[164] Clywsom dystiolaeth arbennig o glir a

[161] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 17 Gyrfa Cymru
[162] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 17 Gyrfa Cymru
[163] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 07 Grŵp Hyfforddi Educ8; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 133 (ColegauCymru); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 204 (Gyrfa Cymru); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 137 (Hyfforddiant Cambrian); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 42 Y Sefydliad Ffiseg; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 14 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC); Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 14
[164] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 05 Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 12 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig: RET 14 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)

chyson am y cymorth wedi'i dargedu y mae'n ei ddarparu i ddysgwyr ag ADY, sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET. Dywedodd cynrychiolydd o Parents' Voices in Wales wrthym am eu profiadau o'r cymorth y mae ei phlant wedi'i gael:

> *"We have a designated Careers Wales adviser who works with kids with additional needs across the Swansea area, and she has been fantastic. So, I've seen her on several occasions and in terms of writing those plans ready to move on and that transition, and she actually met with my children yesterday. So, that element has been really, really positive for me, and I know who to go back to if I need to."*[165]

**113.** Cawsom dystiolaeth ymchwil helaeth gan Dr. Katy Huxley a Rhys Davies o Brifysgol Caerdydd, a ganfu fod cyfweliadau cyfarwyddyd gyrfaoedd gan Gyrfa Cymru yn hynod effeithiol ar gyfer dysgwyr â chyrhaeddiad isel sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim:

> *"Using statistical matching techniques we have compared the outcomes of 'similar' pupils who did or did not receive a careers guidance interview from Careers Wales. This approach provides a more accurate or nuanced assessment of the impact of careers guidance interviews for different groups of learners. Significantly, low attaining free-school meal (FSM) pupils were 42% less likely to become NEET if they received a careers guidance interview compared to an otherwise comparable group of pupils who do not have an interview."*

Canfu eu hymchwil hefyd fod dysgwyr â lefelau cyrhaeddiad uwch yn fwy tebygol o gofrestru ar raglenni dysgu lefel uwch os oeddent wedi cael cyfarwyddyd gyrfaoedd.[166]

**114.** Daeth adroddiad thematig Estyn yn 2022 ar wasanaeth cynghori Gyrfa Cymru i gasgliadau tebyg. Nododd fod y rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n gymwys i gael sesiwn cyfarwyddyd gyrfaoedd (sef ar y pryd y rhai a oedd yn gymwys i gael

---

[165] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 186
[166] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 21 Dr. Katy Huxley a Rhys Davies, Prifysgol Caerdydd

cymorth wedi'i dargedu) wedi gwneud "cynnydd da o'u gwahanol fannau cychwyn", a bod y "cynghorwyr yn effeithiol ac yn darparu cyngor clir a phriodol".[167]

**115.** Fodd bynnag, cawsom hefyd lawer iawn o adborth negyddol am wasanaeth cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd Gyrfa Cymru. Dywedodd rhai fod amrywiaeth yn ansawdd y cyngor yn dibynnu ar gynghorwyr gyrfaoedd unigol.[168] Roedd eraill yn cytuno bod dysgwyr sy'n cael cymorth wedi'i dargedu yn cael eu cefnogi'n dda, ond dywedwyd nad yw dysgwyr yn y canol – nad yw'n glir ai llwybr galwedigaethol ynteu lwybr academaidd yw'r opsiwn gorau iddynt – yn cael eu cefnogi'n ddigon da.[169] Roedd Gyrfa Cymru ei hun hefyd yn cydnabod y gall fod yn anodd rhoi cyngor i blant nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.[170]

**116.** Mynegodd nifer o randdeiliaid bryder ynghylch effaith toriadau i gyllid ar ansawdd gwasanaeth cynghori Gyrfa Cymru.[171] Crynhodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd pam mae'r toriadau wedi effeithio ar ansawdd y cyngor a roddir i ddysgwyr:

> *"The analysis of ADR Wales has been of particular interest and has emphasised the centrality of careers guidance in driving post-16 participation. Its papers suggest that interactions with Careers Wales can enable better choices for learners. … Given the above, the University's experience of careers guidance in recent years is a cause for concern. The cuts and restructuring at Careers Wales have led to confusion about appropriate contacts for guidance, affecting the support available to students. This has meant disparities in support across schools, resulting in reduced assistance for some learners and potentially impacting their educational outcomes."*

---

[167] Estyn, 'Cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd i bobl ifanc 14-16 oed a ddarperir gan gynghorwyr Gyrfa Cymru', Mai 2022
[168] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 12 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Cymru;
[169] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 133; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe
[170] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 202
[171] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 154 (Grŵp Hyfforddi Educ8); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 192 (Gyrfa Cymru); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 25 (CCAC); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 03 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 45 Grŵp Colegau NPTC; Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 17

Fodd bynnag, pwysleisiodd nad ansawdd y staff yn Gyrfa Cymru sy'n gyfrifol ond y gostyngiad yn eu niferoedd.[172]

**117.** Roedd pryderon eraill ynghylch gwasanaeth cyngor gyrfaoedd Gyrfa Cymru a ymddangosodd yn ein tystiolaeth yn cynnwys:

- bod cynghorwyr gyrfaoedd mewn ysgolion yn amharod i gyflwyno prentisiaethau fel opsiwn ymarferol i bob disgybl, waeth beth fo'u cyrhaeddiad academaidd;[173]
- nad oes gan gynghorwyr ymwybyddiaeth o wybodaeth am y farchnad lafur o bosibl;[174]
- na ddarperir cyngor a chyfarwyddyd diduedd o ansawdd uchel yn gyson i bob dysgwr, fel plant sy'n gwneud yn dda yn yr ysgol (dywedodd un person ifanc y "Cafodd myfyrwyr blwyddyn 11 eu hanwybyddu gan gynghorwyr gyrfa ar ôl darganfod eu bod am aros ar yr ysgol i'r chweched dosbarth"[175]) neu nad yw'r cyngor yn cael ei roi ar yr amser iawn;[176]
- bod dealltwriaeth wael o Addysg Ddewisol yn y Cartref o fewn Gyrfa Cymru;[177] ac
- y dylid diweddaru neu wella rhannau penodol o wefan Gyrfa Cymru.[178]

**118.** Cawsom amrywiaeth o awgrymiadau gan randdeiliaid ynghylch sut y gellid gwella gwasanaeth Gyrfa Cymru. Dywedodd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys Gyrfa Cymru ei hun, y gallai cyngor gyrfaoedd annibynnol i bob dysgwr ddechrau'n gynharach – yn ddelfrydol erbyn blwyddyn 9.[179] Roedd Gyrfa Cymru yn

[172] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 30 Prifysgol Metropolitan Caerdydd
[173] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe
[174] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe
[175] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu', Mawrth 2025, tudalen 22
[176] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 10 Grŵp Llandrillo Menai; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 26 Cyngor Sir Powys; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 42 Y Sefydliad Ffiseg; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 07 Grŵp Colegau NPTC; Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 20
[177] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 01 Education Otherwise
[178] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 42 Y Sefydliad Ffiseg; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 33 Make UK
[179] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 23 Horticultural Trades Association; Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 20; RET 46 Dr Elisa Vigna ac Andrea Meek, Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, Prifysgol Caerdydd; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 13 Hyfforddiant Cambrian

amcangyfrif y byddai hyn yn costio £2.06 miliwn y flwyddyn.[180] Pwysleisiodd eraill bwysigrwydd cyngor unigol, wedi'i bersonoli.[181]

**119.** Ar y llaw arall, awgrymodd Estyn y dylai gynnal gwaith arolygu wedi'i dargedu ar wasanaeth cyngor gyrfaoedd Gyrfa Cymru i ganfod a oes rhai grwpiau o bobl ifanc nad ydynt yn cael y cyngor annibynnol sydd ei angen arnynt.[182]

**120.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg bwysigrwydd cyngor gyrfaoedd annibynnol Gyrfa Cymru, a chroesawodd y ffaith ei fod yn ymestyn y cynnig o gyfweliad i bob dysgwr mewn ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion arbennig a phlant y gwyddys eu bod yn cael eu haddysgu gartref. Nododd y gwaith y mae Gyrfa Cymru yn ei wneud i gefnogi gweithwyr addysg proffesiynol gydag addysg a phrofiadau byd gwaith yn y Cwricwlwm i Gymru, er iddi ychwanegu'n ddiweddarach fod mwy y gellir ei wneud ynglŷn â sicrhau cysondeb yn y maes hwn.[183]

**121.** Cydnabu'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, y mae ei bortffolio'n cynnwys goruchwylio Gyrfa Cymru, ein pryderon nad yw pob person ifanc yn cael y wybodaeth gywir i'w helpu i wneud y dewisiadau ôl-16 gorau. Dywedodd wrthym nad oedd yn ofni ceisio gwella cynnig Gyrfa Cymru yn barhaus. Fodd bynnag, tynnodd sylw hefyd at waith Gyrfa Cymru gyda rhieni a dod â busnesau a diwydiant i ysgolion, ochr yn ochr â phrofiad gwaith (yr ydym yn ei drafod yn fanwl isod). Dywedodd wrthym y bydd Gyrfa Cymru yn amlinellu ei gynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf cyn bo hir:

> *"… they're in the process now, on the back of the final budget that has been set by and agreed by the Senedd, of setting out their aspirational plan for the year ahead, and we'll be taking them to task against that and working alongside them against that to make sure that there is value for money and to try and iron out some of those particular issues that you've raised [about the quality of careers advice some young people are receiving]."*[184]

[180] Llythyr gan Gyrfa Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2025
[181] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 05 Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT);
[182] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 216
[183] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 7 a 51
[184] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 48, 20 a 50

## Rhieni a gofalwyr

**122.** Roedd y rhanddeiliaid a gododd rôl rhieni a gofalwyr wrth ddarparu cyngor gyrfaoedd yn cytuno bod rhieni a gofalwyr yn chwarae rhan allweddol yn y broses o helpu plant i benderfynu ar eu camau nesaf ar ôl blwyddyn 11.[185] Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Gyrfa Cymru fod gan rieni "r[]an bwysig i'w chwarae wrth lunio ac arwain penderfyniadau".[186] Roedd yn honni mai rhieni a gofalwyr yw'r ffynonellau cyngor pwysicaf i bobl ifanc ar ôl athrawon.[187]

**123.** Fodd bynnag, clywsom fod angen mwy o gymorth ar rieni a gofalwyr i helpu eu pobl ifanc i archwilio ystod eang o opsiynau ôl-16.[188] Adroddodd Parentkind ar ganfyddiadau o'i Arolwg Cenedlaethol o Rieni a gynhaliwyd yn 2023, a ganfu mai dim ond 39% o rieni yng Nghymru sydd â pherson ifanc mewn addysg uwchradd neu ôl-16 sy'n cytuno bod ysgol/coleg eu plentyn yn eu helpu i ymchwilio i ystod eang o bosibiliadau gyrfa. Mae hyn yn sylweddol is nag ymhlith rhieni mewn rhannau eraill o'r DU (46% yn Lloegr, 49% yn yr Alban, a 53% yng Ngogledd Iwerddon).[189] Yn yr un modd, canfu gwaith ymgysylltu Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd mai dim ond 44% o'r 140 o rieni a gwarcheidwaid a holwyd a oedd yn teimlo'n hyderus iawn neu'n weddol hyderus ynghylch eu dealltwriaeth o opsiynau ôl-16.[190] Dywedodd rhai darparwyr galwedigaethol wrthym fod gan rai rhieni a gofalwyr ragfarn o blaid llwybrau academaidd, neu nad ydynt yn deall yr ystod o lwybrau ôl-16 sydd ar gael.[191]

**124.** Galwodd rhai o'r rhieni a holwyd gennym am well cyfathrebu rhwng sefydliadau addysg, awdurdodau lleol, dysgwyr a rhieni/gofalwyr.[192] Roedd eraill yn

[185] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 31; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 142 (Medr); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 03 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 45 Grŵp Colegau NPTC
[186] 'Llythyr gan Gyrfa Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2025
[187] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 17 Gyrfa Cymru
[188] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 142 (Medr); Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraffau 32-34
[189] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 02 Parentkind
[190] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu', Mawrth 2025, paragraff 20
[191] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 45 Grŵp Colegau NPTC; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 07 Grŵp Hyfforddi Educ8
[192] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu', Mawrth 2025, paragraff 21

dadlau dros ddarparu gwell gwybodaeth i rieni a gofalwyr am wahanol fathau o gyrsiau[193] a digwyddiadau allgymorth wyneb yn wyneb.[194]

**125.** Fodd bynnag, dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (“ASCL”) Cymru wrthym fod ysgolion yn ei chael hi’n anodd dod o hyd i’r amser i wneud hynny. Nododd fod gan ysgolion agwedd gadarnhaol tuag at gynghorwyr Gyrfa Cymru yn mynychu nosweithiau rhieni.[195]

**126.** Dywedodd Gyrfa Cymru wrthym, gyda digon o gyllid, y gallai wneud mwy i gefnogi rhieni a gofalwyr, fel:

- “Cynnig cymorth pontio o’r ysgol gynradd i’r ysgol uwchradd drwy ymgysylltu â rhieni mewn digwyddiadau pontio…
- Cynnal gweminarau digidol i rieni er mwyn gwella eu gwybodaeth, eu hyder a’u dealltwriaeth wrth gefnogi penderfyniadau eu plant ynghylch gyrfaoedd, gan gwmpasu pynciau fel gwybodaeth am y farchnad lafur, dewisiadau ôl-16, prentisiaethau ac addysg uwch…
- Sefydlu nosweithiau rhieni digidol rhanbarthol i ganiatáu i rieni ymgysylltu â chynghorydd gyrfaoedd eu plentyn ar adeg sy’n gyfleus iddyn nhw.”

Amcangyfrifwyd mai cost gyfunol yr ymyriadau hyn fyddai tua £34,000 y flwyddyn.[196]

**127.** Yn ystod y sesiwn graffu lafar, dywedodd y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaethau Cymdeithasol wrthym fod rhieni’n chwarae rhan hanfodol yn y broses o gefnogi eu plant. Dywedodd fod tystiolaeth gref iawn i ddangos os oedd y rheini’n wybodus y byddai’r plant hefyd yn wybodus.[197] Yn ddiweddarach, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wrthym y byddai’r Hawl i Ddysgu 14-16 yn cael ei hyrwyddo i rieni, yn ogystal ag i ddysgwyr eu hunain, sy’n creu disgwyliad gan rieni y dylai plant gael y cynnig hwnnw.[198]

[193] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 03 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 07 Grŵp Hyfforddi Educ8
[194] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 38 Into Film Cymru
[195] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 12 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Cymru
[196] Llythyr gan Gyrfa Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2025
[197] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 14
[198] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 55

## Cyflogwyr

**128.** Fel y trafodwn o dan 'Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol' ym mhennod 2, mae gan gyflogwyr rôl allweddol i'w chwarae o ran sicrhau bod gwybodaeth gyfoes am farchnadoedd llafur yn llywio cyngor gyrfaoedd i bobl ifanc. Honnodd Coleg Sir Gâr fod ymgysylltiad cyflogwyr yn hanfodol o ran helpu dysgwyr i archwilio llwybrau gyrfa posibl.[199] Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu bod ymgysylltiad cyflogwyr ag ysgolion yn wael[200] neu'n anghyson[201].

**129.** Awgrymodd rhanddeiliaid ddau brif reswm pam y gallai cyflogwyr ei chael hi'n anodd ymgysylltu â phlant oedran ysgol. Yn gyntaf, roedd cyflogwyr eu hunain yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r amser a'r arian i ymgysylltu â dysgwyr.[202] Yn ail, roedd ysgolion yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r amser a'r lle yn amserlenni eu dysgwyr i ddarparu ar gyfer cyflogwyr.[203]

**130.** Er mwyn gwella ymgysylltiad cyflogwyr â dysgwyr, roedd Grŵp Colegau NPTC yn dadlau dros ehangu partneriaethau rhwng ysgolion a chyflogwyr.[204] Awgrymodd Grŵp Hyfforddi Educ8 y gallai ysgolion elwa o rai darparwyr ôl-16, sydd â chronfeydd data mawr a rhwydweithiau gyda chyflogwyr bach a mawr.[205] Yn y cyfamser, cydnabu Hyfforddiant Cambrian efallai na fyddai'n bosibl i ddarparwyr hyfforddiant seiliedig ar waith llai ac annibynnol fynd i bob ysgol. Ond dadleuodd y gallai darparwyr prentisiaethau gydweithio i roi neges gyson i ysgolion. Roedd hefyd yn dadlau dros well cydweithio rhwng pobl sy'n rhoi cyngor gyrfaoedd a chyflogwyr.[206]

**131.** Roedd y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol yn cytuno bod ymgysylltiad cyflogwyr â dysgwyr yn bwysig, a chanmolodd fodelau fel Addewid Caerdydd (a drafodir ym mhennod 2 o'r adroddiad hwn) ond

---

[199] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 35 Coleg Sir Gâr
[200] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 42 Y Sefydliad Ffiseg
[201] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 07 Grŵp Hyfforddi Educ8; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 07 Grŵp Hyfforddi Educ8; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 05 Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT); Senedd Cymru, 'Llwybrau i addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraffau 39-40
[202] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 127 a 151 (Hyfforddiant Cambrian); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 26 Cyngor Sir Powys; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 38 Into Film Cymru;
[203] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 26 Cyngor Sir Powys; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 35 Coleg Sir Gâr
[204] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 45 Grŵp Colegau NPTC
[205] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 07 Grŵp Hyfforddi Educ8
[206] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 151; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 13 Hyfforddiant Cambrian

pwysleisiodd mai Gyrfa Cymru oedd y corff cywir i arwain ar y gwaith hwnnw. Dywedodd wrthym fod mwy o le i ymgysylltu â chyflogwyr, yn enwedig yn y bartneriaeth addysg a busnes, sy'n cael ei rhedeg gan Gyrfa Cymru.[207] Mae tystiolaeth Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi bod cydweithio â chyflogwyr yn cael ei annog o fewn ei chanllawiau dysgu statudol 14-16.[208]

### Ffynonellau eraill o gyngor gyrfaoedd

**132.** Dywedodd rhai rhanddeiliaid wrthym fod pobl ifanc yn derbyn cyngor gyrfaoedd o ffynonellau eraill, ochr yn ochr â'r rhai a drafodir uchod. Tynnodd CLlLC a Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol ("NYAS") Cymru sylw at rôl gweithwyr ieuenctid, a alwyd gan CLlLC yn 'arf cudd' Cymru.[209] Roedd rhanddeiliaid yn cytuno bod gweithwyr ieuenctid yn ffynhonnell allweddol o gyngor gyrfaoedd, ond roedd angen mwy o hyfforddiant arnynt i wneud hynny'n effeithiol.[210] Tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at y gwerth y mae dysgwyr yn ei roi ar gyngor gan gymheiriaid. Galwodd Into Film Cymru a Choleg Gŵyr Abertawe am fodelau rôl lleol i ddarparu cyngor gyrfaoedd, yn ar lwybrau galwedigaethol, i helpu i normaleiddio'r opsiynau annhraddodiadol hynny.[211]

**Astudiaeth achos 3: y Prosiect Golau Gwyrdd**

Mae'r Prosiect Golau Gwyrdd yn ymyrraeth, a ddarperir yn rhad ac am ddim i ysgolion yn Rhondda Cynon Taf, i ddysgwyr sydd wedi ymddieithrio, neu a oedd mewn perygl o ymddieithrio, o'r ysgol a dod yn NEET ar ôl iddynt gyrraedd 16 oed. Mae'r prosiect yn cynnwys:

- sesiynau cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd gyda chydlynydd Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant dynodedig;
- cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith;
- ymweliadau â cholegau a darparwyr chweched dosbarth;

[207] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 14 a 20-21
[208] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 47 Llywodraeth Cymru
[209] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 25 Gwasanaeth Cenedlaethol Eiriolaeth Ieuenctid (NYAS) Cymru; Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 68 (CLlLC)
[210] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 40
[211] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 38 Into Film Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe

- cefnogaeth a gwybodaeth yn ymwneud ag ymgeisio am swydd neu brentisiaeth.[212]

Gan ddefnyddio cyllid grant a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, cynhaliwyd cynllun peilot ar gyfer y Prosiect Golau Gwyrdd yn Nhymor yr Haf yn y flwyddyn academaidd 2021/22. Nododd data gwerthusiad y cynllun peilot lwyddiant drwy ystod o deilliannau myfyrwyr a staff a oedd yn cynnwys 79 o blith 82 o ddysgwyr yn cael cyrchfan ar gyfer mis Medi a 90% o staff yr ysgol yn nodi bod ganddynt fwy o hyder mewn perthynas â data cyrchfannau dysgwyr.

Yn dilyn llwyddiant y cynllun peilot, penderfynodd Tîm Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant Rhondda Cynon Taf ariannu'r prosiect am flwyddyn academaidd arall. Mae data o fis Chwefror 2025 yn dangos bod 180 o ddisgyblion o 17 ysgol uwchradd ledled Rhondda Cynon Taf yn cymryd rhan yn y prosiect ar hyn o bryd (cynnydd o 137 o ddisgyblion yn 2023/24) gyda gwerthusiadau'n tynnu sylw at adborth rhagorol gan y dysgwyr a staff yr ysgol a oedd yn ymwneud â'r Prosiect Golau Gwyrdd.

Mae cyllido'r Prosiect Golau Gwyrdd wedi'i nodi fel problem barhaus. Cyfrannwyd £45,000 o gyllid grant ychwanegol i ariannu swydd ychwanegol am flwyddyn ac i sicrhau parhad y prosiect tan Awst 2026. Mae'r prosiect hefyd wedi defnyddio cynigion am gyllid ychwanegol ers cynllun peilot 2021/22 o wahanol gynlluniau cyllid grant.

## Profiad gwaith

**133.** Cyn 2015, rhan o'r cylch gwaith a roddwyd i Gyrfa Cymru gan Lywodraeth Cymru oedd cynnal cronfa ddata genedlaethol ar brofiad gwaith a chynnal gwiriadau iechyd a diogelwch ar leoliadau profiad gwaith. Dilëwyd hyn o gylch gwaith Gyrfa Cymru gan Lywodraeth Cymru yn 2015, ac ers hynny disgwylir i ysgolion ymgymryd â hyn eu hunain (er bod addysg gysylltiedig â gwaith yn dal i fod yn rhan o'r cwricwlwm, fel y nodir o baragraff 104 ymlaen). Ers hynny, mae Gyrfa Cymru wedi cyflwyno Partneriaeth Addysg Busnes, fel rhan o'i wasanaeth cyffredinol i gyflogwyr a'i gefnogaeth iddynt wrth weithio gydag ysgolion.

**134.** Clywsom yn gyson fod profiad gwaith yn bwysig i bobl ifanc wrth iddynt baratoi i adael addysg orfodol.[213] Dywedodd Estyn wrth Bwyllgor yr Economi,

[212] Cyngor Rhondda Cynon Taf, 'Llwybrau Ôl-16'
[213] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 129 (Parents' Voices in Wales); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 346 (Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru); Tystiolaeth ysgrifenedig:

Masnach a Materion Gwledig y Senedd ei fod, ar y cyfan, yn teimlo bod disgyblion yn elwa o gyfleoedd profiad gwaith ystyrlon pan fyddant yn gallu cael mynediad atynt.[214] Yn ôl Into Film Cymru, gall profiad gwaith ystyrlon ddarparu cyfleoedd ystyrlon ac effeithiol i ddatblygu sgiliau, codi dyheadau, meithrin hyder, a chwarae rhan allweddol mewn symudedd cymdeithasol o fewn cymunedau ledled Cymru.[215] Ysgrifennodd un person ifanc fod ei brofiad gwaith yn "ddefnyddiol iawn oherwydd os na fuaswn i wedi cael y profiad yma, fuaswn i ddim yn gwybod beth i'w wneud ar ôl blwyddyn 11".[216] Ysgrifennodd unigolyn arall:

> *"Even if young people try a work experience and they do not like it, that's an important learning curve and can be used to recognise skills and target further opportunities."*[217]

**135.** Fodd bynnag, clywsom hefyd fod cyfleoedd profiad gwaith wedi lleihau'n sylweddol ers i Gyrfa Cymru roi'r gorau i ddarparu gwasanaeth lleoli ar ran ysgolion yn 2015.[218] O blith y 295 o bobl ifanc a ymatebodd i gwestiwn am brofiad gwaith yn arolwg Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd, dim ond 24% a ddywedodd eu bod wedi cael cyfle i ymgymryd â phrofiad gwaith, a dim ond 40% o blith y 140 o rieni/gofalwyr a ymatebodd a ddywedodd fod eu plentyn wedi cael cynnig y cyfle i ymgymryd â phrofiad gwaith.[219] Yn yr un modd, canfu ymchwil gan Parentkind mai dim ond 28% o rieni pobl ifanc mewn addysg uwchradd neu ôl-16 yng Nghymru sy'n dweud bod ysgol/coleg eu plentyn yn darparu mynediad at brofiad gwaith defnyddiol neu berthnasol (o'i gymharu â 37% yn Lloegr, 40% yn yr Alban, a 43% yng Ngogledd Iwerddon).[220] Dywedodd Estyn y bu gostyngiad mewn cyfleoedd dros y degawd diwethaf, er ei fod wedi gweld cynnydd amlwg ers y pandemig.[221]

RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe; Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu', Mawrth 2025, paragraffau 51-55

[214] Llythyr gan Estyn at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Mawrth 2025

[215] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 38 Into Film Cymru

[216] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu', Mawrth 2025, paragraff 52

[217] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 08 Unigolyn

[218] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 12 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig: RET 17 Gyrfa Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 14 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)

[219] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu', Mawrth 2025, paragraff 50

[220] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 02 Parentkind

[221] Llythyr gan Estyn at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Mawrth 2025

**136.** Clywsom hefyd fod llawer o leoliadau profiad gwaith yn cael eu canfod a/neu eu trefnu gan rieni/gofalwyr, sy'n rhoi dysgwyr nad oes ganddynt fynediad at y gefnogaeth honno gan rieni dan anfantais.[222] Ysgrifennodd un rhiant:

> *"Roedd disgwyl i rieni a disgyblion ddod o hyd i gyfleoedd heb gymorth a heb ddigon o rybudd. Daeth fy mhlentyn i weithio hefo fi am ychydig ddyddiau, er mwyn iddo allu dweud ei fod wedi ei wneud."*[223]

Roedd Into Film Cymru yn cytuno, gan gyfeirio ar ganfyddiadau pôl YouGov a ddangosodd fod myfyrwyr sy'n cael addysg breifat ddwywaith yn fwy tebygol o ymgymryd â lleoliadau lluosog na myfyrwyr o ysgolion y wladwriaeth.[224]

**137.** Clywsom hefyd fod rhai dysgwyr yn dod o hyd i'w lleoliadau eu hunain. Dywedodd rhai myfyrwyr chweched dosbarth y buom yn siarad â nhw eu bod wedi trefnu profiad gwaith eu hunain mewn meysydd yr oedd ganddynt ddiddordeb ynddynt. Dywedodd eraill eu bod wedi dod o hyd i lwybrau eraill i fagu profiad, er enghraifft drwy gynllun Gwobr Dug Caeredin.[225]

**138.** Clywsom ddau brif reswm dros y gostyngiad mewn cyfleoedd profiad gwaith. Y cyntaf yw bod ysgolion yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i leoliadau profiad gwaith a'u hwyluso i bob dysgwr. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau Dr Hefin David AS yn ei adroddiad 'Pontio i Gyflogaeth'. Daeth i'r casgliad fod "yr adnoddau ar gyfer lleoli ac asesu risg pob cyflogwr yn syrthio y tu allan i'w galluoedd [yr ysgolion]", ac argymhellodd y dylid "sicrhau bod cynnig o leoliad profiad gwaith ystyrlon ar gael i bob dysgwr 14-18 yng Nghymru."[226]

**139.** Yr ail yw bod cronfa gyfyngedig o gyflogwyr sy'n fodlon cynnig profiad gwaith.[227] Clywsom y gall goruchwylio'r dysgwr yn briodol, ynghyd â gofynion ymarferol fel trefnu yswiriant priodol, atal cyflogwyr rhag cynnig lleoliadau profiad

---

[222] Llythyr gan Estyn at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Mawrth 2025; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 01 Education Otherwise; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 45 Grŵp Colegau NPTC; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 18 Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
[223] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu', Mawrth 2025, paragraff 56
[224] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 38 Into Film Cymru
[225] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 42
[226] Dr Hefin David AS, 'Pontio i Fyd Gwaith', Mehefin 2023, tudalennau 3-4
[227] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 12 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Cymru;

gwaith.[228] Dadleuodd eraill fod y cyfleoedd yn fwy cyfyngedig mewn ardaloedd mwy gwledig.[229] Awgrymodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru y gallai Byrddau Gwasanaethau Rhanbarthol helpu i wella cyfleoedd profiad gwaith drwy fanteisio ar rwydweithiau eu cyflogwyr.[230] Roedd y ffederasiwn, a Choleg Gŵyr Abertawe, yn dadlau dros ymestyn modelau fel Addewid Caerdydd.[231]

**140.** Yn y cyfamser, dadleuodd Grŵp Hyfforddi Educ8 y dylid rhoi gwell cefnogaeth i gyflogwyr i wella eu gallu i gynnig lleoliadau o ansawdd uchel.[232] Adroddodd Cyngor Sir Powys am broblemau sylfaenol gyda'r cysylltiadau rhwng ysgolion a chyflogwyr:

> *"Ers i Gyrfa Cymru roi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth hwn, mae ysgolion yn ei chael hi'n anodd dyrannu'r amser sydd ei angen i sicrhau y ceir profiad gwaith ystyrlon ac effeithiol. Yn hytrach, mae dysgwyr yn aml yn cael eu gadael i ddod o hyd i'w profiad gwaith eu hunain sy'n dibynnu ar gysylltiadau â rhieni/gofalwyr. Mae ysgolion yn awgrymu bod diffyg cyflogwyr lleol i weithio gyda nhw, fodd bynnag, mae cyflogwyr lleol yn dweud nad ydynt yn derbyn ceisiadau, felly mae problem amlwg gyda'r broses bresennol."*[233]

**141.** Galwodd nifer o sefydliadau, gan gynnwys Estyn, ar Gyrfa Cymru i ddarparu mwy o gymorth ar gyfer lleoliadau profiad gwaith.[234]

**142.** Fe wnaethom ofyn i Gyrfa Cymru faint y byddai'n ei gostio i gynnig gwasanaeth canolog ar gyfer trefnu lleoliadau profiad gwaith i bob ysgol ledled Cymru. Dywedodd wrthym y byddai model a fyddai'n anelu at drefnu lleoliad i

---

228 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 83 (UCAC); Llythyr gan Estyn at Gadeirydd y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Mawrth 2025; Senedd Cymru, 'Llwybrau i addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 46
229 Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 05 Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT);
230 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 349
231 Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 40 Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTFW); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe
232 Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 07 Grŵp Hyfforddi Educ8
233 Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 26 Cyngor Sir Powys
234 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 9 (Undeb Addysg Cenedlaethol); Llythyr gan Estyn at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Mawrth 2025; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 06 Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 18 Comisiynydd Plant Cymru; Senedd Cymru, 'Llwybrau i addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 45

90% o holl ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn costio tua £2.3 miliwn y flwyddyn. Byddai model amgen, lle y byddai Gyrfa Cymru yn creu ac yn cynnal cronfa ddata ganolog o leoliadau wedi'u fetio i ysgolion eu defnyddio, yn costio tua £150,000 y flwyddyn. Rhybuddiodd Gyrfa Cymru fod darpariaeth profiad gwaith wedi dod yn "eithaf tameidiog" ers 2015, a thynnodd sylw at newidiadau i batrymau gweithio (megis gweithio rhithwir) a fyddai'n effeithio ar unrhyw gyfleoedd o'r fath. Dywedodd y byddai angen astudiaeth ddichonoldeb fanwl cyn sefydlu unrhyw wasanaeth canolog, gan gynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid, ymchwil i ddefnyddwyr gydag ysgolion, a chynllun peilot i dreialu amrywiaeth o ddulliau. Yn absenoldeb astudiaeth o'r fath, bydd Gyrfa Cymru yn gofyn i ysgolion am eu barn ynghylch profiad gwaith yn ystod haf 2025.[235]

**143.** Mae Gyrfa Cymru wedi darparu rhaglen profiad gwaith wedi'i deilwra ar ran Llywodraeth Cymru ers 2022. Esboniodd Gyrfa Cymru fod y rhaglen yn gweithredu mewn dwy ysgol ym mhob awdurdod lleol tan fis Mawrth 2024: yr ysgol â'r cyfraddau presenoldeb isaf a'r ysgol â'r lefelau uchaf o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Ym mis Ebrill 2024 newidiodd hynny am resymau cyllido, ac ar yr adeg honno roedd Gyrfa Cymru yn gweithredu mewn 2 ysgol mewn 13 'clwstwr' o awdurdodau lleol. Mae'r meini prawf cymhwystra ar gyfer profiad gwaith wedi'i deilwra fel a ganlyn:

- presenoldeb (lle mae presenoldeb dysgwr yn y tymor cyn cael ei atgyfeirio yn peri pryder i'r ysgol);
- ymddygiad (lle mae ymddygiad dysgwr yn peri pryder i'r ysgol);
- cyrhaeddiad (lle mae'r dysgwr yn gweithredu islaw targedau unigol);
- Plant sy'n Derbyn Gofal;
- dysgwyr sydd â hawl i brydau ysgol am ddim;
- dysgwyr ag ADY; a
- dysgwyr y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.[236]

**144.** Mae 910 o ddysgwyr wedi cael eu lleoli fel rhan o'r rhaglen profiad gwaith wedi'i deilwra rhwng mis Medi 2022 a mis Mawrth 2025. Dywedodd Gyrfa Cymru wrthym y byddai rhai dysgwyr yn elwa o gael mynediad at y rhaglen profiad

[235] Llythyr gan Gyrfa Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2025
[236] Llythyr gan Gyrfa Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2025

gwaith wedi'i deilwra, gan gynnwys dysgwyr a gafodd eu categoreiddio'n "anaddas" ar gyfer lleoliad, dysgwyr sy'n mynychu unedau cyfeirio disgyblion, a dysgwyr mewn ysgolion arbennig. Roedd yn amcangyfrif y byddai'n costio tuag £800 fesul lleoliad ar gyfer y grwpiau hyn o ddysgwyr.[237]

**145.** Roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth profiad sy'n gysylltiedig â gwaith, ac eglurodd fod y cyllid ychwanegol ar gyfer Gyrfa Cymru yn anelu at "ailennyn diddordeb dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn eu hastudiaethau TGAU, gyda'r nod o'u cynorthwyo i bontio at gam nesaf eu haddysg neu eu hyfforddiant."[238] Pwysleisiodd y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol bwysigrwydd profiad gwaith o'r math cywir, gyda'r mesurau diogelwch a'r gwiriadau iechyd a diogelwch priodol. Cydnabu fod rhywfaint o waith i'w wneud gyda Medr i agor y drysau. Esboniodd fod Llywodraeth Cymru wedi lleihau'r cyllid ar gyfer rhaglen profiad gwaith wedi'i deilwra Gyrfa Cymru, ond ei bod yn awyddus iddi barhau o fewn cyllidebau presennol Gyrfa Cymru.[239]

**146.** Mewn gohebiaeth ddilynol, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y bydd 100 o ddysgwyr yn cael eu rhoi ar leoliad profiad gwaith wedi'i deilwra eleni (o'i gymharu â 631 rhwng 2022-24). Bydd y gwasanaeth profiad gwaith wedi'i deilwra mwy cyfyngedig hwn yn rhan o gynnig craidd Gyrfa Cymru. Cyfeiriodd at ymgysylltiad Gyrfa Cymru ag ysgolion yn ystod haf 2025, a fydd yn arwain at "[d]darlun manwl o'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd, pa gymorth y nodwyd ei fod yn hanfodol, a'r dewisiadau posibl o ran sut olwg allai fod ar ddarpariaeth Gyrfa Cymru yn y dyfodol."[240]

## Rhwystrau i gynnydd yn 16 oed

### Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

**147.** Mae cynyddu nifer y bobl sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn weledigaeth uchel ei phroffil a hirdymor i Lywodraethau presennol a blaenorol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn glir y bydd cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (strategaeth a elwir yn "Cymraeg 2050") yn dibynnu ar ddysgwyr yn gallu datblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg ym mhob cam o addysg a hyfforddiant gorfodol ac ôl-16.[241]

---

[237] Llythyr gan Gyrfa Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2025
[238] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 47 Llywodraeth Cymru
[239] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 24-25
[240] Llythyr gan Lywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Mai 2025
[241] Llywodraeth Cymru, 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr', Rhagfyr 2018, tudalennau 17 a 32

**148.** Er mwyn gwireddu ei huchelgeisiau ar gyfer Cymraeg 2050, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yn ddiweddar. Mae'r Bil wedi cael Cydsyniad Brenhinol ers hynny. Prif nod y ddeddfwriaeth yw sicrhau bod pob dysgwr yn gorffen addysg orfodol fel defnyddwyr Cymraeg annibynnol. Roeddem yn gyfrifol am graffu ar y Bil, ac yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil, gan ddod i'r casgliad y byddai'n arf pwysig i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr.[242]

**149.** Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid yn cytuno bod addysg a hyfforddiant ôl-16 yn hanfodol i gyflawni uchelgeisiau polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg.[243] Mae gan Medr ddyletswyddau o dan Ddeddf 2022 i annog y galw am addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg, a chyfranogiad ynddi. Caiff hyn ei adlewyrchu yng nghynllun strategol drafft Medr.[244]

**150.** Fodd bynnag, y pryder a godwyd amlaf ynghylch y Gymraeg drwy gydol yr ymchwiliad hwn yw nad oes digon o ddarpariaeth ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg. Clywsom nifer o bryderon bod bylchau penodol yn y ddarpariaeth alwedigaethol ôl-16, gan gynnwys gan ddarparwyr galwedigaethol eu hunain.[245] Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg fod 15.9% o weithgareddau dysgu o fewn y chweched dosbarth yn cael eu cynnal yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, o'i gymharu â dim ond 0.2% mewn colegau AB a 0.5% yn y maes dysgu seiliedig ar waith.[246] Amlinellodd CCAC yn glir faint ei phryderon:

> *"Felly, beth ydych chi'n ei gael ydy pobl sydd wedi buddsoddi mewn addysg Gymraeg ar hyd eu gyrfa, wedi gwneud 16 mlynedd, neu yn cyrraedd 16 wedi gwneud 11 mlynedd o addysg Gymraeg, yn sydyn iawn yn mynd i goleg sy'n darparu dim addysg Gymraeg, i bob pwrpas. Felly, does yna ddim dilyniant. Beth dŷn ni'n ei ddweud wrth ein dysgwyr ydy, 'Nid oes yna ddilyniant ystyrlon o ran addysg Gymraeg i chi mewn nifer*

[242] Senedd Cymru, 'Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1', Rhagfyr 2024, paragraffau 33-37
[243] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 41 Medr; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 32 Comisiynydd y Gymraeg
[244] Medr, 'Cynllun Strategol 2025-30', tudalen 5
[245] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 41 Medr; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 375 (Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 38 (Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 46 (Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Tystiolaeth ysgrifenedig RET 03 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[246] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 32 Comisiynydd y Gymraeg

*fawr o lwybrau.' Felly, mae hynny'n cyfleu neges gref iawn. Mae o yn bryder."*[247]

**151.** Clywsom hefyd y bu rhai gwelliannau bach yn ddiweddar mewn lefelau addysgu dwyieithog ar gyrsiau galwedigaethol, yn bennaf oherwydd gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol,[248] a chynnydd yn nifer y cymwysterau cyfrwng Cymraeg.[249] Fodd bynnag, cydnabu'r Coleg ei hun nad oes cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y dysgwyr sy'n astudio'n gyfan gwbl neu'n helaeth iawn drwy gyfrwng y Gymraeg.[250] Roedd eraill, gan gynnwys Estyn, hefyd yn cydnabod bod bylchau sylweddol yn parhau yn y ddarpariaeth alwedigaethol ôl-16 sydd ar gael yn gyfan gwbl, neu'n bennaf, drwy gyfrwng Cymraeg.[251]

**Astudiaeth Achos 4: Darpariaeth Gymraeg Coleg Cambria**

Mae Coleg Cambria yn ceisio cynyddu nifer y disgyblion sy'n manteisio ar ddarpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg drwy fynd i'r afael â hyder dysgwyr a staff yn ogystal â'r canfyddiad o berthnasedd y Gymraeg.

Ar ôl canfod bod llawer o brentisiaid sy'n siarad Cymraeg yn betrusgar i ymgymryd â'u hasesiadau yn y Gymraeg neu nad oeddent yn gweld y Gymraeg fel rhywbeth perthnasol i ddatblygiad eu gyrfa, datblygodd y Coleg gwrs gorfodol ar iaith a diwylliant Cymru i bob prentis. Cynlluniwyd y cwrs hwn i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel sgil gwerthfawr yn y gwaith a rhoi cyd-destun i fanteision dwyieithrwydd yn ogystal â bod yn sylfaen i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth am y Gymraeg a chyfeirio dysgwyr at gyfleoedd ychwanegol i wella eu sgiliau.

Cyflwynodd y Coleg hefyd system olrhain fanwl ar gyfer dysgwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg o'r adeg y byddant yn cofrestru er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hannog a'u cefnogi'n gyson i barhau i astudio yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Mae yna hefyd set ddiofyn "optio allan" ar gyfer dysgwyr Iechyd a Gofal lle mae'n ofynnol i o leiaf 50% o'u hasesiadau fod yn y Gymraeg yn ddiofyn bellach. Mae'r

[247] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 83
[248] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 32 Comisiynydd y Gymraeg; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 34 Colegau Cymru
[249] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 20 Cymwysterau Cymru
[250] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 43 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[251] Estyn, 'Cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y sectorau ôl-16: Gwerthuso Effeithiolrwydd Cynlluniau Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog i'r sector Addysg Bellach a Phrentisiaethau y Coleg Cymraeg Cenedlaethol', Mawrth 2025; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 48-50 (UCAC)

system "optio allan" yn newid y disgwyliad y bydd asesiad cyfrwng Cymraeg yn eithriad i fod yn norm sy'n arwain at gynnydd yn y nifer sy'n manteisio arno.

Yn ôl erthygl Estyn ar arfer effeithiol, effaith y gwaith yw:

- bod bron pob dysgwr yn datblygu dealltwriaeth well o'r Gymraeg a'i diwylliant;
- y cadarnhaodd 95% o ddysgwyr yn arolwg dysgwyr y darparwr eu bod yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg;
- cyfleoedd cynyddol i bob dysgwr mewn iechyd a gofal, gofal plant, garddwriaeth ac amaethyddiaeth i wneud asesiadau yn Gymraeg neu ddilyn eu rhaglen yn ddwyieithog; a
- bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i ddatblygu mwy o hyder yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a bod 84% o gyflogwyr yn yr arolwg cyflogwyr yn cytuno bod y coleg yn cynnig cyfleoedd hyfforddi yn Gymraeg ar gyfer eu prentisiaethau.[252]

**152.** Clywsom fod y chweched dosbarth mewn ysgolion Cymraeg wedi bod yn gryfder yn y ddarpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg. Dadleuodd rhai rhanddeiliaid mai ysgolion cyfrwng Cymraeg yw'r unig ddarparwyr ôl-16 sy'n cyfrannu at gyflawni targedau'r strategaeth Cymraeg 2050.[253]

**153.** Ond er gwaethaf cyfraniad y chweched dosbarth at addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg, clywsom bryderon hefyd am fylchau mewn opsiynau academaidd drwy gyfrwng y Gymraeg. Tynnodd Gyrfa Cymru sylw at y ffaith y gallai fod diffyg cyfle i astudio gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (pynciau "STEM") yn arbennig drwy gyfrwng y Gymraeg.[254] Yn y cyfamser, awgrymodd UCAC fod cyfyngiadau cyllido yn ei gwneud hi'n anodd i rai ysgolion â chweched dosbarth gynnig ystod lawn o opsiynau i ddysgwyr yn y Gymraeg, a bod cyfuno dysgwyr Cymraeg a Saesneg mewn ysgolion bach dwy ffrwd yn tueddu i arwain at bawb yn astudio drwy gyfrwng y Saesneg.[255]

[252] Estyn, 'Y Gymraeg a'i Diwylliant o fewn dysgu yn y gwaith', 28 Mawrth 2025
[253] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 38 (Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 32 Comisiynydd y Gymraeg
[254] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 17 Gyrfa Cymru
[255] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 48-50; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 03 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

**154.** Roedd capasiti'r gweithlu hefyd yn thema allweddol yn y dystiolaeth a gawsom am fylchau yn y ddarpariaeth ôl-16 sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Pwysleisiodd rhai rhanddeiliaid wrthym y gall fod yn heriol, neu hyd yn oed yn amhosibl, recriwtio athrawon a darlithwyr Cymraeg ar lefelau ôl-16.[256] Roedd capasiti'r gweithlu yn y sector addysg cyn-16 hefyd yn thema allweddol yn ein gwaith craffu ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru).[257]

**155.** Dywedodd Grŵp Hyfforddi Educ8 nad oes gan rai darparwyr prentisiaethau ddigon o sgiliau Cymraeg i gyflwyno elfennau technegol y brentisiaeth yn y Gymraeg, hyd yn oed os ydynt yn gallu sgwrsio yn y Gymraeg.[258] Dywedodd eraill fod angen uwchsgilio staff presennol.[259] Yn ôl ColegauCymru, mae Coleg Gwent, gyda chefnogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, wedi cynyddu dysgwyr dwyieithog mewn meysydd allweddol fel gofal plant a gofal iechyd o 7% i 52% dros y pum mlynedd diwethaf.[260] Ar y llaw arall, dywedodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wrthym fod cannoedd o staff yn cael eu huwchsgilio ar hyn o bryd. Roeddent yn dadlau dros ymestyn y mathau hyn o gynlluniau yn y dyfodol i helpu siaradwyr presennol i ddod yn hyderus wrth addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.[261]

**156.** Clywsom hefyd nad yw rhai dysgwyr yn symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd eu bod yn dewis peidio. Gall hyn ddigwydd oherwydd bod gan y dysgwr ddiffyg hyder yn ei sgiliau Cymraeg, fel yr amlygodd Comisiynydd y Gymraeg[262] a Hyfforddiant Cambrian.[263]

**157.** Fodd bynnag, cawsom dystiolaeth hefyd i awgrymu bod llawer o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn dewis cyrsiau Saesneg, p'un a oes cyrsiau cyfatebol yn y Gymraeg ar gael ai peidio ac waeth beth fo lefelau eu hyder.[264] Roedd hon yn thema arbennig o gryf ar draws y dystiolaeth a ddarparwyd gan ddarparwyr cyrsiau galwedigaethol ôl-16.[265] Dywedodd Hyfforddiant Cambrian wrthym fod

[256] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 83 (CCAC); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 45 Grŵp Colegau NPTC
[257] Senedd Cymru, 'Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1', Rhagfyr 2024, paragraff 38 ymlaen
[258] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 182
[259] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 67 (UCAC)
[260] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 34 Colegau Cymru
[261] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 105-106
[262] Comisiynydd y Gymraeg, 'Addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg: llais y dysgwyr', 17 Tachwedd 2023, tudalen 3
[263] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 184
[264] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 55
[265] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 375 (Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 25 Estyn; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 17 Gyrfa Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 07 Grŵp Hyfforddi Educ8

llawer o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn awyddus i siarad yr iaith, ond ei bod yn well ganddynt ymgymryd â rhannau ysgrifenedig y cymwysterau yn Saesneg.[266] Adroddodd Comisiynydd y Gymraeg fod rhai dysgwyr yn credu bod astudio yn Saesneg yn well ar gyfer eu rhagolygon swyddi yn y dyfodol.[267] Yn yr un modd, dywedodd Grŵp Hyfforddi Educ8 fod rhai dysgwyr yn dewis addysg ôl-16 cyfrwng Saesneg er mwyn gwella eu sgiliau Saesneg.[268]

**158.** Clywsom y bydd gwella'r wybodaeth a roddir i ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr am fanteision addysg a hyfforddiant ôl-16 cyfrwng Cymraeg yn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae Gyrfa Cymru yn cydnabod ei rôl o ran hyrwyddo gwerth sgiliau Cymraeg fel rhan o'u cyfweliadau gyrfaoedd.[269]

**159.** Fodd bynnag, roedd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cytuno bod y wybodaeth a roddir i ddysgwyr am opsiynau ôl-16 cyfrwng Cymraeg yn anghyson, ac y dylid ei gwella.[270] Ar y llaw arall, dywedodd Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg ("CYDAG") wrthym y dylid ymgymryd â gwaith ar lefel genedlaethol i gyfleu i rieni fanteision astudio drwy gyfrwng Cymraeg.[271] Roedd y safbwyntiau hyn yn gyson â'r dystiolaeth a gawsom gan Gomisiynydd y Gymraeg:

> *"Mae [dysgwyr yn credu y byddai astudio drwy gyfrwng y Saesneg ar ôl 16] yn amlygu angen i godi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt i ddefnyddio eu Cymraeg wrth iddynt barhau â'u haddysg ac wrth fynd mewn i fyd gwaith, gan gynnwys manteision gwneud hynny. Dylid gwneud hyn yn rhan o'r pecyn o wybodaeth am ddewisiadau addysg a hyfforddiant, cymorth gyrfaoedd a phrofiad gwaith a gynigir i bobl ifanc, gan ysgolion, darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol a Gyrfa Cymru.*[272]

**160.** Roedd rhwystrau eraill i addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ôl-16, a godwyd yn llai aml, yn cynnwys:

[266] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 180-181
[267] Comisiynydd y Gymraeg, 'Addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg: llais y dysgwyr', 17 Tachwedd 2023, tudalen 3
[268] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 07 Grŵp Hyfforddi Educ8
[269] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 256
[270] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 43 Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Tystiolaeth ysgrifenedig RET 39 Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
[271] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 13
[272] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 32 Comisiynydd y Gymraeg

- y ffaith bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel arfer yn fwy prin, sy'n ei gwneud yn llai hygyrch, sy'n golygu bod rhai dysgwyr yn penderfynu peidio dewis y ddarpariaeth (gweler paragraff 190 o dan 'Trafnidiaeth' isod)[273];

- y model cyllido: Dadleuodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, oherwydd bod cyllid yn dilyn y dysgwr, fod hyn yn cosbi grwpiau cyfrwng Cymraeg lle bydd niferoedd y dysgwyr "o reidrwydd" yn mynd i fod yn llai[274]; a

- bod colegau AB yn ei chael hi'n anodd hyrwyddo eu cynigion Cymraeg oherwydd bod ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd â chweched dosbarth yn cyfyngu ar eu mynediad.[275]

**161.** Clywsom mai effaith gyfunol yr holl rwystrau hyn yw bod dysgwyr yn symud i addysg a hyfforddiant ôl-16 cyfrwng Saesneg, neu eu bod yn aberthu'r hyn y maen nhw am ei astudio er mwyn parhau i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.[276]

**162.** Cawsom amrywiaeth o awgrymiadau gan randdeiliaid i wella ansawdd ac argaeledd darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg:

- Galwodd un dysgwr y gwnaethom siarad ag ef, a oedd yn astudio mewn coleg, am well darpariaeth Gymraeg ôl-16, ac am fwy o gefnogaeth i ddysgwyr a oedd wedi mynd i ysgolion Cymraeg i addasu i amgylcheddau Saesneg eu hiaith os nad oes darpariaeth Gymraeg ar gael.[277]

- Dadleuodd Medr ac eraill dros well cydweithio rhwng y chweched dosbarth a cholegau.[278] Dadleuodd CYDAG:

  *"Mae o jest yn fater o edrych ar ble mae'r ddarpariaeth yma orau i gael ei chynnig, ac a ydy datblygu'r ddarpariaeth yma yn y fan hon mewn gwirionedd yn tanseilio darpariaeth sydd*

---

[273] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 32 Comisiynydd y Gymraeg; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 26 Cyngor Sir Powys; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 45 Grŵp Colegau NPTC;
[274] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 29 a 67
[275] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 35 Coleg Sir Gâr
[276] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 54-55 (UCAC); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 247 (Gyrfa Cymru); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 32 Comisiynydd y Gymraeg
[277] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 59
[278] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 189 (ColegauCymru); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 170-171 (Medr); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 32 Comisiynydd y Gymraeg

*eisoes yn bodoli, ac a fyddai yna ddefnydd gwell o'r amser a'r arian a'r egni a'r brwdfrydedd tu ôl i hynny."*[279]

- Mwy o gymwysterau yn y Gymraeg.[280]
- Mwy o gyllid ar gyfer darpariaeth ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg.[281]
- Cynllun ar gyfer y gweithlu i sicrhau bod gan y gweithlu y sgiliau Cymraeg gofynnol.[282]
- Sicrhau bod cyflogwyr yn defnyddio'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd ("CEFR") i egluro'r sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swyddi, a thrwy hynny hwyluso llwybrau pobl ifanc i gyflogaeth.[283] (Mae CEFR yn fframwaith a ddefnyddir mewn llawer o wledydd Ewropeaidd i ddisgrifio gallu ieithyddol, a bydd yn rhan annatod o weithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.[284])
- Darparu gwersi 'dysgu Cymraeg' achrededig fel rhan o gyrsiau addysg drydyddol.[285]

**163.** Nododd Llywodraeth Cymru fod darparu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o ddyletswyddau strategol Medr. Eglurodd y bydd Medr yn gweithio ochr yn ochr â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod y dyletswyddau'n cael eu cyflawni. Mae'r Coleg wedi cael dros £10 miliwn o gyllid ar gyfer 2025-26 i ymestyn y rhaglen cyfrwng Cymraeg drwy ehangu ei raglen o grantiau datblygu ar gyfer colegau AB a darparwyr prentisiaethau.[286]

**164.** Cydnabu'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch ein pryderon ynghylch darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, disgrifiodd y darlun o ddarpariaeth Gymraeg fel un sy'n gwella, a chanmolodd waith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a darparwyr ôl-16 i wella argaeledd. Tynnodd sylw at y ffaith bod dros 20% o weithgareddau mewn colegau a thros 40% mewn hyfforddiant

---

[279] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 59
[280] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 34 Colegau Cymru; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 83 (CCAC)
[281] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 34 Colegau Cymru
[282] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 06 Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[283] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 39 Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
[284] Senedd Cymru, 'Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1', Rhagfyr 2024, paragraff 183 ymlaen
[285] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 39 Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
[286] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 47 Llywodraeth Cymru

seiliedig ar waith yn cynnwys rhywfaint o ddarpariaeth Gymraeg. Cyfeiriodd at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd mewn meysydd fel deintyddiaeth a milfeddygaeth, a phwysigrwydd darpariaeth o'r fath i gymunedau lleol. Ychwanegodd y Gweinidog fod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi cael y dasg o ddatblygu cynllun gweithredu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg ôl-16.[287]

## Anableddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol ("ADY")

**165.** Cafodd yr hen system Anghenion Addysg Arbennig ("AAA") ei disodli gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Cyflwynwyd y Ddeddf hon fesul cam. Dysgwyr a ddechreuodd astudio mewn sefydliadau ôl-16 o fis Medi 2023 oedd y cyntaf i gael eu cefnogi o dan y system newydd.

**166.** Ers 2022, rydym wedi bod yn cynnal ymchwiliad hirdymor sy'n craffu ar weithredu'r diwygiadau ADY. Mae'r corff helaeth hwn o waith wedi nodi cyfres o bryderon ynghylch goblygiadau Deddf ADY a'r Cod ADY cysylltiedig. Fe wnaethom amlinellu ein pryderon yn llawn mewn adroddiad interim, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024.[288]

**167.** Er nad ydym eto wedi ystyried gweithrediad y Ddeddf ADY yn benodol mewn sefydliadau ôl-16, roedd y themâu yn ein tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn yn gyson â'n canfyddiadau hyd yma ynghylch darpariaeth ar gyfer dysgwyr oedran ysgol orfodol. Mae ymchwil gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi canfod bod disgyblion ag anableddau yn llai tebygol o fynd i'r chweched dosbarth neu addysg bellach, ac nid yw bron i un rhan o bump o'r disgyblion â'r anableddau mwyaf difrifol yn symud ymlaen i'r naill leoliad na'r llall.[289] Yn yr un modd, adroddodd ymchwilwyr o Brifysgol Caerdydd fod cyfraddau is o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a/neu anableddau yn cymryd rhan mewn addysg ôl-16.[290] Cododd yr Undeb Addysg Cenedlaethol bryder sylweddol ynghylch cyfranogiad ôl-16 ar gyfer dysgwyr ag ADY:

> *"The statistics are really stark, aren't they, for young people with additional learning needs, and they coincide particularly with the introduction of the Additional Learning Needs and*

---

[287] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 150-155
[288] Senedd Cymru, 'Gweithredu diwygiadau addysg: Adroddiad interim', Gorffennaf 2024
[289] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 'Deall annhegwch mewn addysg drydyddol: Y prif ganfyddiadau a dadansoddi data', Hydref 2024, tudalen 9
[290] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 21 Dr. Katy Huxley a Rhys Davies, Prifysgol Caerdydd

*Education Tribunal (Wales) Act 2018. Pushing down the responsibilities to schools and colleges to support young people without the funding and the training and the support to do that seems to definitely be correlating with those young people not being in education, employment or training. That appears to be the correlation. The statistics are horrible …. as a disabled person, I find it chilling."*[291]

**168.** Argaeledd ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr anabl a dysgwyr ag ADY oedd y thema fwyaf cyffredin ar draws y dystiolaeth a dderbyniwyd. Dywedodd gwahanol randdeiliaid fod y disgwyliadau ar gyfer dysgwyr ag ADY, yn y bôn, yn rhy isel. Dywedodd un unigolyn sydd â phlentyn ag ADY wrthym nad oes gan ysgol ei blentyn fawr ddim dyhead na disgwyliad y bydd yn mynd ymlaen i AU, er gwaetha'r ffaith bod y rhiant yn credu y gallai wneud hynny.[292] Roedd un person ifanc a ymatebodd i arolwg Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd yn teimlo y gwahaniaethwyd yn ei erbyn oherwydd ei anghenion ychwanegol. Hoffai pe bai ei opsiynau wedi bod yn fwy cynhwysol. Dywedodd eraill nad oedd eu hysgolion wedi rhoi digon o wybodaeth iddynt am eu hopsiynau ôl-16, neu bod yr ysgol wedi gwrthod eu trafod yn gyfan gwbl.[293]

**169.** Roedd llawer yn cytuno nad yw'r ddarpariaeth brif ffrwd yn ddigon hyblyg ar gyfer anghenion dysgwyr ag ADY. Fe'i disgrifiwyd gan NASUWT fel cymysg ac anhrefnus. Dywedodd Gyrfa Cymru wrthym fod diffyg darpariaeth Lefel 1 briodol ar gyfer dysgwyr ag ADY. Yn ôl Estyn, mae llawer o golegau'n cael trafferth recriwtio staff sydd â'r sgiliau angenrheidiol i gefnogi dysgwyr.[294] Yn y cyfamser, cododd y Comisiynydd Plant nifer o bryderon ynghylch y ddarpariaeth o fewn y sector AB, gan gynnwys cyllid, capasiti'r gweithlu, ac ansawdd y wybodaeth a gedwir am ddysgwyr. Fodd bynnag, dywedodd fod gwell arbenigedd ar draws colegau Cymru a gwell trefniadau gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol.[295]

---

[291] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 74
[292] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 143 (Parents' Voices in Wales); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 08 Unigolyn Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 46 Dr Elisa Vigna ac Andrea Meek, Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, Prifysgol Caerdydd
[293] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Gwaith ymgysylltu', Mawrth 2025, paragraffau 38 a 67
[294] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 05 Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 271; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 24 Estyn
[295] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 18 Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

**170.** Dadleuodd eraill na ddylid annog pob dysgwr ag ADY i ddilyn llwybrau 'prif ffrwd'. Dadleuodd cynrychiolwyr Parents' Voices in Wales y dylai'r system addysg ganolbwyntio ar daith o feithrin sgiliau bywyd, adeiladu ar gryfderau'r dysgwyr, gan gydnabod nad yw taith y dysgwr o reidrwydd yn un academaidd a thraddodiadol.[296] Ar y llaw arall, galwodd Cymdeithas Syndrom Down am well mynediad at gyrsiau coleg cynhwysol ac adolygiad o ddarpariaeth breswyl arbenigol i weld sut y gellid efelychu'r model hwnnw o gefnogaeth i ddysgwyr mewn cymunedau lleol.[297]

**171.** Dadleuodd ymchwilwyr o'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl ym Mhrifysgol Caerdydd y dylid datblygu ystod ehangach o interniaethau â chymorth gyda chwmnïau lleol, oherwydd gall y gofynion mynediad ar gyfer prentisiaethau fod yn rhy uchel i rai dysgwyr.[298] Yn y cyfamser, dadleuodd Natspec a Chynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector y dylid darparu darpariaeth ôl-16 arbenigol i rai dysgwyr, yn hytrach na'u gwthio i leoliadau prif ffrwd nad ydynt yn addas ar eu cyfer:

> *"Different FEIs have different offers to learners with learning difficulties and disabilities and we remain concerned that a prevailing place-based assumption that inclusion means 'all learners being educated in a mainstream setting' risks denying some young people with the most complex needs the specialist further education they need … We must not allow the principle of educating all young people in a mainstream setting to take priority over the right of learners with learning difficulties and / or disabilities to a learning experience of equally high quality to their non-disabled peers."*[299]

**172.** Clywsom nifer sylweddol o bryderon ynghylch effaith y Ddeddf a'r Cod ADY ar gynnydd ôl-16 ar gyfer dysgwyr ag ADY. Tynnodd Natspec a Chynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector sylw at nifer o oblygiadau yn sgil y Ddeddf ADY a'r Cod cysylltiedig, gan gynnwys:

- Bod Cynghorwyr Gyrfa Cymru wedi colli eu rolau statudol o ran hwyluso llwybrau i addysg bellach a hyfforddiant i ddysgwyr ag ADY cymhleth.

---

[296] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 210
[297] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 16 Cymdeithas Syndrom Down
[298] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 46 Dr Elisa Vigna ac Andrea Meek, Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, Prifysgol Caerdydd
[299] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 27 Natspec a Chynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA)

Mae'r Ddeddf yn tybio y bydd dysgwyr o ysgolion arbennig yn symud ymlaen i ddarpariaeth 'sgiliau byw'n annibynnol' eu coleg AB lleol.

- Terfyn cyffredinol o ddwy flynedd ar addysg AB, nad yw'n briodol ar gyfer dysgwyr ag ADY, a all gymryd mwy o amser i ddysgu ac felly bydd angen tair blynedd neu fwy arnynt i gwblhau rhaglenni addysg.
- Nad yw'r Cod ADY yn diffinio beth mae AB yn ei olygu i berson ifanc ag ADY cymhleth a phryd y bernir ei fod wedi dechrau.
- Cynlluniau Datblygu Unigol ("CDU") anghyson ac annigonol sy'n brin o uchelgais ar gyfer dysgwyr, sy'n methu â chydnabod anghenion therapiwtig dysgwyr yn ffurfiol, a CDU sy'n cael eu terfynu os yw sefydliadau addysg AB yn datgan nad ydynt yn gallu diwallu anghenion y dysgwr.[300] Dywedodd CLlLC ac CCAC hefyd nad yw pob coleg na darparwr hyfforddiant yn gallu bodloni gofynion CDU dysgwyr unigol.[301]

**173.** Canolbwyntiodd eraill ar y goblygiadau i gyllid ac adnoddau yn sgil y Ddeddf ADY. Amcangyfrifodd y Comisiynydd Plant fod Hyfforddiant Cambrian wedi rhagweld y bydd cost ADY yn y sector addysg bellach yn cyrraedd rhwng £2 filiwn a £6 miliwn yn 2025/26.[302] Ceir diffyg cyllid a hyblygrwydd o fewn rhaglenni presennol i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol i ddysgwyr ADY sy'n gobeithio cael mynediad at brentisiaethau.[303] Crynhodd yr NASUWT safbwyntiau rhai cynrychiolwyr o sefydliadau AB[304]:

> *"The assumption that the FE/HE institution can provide for the ALN needs of pupils transitioning there takes no account of the individual and specific needs, nor do FEIs have the funds to cover these specific personal ALN needs."*

Adroddwyd bod rhieni'n dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael gwell cefnogaeth pan oedd cyllid ADY yn cael ei reoli'n ganolog gan Lywodraeth Cymru, yn hytrach na bod costau'n cael eu rhannu ar draws awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau AB.[305] Ar y llaw arall, dywedodd Cymdeithas Syndrom Down

[300] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 27 Natspec a Chynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector
[301] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 14 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)
[302] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 18 Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 32 Comisiynydd y Gymraeg
[303] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 13 Hyfforddiant Cambrian
[304] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe
[305] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 05 Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT);

fod yr oedi cyn i Lywodraeth Cymru gytuno ar gyllid wedi gwthio rhai dysgwyr i ddod yn NEET.[306]

**174.** Codwyd ansawdd y cyngor gyrfaoedd a roddir i ddysgwyr ag ADY a'u teuluoedd gan rai rhanddeiliaid hefyd.[307] Dywedodd rhieni plant ag ADY, a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw, wrthym y dylai cyngor gyrfaoedd fod yn glir, yn benodol ac y dylai ddechrau'n gynnar.[308] Fodd bynnag, roedd yr NASUWT o'r farn nad oes gan ysgolion y capasiti i wneud hynny o bosibl.[309] Adroddodd Natspec a Chynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector fod eu hymchwil eu hunain gyda rhieni/gofalwyr dysgwyr ag ADY wedi canfod bod dwy ran o dair o rieni wedi graddio ansawdd y wybodaeth a gafodd eu person ifanc fel 'gwael'.[310]

**175.** Nododd y Gymdeithas Syndrom Down fod gwybodaeth i ddysgwyr â syndrom Down yn anghyson ar y gorau ac yn annigonol yn gyffredinol. Ychwanegodd nad yw'n ymddangos bod siop-un-stop ar gael i ddysgwyr â syndrom Down a'u teuluoedd ledled Cymru i gael mynediad at wybodaeth am ddarpariaeth ôl-16 ac opsiynau hyfforddi, yn enwedig o fewn y sector arbenigol.[311] Rhannodd unigolyn safbwyntiau tebyg.[312]

**176.** Argymhellodd yr NASUWT y dylai cynghorwyr Gyrfa Cymru fod yn cefnogi dysgwyr ag ADY.[313] Fodd bynnag, nododd Gyrfa Cymru eu hunain fod y gostyngiad yn nifer y dysgwyr y nodwyd bod ganddynt ADY (sydd wedi lleihau dros 50% ers cyflwyno Deddf ADY[314]) wedi effeithio ar nifer y dysgwyr sy'n derbyn eu cymorth ADY un-i-un ychwanegol.[315]

---

306 Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 16 Cymdeithas Syndrom Down;
307 Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 34
308 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 118-120 (Parents' Voices in Wales); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 46 Dr Elisa Vigna ac Andrea Meek, Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, Prifysgol Caerdydd
309 Tystiolaeth ychwanegol: RET 05 Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) - 18 Chwefror 2025;
310 Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 27 Natspec a Chynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector
311 Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 16 Cymdeithas Syndrom Down
312 Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 08 Unigolyn
313 Tystiolaeth ychwanegol: Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT);
314 Mae nifer y dysgwyr y nodwyd bod ganddynt AAA/ADY wedi lleihau o 93,000 yn 2020/21 i 44,000 yn 2024/25. Gweler: Llywodraeth Cymru, 'Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion', 23 Gorffennaf 2025
315 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 193 (Parents' Voices in Wales); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 276 (Gyrfa Cymru); Tystiolaeth ysgrifenedig:

**177.** Clywsom hefyd fod pobl ag anableddau dysgu yn wynebu heriau sylweddol pan fyddant yn ymuno â'r gweithlu.[316] Dywedodd y rhanddeiliaid wrthym fod gan ddysgwyr ag ADY lai o gyfleoedd i gael profiad gwaith, neu fod profiad gwaith wedi'i gyfyngu i sefyllfaoedd artiffisial.[317]

**178.** Dadleuodd ymchwilwyr yn y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl ym Mhrifysgol Caerdydd ei bod yn hanfodol cynnig mwy o hyfforddiant ôl-16 a gweithgaredd codi ymwybyddiaeth i gyflogwyr er mwyn herio stereoteipiau a'u haddysgu ynghylch manteision cael gweithlu amrywiol. Fe wnaethant hefyd alw am 'Strategaeth Hyfforddiant Swyddi Genedlaethol i Gymru':

> *"Since the Engage to Change project ended, there is no bespoke supported employment provision in many areas of Wales. People who are not suitable to start a supported apprenticeship, cannot access support and will stay economically inactive. Once again, there is a need for Welsh Government to have a National Job Coaching Strategy for Wales, where job coach support is provided to anyone who needs it, available in various stages of employment. Job coach support should be embedded in every employment programme, to ensure equity of opportunity."*[318]

**179.** Cydnabu Gyrfa Cymru fod "cyfleoedd i gryfhau a gwella ein darpariaeth i ddysgwyr ag ADY". Amcangyfrifodd y byddai cynnig hyfforddiant swyddi i 20% o'r garfan ôl-16 mewn ysgolion arbennig (tua 254 o ddysgwyr) a chanolfannau adnoddau – a fyddai'n cynnwys dod o hyd i leoliadau profiad gwaith, cynnal sesiynau grŵp bach ddwywaith y flwyddyn, a gweithio gydag ysgolion – yn costio tua £2 filiwn y flwyddyn.[319]

**180.** Cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at ffigurau Medr sy'n dangos bod 86% o ddysgwyr â darpariaeth AAA neu ADY yn symud ymlaen i addysg drydyddol, o'i gymharu â 91% o ddysgwyr heb ddarpariaeth AAA neu ADY. Noda ganfyddiadau'r adolygiad thematig a gynhaliwyd gan Estyn yn ddiweddar, a ganfu fod colegau ar "wahanol gyfnodau" o ran gweithredu Deddf ADY. Ychwanegodd fod Medr wedi

---

[316] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 46 Dr Elisa Vigna ac Andrea Meek, Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, Prifysgol Caerdydd
[317] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 16 Cymdeithas Syndrom Down; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 08 Unigolyn Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 05 Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT);
[318] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 46 Dr Elisa Vigna ac Andrea Meek, Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, Prifysgol Caerdydd
[319] Llythyr gan Gyrfa Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Mai 2025

darparu £16.9 miliwn yn y flwyddyn ariannol 2024-25 i gefnogi sefydliadau AB gyda darpariaeth ADY.[320]

**181.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yr heriau yn y ddarpariaeth ADY ôl-16, ond ychwanegodd ei bod yn ddyddiau cynnar i golegau o dan y system newydd. Canmolodd waith yr Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol newydd ar gyfer ADY Ôl-16 i baratoi Sefydliadau Addysg Bellach ar gyfer gweithredu, hyfforddi staff, cynyddu dealltwriaeth, sefydlu systemau a gwella darpariaeth. Aeth Ysgrifennydd y Cabinet ymlaen i egluro bod rhai dysgwyr yn cael eu rhoi mewn darpariaeth arbenigol, yn hytrach na cholegau prif ffrwd, ac y byddai Medr yn gweithio i sicrhau bod pobl ifanc ag ADY yn cael eu cefnogi i gael mynediad at yr addysg sy'n iawn iddyn nhw. Canmolodd hefyd waith Addewid Caerdydd mewn perthynas â sut y gall gefnogi dysgwyr ag ADY.[321]

## Cludiant

**182.** Cyhoeddwyd y canllawiau statudol cyfredol ar deithio gan ddysgwyr ym mis Mehefin 2014. Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn ynghylch a ydynt yn darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim i ddysgwyr ôl-16, gan orfod sicrhau bod unrhyw benderfyniad yn berthnasol i bob dysgwr mewn amgylchiadau tebyg sy'n byw yn ardal yr awdurdod hwnnw. Fodd bynnag, rhaid i awdurdod lleol "roi sylw yn enwedig" i anghenion "dysgwyr sydd yn anabl neu ag anawsterau dysgu".[322]

**183.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Adolygiad o Deithio gan Ddysgwyr Ôl-16 yn 2019.[323] Fodd bynnag, cafodd y gwaith ei oedi yn sgil y pandemig Covid-19, ac ehangwyd cwmpas yr adolygiad i gynnwys plant 4-16 oed hefyd. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth, mewn dadl yn y Cyfarfod Llawn ym mis Mawrth 2025, y byddai ef ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn cynnal uwchgynhadledd teithio gan ddysgwyr ar 9 Mai, ac y byddai'n ymgynghori ar ganllawiau newydd ar ôl yr uwchgynhadledd.[324]

**184.** Cyhoeddwyd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ei chanllawiau diwygiedig ar deithio gan ddysgwyr ar 11 Mehefin 2025, ar ôl inni gymryd tystiolaeth gan

[320] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 47 Llywodraeth Cymru
[321] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 22 a 145-148
[322] Llywodraeth Cymru, 'Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol', Mehefin 2014 tudalen 17
[323] Llywodraeth Cymru, 'Datganiad Ysgrifenedig: Adolygiad o Deithio gan Ddysgwyr Ôl-16', 13 Tachwedd 2019
[324] Y Cyfarfod Llawn, 25 Mawrth 2025 Cofnod y Trafodion, paragraffau 227-228

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'i Gweinidogion. Mae mwyafrif y gwelliannau i'r canllawiau yn adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth neu bolisi ers i'r canllawiau gael eu cyhoeddi'n wreiddiol yn 2014. Fodd bynnag, nid yw'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â hawl teithio gan ddysgwyr wedi newid ers 2008. Yr unig newid arfaethedig sylweddol sy'n ymwneud â chludiant i ddysgwyr ôl-16 yw y dylai'r canllawiau'n nodi'n benodol y dylai awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth am ddarpariaeth teithio i ddysgwyr sy'n "hawdd dod o hyd iddi" ac y dylai cymorth fod ar gael i bob dysgwr ôl-16, gan gynnwys darpariaeth a chymorth nad ydynt yn cael eu darparu gan yr awdurdod lleol (megis colegau AB).[325]

**185.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi lansio cynllun peilot sy'n gosod cap o £1 ar bris tocynnau bws sengl yng Nghymru, a £3 ar bris tocynnau diwrnod cyfan, i bobl ifanc 16-21 oed ac iau.[326] Mae hyn yn cael ei ymestyn i blant 5-15 oed o fis Tachwedd 2025.[327] Ym mis Hydref 2025, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru y byddai'r cynllun peilot yn cael ei werthuso'n drylwyr fel rhan o werthusiad annibynnol i asesu effeithiolrwydd y cynllun.[328]

**186.** Drwy gydol tymor y Senedd hon, rydym wedi clywed am effaith negyddol anawsterau teithio ar bresenoldeb dysgwyr yn yr ysgol, a bod hynny'n cael effeithiau anghymesur ar ddysgwyr ag ADY.[329] Yn ein hadroddiad ar absenoldeb disgyblion yn 2022, fe wnaethom yr argymhelliad canlynol, a dderbyniwyd mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru:

> *"Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau mai anghenion unigol a phenodol plant a phobl ifanc sy'n sail i benderfyniadau ar deithio gan ddysgwyr. Er mwyn helpu awdurdodau lleol i fabwysiadu'r dull hwn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o gyllid i sicrhau bod gan yr holl blant a phobl ifanc fynediad at opsiynau trafnidiaeth priodol i gyrraedd yr ysgol yn ddiogel. Dylai'r adolygiad presennol edrych ar flaenoriaethu datrysiad dysgwr yn gyntaf; a dylai fod yn radical wrth chwilio am ddatrysiadau arloesol."*[330]

[325] Llywodraeth Cymru, 'Dogfen Ymgynghori: Canllawiau gweithredol ynghylch teithio gan ddysgwyr 2025', 11 Mehefin 2025, tudalennau 27-28
[326] Llywodraeth Cymru, 'Cytundeb y gyllideb yn sicrhau £100m yn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus', Chwefror 2025
[327] Llywodraeth Cymru, 'Tocyn bws £1 i bobl ifanc o fis Medi', Gorffennaf 2025
[328] Cyfarfod Llawn, 7 Hydref 2025: Cofnod y Trafodion, paragraff 424
[329] Senedd Cymru, 'A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?', Gorffennaf 2024, tudalennau 138-143 a 159
[330] Senedd Cymru, 'Absenoldebau disgyblion', Tachwedd 2022

**187.** Clywsom bryderon yn aml ynghylch effaith cludiant i ddysgwyr ar gyfranogiad mewn addysg ôl-16. Dywedodd mynychwyr ein digwyddiad i randdeiliaid wrthym y gall teithio fod yn rheswm pam mae dysgwyr yn dewis un opsiwn ôl-16 yn hytrach nag un arall, neu hyd yn oed yn rheswm pam nad yw rhai dysgwyr yn ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant ôl-16 o gwbl.[331] Pwysleisiodd ColegauCymru wrthym mai cludiant yw'r her ariannol unigol fwyaf a'r her ymarferol fwyaf y mae llawer o ddysgwyr yn ei hwynebu fwy na thebyg.[332] Fe wnaethant gyfeirio at ddata Llywodraeth Cymru, sydd wedi canfod bod 41% o bobl ifanc 16 i 24 oed wedi nodi cludiant fel y rhwystr mwyaf o ran cael cwrs, hyfforddiant neu swydd newydd.[333] Dywedodd eraill, gan gynnwys Estyn, y gall cludiant ddylanwadu ar benderfyniadau ôl-16 dysgwyr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.[334] Disgrifiodd NASUWT yn glir y dewisiadau sy'n wynebu llawer o ddysgwyr:

> *"So, to move to an FE college or similar provision will invariably involve further distance to travel, a longer distance to travel, and a change in the dynamics of getting to that place, staying in that place and so on and so forth … It can be a barrier to some pupils who are making a decision based on certain factors, if the decision they have is, 'Well, I can stay in my local school 3 miles away, or I can travel every day on the 6 o'clock bus in the morning to the FE college 20 miles away; I know what choice I'm going to make.'"*[335]

**188.** Roedd pryderon gan randdeiliaid yn ymwneud â chost ac argaeledd trafnidiaeth. O ran cost, nododd rhai rhanddeiliaid yr amrywiad ar draws awdurdodau lleol ac ar draws colegau yn lefel y cymorth ariannol y maent yn ei ddarparu i ddysgwyr.[336] Dywedodd Estyn fod "pryder cynyddol" ymhlith arweinwyr

---

[331] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 50
[332] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 195
[333] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 34 Colegau Cymru
[334] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 201 (Parents' Voices in Wales); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 45 Grŵp Colegau NPTC; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 234 (Estyn); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 17 Gyrfa Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 14 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 10 Grŵp Llandrillo Menai; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 05 Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT);
[335] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 35
[336] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 235 (Estyn); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 34 Colegau Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 32 Comisiynydd y Gymraeg; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 45 Grŵp Colegau NPTC

colegau mewn perthynas â newidiadau diweddar a newidiadau arfaethedig i drefniadau cludiant i ddysgwyr o fewn rhai awdurdodau lleol.[337] Pwysleisiodd eraill effaith cost cludiant ar ddysgwyr o deuluoedd incwm isel yn benodol.[338]

**189.** Roedd rhai rhanddeiliaid yn optimistaidd ynghylch effaith y cap o £1 ar bris tocynnau bws i bobl ifanc ar wella fforddiadwyedd teithio.[339] Fodd bynnag, pwysleisiodd eraill fod argaeledd teithio hefyd yn bryder mawr, yn enwedig i brentisiaid sydd angen teithio at gyflogwyr, a dysgwyr y mae eu cyrsiau galwedigaethol yn ymestyn y tu hwnt i oriau swyddfa.[340] Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wrthym:

> *"Fel rhywun sy'n dod o bentref bach yng nghefn gwlad sir Gâr, Llanboidy, lle mae bws yn mynd unwaith yr wythnos i'r dref agosaf, yn gadael am 10 y.b. ac yn dod nol am 2 y.p., dyw hynny ddim yn ymarferol o ran galluogi dysgwyr i gael y mynediad at ddarpariaeth. Felly, mae'n effeithio, dwi'n credu, ar ysgolion a cholegau hefyd mewn rhai ardaloedd. Felly, mae'n bwysig edrych ar y ddau beth."*

Tynnodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac eraill, sylw at y ffaith na fyddai'r tocynnau bws £1 yn helpu dysgwyr sydd angen teithio ar y trên, mewn ardaloedd lle nad yw'r gweithredwyr bysiau hynny ar gael, neu os ydynt yn teithio ar drenau sydd wedi cael eu canslo ac sy'n gorfod newid dair, pedair neu bum gwaith.[341] Pwysleisiodd rhai o'r dysgwyr y bu inni siarad â nhw fod y ffaith bod trafnidiaeth gyhoeddus yn annibynadwy yn aml yn golygu eu bod yn cyrraedd y coleg yn hwyr,

---

[337] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 24 Estyn
[338] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 10 Grŵp Llandrillo Menai; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 264 (Gyrfa Cymru); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 37 Unigolyn
[339] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 95 (CLlLC)
[340] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 194 (Hyfforddiant Cambrian); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 23 Horticultural Trades Association; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 264; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 37 Unigolyn; Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 55
[341] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 199 (Colegau Cymru); Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 90-91 (Coleg Cymraeg Cenedlaethol); Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 422 (Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru); Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 198 (Grŵp Hyfforddi Educ8)

hyd yn oed pan fydd y cludiant wedi'i ddarparu i ddysgwyr gan y colegau eu hunain.[342]

**190.** Clywsom hefyd fod rhai grwpiau o ddysgwyr yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan heriau'n ymwneud â theithio. Esboniodd CYDAG, er bod colegau fel arfer wedi'u lleoli'n agos at ganolfannau trafnidiaeth, y gall fod yn anodd cael mynediad at chweched dosbarth cyfrwng Cymraeg. Eglurodd y gall hyn achosi rhwystrau ymarferol ac ariannol i rai dysgwyr sydd eisiau parhau â'u hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.[343] Roedd gan eraill farn debyg.[344] Dywedodd Gyrfa Cymru wrthym nad yw dysgwyr ag ADY weithiau'n gallu mynychu'r ddarpariaeth ôl-16 y maen nhw ei heisiau oherwydd nad yw ar gael.[345]

**191.** Roedd y rhan fwyaf o'r atebion a glywsom i'r heriau trafnidiaeth sy'n wynebu dysgwyr yn canolbwyntio ar ddarparu trafnidiaeth am ddim i ddysgwyr. Galwodd Comisiynydd y Gymraeg, y Comisiynydd Plant, Colegau Cymru ac eraill am hawl teithio a ariennir yn genedlaethol i bobl ifanc 16-18 oed mewn addysg neu gyrsiau hyfforddi seiliedig ar waith.[346] Dadleuodd UCAC dros ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr sydd am barhau â'u haddysg a'u hyfforddiant ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg.[347] Ar ôl nodi bod cludiant yn rhwystr sylweddol i gyfranogiad ôl-16, argymhellodd yr adolygiad annibynnol o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg ("LCA") a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru y dylai Llywodraeth Cymru a Medr archwilio sut y gallai ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr o deuluoedd incwm isel i ysgolion a cholegau.[348]

**Astudiaeth Achos 5: Cynllun Teithio Am Ddim ar Fws i Bobl Ifanc (Dan 22 Oed) yr Alban**

Mae Cynllun Teithio Am Ddim ar Fws i Bobl Ifanc yr Alban yn caniatáu i bob plentyn a pherson ifanc 5-21 oed sy'n byw yn yr Alban deithio ar fws am ddim. Mae'r Cynllun yn cynnwys teithio am ddim ledled yr Alban ar bron pob

[342] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 51
[343] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 87
[344] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 18 Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 32 Comisiynydd y Gymraeg
[345] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 265
[346] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 32 Comisiynydd y Gymraeg; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 18 Comisiynydd Plant Cymru; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 207 (Colegau Cymru); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 10 Grŵp Llandrillo Menai
[347] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 03 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[348] Nia Bryer, Heledd Bebb a Tanwen Grover, 'Adolygiad o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yng Nghymru', 17 Gorffennaf 2024, paragraff 13.22

gwasanaeth bws cofrestredig lleol a phellter hir wedi'i amserlennu, er bod ambell eithriad.[349]

I ddechrau, roedd deddfwriaeth yn galluogi plant 5-18 oed i deithio ar fws am ddim, ond diwygiwyd y cynllun yn ddiweddarach i gynnwys pawb rhwng 5 a 21 oed (tua 930,000 o unigolion).[350] Erbyn mis Mawrth 2025, roedd 200 miliwn o deithiau bws am ddim wedi'u gwneud ers i'r Cynllun ddechrau, fel y mae, ar 31 Ionawr 2022.[351]

Nododd datganiad Rhyddid Gwybodaeth o fis Tachwedd 2024 mai cyfanswm y costau a ad-dalwyd i weithredwyr gwasanaethau bysiau oedd:

- 2022-23: £107.81 miliwn
- 2023-24: £164.22 miliwn

Ym mis Medi 2024, roedd cyfanswm costau gweithredu a gweithredol parhaus y Cynllun yn £6.45 miliwn.[352]

Nododd datganiad Rhyddid Gwybodaeth o fis Ebrill 2025 fod cyfanswm cost y cynllun ar gyfer 2024-25 yn £165.72 miliwn (gan gynnwys costau gweithredu a chostau gweithredol). Gall y ffigurau diweddaraf hyn newid gan fod gan weithredwyr hyd at 12 mis i hawlio ad-daliad am daith.[353]

Mae'r gwerthusiad o'r cynllun yn cynnwys tri cham:

- astudiaeth sylfaenol i ganfod ymddygiad teithio, agweddau a chanfyddiadau pobl ifanc tuag at deithio cyn ei weithredu;
- adroddiad gwerthuso blwyddyn 1, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023; a
- gwerthusiad cam 2, a fydd yn digwydd hyd at bum mlynedd ar ôl gweithredu'r cynllun.

Daeth gwerthusiad Blwyddyn 1 i'r casgliad bod y Cynllun wedi bod yn llwyddiannus iawn, gan nodi mwy o fanteision ac effeithiau cadarnhaol o'i gymharu â materion negyddol a ddaeth i'r amlwg, a oedd yn cynnwys pryderon

[349] Transport Scotland, 'Young Persons' (Under 22s) Free Bus Travel'
[350] Transport Scotland, 'Concessionary Travel Under-22s Equality Impact Assessment Results'
[351] Transport Scotland, 'Young people in Scotland make over 200 million free bus journeys'
[352] Llywodraeth yr Alban, 'Young Persons Free Bus Travel Scheme (YPS) statistics: FOI release', 25 Tachwedd 2024
[353] Llywodraeth yr Alban, 'Cost of Young Persons' Free Bus Travel Scheme for financial year 2024/25: FOI release', 9 Gorffennaf 2025

ynghylch capasiti a diogelwch, cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion ymarferol fel dibynadwyedd bysiau.[354]

**192.** Esboniodd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch fod llawer o golegau'n defnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i helpu gyda chludiant, drwy gynnig eu cludiant eu hunain neu drwy ddarparu cymhorthdal ar gyfer costau cludiant i ddysgwyr. Fodd bynnag, cydnabu fod llawer mwy i'w wneud hefyd. Ychwanegodd ei bod yn gobeithio y byddai'r uwchgynhadledd yn edrych ar gyfleoedd i wella'r ddealltwriaeth rhwng partneriaid, rhannu arferion da, a defnyddio offer arloesol i ysgogi gwelliannau.[355]

**193.** Dywedodd y Gweinidog y byddai'r cynllun tocyn bws £1 yn newid mawr ac yn dileu rhwystr i gyfranogi mewn addysg a hyfforddiant. Ond cydnabu ein pryderon na fyddai'r prisiau is yn mynd i'r afael â'r holl heriau'n ymwneud â chludiant. Dywedodd wrthym fod cardiau rheilffordd ar gael i fyfyrwyr i'w helpu gyda theithio ar drenau, a thynnodd sylw at y buddsoddiad diweddar o £800 miliwn mewn trenau i wella dibynadwyedd, cyfforddusrwydd a hygyrchedd teithiau trên yng Nghymru. O ran teithio ar fysiau, cyfeiriodd at y Bil gwasanaethau bysiau arfaethedig (sydd wedi'i gyflwyno i'r Senedd ers hynny), y cymorth y gall dysgwyr ei gael ar ffurf cardiau rheilffordd, a gwelliannau i ddibynadwyedd ar draws y rhwydwaith trafnidiaeth o ganlyniad i fuddsoddiad diweddar Llywodraeth Cymru mewn trafnidiaeth gyhoeddus.[356]

**194.** Wrth sôn am y Bil mewn sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, eglurodd Pennaeth Diwygio Bysiau Llywodraeth Cymru y bydd y Bil yn grymuso Gweinidogion Cymru i ystyried anghenion dysgwyr wrth gomisiynu gwasanaethau bysiau:

> *"When we implement the contracts, we're looking to include an ability to bring learner travel into those. So, you might find that the contracts cover things like providing school bus services between 7 o'clock and 9 o'clock in the morning, and then that same service is a local bus service for the rest of the day, until the end of the school day, when, again, they revert to school services, and then, after that, they go back to being local bus services. The flexibility, the nature of the flexibility, around the*

[354] Transport Scotland, 'Young Persons' Free Bus Travel Scheme - Year 1 Evaluation', 2023
[355] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 161-163
[356] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 164-169

*provisions in the Bill allow us to do that sort of thing to support services."*[357]

## Tlodi a rhwystrau ariannol

**195.** Mae ymchwil gyhoeddedig a'r dystiolaeth rydym wedi'i chasglu yn awgrymu'n gryf bod dysgwyr o deuluoedd incwm isel yn wynebu rhwystrau i addysg a hyfforddiant ôl-16. Canfu ymchwil gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024 fod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim tua thraean yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16 na'u cyfoedion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Canfu'r ymchwil hefyd mai'r mwyaf o ddimensiynau o amddifadedd y mae dysgwyr yn eu hwynebu (h.y. iechyd, tai, cyflogaeth), y mwyaf tebygol ydynt o beidio â bod mewn addysg neu hyfforddiant ôl-orfodol.[358] Codwyd tlodi fel rhwystr gan nifer o randdeiliaid drwy gydol ein hymchwiliad.[359]

**196.** Clywsom nifer o esboniadau gwahanol pam na allai dysgwyr difreintiedig symud ymlaen i addysg a hyfforddiant ôl-16. Adroddodd rhai rhanddeiliaid fod tlodi yn rhwystr oherwydd bod y disgwyliadau ar gyfer plant o gefndiroedd difreintiedig yn rhy isel. Cyfeiriodd Parents' Voices in Wales at nenfydau gwydr i blant o ardaloedd tlawd, sy'n gwaethygu os oes gan y plentyn ADY hefyd.[360] Esboniodd Gyrfa Cymru fod disgyblion sy'n byw mewn tlodi yn aml yn wynebu heriau ymarferol, fel diffyg mynediad at dechnoleg.[361] Nododd eraill, gan gynnwys Grŵp Colegau NPTC, y gallai dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig fod dan bwysau i chwilio am waith amser llawn, yn hytrach na pharhau â'u hastudiaethau.[362] Mewn

[357] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, 7 Mai 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 21
[358] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 'Deall annhegwch mewn addysg drydyddol: Y prif ganfyddiadau a dadansoddi data', Hydref 2024, tudalennau 4-5
[359] Gweler er enghraifft: Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 06 Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 10 Grŵp Llandrillo Menai; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 41 Medr; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 40 Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTFW); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 176 (Parents' Voices in Wales); Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraffau 57-58
[360] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 176
[361] Llythyr gan Is-Ganghellor Prifysgol Y Drindod Dewi Sant at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ebrill 2025; Tystiolaeth ysgrifenedig RET 17 Gyrfa Cymru; Llythyr gan Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ebrill 2025
[362] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 45 Grŵp Colegau NPTC; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 209 (Parents' Voices in Wales);

ymateb i'n cwestiynau ynghylch sut y gallwn wella cyfranogiad mewn AU, dywedodd Prifysgolion Cymru wrthym:

> *"I wish I had a magic wand, but I suspect this starts in preschool, this starts in primary school, this starts in all the work we need to do to lift people out of poverty so that they have the bandwidth to think about whether or not there are educational opportunities for them and their children and so on."*[363]

**Y Lwfans Cynhaliaeth Addysg ("LCA")**

**197.** Taliad wythnosol i bobl gymwys 16 i 18 oed o deuluoedd incwm isel sy'n byw yng Nghymru ac sy'n parhau ag addysg amser llawn ar ôl blwyddyn 11 mewn ysgol neu goleg (ond nid mewn dysgu seiliedig ar waith) yw'r LCA. Mae'r LCA yn darparu cymorth ariannol i ddysgwyr cymwys i helpu gyda chostau addysg bellach, fel cludiant, deunyddiau cwrs a phrydau bwyd. Roedd yr LCA yn werth £30 yr wythnos rhwng 2004 a 2023 ac – yn dilyn galwadau gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys ni[364] – cynyddodd Llywodraeth Cymru y taliad LCA i £40.

**198.** Hefyd yn dilyn un o'n hargymhellion yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24[365], comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o'r LCA. Cynhaliwyd hwn rhwng mis Hydref 2023 a mis Mai 2024. Roedd yr adolygiad yn cefnogi'r LCA, ac argymhellodd y dylid parhau ag ef. Roedd yr argymhellion eraill yn cynnwys:

- y dylid cynyddu'r trothwy incwm aelwydydd;
- y dylid cynyddu gwerth y lwfans yn unol â chwyddiant neu godiadau canrannol cymorth grant myfyrwyr AU, os yw cyllid yn caniatáu;
- y dylid symleiddio'r iaith ar ffurflen gais yr LCA i'w gwneud yn fwy hygyrch i bobl ifanc.[366]

**199.** Wedi hynny, cododd Llywodraeth Cymru y trothwy incwm aelwydydd. O fis Ebrill 2025 ymlaen, bydd dysgwyr nad yw eu hincwm blynyddol yn fwy na £23,400 yn gymwys i'w gael (neu £25,974 os nad nhw yw'r unig ddibynnydd ar yr

[363] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 401
[364] Senedd Cymru, 'Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25', Chwefror 2022, paragraffau 106-111
[365] Senedd Cymru, 'Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24', Chwefror 2022, paragraffau 43-50 a 106-111
[366] Nia Bryer, Heledd Bebb a Tanwen Grover, 'Adolygiad o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yng Nghymru', 17 Gorffennaf 2024, paragraff 13.22

aelwyd).[367] Cytunodd Llywodraeth Cymru i wneud gwaith modelu i ddeall effaith ariannol y lwfans sy'n gysylltiedig â chwyddiant ac i weithio i "wella'r profiad o ymgeisio am yr LCA ar gyfer pob dysgwr".[368]

**200.** Yn gyffredinol, cefnogwyd yr LCA yn ein holl dystiolaeth fel cynllun gwerthfawr i leihau rhwystrau i addysg a hyfforddiant ôl-16 gan nifer o randdeiliaid.[369] Fodd bynnag, clywsom rai pryderon hefyd am y cynllun, ac roedd llawer ohonynt yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r adolygiad annibynnol. Dadleuodd rhai nad yw'r trothwy ar gyfer cymhwystra wedi codi yn unol â chwyddiant ac felly ei fod yn rhy isel, er gwaetha'r cynnydd diweddar.[370] Dywedodd eraill fod y broses ymgeisio yn rhy drafferthus.[371] Mynegodd Comisiynydd Plant Cymru bryder hefyd y gall absenoldeb arwain at ddysgwr yn colli ei lwfans wythnosol, hyd yn oed os yw ei absenoldeb y tu hwnt i'w reolaeth (e.e. oherwydd problemau cludiant, neu oherwydd i'r ysgol neu'r coleg ganslo sesiynau).[372]

**201.** Cydnabu'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch ganfyddiadau'r adolygiad annibynnol, a chroesawodd yr LCA fel ffordd o annog dysgwyr i fynd i addysg ôl-16 a lleddfu straen a phryder ariannol ymhlith dysgwyr presennol. Tynnodd sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r trothwy cymhwystra incwm uchaf, ac roedd yn disgwyl y byddai hynny'n golygu y byddai tua 3,500 o ddysgwyr ychwanegol yn gymwys i gael yr LCA. Fodd bynnag, dywedodd wrthym hefyd fod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud eu penderfyniad ynghylch a ddylent symud ymlaen i addysg ôl-16 cyn iddynt gael gwybod bod yr LCA ar gael iddynt. Daeth i'r casgliad fod hyn yn golygu ei bod yn bwysig dweud wrth ddysgwyr am yr LCA cyn gynted â phosibl. Dywedodd wrthym y byddai Llywodraeth Cymru yn datblygu ymgyrch wedi'i thargedu at ddysgwyr blwyddyn 11 i gynyddu mentrau codi ymwybyddiaeth ar gyfnodau allweddol yn ystod y flwyddyn, ac yn enwedig yn ystod wythnos canlyniadau TGAU.[373]

---

367 Cyllid Myfyrwyr Cymru, 'Llyfr bach LCA: Popeth y bydd angen i chi ei wybod am LCA ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26', tudalennau 3-4
368 Llywodraeth Cymru, 'Ymateb i'r Adolygiad Annibynnol o'r Cynllun LCA yng Nghymru (Chwefror 2025)', 9 Ebrill 2025
369 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 209 (Parents' Voices in Wales); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 06 Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 10 Grŵp Llandrillo Menai; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 33 Make UK
370 Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 10 Grŵp Llandrillo Menai; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 18 Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
371 Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 12 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Cymru; Tystiolaeth Ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe
372 Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 18 Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
373 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 138-140

### Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn

**202.** Mae Medr yn ariannu'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn, sef grant a ddarperir i golegau i'w helpu i gefnogi dysgwyr cymwys sy'n profi caledi ariannol. Darperir y Gronfa Ariannol Wrth Gefn i golegau ar sail disgresiwn, ac mae gan golegau ryddid i osod eu rheolau manwl eu hunain ynghylch sut y caiff ei wario (ar yr amod eu bod yn cadw o fewn canllawiau Llywodraeth Cymru). Cyfanswm y Gronfa Ariannol Wrth Gefn ar gyfer 2023-24 oedd £7 miliwn. Meysydd gwariant mwyaf arwyddocaol y Gronfa Ariannol Wrth Gefn oedd trafnidiaeth (38.9% o'r £7 miliwn), talebau cinio (20.2%) a gofal plant (14.9%).[374]

**203.** Dywedodd Grŵp Colegau NPTC fod galw cynyddol ar y Gronfa Ariannol Wrth Gefn i ddarparu cymorth ariannol i ddysgwyr.[375] Roedd Grŵp Llandrillo Menai yn cytuno, gan fynegi pryder ynghylch gallu colegau i ddiwallu anghenion myfyrwyr gyda'r lefelau presennol o gyllid:

> *"GLLM is seeing growing demands on this fund as it provides essential financial support for transport and daily meal allowances for learners. These rising costs have a significant impact on colleges' ability to meet the needs of all students. Without additional funding from the Welsh Government, should there be an increase in demand, colleges face challenges in continuing to offer this vital support."*[376]

Galwodd Colegau Cymru am gynyddu'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn, gan ddadlau bod y cyllid yn dileu rhwystrau i ddysgwyr ac yn atal pobl ifanc rhag dod yn NEET.[377]

**204.** Soniodd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch am ddefnydd arloesol ac angerddol o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn gan golegau ledled Cymru i helpu gyda theithio gan ddysgwyr a darparu prydau am ddim yn ystod y diwrnod coleg. Awgrymodd y Gweinidog y byddai'r cynnydd diweddar yn nhrothwyon incwm yr LCA yn lleddfu'r pwysau ar y Gronfa Ariannol Wrth Gefn, a thrwy hynny'n rhoi mwy o hyblygrwydd i golegau o ran sut y maent yn cefnogi dysgwyr.[378]

[374] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 41 Medr
[375] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 45 Grŵp Colegau NPTC
[376] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 10 Grŵp Llandrillo Menai
[377] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 205
[378] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 138-143

## Profiad o fod mewn gofal

**205.** Yn ystod ein hymchwiliad i wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, gwelsom fod cyrhaeddiad plant mewn gofal yng Nghyfnod Allweddol 4, ar gyfartaledd, yn sylweddol is na'u cyfoedion.[379]

**206.** Cawsom dystiolaeth gan NYAS Cymru yn nodi bod dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn wynebu nifer o rwystrau unigryw i gymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 hefyd. Fodd bynnag, roedd yn anodd canfod beth yw effaith lawn y rhwystrau hynny oherwydd y data cyfyngedig iawn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Eglurodd efallai fod plant mewn gofal, wrth edrych ar eu hopsiynau ôl-16, wedi symud tŷ yn ddiweddar, a hynny sawl gwaith weithiau. Efallai eu bod wedi dioddef bwlio neu wahaniaethu oherwydd eu bod yn derbyn gofal, a byddant wrthi'n ceisio dygymod â symud o'r system ofal, a all greu heriau difrifol iddynt ar drothwy eu bywydau fel oedolion. Er mwyn dangos yr heriau sy'n wynebu pobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal pan fyddant yn gadael addysg orfodol, fe wnaeth NYAS ein cyfeirio at y data diweddaraf, sy'n awgrymu bod dros draean y rhai sy'n gadael gofal yn NEET ar eu pen-blwydd yn 19 oed ym mis Mawrth 2016.[380]

**207.** Clywsom hefyd am yr heriau ymarferol y mae pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn eu hwynebu pan fyddant yn ystyried symud i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Cododd Cymorth i'r Rhai sy'n Gadael Gofal a Myfyrwyr Cymru ("CLASS Cymru") bryderon ynghylch y wybodaeth anghyson y mae llawer o bobl ifanc sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal yn ei chael gan eu gweithwyr cymdeithasol a'r awdurdod lleol.[381] Esboniodd NYAS Cymru efallai nad oes gan blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal rywun i'w helpu i wneud cais i'r brifysgol, efallai fod ganddynt bryderon ariannol a/neu eu bod yn cael anhawster dod o hyd i lety, ac efallai nad oes ganddynt fynediad at gludiant. Galwodd am ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i'r rhai sy'n gadael gofal, mwy o brentisiaethau â thâl wedi'u targedu at blant sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal, a sicrhau bod prifysgolion yn darparu llety i fyfyrwyr sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal am 365 diwrnod o'r flwyddyn.[382]

---

[379] Senedd Cymru, 'Os nad nawr, yna pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Mai 2023, paragraffau 163-168.
[380] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 25 Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru
[381] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 28 Cymorth i'r Rhai sy'n Gadael Gofal a Myfyrwyr Cymru (CLASS Cymru)
[382] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 25 Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru

## Iechyd meddwl

**208.** Yn 2024, comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil i ystyried effaith y pandemig ar ddysgwyr mewn addysg ôl-16 a oedd yn 19 oed neu'n iau ar ddechrau'r pandemig. Canfu fod 52.9% o'r 1,821 o ymatebwyr yn tueddu i gytuno neu gytuno'n gryf yr amharwyd ar eu haddysg yn ystod y deuddeg mis blaenorol oherwydd salwch meddwl. Nodwyd hyn yn fwy nag unrhyw reswm arall. Daeth yr ymchwil i'r casgliad fod "iechyd meddwl a llesiant emosiynol gwael yn her sylweddol i ddysgwyr mewn addysg ôl-16."[383]

**209.** Codwyd iechyd meddwl hefyd gan randdeiliaid yn y dystiolaeth a gasglwyd gennym fel rhwystr i gyfranogi mewn addysg a hyfforddiant ôl-16. Dywedodd Gyrfa Cymru fod "staff ysgol a chynghorwyr gyrfa yn gweld bod niferoedd uwch o bobl ifanc yn profi pryder a phroblemau iechyd meddwl.."[384] Roedd Grŵp Llandrillo Menai yn cytuno, gan annog Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu cyllid ar gyfer rolau bugeiliol a mentora i gefnogi dysgwyr i ddatblygu patrymau presenoldeb iach, mynd i'r afael â'r heriau iechyd meddwl y maent yn eu hwynebu, a meithrin y gwydnwch sydd ei angen arnynt i oresgyn heriau a dod yn ddinasyddion hyderus, moesegol a gwybodus yng Nghymru.[385] Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan CLlLC a CCAC yn arbennig o ysgytwol:

> *"Yn dilyn y pandemig, mae lefelau gorbryder ymysg plant a phobl ifanc yn ddigynsail, gyda nifer yn methu hyd yn oed gadael eu cartrefi, ac mae nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn addysg yn y cartref yn cynyddu ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen."*[386]

## Rhwystrau eraill i gynnydd yn 16 oed

**210.** Roedd grwpiau eraill a nodwyd fel rhai sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol yn cynnwys:

- Plant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref: esboniodd Education Otherwise fod ansawdd y wybodaeth a ddarperir i bobl ifanc sy'n derbyn eu haddysgu yn y cartref yn dibynnu ar eu rhieni, a allai fod â llai o ymddiriedaeth yn Llywodraeth Cymru ac yn amharod i ymgysylltu â

[383] Eales, C., Griffiths, C., 'Profiadau Dysgwyr mewn Addysg Ôl-16 (2024)', 12 Rhagfyr 2024, paragraff 3.1
[384] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 17 Gyrfa Cymru
[385] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 10 Grŵp Llandrillo Menai
[386] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 14 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)

Gyrfa Cymru. Ychwanegodd y gall teuluoedd sy'n addysgu eu plant yn y cartref gael trafferth hefyd i gael mynediad i drafod llwybrau dysgwyr. Maent hefyd yn dadlau o blaid ymestyn yr LCA i ddysgwyr ôl-16 o deuluoedd incwm isel sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref.[387] Dywedodd rhai o'r bobl a fynychodd ein digwyddiad i randdeiliaid y gall fod yn anodd i ddarparwyr a chynghorwyr ôl-16 gael mynediad at ddysgwyr sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref oherwydd nad oes llwybr uniongyrchol i weithwyr proffesiynol wneud hynny.[388]

- Plant mabwysiedig: cyfeiriodd CLASS Cymru at ganfyddiadau o Astudiaeth Carfan Fabwysiadu Cymru i dynnu sylw at y ffaith, er gwaethaf bod 47% o blant a roddir i'w mabwysiadu wedi profi o leiaf bedwar Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod (o'i gymharu ag 14% o'r boblogaeth gyffredinol), efallai nad ydynt yn gymwys i gael cymorth mewn addysg bellach ac AU oherwydd nad ydynt yn cael eu hystyried yn gyfreithiol yn 'adawyr gofal'.[389]

- Dysgwyr â chyfrifoldebau gofalu: dywedodd Coleg Gŵyr Abertawe wrthym fod angen amserlenni dysgu hyblyg a chymorth bugeiliol ychwanegol ar ofalwyr ifanc.[390]

- Dysgwyr â rhieni â chyflawniad addysgol is: canfu ymchwil gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru fod dysgwyr nad oes gan eu rhieni/gofalwyr gymwysterau yn llawer mwy tebygol o ddod yn NEET.[391]

- Dysgwyr y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt: nododd Gyrfa Cymru fod galw arbennig o uchel am wasanaethau cyngor gyrfaoedd gan ddysgwyr y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.[392]

- Plant sydd wedi gwahanu oddi wrth eu rhieni: esboniodd CLASS Cymru nad oes llawer o gymorth ar gael i ddysgwyr sydd â fawr ddim cyswllt neu ddim cyswllt o gwbl â'u rhieni. Defnyddiodd ffurflen gais yr LCA fel

[387] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 01 Education Otherwise
[388] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 63
[389] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 28 Cymorth i'r Rhai sy'n Gadael Gofal a Myfyrwyr Cymru (CLASS Cymru)
[390] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe
[391] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 'Deall annhegwch mewn addysg drydyddol: Y prif ganfyddiadau a dadansoddi data', Hydref 2024, tudalennau 6-7
[392] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 17 Gyrfa Cymru

enghraifft, gan ddadlau nad yw'n rhoi digon o arweiniad i helpu darpar ymgeiswyr sydd wedi ymddieithrio.[393]

## Ein barn ni

### Rôl ysgolion o ran darparu a hwyluso cyngor gyrfaoedd

**211.** Mae'n annerbyniol nad yw rhai pobl ifanc yn cael cyngor gyrfaoedd diduedd o ansawdd uchel oherwydd bod eu hysgol eisiau cadw'r cyllid a gânt os bydd y disgyblion hynny'n mynd ymlaen i'r chweched dosbarth yn yr ysgol. Nodwn fod rhywfaint o anghytundeb ynghylch i ba raddau y mae hyn yn digwydd, bod mwy o ddysgwyr yn mynd i goleg AB yng Nghymru ar ôl blwyddyn 11 nag mewn gwledydd eraill ledled y DU, a bod cyfran y dysgwyr sy'n mynd i'r chweched dosbarth yn gostwng. Serch hynny, dylid sicrhau bod pob disgybl yn cael gwybod am yr holl opsiynau sydd ar gael ar ôl blwyddyn 11, a dylid annog pob plentyn i archwilio'r holl opsiynau hynny'n fanwl er mwyn iddo allu gwneud y dewis sy'n iawn iddo ef fel unigolyn.

**212.** Fodd bynnag, rydym yn deall realiti'r pwysau ariannol y mae llawer o ysgolion yn eu hwynebu. Os mai un o oblygiadau disgyblion yn penderfynu peidio â mynd ymlaen i'r chweched dosbarth yw y gallai cydweithwyr yn yr ysgol golli eu swyddi, nid yw fawr o syndod os yw staff yr ysgol yn amharod i hyrwyddo cyfle mewn coleg lleol neu brentisiaeth leol i ddysgwr a allai aros ymlaen yn y chweched dosbarth.

**213.** Mewn rhai rhannau o Gymru, mae ysgolion unigol sydd â chweched dosbarth a cholegau yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu ystod lawn o opsiynau ôl-16 i ddysgwyr. Clywsom fod llawer o ysgolion sydd â chweched dosbarth yn annog eu dysgwyr i ddod o hyd i wybodaeth am yr hyn a gynigir gan golegau lleol a dysgu seiliedig ar waith, neu hyd yn oed yn hwyluso darparwyr allanol i ddod i mewn i ysgolion i siarad â'r disgyblion. Mae'r pocedi hyn o arfer gorau yn dangos nad yw'n amhosibl cydweithio o fewn y system bresennol.

**214.** Ond er gwaethaf yr arfer da sy'n sicr yn bodoli, rydym yn amheus y bydd dysgwyr mewn ysgolion â chweched dosbarth byth yn cael cyngor diduedd yn gyson gan staff yr ysgol o dan y model cyllido presennol. Mae cystadleuaeth am leoedd yn rhan annatod o'r model cyllido ôl-16 sydd, yn ei dro, yn cymell ymddygiad a all beri anfantais i ddysgwyr. Ni all hyn barhau.

[393] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 28 Cymorth i'r Rhai sy'n Gadael Gofal a Myfyrwyr Cymru (CLASS Cymru)

**215.** Rydym wedi clywed droeon drwy gydol yr ymchwiliad hwn bod yn rhaid rhoi anghenion dysgwyr wrth wraidd y cyngor a roddir iddynt. Ond rydym wedi clywed llawer llai am *sut* y bydd y newid hwnnw mewn diwylliant yn digwydd yn ymarferol.

**216.** Felly, gofynnwn i Lywodraeth Cymru, neu i Medr ar ei rhan, gynnal adolygiad o drefniadau cyllido ôl-16 i ganfod sut y gallwn ail-alinio'r system gyllido er budd dysgwyr a dysgu o'r perthnasoedd cadarnhaol sydd eisoes wedi'u ffurfio ar draws rhai darparwyr ôl-16. Mae gan drefniadau cyllido amgen y potensial i fod o fudd i'r cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd a roddir i ddysgwyr. Gallent arwain at fanteision pendant eraill hefyd, drwy wella ehangder y cynnig ôl-16 i ddysgwyr (e.e. mewn perthynas â darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, fel y trafodwn isod) a helpu i sicrhau hyfywedd sefydliadau addysg ôl-16 (fel y trafodwn o baragraff 283 ymlaen mewn perthynas â'r heriau ariannol sy'n wynebu'r chweched dosbarth mewn ysgolion).

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru, gan gydweithio â Medr, gynnal adolygiad o gyllid a deddfwriaeth ôl-16 i archwilio:

- a yw'r system gyllido bresennol yn cymell cystadleuaeth rhwng darparwyr sy'n effeithio ar natur ddiduedd y cyngor gyrfaoedd a roddir i ddysgwyr, ac i ba raddau y mae hynny'n digwydd;
- sut y mae ysgolion a cholegau unigol wedi goresgyn heriau cyllido er mwyn cydweithio'n effeithiol;
- a ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r system gyllido ôl-16 a'r ddeddfwriaeth i ysgogi cydweithio rhwng sefydliadau ôl-16 (e.e. drwy roi'r gorau i ddefnyddio model cyllido yn seiliedig ar niferoedd y disgyblion, drwy ddarparu cyllid grant i wobrwyo cydweithio, neu fel arall).

## Yr hawl i ddysgu 14 i 16

**217.** Rydym yn croesawu'r camau y mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi'u cymryd i safoni'r cymorth a'r cyfarwyddyd safonol y mae disgyblion yn ei gael yng Nghyfnod Allweddol 4. Fel y mae'r dystiolaeth a gawsom yn ei ddangos yn glir, mae'r cymorth a'r cyfarwyddyd hynny'n anghyson ar hyn o bryd, gan roi rhai dysgwyr dan anfantais sylweddol pan fyddant yn dechrau meddwl am eu camau ar ôl blwyddyn 11.

**218.** Rydym hefyd yn cefnogi cynigion Llywodraeth Cymru i gyhoeddi data penodol fel rhan o'r Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu ynghylch sut y mae ysgolion yn cefnogi eu dysgwyr gyda chynllunio ôl-16. Credwn y bydd gwella data cyhoeddedig, ac yn sgil hynny dryloywder, ynghylch cyrchfannau dysgwyr ar ôl blwyddyn 11 a chynllunio ar gyfer pontio ôl-16 yn gwneud y ddarpariaeth ar draws ysgolion yn fwy cyson. Rydym yn falch o glywed bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn bwriadu hyrwyddo'r hawl i ddysgu i ddysgwyr ac i rieni a gofalwyr eu hunain, ac y bydd Estyn hefyd yn ystyried sut y mae ysgolion yn cyflawni eu dyletswyddau fel rhan o'u harolygiadau arferol o ysgolion. Mae'r rhain yn fesurau hanfodol y mae'n rhaid iddynt ffurfio rhan o'r fframwaith atebolrwydd ehangach ar gyfer ysgolion.

**219.** Mae ein hymchwiliad wedi canfod bod angen llawer iawn o gyngor, cyfarwyddyd a chyfleoedd ar ddysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol ar ôl blwyddyn 11. Felly, rydym yn gweld cyfle i adeiladu ar yr Hawl i Ddysgu 14-16 bresennol drwy gynnwys y pecyn cymorth ehangach y dylai dysgwyr ddisgwyl ei gael yng Nghyfnod Allweddol 4 fel rhan o'u paratoadau ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16, a'u cyfnod pontio i hynny.

**220.** Trafodir rhai o hawliau allweddol y cynllun 'Hawl i Ddysgu 14-16' wedi'i gryfhau yn fwy manwl yn yr adroddiad hwn drwyddo draw, megis hawliau dysgwyr i gael cyngor gyrfaoedd annibynnol; cymorth i fynd i ddiwrnodau agored mewn colegau lleol ac i siarad â darparwyr seiliedig ar waith a phrifysgolion; a'r cyfle i gael profiad. Byddai'r pecyn estynedig hwn yn egluro i ddysgwyr a'u teuluoedd beth y mae ganddynt hawl i'w gael. Byddai hefyd yn cyfrannu at ymdrech ehangach i sicrhau cyngor gyrfaoedd ac addysg yn gysylltiedig â byd gwaith sy'n deg ac yn ddiduedd i gefnogi pobl ifanc wrth iddynt adael addysg orfodol.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ehangu'r Hawl i Ddysgu 14-16 oed presennol i gynnwys y pecyn ehangach o gyngor, cyfarwyddyd a chyfleoedd y mae gan ddysgwyr hawl i'w gael yng Nghyfnod Allweddol 4. Dylai'r Hawl i Ddysgu 14-16 estynedig hon gynnwys elfennau sylfaenol trefniadau pontio effeithiol o ansawdd uchel i addysg ôl-16, megis yr hawl i ddysgwyr gael cyngor gyrfaoedd o ansawdd uchel gan eu hysgolion a Gyrfa Cymru; mynediad at gynrychiolwyr colegau, darparwyr seiliedig ar waith a phrifysgolion; a phrofiad gwaith. Dylai'r hawliau penodol adlewyrchu cynnig polisi ehangach Llywodraeth Cymru, cael eu hyrwyddo'n uniongyrchol i ddysgwyr a'u teuluoedd, a'u defnyddio gan Estyn ac eraill i ddwyn darparwyr gwasanaethau i gyfrif am y cymorth y maent yn ei ddarparu i ddysgwyr.

## Rôl Gyrfa Cymru

**221.** Cawsom ein taro gan anghysondeb y dystiolaeth a gawsom am Gyrfa Cymru. Mae'n galonogol iawn bod ymchwil annibynnol gan academyddion ym Mhrifysgol Caerdydd wedi canfod bod disgyblion â chyrhaeddiad isel sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim 42% yn llai tebygol o ddod yn NEET os ydynt wedi cael cyfweliad cyfarwyddyd gyrfaoedd. Rhoddodd Estyn dystiolaeth gadarnhaol am y cymorth wedi'i dargedu a ddarperir gan Gyrfa Cymru a chafwyd tystiolaeth gadarnhaol gan rieni dysgwyr ag anghenion ychwanegol hefyd ynghyd â data calonogol o fecanweithiau hunanwerthuso Gyrfa Cymru ei hun.

**222.** Fodd bynnag cawsom hefyd swm sylweddol o dystiolaeth a oedd yn feirniadol o'r cymorth a gaiff y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ystod Cyfnod Allweddol 4. Mae'n amlwg nad yw llawer o bobl ifanc yn cael digon o gyngor gyrfaoedd annibynnol, ac nad yw cyngor gyrfaoedd yn gyffredinol yn dechrau'n ddigon ifanc.

**223.** Mae Gyrfa Cymru yn iawn i nodi ei fod yn chwarae rhan allweddol o ran darparu cyngor gyrfaoedd diduedd i ddysgwyr, ond nid y corff hwn yw'r unig ffynhonnell wybodaeth i ddysgwyr – ac ni ellir disgwyl iddo fod. Fodd bynnag, mae'n unigryw gan ei fod yn annibynnol, sy'n gwbl hanfodol, yn enwedig yng nghyd-destun pryderon ynghylch achosion o wrthdaro buddiannau sy'n effeithio ar y cyngor a roddir mewn rhai ysgolion sydd â chweched dosbarth. Felly mae'n destun pryder nad yw rhai plant a'u teuluoedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt gan Gyrfa Cymru.

**224.** Yr hyn sy'n gwbl amlwg yw bod toriadau yng nghyllid Gyrfa Cymru wedi cael effaith andwyol ar y cyngor y mae'n ei ddarparu i lawer o ddysgwyr. Yn y cyd-destun hwnnw, mae Gyrfa Cymru wedi targedu ei adnoddau cyfyngedig at y dysgwyr y mae'n teimlo bod angen y cymorth mwyaf arnynt. Ymddengys fod y cymorth hwn sydd wedi'i dargedu yn effeithiol iawn. Fodd bynnag, mae'r cymorth i ddysgwyr eraill yn llai effeithiol.

**225.** Pan ystyriwn y cyngor gyrfaoedd a roddir i ddysgwyr o'r gwahanol ffynonellau, yr hyn sy'n peri'r pryder mwyaf inni yw'r plant yn y canol: nid y rhai sy'n gymwys i gael cymorth wedi'i dargedu, ac nid y rhai sydd eisoes wedi penderfynu beth y maent am ei wneud ar ôl blwyddyn 11. Y lleill – dysgwyr nad ydynt yn glir ynghylch ble y dylent fynd a beth y dylent ei wneud. Dysgwyr a allai elwa o fynd i'r coleg neu wneud prentisiaeth, ond sydd hefyd yn ystyried aros ymlaen yn y chweched dosbarth neu ddilyn llwybr academaidd. Rydym yn croesawu'r ffaith bod Gyrfa Cymru bellach yn darparu cyfweliad cyfarwyddyd gyrfaoedd i bob dysgwr yng

Nghyfnod Allweddol 4 fel mater o drefn. Bydd hyn o gymorth. Fodd bynnag, rydym yn ofni na fydd yn mynd yn ddigon pell.

**226.** Nodwn nad yw Estyn wedi cynnal adolygiad thematig o wasanaeth cyngor gyrfaoedd annibynnol Gyrfa Cymru ers 2021. Mae llawer iawn wedi newid ers hynny. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad arall o'r fath, gan ganolbwyntio'n benodol ar gynnig safonol Gyrfa Cymru ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 4, i weld sut y gallai cynnig Gyrfa Cymru wella i roi'r cymorth sydd ei angen arnynt i ddysgwyr a'u teuluoedd.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu Estyn i gynnal adolygiad thematig o wasanaeth cyngor gyrfaoedd Gyrfa Cymru. Dylai'r adolygiad ganolbwyntio'n benodol ar gynnig 'safonol' Gyrfa Cymru, a dylai ystyried a yw'n diwallu anghenion yr holl ddysgwyr a'u teuluoedd, a pha newidiadau, os o gwbl, y gellid eu gwneud i wella'r ddarpariaeth.

## Profiad gwaith

**227.** Mae profiad gwaith yn elfen hollbwysig o bontio i addysg neu hyfforddiant ôl-16. Nid yw'n realistig disgwyl y bydd pob person ifanc yn ymgymryd â lleoliad profiad gwaith yn ei weithle delfrydol. Neu hyd yn oed y bydd pob lleoliad profiad gwaith yn uniongyrchol berthnasol i'r hyn y mae'r person ifanc yn ystyried ei wneud ar ôl iddo adael yr ysgol. Ond does dim ots am hynny – mae cael profiad o amgylchedd proffesiynol yn rhoi rhagflas gwerthfawr i rywun o fyd gwaith. Hyd yn oed os nad yw'r person ifanc yn mwynhau'r profiad, mae hynny, ynddo'i hun, yn wers werthfawr.

**228.** Rydym yn siomedig iawn ei bod yn ymddangos nad yw profiad gwaith ystyrlon yn bodoli i'r rhan fwyaf o ddysgwyr. Mae rhai staff ysgolion yn mynd y filltir ychwanegol i ddarparu lleoliadau profiad gwaith i'w disgyblion. Ac mae rhai rhieni a gofalwyr yn gallu trefnu lleoliadau gwaith i'w plant, hyd yn oed os na all ysgol y plentyn wneud hynny. Ers i brofiad gwaith gael ei ddileu o gylch gwaith Gyrfa Cymru yn 2015, ac eithrio rhai pocedi o arfer rhagorol ledled Cymru, mae'r cyfleoedd i ddysgwyr wedi lleihau'n sylweddol. Mae'r lleihad yng Nghymru yn fwy amlwg fyth pan fo data'n dangos bod llawer mwy o blant ym mhob gwlad arall yn y DU yn cael cyfleoedd profiad gwaith.

**229.** Nid ydym yn credu bod y lleihad mewn profiad gwaith yn ddewis bwriadol. Yn wir, soniodd y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol am weithio gyda Medr i agor y drysau i brofiad gwaith ystyrlon, ac rydym yn croesawu hynny.

**230.** Ymddengys mai ffactorau ymarferol sydd i'w gyfrif am y lleihad. Gyda'i gilydd, nid oes gan ysgolion yr amser, na'r arbenigedd mewn rhai achosion, i sefydlu rhwydwaith o gyflogwyr sy'n cynnig profiad gwaith a chynnal y gwiriadau diogelu ac iechyd a diogelwch angenrheidiol i hwyluso lleoliadau i bob plentyn.

**231.** Nodwn gyda diddordeb waith Gyrfa Cymru ar ddarparu gwasanaeth lleoliad profiad gwaith wedi'i dargedu i ddysgwyr. Mae'r gwasanaeth hwn yn adlewyrchu'r duedd ehangach yn Gyrfa Cymru o ganolbwyntio ei adnoddau cyfyngedig ar grwpiau penodol o bobl ifanc, fel y rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg neu sydd ag ADY. Mae hon yn amlwg yn rhaglen fuddiol i ddysgwyr sy'n gymwys ar ei chyfer.

**232.** I ddisgyblion eraill, fodd bynnag, mae'n amlwg nad yw'r cynnig profiad gwaith presennol yn ddigon da. Nid yw'n iawn bod plant y mae eu rhieni a'u gofalwyr yn gallu trefnu lleoliadau yn cael manteision y profiad hwnnw pan nad oes modd i eraill gael yr un manteision. Mae angen adolygu'r dull a ddefnyddir i drefnu lleoliadau profiad gwaith. Rydym wedi ystyried amcangyfrifon cost Gyrfa Cymru i ddarparu gwasanaeth lleoli canolog i bob disgybl (£2.3 miliwn y flwyddyn) a'r potensial i leihau'r gost honno ymhellach os yw ysgolion yn lleoli dysgwyr gan ddefnyddio cronfa ddata o gyflogwyr a gynhelir gan Gyrfa Cymru. Nid yw'r costau hyn yn ymddangos yn afresymol. Rydym yn croesawu gwaith Gyrfa Cymru yn ystod haf 2025 ar ymgynghori ag ysgolion i gael gwybod mwy am ba gymorth y byddent ei eisiau i ddarparu profiad gwaith ystyrlon i fwy o ddysgwyr.

**233.** Fodd bynnag, mae cyflogwyr yn wynebu heriau wrth ystyried darparu cyfleoedd profiad gwaith i bobl ifanc hefyd. Hyd yn oed os oes gan ysgolion yr holl arbenigedd a'r gallu i oruchwylio eu hochr nhw o'r trefniadau, nid oes digon o gyflogwyr ar hyn o bryd i ddarparu lleoliad profiad gwaith i bob dysgwr. Mae angen yswiriant, cynllunio a goruchwyliaeth ar bobl ifanc. Mae hyn i gyd yn cymryd amser ac arian. Ceir manteision amlwg i gyflogwyr lleol sy'n ymgysylltu â dysgwyr. Ond yn anffodus, i lawer, mae cost yr ymgysylltu hwnnw'n rhy uchel. Ochr yn ochr â gwaith Gyrfa Cymru gydag ysgolion, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu darn byr, penodol o waith i ymchwilio i'r rhwystrau sy'n wynebu cyflogwyr posibl, a pha gamau y gallai Llywodraeth Cymru a/neu eraill eu cymryd i oresgyn y rhwystrau hynny.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu darn penodol o ymchwil i ddeall yn well pam nad yw rhai cyflogwyr yn gallu cynnig lleoliadau profiad gwaith, neu pam eu bod yn amharod i wneud hynny, a pha gamau y gall Llywodraeth Cymru neu eraill eu cymryd i oresgyn y rhwystrau hynny.

## Rhwystrau i gynnydd yn 16 oed

### Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

**234.** Mae'r sector addysg a hyfforddiant ôl-16 yn chwarae rhan hanfodol o ran sicrhau bod dysgwyr dwyieithog, o oedran ysgol orfodol, yn cadw ac yn gwella eu hyder a'u gallu i ddefnyddio'r Gymraeg. Er gwaethaf y cynnydd canmoladwy yn lefelau'r addysgu dwyieithog ar draws cyrsiau galwedigaethol, mae llawer llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn colegau AB a dysgu seiliedig ar waith o hyd o'i gymharu â'r chweched dosbarth. Mae hyn yn arbennig o amlwg pan edrychwn ar ddarpariaeth sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg.

**235.** Dengys ein tystiolaeth mai'r prif rwystrau i symud ymlaen i addysg a hyfforddiant ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg yw diffyg darpariaeth a'r duedd i rai dysgwyr dwyieithog ddilyn eu cyrsiau yn Saesneg.

**236.** Credwn y gallai cael gwared ar rwystrau i gydweithio rhwng sefydliadau oresgyn y ddau rwystr hyn. Gall sefydliadau wella ehangder eu cynnig ôl-16 – gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg – drwy gydlynu'r ddarpariaeth ar draws sefydliadau. Mae hyn o fudd i'r dysgwr drwy roi ystod ehangach o opsiynau Cymraeg iddynt. Gall fod o fudd mawr i sefydliadau sy'n cynnig darpariaeth Gymraeg hefyd, y gallai rhai ohonynt, fel arall, gael anhawster i ddenu digon o fyfyrwyr i gyrsiau penodol er mwyn parhau i fod yn hyfyw yn ariannol (rydym yn trafod hyn o baragraff 283 ymlaen).

**237.** Gallai gwella cydweithio rhwng sefydliadau hefyd annog rhai dysgwyr i barhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Pan gânt eu gorfodi i ddewis rhwng cael eu holl addysg neu hyfforddiant yn Saesneg neu'r cyfan yn Gymraeg, mae llawer o ddysgwyr dwyieithog yn dewis Saesneg ar hyn o bryd. Nid ydym yn gweld unrhyw reswm pam na all sefydliadau sy'n cydweithio fabwysiadu dull mwy hyblyg i alluogi dysgwyr i ymgymryd â rhai o'u hastudiaethau ôl-16 yn y Gymraeg a rhai yn Saesneg. O'r hyn yr ydym wedi'i glywed, gallai hyn annog dysgwyr dwyieithog i barhau â rhywfaint o'u haddysg a'u hyfforddiant yn y Gymraeg, a fydd yn eu helpu i gadw eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg pan fyddant yn oedolion.

**238.** Felly rydym yn ailadrodd yma ein hargymhelliad cynharach, Argymhelliad 5, sy'n hanfodol i nifer o'r materion mwyaf dybryd a amlygwyd yn yr adroddiad hwn: ansawdd a natur ddiduedd y cyngor gyrfaoedd a roddir i ddysgwyr, hyfywedd y chweched dosbarth, ac – fel yr ydym yn ei drafod yma – gwella ehangder a hyblygrwydd darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg.

## Anghenion Addysgol Ychwanegol ("ADY")

**239.** Nodwn y pryderon a godwyd gan amrywiaeth o randdeiliaid ynghylch argaeledd ac ansawdd darpariaeth ôl-16 ar gyfer dysgwyr anabl a dysgwyr ag ADY. Rydym yn adnabod llawer o themâu tebyg o'n gwaith helaeth drwy gydol y chweched Senedd sy'n canolbwyntio ar weithredu'r system ADY newydd mewn addysg cyn-16.

**240.** Ar 14 Hydref 2025, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg grynodeb o'r ymatebion i'r adolygiad o fframwaith deddfwriaethol ADY a chanfyddiadau arolwg o rieni a gofalwyr am y system ADY. Fe gawsom sesiwn graffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ynghylch canfyddiadau'r adolygiad hwn, ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r canfyddiadau hynny, ar 23 Hydref fel rhan o'n gwaith parhaus ar ystyried gweithrediad diwygiadau addysg gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y gwaith craffu hwnnw ei lywio gan y dystiolaeth a gasglwyd gennym yn yr ymchwiliad hwn ynghylch yr heriau sy'n wynebu dysgwyr ag ADY wrth iddynt bontio i addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae ein hadroddiad ar yr ymchwiliad hwnnw i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2026.

## Cludiant

**241.** Mae'n amlwg mai cludiant yw un o'r rhwystrau mwyaf arwyddocaol, os nad y rhwystr(au) mwyaf arwyddocaol, sy'n wynebu dysgwyr wrth iddynt geisio symud ymlaen i addysg a hyfforddiant ôl-16. I lawer, mae diffyg cludiant neu gost cludiant yn culhau eu hopsiynau, gan eu gwthio i ddewis un sefydliad ôl-16 yn hytrach nag un arall, ac o ganlyniad i ddewis un pwnc neu gwrs yn hytrach nag un arall. Mae'n gwneud i eraill gefnu ar addysg a hyfforddiant ôl-16 yn gyfan gwbl.

**242.** Mae'n bwysig nodi bod y problemau sylfaenol sy'n wynebu dysgwyr mewn perthynas â thrafnidiaeth yn ddeublyg.

**243.** Y broblem gyntaf yw'r gost. Nid yw llawer o awdurdodau lleol yn darparu cymorth ariannol ar gyfer teithio i ddysgwyr ar ôl iddynt adael blwyddyn 11. Felly mae baich ariannol teithio'n ddyddiol yn ôl ac ymlaen i leoliadau darparwyr addysg ôl-16 drwy gydol y tymor yn sylweddol, yn enwedig yng nghyd-destun yr heriau ariannol parhaus y mae llawer o deuluoedd yn eu hwynebu.

**244.** Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau yn y maes hwn, drwy dreialu cap o £1 am docynnau bws sengl i bobl ifanc. Wrth gwrs, ni fydd tocynnau bws £1 yn helpu dysgwyr sy'n gorfod teithio ar y trên, neu ddysgwyr sy'n byw neu'n astudio mewn ardaloedd â mynediad cyfyngedig i fysiau. Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r cynllun peilot fel ffordd o leihau'r baich ariannol sy'n gysylltiedig â

chludiant i lawer o bobl ifanc. Gan ei fod yn bolisi sy'n gymharol gostus, bydd yn bwysig i Lywodraeth nesaf Cymru ystyried effaith y cynllun peilot a chanfod a yw wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl ifanc, gan gynnwys mewn perthynas â hygyrchedd sefydliadau addysg a hyfforddiant. Felly, rydym yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru i gomisiynu gwerthusiad annibynnol o'r cynllun peilot, ac yn ein barn ni, rhaid iddo ystyried yn benodol effaith y cynllun ar fynediad at addysg a hyfforddiant ôl-16.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys yn benodol yr effaith ar fynediad pobl ifanc at addysg a hyfforddiant ôl-16 yn ei chylch gorchwyl ar gyfer y gwerthusiad annibynnol arfaethedig o'i chynllun peilot tocynnau bws sengl am uchafswm o £1/tocynnau teithio dyddiol am uchafswm o £3 i bobl ifanc.

**245.** Yr ail rwystr sylweddol yn ymwneud â chludiant yw argaeledd. Rydym yn cydnabod y corff sylweddol o dystiolaeth sy'n nodi'n glir iawn, waeth beth fo'r gost, fod teithio'n amhosibl os nad yw bysiau a threnau'n rhedeg ar amseroedd priodol, neu os nad ydynt yn rhedeg o gwbl. Nid yw'n syndod bod hon yn broblem benodol i ddysgwyr mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, mae hefyd yn rhwystr sylweddol i ddysgwyr mewn addysg a hyfforddiant seiliedig ar waith sy'n gweithio oriau anghymdeithasol, neu sydd wedi'u lleoli gyda chyflogwyr nad ydynt yn agos at ganolfannau trafnidiaeth.

**246.** Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau yn y maes hwn hefyd, drwy Fil Gwasanaethau Bysiau (Cymru). Nodwn sylwadau swyddogion Llywodraeth Cymru am y potensial i Weinidogion Cymru greu rhwydwaith bysiau sy'n ystyried anghenion teithio dysgwyr mewn sefydliadau ôl-16.

# 5. Darpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed

Mae gan Gymru gyfran uwch o ddysgwyr 16-18 oed sy'n astudio mewn colegau AB o gymharu â gwledydd eraill y DU. Yn 2024/25, am y tro cyntaf ers 2017/18, roedd llai na hanner y dysgwyr a aeth ymlaen i addysg a hyfforddiant ôl-16 yn astudio pynciau Safon UG. Ond mae nifer sylweddol o ddysgwyr nad ydynt yn symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant ôl-16: er gwaethaf gwelliannau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd dros 10% o ddysgwyr 16-18 oed yn NEET ym mis Mawrth 2023.

## Data cyrchfannau ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed

**248.** Mae ffynonellau data allweddol am gyfranogiad ôl-16 yn cynnwys:

- Data Gyrfa Cymru ar gyrchfannau disgyblion ar ôl blynyddoedd 11, 12 a 13. Cyhoeddir y rhain fesul blwyddyn academaidd, a chânt eu cadarnhau gan Lywodraeth Cymru cyn eu cyhoeddi.[394]


- Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru Llywodraeth Cymru sy'n darparu data ar ddysgwyr mewn addysg a hyfforddiant ôl-16, ac eithrio'r rhai mewn ysgolion ond gan gynnwys y rhai mewn sefydliadau AB, darparwyr Dysgu seiliedig ar waith eraill a darpariaeth Dysgu Cymunedol.[395]

- Y Datganiad Ystadegol Cyntaf a gyhoeddir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru. Dyma'r ffynhonnell swyddogol ar gyfer amcangyfrifon o gyfran y bobl ifanc yng Nghymru sy'n NEET.[396]

[394] Gyrfa Cymru, 'Hynt disgyblion'; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 17 Gyrfa Cymru
[395] Ystadegau Cymru, 'Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru'
[396] Llywodraeth Cymru, 'Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur', diweddarwyd ddiwethaf 13 Mawrth 2025

- Ail fwletin ystadegol, 'Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant', a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru bob chwarter ac mae'n darparu data mwy amserol, er yn llai cadarn yn ystadegol. Mae'r datganiad hwn yn crynhoi ystadegau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, a gellir ei ddefnyddio i gymharu cyfraddau pobl ifanc sy'n NEET rhwng gwledydd y DU. Mae'r data wedi'u rhannu yn ôl rhanbarth, yn ogystal ag yn ôl anabledd ac ethnigrwydd, ac nid yw hynny'n bosibl gyda data blynyddol y Datganiad Ystadegol Cyntaf.[397]

[397] Llywodraeth Cymru, 'Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)', diweddarwyd ddiwethaf 26 Mehefin 2025




***Ffigur 4. Dilyniant dysgwyr a oedd ym mlwyddyn 11 yn 2021/22 i ddarpariaeth drydyddol yng Nghymru yn 2022/23: Colegau AB, chweched dosbarth, Dysgu Seiliedig ar Waith (gan gynnwys prentisiaethau, hyfforddeiaethau a Thwf Swyddi Cymru+) ac ysgolion arbennig a gynhelir (nad oedd data cwblhau ar gael ar eu cyfer). Nid yw'r dadansoddiad o ddilyniant yn hafal i 29,055 oherwydd talgrynnu. Ffynhonnell: Medr, '**Sta/Medr/04/2025: Dilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol, Awst 2017 i Ionawr 2025**', 25 Chwefror 2025***

**249.** Roedd bron yr holl dystiolaeth a gawsom yn feirniadol o ddefnyddioldeb y data a gyhoeddir yng Nghymru am addysg a hyfforddiant ôl-16.

**250.** Y pryder a godwyd amlaf oedd nad yw data cyhoeddedig yn dilyn llwybrau dysgwyr ar hyn o bryd. Clywsom gan amrywiol sefydliadau – gan gynnwys Gyrfa Cymru ac Estyn – fod y diffyg data sy'n olrhain llwybrau dysgwyr yn golygu nad yw'n bosibl deall dilyniant dysgwyr drwy a rhwng opsiynau addysg a hyfforddiant ôl-16 a ble, pam a phryd y mae dysgwyr yn rhoi'r gorau i'w cyrsiau.[398]

**251.** Cododd eraill bryderon ynghylch amseroldeb y data.[399] Esboniodd Estyn:

> *"… the speed at which data is made available to people is problematic as well. We've been carrying out inspections this term in FE colleges, and we have no data from last year yet that we can formally refer to or look at comparatively across Wales. You'd have thought, by now, we should be in a position where we can report on last year's data and use that data officially. So, there are issues around all aspects of that."*[400]

**252.** Dywedodd ambell randdeiliad allweddol fod gormod o 'bethau anhysbys' yn y data, sy'n ei gwneud yn heriol dod i gasgliadau am lefelau'r bobl ifanc sy'n NEET yn benodol.[401] Tynnodd eraill sylw at fylchau yn y data, megis gwybodaeth am:

- ddysgwyr nad ydynt yn y chweched dosbarth, oherwydd dim ond data ar ddysgwyr yn y chweched dosbarth mewn ysgol y mae data cyrchfannau Gyrfa Cymru yn eu cynnwys.[402] Dadleuodd Estyn mai defnydd cyfyngedig sydd i hynny ar lefel awdurdod lleol, "gan fod cyfran yr ysgolion sydd â chweched dosbarth ym mhob awdurdod lleol yn amrywio o 0%-100%";[403]

[398] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 10 Grŵp Llandrillo Menai; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 07 Grŵp Hyfforddi Educ8; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 281 (Gyrfa Cymru); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 247 (Estyn); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 33 Make UK; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 45 Grŵp Colegau NPTC; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 21 Dr. Katy Huxley a Rhys Davies, Prifysgol Caerdydd; Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraffau 64-67; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 30 Prifysgol Metropolitan Caerdydd
[399] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 210 (Colegau Cymru); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 14 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)
[400] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 245
[401] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 24 Estyn
[402] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 17 Gyrfa Cymru
[403] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 24 Estyn

- dilyniant yn ôl y dewis o bwnc neu gwrs;[404]
- grwpiau penodol o ddysgwyr (dysgwyr ag ADY[405], dysgwyr o deuluoedd incwm isel neu ddysgwyr oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim[406], dysgwyr o wahanol ethnigrwydd[407]; dysgwyr y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt[408]; dysgwyr sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal neu sydd wedi ymddieithrio[409]);
- dysgwyr nad ydynt bellach yn ymgysylltu â'r system addysg;[410]
- dysgwyr sy'n siarad Cymraeg;[411]
- effeithiolrwydd y cyngor a'r cyfarwyddyd ynghylch opsiynau ôl-16 a ddarperir i bobl ifanc;[412]
- dysgwyr a addysgir yn breifat;[413] a
- dysgwyr sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref.[414]

**253.** Dywedodd Medr wrthym fod cryn dipyn o ddata yn cael eu cadw ar draws y sector ôl-16 cyfan, ac mai'r her yw sut i archwilio'r data hynny.[415] Fodd bynnag, clywsom alwadau am well cydweithio rhwng sefydliadau.[416] Esboniodd ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caerdydd effaith casgliadau data gwahanol ar y casgliadau y gellir dod iddynt o'r data cyfunol:

> *"… current data collections that enable analysis of the post-16 education sector are disparate data collections, often with long-lead times for publication and data access. The nature of*

[404] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 19 Prifysgolion Cymru
[405] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 24 Estyn
[406] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 42 Y Sefydliad Ffiseg; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 24 Estyn
[407] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 42 Y Sefydliad Ffiseg
[408] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe
[409] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 28 Cymorth i'r Rhai sy'n Gadael Gofal a Myfyrwyr Cymru (CLASS Cymru); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 25 Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru
[410] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 41 Medr
[411] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe
[412] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 19 Prifysgolion Cymru
[413] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 21 Dr. Katy Huxley a Rhys Davies, Prifysgol Caerdydd
[414] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 21 Dr. Katy Huxley a Rhys Davies, Prifysgol Caerdydd
[415] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 41 Medr
[416] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 111 (CLlLC); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 34 Colegau Cymru

*the data collected, whilst aligned across some items are not aligned for other items. This makes it difficult to compare like with like, for example, in terms of disability. … These data issues limit the ability of analysts to create a complete and detailed understanding determinants of participation and pathways through tertiary education. It is currently not possible to take into account achievement or experiences in pre-16 education, a key determinant in progression, without utilising examinations data."*[417]

**254.** Dywedodd Gyrfa Cymru wrthym ei fod wedi cyflwyno prototeip o 'hyb gwybodaeth data Cymru gyfan' i Lywodraeth Cymru, a fyddai'n defnyddio data gan Gyrfa Cymru, ysgolion, colegau, awdurdodau lleol a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Roedd yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried datblygu'r hyb data hwnnw ymhellach i fod yn sail i gyfarwyddyd gyrfaoedd, helpu awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau, cefnogi darparwyr addysg a hyfforddiant unigol i ddatblygu eu cynigion dysgu a bod yn sail i ddadansoddiad o anghenion y farchnad lafur bresennol ac anghenion y farchnad lafur yn y dyfodol.[418]

**255.** Yn y cyfamser, mae Medr hefyd wedi tynnu sylw at eu rôl o ran gwella ansawdd data ôl-16. Dywedodd wrthym ei fod wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata, ac y bydd yn adolygu ac yn gwella sut y mae'n casglu data gan ddarparwyr er mwyn iddo allu achwilio'r data sydd ar gael yn well.[419]

**256.** Dywedodd Llywodraeth Cymru fod "data dibynadwy o'r radd flaenaf yn hollbwysig er mwyn deall tueddiadau cyfranogi a mynd i'r afael wedyn â'r heriau a'r cyfleoedd, ac mae'n hollbwysig hefyd er mwyn deall effaith ymyriadau." Fodd bynnag, cydnabu mai "cyfyngedig yw'r dystiolaeth glir ynglŷn ag effeithiolrwydd mentrau polisi i gynyddu cyfranogiad". Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu 'Cynllun Tystiolaeth Cyfranogiad mewn Addysg Drydyddol' i wella ansawdd y data a'r ddealltwriaeth o lwybrau dysgwyr drwy'r system addysg.[420]

**257.** Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wrthym ei bod yn teimlo'n gryf iawn am werth data, ond bod data ond cystal â'r hyn a wneir gyda nhw. Soniodd am y data y bydd gofyn i ysgolion eu cyhoeddi fel rhan o fframwaith

417 Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 21 Dr. Katy Huxley a Rhys Davies, Prifysgol Caerdydd
418 Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 17 Gyrfa Cymru
419 Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 41 Medr
420 Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 47 Llywodraeth Cymru

dangosyddion hawliau dysgwyr (gweler paragraff 105), a'r cyfleoedd sydd gan Lywodraeth Cymru i weithio gyda sefydliadau fel y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.[421]

**258.** Dywedodd y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol fod ganddo hyder yn ansawdd y data ar gyrchfannau disgyblion a ddarperir gan Gyrfa Cymru.[422] Ychwanegodd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch ei bod yn teimlo y gellid gwneud mwy gyda'r data presennol, yn enwedig data o wahanol ffynonellau nad ydynt yn cysylltu â'i gilydd ar hyn o bryd. Dywedodd wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynllun tystiolaeth, a fyddai'n cyfuno gwahanol setiau data addysg i helpu i nodi tueddiadau a phatrymau er mwyn cael darlun mwy cynhwysfawr a chyfannol o gyfranogiad[423]

## Y cymysgedd o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed

### Llwybrau academaidd

**259.** Safon Uwch Gyfrannol (UG) yw'r dewis addysg drydyddol mwyaf cyffredin i ddysgwyr ar ôl Blwyddyn 11. Yn ôl data interim a ryddhawyd gan Medr, ymgymerodd 49% o ddysgwyr a aeth ymlaen i addysg drydyddol yn 2024/25 â rhaglen Safon UG. Fodd bynnag, roedd nifer y dysgwyr a oedd yn dewis astudio cymwysterau Safon UG wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, o uchafbwynt diweddar o 55% yn 2021/22. Cafodd cymwysterau TGAU eu dyfarnu mewn ffordd wahanol yn ystod y pandemig oherwydd na chynhaliwyd arholiadau, ac un o ganlyniadau hynny oedd canlyniadau uwch yn 2020 a 2021. Ar ôl i arholiadau ailddechrau yn 2022, cafodd cymwysterau TGAU eu graddio'n fwy hael er mwyn symud yn ôl yn raddol at ddeilliannau cyn y pandemig erbyn 2024, ac erbyn hynny roedd y trefniadau wedi dychwelyd i'r rhai a oedd a waith yn 2019. Efallai mai dyma sydd i gyfrif am y nifer uwch o gofrestriadau am gymwysterau Safon UG yn ystod cyfnod y pandemig. Serch hynny, mae cyfran y dysgwyr a aeth ymlaen i astudio cymwysterau Safon UG yn 2024/25 yn parhau i fod yn is na'r cyfnod cyn y pandemig (aeth 52% o ddisgyblion ymlaen i astudio cymwysterau Safon UG yn 2017/18 o'i gymharu â 49% yn 2024/25).[424] Mae data Cymwysterau

[421] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 186-188
[422] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 183
[423] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 190-193
[424] Medr, 'Dilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol, Awst 2017 i Ionawr 2025', 25 Chwefror 2025, tudalen 6

Cymru yn nodi bod nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau Safon Uwch yng Nghymru wedi gostwng 16.1% rhwng 2009 a 2024.[425]

**260.** I rai rhanddeiliaid, mae'r gostyngiad yng nghyfran y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau Safon Uwch yn destun pryder. Mae Prifysgolion Cymru yn dadlau bod y ffaith bod llai o bobl ifanc 16 oed yn astudio ar gyfer Safon Uwch yn golygu bod llai o fyfyrwyr yn symud ymlaen i addysg uwch a swyddi sy'n gofyn am lefel uwch o sgiliau. Mae eu tystiolaeth yn tynnu sylw at y pwyntiau canlynol yn benodol:

- Mae 33% o bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol yn mynd ymlaen i astudio cymwysterau Safon Uwch yng Nghymru, o'i gymharu â 47% yn Lloegr.
- Mae anghydraddoldeb yn bwrw gwreiddiau mewn cyrchfannau ôl-16. Maent yn tynnu sylw at ddata'r cyfrifiad sy'n dangos bod 41% o ddysgwyr nad ydynt yn profi unrhyw amddifadedd yn astudio cymwysterau Safon Uwch, o'i gymharu ag 8% o ddysgwyr sy'n dioddef amddifadedd mewn 4 dimensiwn. Yn yr un modd, mae 34% o ddysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn astudio cymwysterau Safon Uwch, o'i gymharu ag 11% o ddysgwyr sy'n gymwys i'w cael.
- Mae darpariaeth chweched dosbarth cyfrwng Cymraeg yn hanfodol i'r sector AU cyfrwng Cymraeg, oherwydd y gyfran uchel o ddysgwyr sy'n symud ymlaen o chweched dosbarth cyfrwng Cymraeg i brifysgolion Cymru.[426]

**261.** Dadleuodd Prifysgolion Cymru yr ymddengys mai anfwriadol yw'r gostyngiad yng nghyfran y dysgwyr sy'n astudio cymwysterau Safon Uwch yn hytrach na phenderfyniad polisi ymwybodol:

> *"I'm not sure there would have been a deliberate thing in the system, for example, that would have meant that we were pushing for an A level participation rate in Wales that is 33 per cent, whereas in England it's 47 per cent; I don't think that's happened deliberately. So, I think we maybe need to sit back and ask: what is it we're trying to build here and why? What are the qualifications that fit with that? And how do we build good*

[425] Cymwysterau Cymru, 'Cymwysterau Safon Uwch Cymraeg cyfredol mewn cyd-destun'
[426] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 19 Prifysgolion Cymru; Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraffau 66-68

> *advice and guidance to make sure that we get that high-value economy rolling?"*[427]

**262.** Maent yn cynnig targedau ar gyfer cofrestriadau Safon Uwch yng Nghymru.[428] Fodd bynnag, dadleuodd eraill, yn enwedig y rhai sy'n cynrychioli darparwyr addysg alwedigaethol ôl-16, y gallai pennu targed cofrestriadau ar gyfer cymwysterau Safon Uwch wthio rhai plant yn amhriodol i addysg academaidd.[429]

**263.** Nid pawb oedd yn rhannu pryderon Prifysgolion Cymru ynghylch y gostyngiad mewn cyfraddau cyfranogi mewn cymwysterau Safon Uwch ac UG. Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, rydym yn trafod y farn bod rhagfarnau diwylliannol dwfn o blaid llwybrau academaidd ar draul llwybrau galwedigaethol (gweler paragraff 34 ymlaen). Dadleuodd Undeb y Prifysgolion a'r Colegau yn fwy penodol fod mwy o gyfranogiad gan ddysgwyr yn golygu dod â monopoli rhannol Safon Uwch fel prif gymhwyster ar gyfer symud ymlaen i addysg uwch i ben. Aiff ymlaen i ddweud:

> *"After all, and in common with past gold-standards, their [A levels'] value is somewhat over inflated and stifles development and innovation. Lecturers frequently complain that the first year of an undergraduate course is spent inculcating the habits of critical thought and independent research which Welsh learners' European comparators picked up in the school system."*[430]

**264.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod wedi gweithio gyda'r OECD i gynhyrchu'r adroddiad 'What Shapes Pathways and Transitions? A Comparative Perspective on Learners Trajectories through Upper Secondary Education in Wales'. Esboniodd Llywodraeth Cymru mai'r "dyhead cyffredinol" yn yr adroddiad yw i ddysgwyr gwblhau "addysg uwchradd uwch", y mae'n ei diffinio fel addysg ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed. Aiff ymlaen i sôn am y cymwysterau TGAU diwygiedig, a wnaed i Gymru, sydd wedi'u cynllunio i gefnogi dilyniant i astudiaethau ôl-16, gan gynnwys cymwysterau Safon Uwch. Cysylltodd Llywodraeth Cymru hefyd ei gwaith ar bresenoldeb a chyrhaeddiad yn yr ysgol â chyfranogiad mewn cymwysterau Safon Uwch, sydd, meddai, yn "hanfodol o ran cynnal y llif mewn

---

[427] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 303
[428] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 19 Prifysgolion Cymru
[429] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 69
[430] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 36 Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru

ysgolion uwchradd, trwy gymwysterau TGAU ac ymlaen at gymwysterau Safon Uwch a chymwysterau lefel 3 eraill."[431]

[431] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 47 Llywodraeth Cymru

## Llwybrau galwedigaethol

### Tueddiadau o ran nifer y bobl sy'n mynychu cyrsiau galwedigaethol

**265.** Efallai mai cymwysterau Safon UG a Safon Uwch yw'r dewis mwyaf cyffredin o hyd i ddysgwyr sy'n ymgymryd ag addysg a hyfforddiant ôl-16, ond mae cyfran gynyddol yn dewis cymwysterau galwedigaethol yn lle hynny. Mae data a gyhoeddwyd gan Medr yn nodi, yn 2024/25, am y tro cyntaf ers 2017/18, fod mwy o ddysgwyr wedi symud ymlaen i astudiaethau nad ydynt yn astudiaethau safon UG (51%) nag a gofrestrwyd ar gyfer cymwysterau Safon UG (49%). O'r rhai na chofrestrodd ar gyfer cymwysterau Safon UG, cofrestrodd 13% ar gyfer cymwysterau Lefel 3, 17% ar gyfer cymwysterau Lefel 2, 12% ar gyfer cymwysterau Lefel 1, a chofrestrodd 9% ar fathau eraill o addysg neu hyfforddiant. Mae'r duedd hon o beidio â chofrestru ar gyfer cymwysterau Safon UG a Safon Uwch yn cael ei hadlewyrchu yn y gyfran gynyddol o ddysgwyr sy'n astudio mewn colegau AB yn hytrach na'r chweched dosbarth (gweler ffigur 3 ym mhennod 4).[432]

**266.** Dywedodd ColegauCymru wrthym fod y galw am ddarpariaeth alwedigaethol yn cynyddu. Roeddent yn dadlau y gall cymwysterau galwedigaethol gefnogi dilyniant i AU, ac mai'r gwahaniaeth allweddol rhwng cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau academaidd yw'r dull astudio, nid gwerth y cymhwyster.[433] Serch hynny, dywedodd rhai rhanddeiliaid sy'n gweithio ym maes addysg alwedigaethol ôl-16 wrthym fod llawer o ddisgyblion yn cyrraedd y coleg yn teimlo'n fethiant oherwydd eu bod wedi cael anawsterau gydag addysg academaidd. Roedd rhai o'r bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw yn cytuno â hynny. Dywedwyd wrthym eu bod wedi cael anhawster gyda'r amgylchedd ysgol, ac yn awyddus i fynd i'r coleg i ddechrau pennod newydd yn eu bywydau.[434]

**267.** Cawsom dystiolaeth a oedd yn awgrymu bod y cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n cofrestru ar gyrsiau galwedigaethol i'w briodoli i gynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n astudio am gymwysterau lefel is (cymwysterau Lefel 1 a Lefel 2), yn hytrach na chymwysterau Lefel 3, sydd â gwerth cyfatebol i gymwysterau Safon Uwch. Mae data Medr yn nodi, yn 2024/25, fod 29% o ddysgwyr mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 wedi cofrestru ar gyrsiau Lefel 1 neu Lefel 2, o'i gymharu â 25% o ddysgwyr yn

[432] Medr, 'Dilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol, Awst 2017 i Ionawr 2025', 25 Chwefror 2025, tudalennau 6-7
[433] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 34 Colegau Cymru; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 141
[434] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i rhanddeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraffau 73-75

2017/18.[435] Dywedodd Medr wrthym fod angen iddo ddeall pam mae mwy o ddysgwyr yn dod i sefydliadau ôl-16 ar lefelau 1 a 2 er mwyn gallu sicrhau bod y llwybrau priodol ar gael i'r unigolion hynny.[436] Roedd cynrychiolydd Prifysgolion Cymru o Brifysgol De Cymru o'r farn bod y duedd hon yn dangos bod darparwyr yn dyblygu lefel yr addysg a gynigir yn ystod addysg orfodol:

> *"We have an FE college in our structure at the University of South Wales, so we've got a circumstance where they've got growth in their learner numbers, but it's largely in lower level qualifications where, actually, people are catching back up. So, we're paying for education twice through that system."*[437]

**268.** Mae pryderon eraill a godwyd ynghylch darpariaeth alwedigaethol yn cynnwys:

- y gwahaniaeth yn y cynigion galwedigaethol i ddysgwyr, gan ddadlau bod llai o opsiynau galwedigaethol ar gael i ddysgwyr yng nghefn gwlad Cymru o'i gymharu â'u cymheiriaid mewn ardaloedd trefol;[438]
- prinder darpariaeth alwedigaethol cyfrwng Cymraeg (fel y trafodir o baragraff 147 ymlaen), a'r rhwystrau sy'n atal colegau ac ysgolion rhag cydweithio i gryfhau'r ddarpariaeth honno;[439] a
- anghydbwysedd o ran rhywedd mewn rhai meysydd galwedigaethol.[440]

**269.** Pwysleisiodd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch wrthym fod rhai cyfleoedd galwedigaethol gwerthfawr a gwych yn cael eu cynnig yn ein colegau AB, a ddylai fod ar gael i bob plentyn, waeth beth fo'i raddau TGAU disgwyliedig. Dywedodd wrthym fod Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithredu rhai o'r argymhellion o adolygiad Lusher ac adroddiad Dr Hefin David AS 'Pontio i Fyd Gwaith', megis datblygu TAAU a chynyddu nifer y cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, cydnabu fod cyflawni'r argymhellion eraill yn ddarn o waith cymhleth iawn oherwydd ei fod yn cwmpasu ystod o bortffolios.[441] Nododd

[435] Medr, 'Dilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol, Awst 2017 i Ionawr 2025', 25 Chwefror 2025, tudalennau 6-7
[436] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 145
[437] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 307
[438] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 7 (NASUWT); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 03 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[439] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 03 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 24 Estyn;
[440] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe
[441] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 200-204

Llywodraeth Cymru yn ei thystiolaeth ysgrifenedig ei bod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn gyntaf, ac yna'n ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach, er mwyn symud ymlaen â'r gwaith hwnnw.[442]

### Prentisiaethau

**270.** Mae pedair lefel o brentisiaeth yng Nghymru:


- prentisiaethau sylfaen (Lefel 2);
- prentisiaethau (Lefel 3); a
- prentisiaethau uwch (Lefel 4 a Lefel 5); a
- gradd-brentisiaethau (Lefel 6), yr ydym yn eu trafod yn fwy manwl o baragraff 363 ymlaen.

**271.** Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i greu 125,000 o brentisiaethau i bob oed yn ei Rhaglen Lywodraethu wedi'i diweddaru.[443] Mor ddiweddar â mis Chwefror 2024, pwysleisiodd Llywodraeth Cymru mai prentisiaethau yw "conglfaen" ei pholisi sgiliau, a bod ganddynt "rôl ganolog i'w chwarae yn hyrwyddo twf ac yn cefnogi adferiad, boed hynny mewn arloesedd digidol neu'r economi sylfaenol, mewn meysydd fel iechyd a gofal cymdeithasol, gofal plant a thai."[444] Fodd bynnag, mewn tystiolaeth i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd ym mis Mehefin 2024, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg ar y pryd fod Llywodraeth Cymru wedi lleihau ei tharged i 100,000 o brentisiaethau pob oed a ddechreuwyd.[445]

**272.** Mae data gan StatsCymru a gyflwynwyd drwy offeryn rhyngweithiol ar-lein Medr yn nodi, erbyn mis Ebrill 2025, y dechreuwyd 77,385 o brentisiaethau (gweler ffigur 5). Roedd nifer y prentisiaid a ddechreuwyd ar draws pob lefel (Lefel 2, Lefel 3 a Lefel 4 neu uwch) yn is yn nhrydydd chwarter 2024/25 (3,895) o'i gymharu â thrydydd chwarter 2023/24 (4,570), a gwelwyd gostyngiad arbennig o fawr yn nifer y prentisiaethau Lefel 2 a ddechreuwyd (19%).[446] Adroddodd Medr fod y gostyngiad yn nifer y prentisiaethau a ddechreuwyd yn cyd-daro â

[442] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 47 Llywodraeth Cymru
[443] Llywodraeth Cymru, 'Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad', Rhagfyr 2021, tudalen 4
[444] Llywodraeth Cymru, 'Prentisiaethau: datganiad polisi', Chwefror 2024
[445] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Mehefin 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 120
[446] Medr, Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd: Dangosfwrdd rhyngweithiol, 4 Mehefin 2025 (Saesneg yn unig)

gostyngiad yn y cyllid ar gyfer prentisiaethau yng nghyllideb 2024-25, yn dilyn colli cyfraniadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop.[447]




***Ffigur 5. Nifer cronnol y prentisiaethau Lefelau 2, 3 a 4+ a ddechreuwyd fesul chwarter, gyda rhagamcanion ar gyfer chwarteri'r dyfodol yn seiliedig ar y cynnydd chwarterol cyfartalog rhwng Ch4 2020/21 a Ch3 2024/25. Ffynhonnell: Ystadegau Cymru, 'Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd fesul chwarter a blwyddyn'.***[448]

**273.** Dywedodd Gyrfa Cymru wrthym, er gwaethaf y ffaith ei fod yn ddewis cyntaf i 13.5% o ddysgwyr ym mlwyddyn 11, ac yn ail ddewis i 21% o ddysgwyr, mai dim

[447] Medr, 'Ystadegau swyddogol: Rhaglenni dysgu prentisiaethau a ddechreuwyd: Awst i Hydref 2024', 7 Mai 2025, tudalen 2

[448] Mae Medr yn cynhyrchu mesur mwy cadarn o raglenni prentisiaeth a ddechreuwyd, sy'n ystyried y rhai sy'n gadael yn gynnar (o fewn 8 wythnos) a throsglwyddiadau rhwng prentisiaethau. Gan ddefnyddio'r mesur hwn, cyfanswm y prentisiaethau a ddechreuwyd yn Ch3 2024/2 yw 77,385 (yn hytrach nag 84,430, fel y nodir yn ffigur 5). Gweler: Medr, Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd: Dangosfwrdd rhyngweithiol, 4 Mehefin 2025 (Saesneg yn unig)

ond 1.6% o ddysgwyr sy'n mynd ymlaen i ddysgu seiliedig ar waith mewn gwirionedd.[449] Roedd canfyddiadau ein harolwg gyda phobl ifanc a rhieni/gofalwyr yn gyson â data Gyrfa Cymru. Dywedodd un ymatebydd wrthym:

> *"… mae angen gwneud mwy i helpu i ddod o hyd i brentisiaethau ar gyfer crefftau, fel bod yn blymer. Nid problem y coleg yw hon, mae'n broblem sydd angen edrych arni ar lefel uwch. Ar hyn o bryd, mae prentisiaethau'n brin ac mae myfyrwyr o bosibl yn gwastraffu blynyddoedd yn y coleg heb unrhyw lwybr i gyrraedd eu crefft dewisol. Os nad oes prentisiaethau ar gael, dylai fod ffyrdd eraill o fynd i mewn i'r crefftau sy'n hawdd i fyfyrwyr eu cyrraedd."*

*Ysgrifennodd un arall:*

> *"[Mae angen] Mwy o help i gael prentisiaeth, mae fy mab yn ei drydedd flwyddyn yn y coleg yn astudio i fod yn drydanwr ac mae'n methu â chael prentisiaeth - mae'n teimlo ei fod yn wastraff amser. Rydym wedi cysylltu â chymaint o gwmnïau ond ni fydd neb yn ei gymryd i mewn nac yn rhoi cyfle iddo."*[450]

**274.** Clywsom gan weithwyr proffesiynol colegau a ddywedodd fod llawer o rolau o safon â chyflogau uchel ar ddiwedd llwybrau prentisiaeth.[451] Ond clywsom hefyd am nifer o rwystrau i ddilyn prentisiaeth. Roedd Grŵp Hyfforddi Educ8 a Hyfforddiant Cambrian yn cytuno bod cyflogwyr yn gefnogol i brentisiaethau ar y cyfan, ond eu bod yn cwtogi ar recriwtio yn gyffredinol ar hyn o bryd, sy'n arwain at lai o leoliadau prentisiaeth. Dywedodd Make UK wrthym fod rhai busnesau gweithgynhyrchu yn ochelgar ynglŷn â buddsoddi mewn prentisiaid, a allai adael ar ôl iddynt gwblhau eu hyfforddiant.[452]

**275.** Roedd y rhwystrau eraill i ddilyn prentisiaethau a godwyd gan ein rhanddeiliaid yn cynnwys:

- diffyg capasiti o fewn ysgolion i gydweithio â chyflogwyr,[453]

---

[449] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 17 Gyrfa Cymru
[450] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu', Mawrth 2025, paragraff 63
[451] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 77
[452] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 218, 230-231; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 33 Make UK
[453] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 26 Cyngor Sir Powys

- cyfleoedd cyfyngedig i ymgymryd â dysgu seiliedig ar waith drwy gyfrwng y Gymraeg;[454]
- diffyg cysylltiad digidol dibynadwy ar draws rhai rhannau o Gymru, a all gyfyngu ar opsiynau prentisiaeth hybrid neu weithio gartref;[455]
- effaith negyddol person ifanc yn ennill arian drwy brentisiaeth ar fudd-daliadau'r teulu[456]; a
- cludiant, yn enwedig i ddysgwyr mewn ardaloedd gwledig.[457]

**276.** Dadleuodd rhai rhanddeiliaid y gellid gwneud mwy i gefnogi cyflogwyr. Roedd Grŵp Hyfforddi Educ8, NTfW a Make UK yn annog Llywodraeth Cymru i ddarparu mwy o gyllid ar gyfer rhaglenni prentisiaeth, gyda'r olaf yn pwysleisio bod cost prentisiaid gweithgynhyrchu a pheirianneg wedi cynyddu ond na chafwyd cymorth cyfatebol gan Lywodraeth Cymru.[458] Pwysodd rhai ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i godi ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr. Dadleuodd Make UK o blaid canllawiau symlach, wedi'u teilwra ar gyfer busnesau bach a chanolig yn benodol, tra bod yr Horticultural Traders Association wedi galw am ymchwilio mwy i sut y gellid datblygu prentisiaethau mewn meysydd penodol, fel garddwriaeth drefol.[459]

**277.** Yn y cyfamser, mae Llywodraeth y DU wedi dileu'r gofyniad i brentisiaid 19 oed a hŷn gwblhau cymhwyster Lefel 2 mewn Saesneg a/neu fathemateg fel rhan o'u hyfforddiant. (Mae'r gofyniad yn dal i fod ar waith ar gyfer prentisiaethau 16-18 oed.)[460] Mae'n dadlau y bydd hyn yn lleihau biwrocratiaeth ac yn helpu cyflogwyr i gyflogi prentisiaid yn haws.[461] Cefnogwyd hyn gan rai o'r rhanddeiliaid y buom yn siarad â nhw. Dywedodd y rhanddeiliaid hyn wrthym y gall y gofynion lleiaf ar gyfer mathemateg a Saesneg ar gyfer rhai prentisiaethau wneud i rai dysgwyr

[454] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 24 Estyn
[455] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 13 Hyfforddiant Cambrian
[456] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 807 (Grŵp Hyfforddi Educ8)
[457] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 52 Y Sefydliad Ffiseg; Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 78
[458] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 33 Make UK; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 424 (Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru)
[459] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 23 Horticultural Trades Association; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 33 Make UK
[460] Llywodraeth y DU, 'Apprenticeship funding rules: August 2025 to July 2026', Gorffennaf 2025, paragraff 41
[461] Llywodraeth y DU, '10,000 more apprenticeships as government slashes red tape to boost growth', 18 Chwefror 2025

benderfynu peidio eu dilyn. Eglurwyd y gall hyn fod yn rhwystredig oherwydd bod rhai cyflogwyr yn nodi nad oes angen hyd yn oed y gofynion sylfaenol arnynt, yn enwedig ar gyfer mathemateg.[462]

**278.** Roedd awgrymiadau eraill ar gyfer cynyddu'r nifer sy'n dilyn prentisiaethau yn cynnwys cynigion gan Grŵp Hyfforddi Educ8, a awgrymodd opsiynau integredig seiliedig ar waith ochr yn ochr â llwybrau academaidd traddodiadol.[463]

**279.** Tra roeddem yn casglu tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn, roedd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd yn craffu ar lwybrau prentisiaeth. Cyhoeddwyd ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2025. Daeth i'r casgliad a ganlyn:

- mae'r gostyngiad yn nifer y rhai sy'n cychwyn ar brentisiaethau yn bryder sydd angen esboniad pellach;[464]
- mae dysgwyr yn wynebu heriau wrth fapio dilyniant gyrfa drwy lefelau prentisiaeth, yn enwedig o'u cymharu â chymwysterau academaidd;[465]
- mae cyflogwyr yn wynebu nifer o rwystrau o ran ymgysylltu â'r system brentisiaethau a chymryd prentis.[466]

Roedd yr argymhellion yn cynnwys y dylai Llywodraeth Cymru roi esboniad manwl am y gostyngiad yn nifer y prentisiaethau a ddechreuwyd, ac archwilio'r rhwystrau sy'n wynebu darparwyr prentisiaethau, a gweithio gyda cholegau i fynd i'r afael â'r rhain.[467] Derbyniodd Llywodraeth Cymru y rhan fwyaf o argymhellion y Pwyllgor. Fodd bynnag, dadleuodd fod y cyfrifoldeb am archwilio'r rhwystrau y mae darparwyr prentisiaethau yn eu hwynebu a mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny yn dod o fewn cylch gwaith Medr, ac y byddai Medr yn ymateb i'r Pwyllgor ar wahân.[468]

**280.** Dywedodd Llywodraeth Cymru "yn 2025-26, rydym yn buddsoddi £144m mewn prentisiaethau er mwyn sicrhau y gallwn gyrraedd ein targed o ddarparu 100,000 o brentisiaethau newydd", er mwyn creu sector mwy cydgysylltiedig a

---

[462] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 79
[463] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 07 Grŵp Hyfforddi Educ8
[464] Senedd Cymru, 'Llwybrau prentisiaeth', Gorffennaf 2025, tudalennau 21 a 52
[465] Senedd Cymru, 'Llwybrau prentisiaeth', Gorffennaf 2025, tudalen 38
[466] Senedd Cymru, 'Llwybrau prentisiaeth', Gorffennaf 2025, tudalen 43
[467] Senedd Cymru, 'Llwybrau prentisiaeth', Gorffennaf 2025, tudalen 29
[468] Llywodraeth Cymru, 'Llwybrau prentisiaeth: Ymateb i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig', 3 Medi 2025

chynhwysol, gyda llwybrau cliriach a mwy hyblyg i ddysgwyr ddysgu ar y lefel ac yn y lle sydd orau iddynt.[469]

**281.** Gofynnwyd i'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol a oedd yn pryderu am y gostyngiadau diweddar yn nifer y rhaglenni prentisiaeth a ddechreuwyd. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd inni ei fod yn glir ac yn hyderus iawn y byddai'r targed diwygiedig o 100,000 ar gyfer prentisiaethau a ddechreuwyd yn ystod tymor y Senedd hwn yn cael ei gyrraedd. Dywedodd Cyfarwyddwr Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg Llywodraeth Cymru wrthym y gall chwistrelliad o gyllid am flwyddyn olygu bod nifer y prentisiaethau a ddechreuir yn y blynyddoedd i ddod yn lleihau, oherwydd bod y rhan fwyaf o brentisiaethau'n parhau am fwy nag un flwyddyn. Ychwanegodd:

> *"… if we can't provide long-term certainty of funding, then the apprentice providers will slow down and accelerate and we see that, and it's a really, really big challenge to try and smooth over some of the variations that we see."*[470]

**282.** Yn olaf, cyfeiriodd y Gweinidog at y gwaith sy'n cael ei wneud gan Medr i ystyried yr adolygiad o'r fframwaith prentisiaethau er mwyn sicrhau bod y fframweithiau'n iawn i ddysgwyr ac i'r economi.[471]

## Heriau sy'n wynebu sefydliadau addysg 16-18

### Chweched dosbarth mewn ysgolion

**283.** O baragraff 87 ymlaen yn yr adroddiad hwn, rydym yn ystyried y dystiolaeth a gawsom am y canfyddiad o wrthdaro buddiannau pan fydd ysgolion â chweched dosbarthiad yn rhoi cyngor gyrfaoedd i ddisgyblion. Yr hyn sydd i'w gyfrif am yr achosion o wrthdaro buddiannau hynny yw bod y chweched dosbarth yn wynebu heriau ariannol sylweddol yng nghyd-destun y pwysau ar gyllidebau ysgolion yn gyffredinol. Mae'r pwysau ariannol hyn yn ei gwneud hi'n anodd i rai darpariaethau chweched dosbarth mewn ysgolion barhau i fod yn hyfyw.[472]

[469] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 47 Llywodraeth Cymru
[470] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 58-62
[471] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 64-65
[472] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 82

**284.** Cododd rhanddeiliaid – yn bennaf y rhai sy'n cynrychioli'r sector AB – bryderon ynghylch effaith y pwysau ariannol hyn ar ddysgwyr. Dadleuodd Coleg Gŵyr Abertawe nad yw rhai dapariaethau chweched dosbarth yn gallu cynnig yr ehangder o lwybrau academaidd a galwedigaethol, a bod hyn yn arwain at fynediad anghyfartal i ddysgwyr.[473] Awgrymodd Prif Weithredwr y coleg fod rhai ysgolion yn defnyddio cyllid ar gyfer darpariaeth cyn-16 fel cymhorthdal ar gyfer y chweched dosbarth, a dywedodd fod hyn yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth cyn-16.[474] Roedd ColegauCymru yn annog ar Medr i ystyried hyfywedd darpariaethau chweched dosbarth bach, y maent yn honni sydd wedi cael eu rhoi yn y categori 'rhy anodd'. Maent yn honni bod gan 42% o ddosbarthiadau chweched dosbarth 5 dysgwr neu lai, a bod hyn yn anfantais i ddysgwyr.[475]

**285.** Roedd gan eraill - yn bennaf y rhai sy'n cynrychioli ysgolion neu staff ysgolion - farn wahanol. Dadleuodd rhai nad oes digon o fuddsoddiad mewn ysgolion o'i gymharu â cholegau.[476] Yn ôl CCAC "Nid cystadleuaeth [gyda cholegau] rydyn ni ei heisiau, ond o'i galw hi'n gystadleuaeth, nid yw hi'n gystadleuaeth deg, ym marn ysgolion."[477]

**286.** Pwysleisiodd rhai rhanddeiliaid ei bod yn bwysig i'r chweched dosbarth barhau i fod yn hyfyw:

- Dadleuodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol fod cysylltiad cynhenid rhwng darpariaeth chweched dosbarth ac addysg uwchradd, sy'n ddefnyddiol mewn amrywiol ffyrdd, megis y cyfnod pontio o Gyfnod Allweddol 4.[478] Roedd rhai o'r dysgwyr y buom yn siarad â nhw yn cytuno bod pontio i addysg ôl-16 yn haws gyda 'r chweched dosbarth, gan ychwanegu eu bod eisiau aros yn chweched dosbarth yr ysgol oherwydd eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn yr ysgol, yn adnabod yr athrawon ac yn hoffi'r dosbarthiadau llai.[479]

---

[473] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe
[474] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 04 Mark Jones, Prif Weithredwr, Coleg Gŵyr Abertawe
[475] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 34 Colegau Cymru
[476] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 51 ac 112 (Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG))
[477] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 37
[478] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 06 Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[479] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraffau 82-84

- Yn ôl UCAC, y chweched dosbarth yw'r unig opsiwn ymarferol i ddysgwyr weithiau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.[480]
- Dywedodd y Comisiynydd Plant mai mewn ysgolion y mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gryfaf mewn sawl rhan o Gymru.[481] Roedd CYDAG a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cytuno, gan ychwanegu mai ysgolion yw'r brif ffynhonnell sy'n bwydo AU cyfrwng Cymraeg.[482]
- Pwysleisiodd Prifysgolion Cymru fod y chweched dosbarth wedi darparu ffrwd gyson o ymgeiswyr prifysgol ac y gallai cau chweched dosbarth arwain at heriau pellach o ran cyfranogi mewn AU.[483]

**287.** Teimlai'r NASUWT y byddai'r heriau ariannol sy'n wynebu'r chweched dosbarth mewn ysgolion yn arwain at well cydweithio rhwng sefydliadau addysg drydyddol er budd ysgolion a dysgwyr.[484] Roedd CLlLC yn cytuno, gan ddweud:

> *"I think more and more will be forced to collaborate … working together to give a fuller offer to the learner is definitely the way forward. We're already seeing school sixth forms collaborating more due to issues around retention of staff and expertise. Especially if you're looking at the sciences, the maths, the expertise isn't there anymore, especially when you're thinking of A level, beyond GCSE. And if you put the Welsh medium into that, we're already into dire straits in getting the expertise and the good quality teaching there. So, I think it has to be a collaboration."*[485]

## Colegau

**288.** Pwysleisiodd ColegauCymru werth colegau AB a darparwyr dysgu seiliedig ar waith fel cyfranwyr at economi decach a gwyrddach yng Nghymru. Fe wnaethant dynnu sylw at y rôl y mae'r sector AB yn ei chwarae wrth gefnogi dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig o'i gymharu â'r chweched dosbarth mewn ysgolion. Roeddent hefyd yn cydnabod y gefnogaeth hirdymor y mae Llywodraeth Cymru

[480] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 03 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[481] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 18 Comisiynydd Plant Cymru
[482] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 71; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 43 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[483] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 19 Prifysgolion Cymru
[484] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 16
[485] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 55-56

wedi'i rhoi i'r sector AB, sydd, yn eu barn nhw, yn rhoi'r sector mewn sefyllfa dda i ymateb i'r dirwedd sgiliau sy'n newid yng Nghymru.[486]

**289.** Fodd bynnag, nododd ColegauCymru hefyd nad yw'r sector AB yn gwbl rydd o heriau. Dadleuwyd nad yw lefel y cyllid a ddarperir drwy'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i gefnogi dysgwyr o ardaloedd difreintiedig yn ddigonol i ddiwallu anghenion dysgwyr, a bod rhai colegau'n wynebu pwysau aruthrol ar eu cyllidebau. Yn yr un modd, dadleuwyd y bydd gweithredu'r diwygiadau ADY yn gofyn am ragor o gyllid, ac ymrwymiad ariannol hirdymor i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY.[487] Cyflwynodd eraill dystiolaeth debyg.[488]

**290.** Roedd heriau eraill a oedd yn ymwneud yn benodol â cholegau a godwyd gan randdeiliaid yn cynnwys:

- Nid yw'r fformwlâu cyllido ar gyfer colegau yn cydnabod costau uwch addysgu cyrsiau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg.[489]
- Gall cyflogau staff mewn colegau fod yn is nag mewn diwydiant, sy'n gwneud recriwtio a chadw darlithwyr coleg yn heriol.[490]
- Gallai sefydliadau AB wella sut y maent yn darparu mynediad at AU i gymunedau lleol, yn uniongyrchol neu drwy radd-brentisiaethau.[491]

**291.** Dadleuodd Colegau Cymru yn gryf dros well cydweithio rhwng colegau a darpariaethau chweched dosbarth, gyda chefnogaeth awdurdodau lleol, Medr a Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod gan y dysgwyr yn eu hardaloedd lleol fynediad at gwricwlwm eang.[492]

---


[486] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 34 Colegau Cymru
[487] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 34 Colegau Cymru
[488] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe
[489] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 108 (Coleg Cymraeg Cenedlaethol)
[490] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 98 (Coleg Cymraeg Cenedlaethol)
[491] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 22 Coleg y Cymoedd
[492] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 143-152

## Pobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET)

**292.** Cododd rhai rhanddeiliaid bryderon ynghylch cyfran y bobl 16-18 oed sy'n NEET. Disgrifiodd Medr ffigurau pobl ifanc sy'n NEET fel rhai parhaus ac annerbyniol.[493] Roedd Prifysgolion Cymru yn cytuno:

> *"Wales is experiencing some of the most alarming post-16 participation challenges we've seen in many years. There is clear, consistent and real evidence that fewer people in Wales are engaging with education or training beyond compulsory education. There is a participation problem across the nation – we have increasing numbers of those not in any form of education or training. Careers Wales data demonstrates that the proportion of school-leavers not pursuing fulltime education post-16 (either at college or sixth form) is at its highest since 2013."*[494]

[493] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 145
[494] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 19 Prifysgolion Cymru




***Ffigur 6. Canran y bobl ifanc 16 i 18 oed yng Nghymru sy'n NEET. Ffynhonnell: Ystadegau Cymru,*** *'Amcangyfrif o unigolion 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl gweithgarwch economaidd a grwpiau oedran'*

**293.** Cododd y rhanddeiliaid bryderon hefyd ynghylch ansawdd y data am bobl ifanc sy'n NEET. Dywedodd Estyn wrthym fod y data yn broblematig, ac y gallai roi ymdeimlad ffug o lwyddiant i Aelodau'r Senedd. Dadleuodd nad yw pob person ifanc yn parhau â'i gyrchfan ôl-16, ac nad yw hynny'n cael ei adlewyrchu yn y ffigurau.[495] Daeth i'r casgliad fod nifer cynyddol o blant yn dod yn NEET yn ystod y flwyddyn ar ôl iddynt orffen addysg orfodol.[496]

[495] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 249
[496] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 24 Estyn

**294.** Nododd eraill bryderon ynghylch y data, megis:

- Nid yw'r data'n nodi pam mae pobl ifanc yn dod yn NEET.[497]
- Mae maint y sampl data yn golygu na ddylid dod i gasgliadau tymor byr ar sail y data.[498]
- Nid yw data ar gyfraddau cadw myfyrwyr o golegau arbenigol yn cofnodi dysgwyr ag ADY sy'n dod yn NEET o fewn yr 8 wythnos gyntaf o ddechrau'r coleg.[499]
- Dadleuodd Education Otherwise fod dysgwyr sy'n cael eu haddysgu gartref yn llai tebygol o ddod yn NEET[500], gan awgrymu y gallai'r data guddio tueddiadau ymhlith grwpiau penodol o ddysgwyr.

**295.** Clywsom amrywiol resymau pam y gallai pobl ifanc ddod yn NEET rhwng 16 a 18 oed. Esboniodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod pontio i addysg ôl-16 yn frawychus i rai dysgwyr, a bod rhai yn ei chael hi'n anodd gadael eu cartrefi.[501] Ar y llaw arall, dadleuodd eraill fod ymddieithrio yn dechrau'n gynharach, ym Mlynyddoedd 9 a 10. Soniodd y rhanddeiliaid am amrywiol ffactorau sy'n arwain at bobl ifanc yn ymddieithrio ar ôl 16 oed, gan gynnwys: canlyniadau hirdymor COVID, diffyg gwydnwch, heriau'n ymwneud â theithio, amserlenni anodd, iechyd meddwl gwael, a'r awydd i weithio ac ennill arian. Clywsom fod y naid o astudio TGAU i Safon Uwch yn fawr, ac mae gan lawer o bobl ifanc bwysau allanol fel cyfrifoldebau gofalu.[502]

**296.** Ar y llaw arall, cododd yr Undeb Addysg Cenedlaethol bryder nad yw rhai pobl ifanc yn NEET mewn gwirionedd, ond eu bod mewn gwaith ansicr neu waith â chyflog isel. Awgrymodd y gallai'r bobl ifanc hynny ei chael hi'n anodd ailymuno â'r system addysg yn ddiweddarach.[503]

**297.** Dadleuodd Medr a CLILC/CCAC fod mynd i'r afael ag ymddieithrio drwy addysg a hyfforddiant yn gyfrifoldeb cymdeithasol, ac yn gofyn am ystod o

---

[497] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 327 (Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru)
[498] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 06 Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
[499] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 28 Cymorth i'r Rhai sy'n Gadael Gofal a Myfyrwyr Cymru (CLASS Cymru)
[500] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 01 Education Otherwise
[501] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 14 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)
[502] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraffau 86-88
[503] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 06 Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru

ymyriadau gan wahanol sefydliadau.[504] Fodd bynnag, clywsom hefyd am ymyriadau penodol a allai gefnogi pobl ifanc. Yn ôl Estyn, mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET ac yn rhoi ymyriadau ar waith yn eithaf da.[505] Tynnodd Estyn, CLlLC a'r Comisiynydd Plant, sylw at rôl gadarnhaol gwaith ieuenctid yn benodol wrth feithrin hyder pobl ifanc a'u helpu i barhau i ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant. Aeth cynrychiolydd o CLlLC mor bell â galw gwaith ieuenctid yn arf cudd o ran cefnogi pobl ifanc sy'n NEET. Fodd bynnag, rhybuddiodd hefyd bod lefel y gwaith ieuenctid a wneir ar draws awdurdodau lleol yn amrywio'n sylweddol, yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael.[506]

**298.** Dywedodd Llywodraeth Cymru fod ei:

> *"… dull o gynyddu cyfranogiad mewn addysg ôl-16 yn canolbwyntio ymdrechion yn benodol ar gynyddu cyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant, yn hytrach nag ar yr amcan ehangach o leihau nifer pobl ifanc NEET."*

Dadleuodd fod cynyddu presenoldeb a chyrhaeddiad yn yr ysgol yn allweddol i ysgogi mwy o gyfranogiad, gan nodi ei bod wedi rhoi £8.8 miliwn o gyllid ychwanegol ar draws 2024-25 a 2025-26 i gefnogi presenoldeb, a £10 miliwn i gefnogi dysgu a chyrhaeddiad mewn llythrennedd a rhifedd. Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at fuddsoddiad ychwanegol o £6.5 miliwn i gynyddu nifer y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd mewn ysgolion, a bod £9.5 miliwn pellach wedi'i gyhoeddi ar gyfer 2025/26. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y byddai'r swyddogion yn:

> *"… tackling those complex barriers that prevent children and young people coming to school, but also looking at all sorts of enrichment activities as well to try and make sure that kids do really want to come to school. The youth service is also part of that solution."*[507]

---

[504] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 14 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 41 Medr
[505] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 5 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 197
[506] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 14 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 26 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 68-70; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 18 Comisiynydd Plant Cymru
[507] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 176

**299.** Cyfeiriodd Llywodraeth Cymru hefyd at gyfres o ymyriadau sy'n anelu at leihau nifer y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET, a ystyrir yn fwy manwl mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn:

- y Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys y thema drawsbynciol Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith a'r Hawl i Ddysgu 14 i 16;
- gwasanaethau profiad gwaith a chyngor gyrfaoedd Gyrfa Cymru;
- y rhaglen Prentisiaethau Iau;
- y Warant i Bobl Ifanc.[508]

## Addysg orfodol hyd 18 oed

**300.** Yng Nghymru, mae addysg yn orfodol tan ddiwedd blwyddyn 11, sef y flwyddyn academaidd pan fydd plentyn yn troi'n 16 oed. Fodd bynnag, mae'r oedran ysgol gorfodol uchaf yn amrywio'n sylweddol ar draws gwahanol wledydd. Mae oedrannau ysgol gorfodol yn amrywio o fewn y DU hyd yn oed. Yn Lloegr, rhaid i bobl ifanc barhau mewn addysg amser llawn, dechrau prentisiaeth, neu wneud gwaith ochr yn ochr â gwaith rhan-amser neu wirfoddoli nes eu bod yn 18 oed.[509]

**301.** Clywsom alwadau i gynyddu'r oedran addysg orfodol i 18, yn bennaf gan gynrychiolwyr y sector AU a chan yr Undeb Addysg Cenedlaethol, a ddadleuodd y byddai cynyddu'r oedran gorfodol yn helpu i sicrhau bod llai o bobl ifanc yn y grŵp oedran 16-18 yn dod yn NEET.[510] Crynhodd tystiolaeth Prifysgolion Cymru y safbwyntiau a glywsom o blaid codi oedran gadael addysg orfodol:

> *"I think it's partly the piece that I mentioned earlier on about what signals are we sending about the economy and society that we want because, given the outcomes that we seem to have, they're not necessarily ones that you would say would be compatible with that high-skill, high-value economy. So, I would place compulsory education to 18 in that context, because actually it sends a signal of aspiration around education. It sends a signal about the importance of education through*

[508] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 47 Llywodraeth Cymru
[509] Gov.uk, 'School leaving age'
[510] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 06 Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru

*one's life, actually. And to cut that off at 16 when we seem to be unusual in that seems to be sending a strange message. We talk about lifelong learning, we talk about people having access throughout their lives, and yet we have a lower compulsory education age."*[511]

**302.** Fodd bynnag, nid oedd pawb yn cytuno y byddai heriau yng Nghymru sy'n ymwneud â deilliannau addysgol, cyfranogiad ac anghydraddoldebau addysgol yn cael eu datrys drwy godi'r oedran gadael ysgol. Yn eu hadroddiad ar gyfer y Sefydliad Polisi Addysg a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024, mae James Robson, Luke Sibieta et al yn dweud bod deilliannau addysgol yn destun pryder mawr yng Nghymru. Fodd bynnag, maent yn dadlau:

*"It is not possible to isolate exactly which policies or institutions are driving this concerning picture in outcomes. However, it is worth saying that it is unlikely to be having a school leaving age of 16, compared with an education leaving age of 18 in England. The poor set of outcomes in Wales appear to be longstanding, the education leaving age was only recently raised to 18 in England, and the school leaving age remains 16 in Scotland and Northern Ireland, where outcomes look better."*[512]

Mewn adroddiad ar wahân yn 2025 ar gyfer y Sefydliad Polisi Addysg, daw Shruti Khandekar a Luke Sibieta i'r casgliad a ganlyn:

*"… the higher school leaving ages seem to have most effect when they oblige young people to stay on to a point when they can complete educational qualifications. They have less economic benefit if young people aren't completing qualifications."*[513]

[511] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 331
[512] James Robson, Luke Sibieta et al, 'Comparing policies, participation and inequalities across UK post-16 Education and Training landscapes', Chwefror 2024, tudalen 92
[513] Shruti Khandekar and Luke Sibieta, 'Long-run changes in school leaving rules and outcomes across the UK', Mawrth 2025, tudalen 30

## Ein barn ni

### Data cyrchfannau ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed

**303.** Mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd gennym yn dangos bod bylchau clir yn y data sy'n golygu ei bod yn heriol deall llwybrau a dewisiadau dysgwyr ar ôl iddynt adael blwyddyn 11. Rydym yn gwerthfawrogi'r heriau sy'n wynebu Llywodraeth Cymru ac eraill wrth iddynt geisio casglu a sicrhau ansawdd data sy'n deillio o sefydliadau addysg niferus. Fodd bynnag, fel yr ydym wedi ei ddweud droeon, ym mron pob adroddiad rydym wedi'i gyhoeddi yn ystod tymor y Senedd hwn, mae data amserol o ansawdd uchel yn gwbl hanfodol i werthuso a datblygu polisïau yn effeithiol.

**304.** Felly, rydym yn falch bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol oll wedi cydnabod pwysigrwydd data am addysg a hyfforddiant ôl-16. Rydym yn gobeithio y byddant yn ein cefnogi wrth inni edrych ar Medr, fel y corff sy'n gyfrifol am ddata ôl-16, i wneud gwelliannau pendant i'r set ddata sydd ar gael am addysg a hyfforddiant 16-18 (rydym yn ystyried data am ddysgwyr 18+ oed ym mhennod 7).

**305.** Mae paragraffau 248 - 255 uchod yn amlinellu pryderon penodol i Medr eu hystyried wrth iddo geisio gwella'r set ddata sydd ar gael yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr 16-18 oed (rydym yn ystyried data am ddysgwyr 18+ oed ym mhennod 7). O blith y pryderon hynny, credwn fod datblygu gwell dealltwriaeth o lwybrau dysgwyr, a data gwell am ddysgwyr nad ydynt yn mynd i'r chweched dosbarth yn faterion arbennig o bwysig.

**Argymhelliad 10.** Dylai Medr wella ansawdd ac amseroldeb y data cyhoeddedig am addysg a hyfforddiant dysgwyr rhwng 16 a 18 oed, mewn ymateb i'r pryderon a nodir yn yr adroddiad hwn. Wrth wneud hynny, dylai Medr roi sylw arbennig i:

- ddata sy'n dilyn llwybrau dysgwyr ar bob cam ar ôl iddynt adael blwyddyn 11, i helpu i ddeall dewisiadau dysgwyr a ble, pam a phryd y gallai dysgwyr fod yn gadael neu'n rhoi'r gorau i addysg a hyfforddiant; a
- data am ddysgwyr mewn colegau AB a dysgu seiliedig ar waith, yn enwedig dysgwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau lefelau 1 a 2, gan gynnwys cyrchfannau ar gyfer y rhai ar gyrsiau blwyddyn.

## Y cymysgedd o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed

**306.** Fel y casglwn ym mhennod 2, mae mwy i'w wneud o hyd wrth geisio sicrhau parch cydradd rhwng llwybrau academaidd a galwedigaethol. Rhaid cynllunio addysg a hyfforddiant ôl-16 i ddiwallu anghenion y dysgwr. Dylai sefydliadau weithredu ar y cyd a bod yn hyblyg i ddiwallu'r anghenion hynny, nid y ffordd arall. Felly nid oes gennym farn benodol ynglŷn â gwerth un math o gymhwyster o gymharu ag un arall. Os yw dysgwr yn dymuno astudio cymwysterau Safon Uwch yn y chweched dosbarth, dylai allu gwneud hynny. Os yw am ddilyn cwrs galwedigaethol mewn coleg AB, dylai allu gwneud hynny hefyd. A phan fydd dysgwyr yn ystyried yr hyn y maent am ei wneud ar ôl cwblhau'r cyrsiau hynny, dylent gael eu cefnogi i gymryd pa bynnag gamau sy'n iawn iddyn nhw, yn seiliedig ar ddewisiadau gwybodus. Ni ddylid eu hatal rhag symud ymlaen i addysg a hyfforddiant ar lefelau uwch oherwydd rhagfarn ddiwylliannol neu sefydliadol ddofn ynghylch gwerth un llwybr o gymharu ag un arall.

**307.** Felly, cawsom ein taro gan yr anghysondeb rhyfeddol rhwng cyfran y bobl ifanc sy'n dymuno dilyn rhaglen brentisiaeth o'i gymharu â'r gyfran sy'n gwneud hynny mewn gwirionedd. Yn ôl Gyrfa Cymru, er gwaethaf y ffaith bod dysgu seiliedig ar waith yn ddewis cyntaf i 13.5% o ddysgwyr blwyddyn 11 ac yn ail ddewis i 21%, dim ond 1.6% sy'n ymgymryd â hynny mewn gwirionedd. Mae hyn er gwaethaf sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd yn cyrraedd y targed o 100,000 o brentisiaethau a ddechreuir (sydd wedi cael ei ostwng o'r targed cychwynnol o 125,000) dros gyfnod y Senedd.

**308.** Mae rhai o'r rhwystrau i brentisiaethau yn ymddangos mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â rhwystrau i addysg a hyfforddiant ôl-16 yn fwy cyffredinol, megis cyngor gyrfaoedd gwael, trafnidiaeth a diffyg darpariaeth Gymraeg. Rydym hefyd yn nodi'r gwaith y mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd wedi'i wneud ar brentisiaethau, gan gynnwys ei argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu darparwyr prentisiaethau er mwyn gwella argaeledd prentisiaethau. Edrychwn ymlaen at ymateb manwl Medr i'r Pwyllgor ynglŷn â'r heriau hynny a sut y gellir eu goresgyn.

**309.** Fodd bynnag, y rhwystrau a grybwyllir amlaf i ddiffyg darpariaeth prentisiaethau yng Nghymru yn y dystiolaeth a gasglwyd gennym yw cyflogwyr: cyllid annigonol, arafwch cyffredinol wrth recriwtio i rolau newydd, a diffyg ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr.

**310.** Mae prentisiaethau yn llwybrau uniongyrchol at swyddi. Felly, er mwyn i ddarpariaeth prentisiaethau ddiwallu'r galw gan ddysgwyr, rhaid i gyflogwyr ystyried prentisiaethau fel ffordd effeithiol a fforddiadwy o roi'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnynt i bobl ifanc er mwyn cyflawni'r swydd yn llwyddiannus. Nid yw'r dystiolaeth a gasglwyd gennym yn dangos yn glir a yw hyn yn wir ai peidio. Felly, gofynnwn i Lywodraeth Cymru amlinellu pam ei bod yn credu bod cymaint o anghysondeb rhwng y galw am brentisiaethau ymhlith dysgwyr ac argaeledd gwirioneddol prentisiaethau yng Nghymru, gyda phwyslais penodol ar y rhwystrau sy'n wynebu cyflogwyr.

**Argymhelliad 11.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru roi dadansoddiad o:

- pam mae'n credu bod cymaint o anghysondeb rhwng cyfran y dysgwyr sydd eisiau ymgymryd â phrentisiaeth a chyfran y dysgwyr sy'n gwneud hynny mewn gwirionedd; a
- y graddau y mae'r rhwystrau sy'n wynebu cyflogwyr (megis y cyllid ar gyfer rhaglenni prentisiaeth, a diffyg ymwybyddiaeth ymhlith busnesau bach a chanolig) wedi cyfrannu at y gwahaniaeth sylweddol rhwng y galw am brentisiaethau ymhlith pobl ifanc a nifer gwirioneddol y prentisiaethau sydd ar gael.

## Pobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET)

**311.** Er mwyn lleihau cyfran y bobl ifanc sy'n NEET, mae angen dull amlochrog sy'n ymgorffori cyngor gyrfaoedd o ansawdd uchel, ystod eang o opsiynau ôl-16, ac ymgysylltiad ag addysg cyn-16. Rhaid iddo hefyd fynd i'r afael â heriau systemig a strwythurol megis tlodi. Rydym yn cydnabod cymhlethdod y dasg.

**312.** Mae llawer o'r adroddiad hwn yn cyfeirio at fentrau polisi sy'n anelu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at gynyddu cyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae rhai o'r rhain, fel y rhaglen Prentisiaethau Iau, yn dangos addewid mawr. Gobeithiwn y bydd ein hargymhellion yn y meysydd hynny yn cyfrannu at helpu pobl ifanc i osgoi dod yn NEET.

**313.** Wrth ystyried y dystiolaeth a'r data penodol am bobl ifanc sy'n NEET, fe wnaethom sylwi bod dynion ifanc yn gyson fwy tebygol o fod yn NEET o gymharu â menywod ifanc. Nid yw'r patrwm hwn yn sefydlog; mae blynyddoedd lle mae'r duedd wedi'i gwrthdroi. Mae yna hefyd wahanol ffynonellau o ddata, ac mae ffigurau Datganiad Ystadegol Cyntaf 2023 yn rhai dros dro ac yn dueddol o newid

yn dilyn diweddariadau yn y dyfodol. Ond hyd yn oed os ydym yn rhoi'r gostyngiad eithaf dramatig yn nifer y menywod ifanc oedd yn NEET yn 2023, fel y nodir yn ffigur 6, i'r naill ochr, gallwn ddod i'r casgliad yn hyderus bod dynion ifanc yng Nghymru, yn yr hirdymor, yn fwy tebygol o ddod yn NEET na menywod ifanc.

**314.** Nid ydym wedi derbyn unrhyw dystiolaeth i egluro pam y gallai hyn fod yn wir. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gawsom yn dangos bod cyfradd y bobl ifanc sy'n NEET yn ystyfnig ac annerbyniol o uchel. Gallai helpu i ddeall a yw dynion ifanc yn fwy tebygol o roi'r gorau i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, a pham, roi darlun gwerthfawr inni o'r heriau cyfranogi y mae pobl ifanc 16-18 oed yng Nghymru yn eu hwynebu.

**Argymhelliad 12.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu:

- pam mae'n credu bod dynion ifanc yn gyson fwy tebygol o ddod yn NEET o gymharu â menywod ifanc;
- sut y mae ei gwaith i wella cyfraddau cyfranogi mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 wedi ystyried y gwahanol heriau sy'n wynebu menywod a dynion ifanc;
- a yw'n credu bod angen gwneud unrhyw waith pellach i ddeall yn well pam mae rhai pobl ifanc yn dod yn NEET, yn enwedig mewn perthynas ag amrywiadau mewn cyfraddau rhwng menywod a dynion ifanc yng Nghymru.

# 6. Pontio i addysg a hyfforddiant ôl-18

Bydd llawer o bobl ifanc yn dechrau meddwl am eu hopsiynau ôl-18 yn ystod Cyfnod Allweddol 4. Ond gall amgylchiadau dysgwyr newid yn sylweddol rhwng 16 a 18 oed, a bydd angen cyfarwyddyd ar lawer ohonynt *ar ôl* iddynt adael addysg orfodol. Mae'r bennod hon yn ystyried y cymorth y mae dysgwyr yn ei gael, a'r rhwystrau y mae rhai dysgwyr yn eu hwynebu, wrth iddynt ystyried eu hopsiynau addysg a hyfforddiant ôl-18.

## Cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd ôl-16

**315.** Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gawsom am gyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd yn canolbwyntio ar ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 neu'n gynharach. Fodd bynnag, pwysleisiodd rhai rhanddeiliaid fod angen cynyddol am gyngor gyrfaoedd wedi'i deilwra i bobl ifanc yn y chweched dosbarth neu'r coleg, p'un a ydynt yn mynd i'r brifysgol neu'n ystyried opsiynau eraill.[514] Dadleuodd Grŵp Hyfforddi Educ8 a Phrifysgolion Cymru o blaid darparu cyngor a chyfarwyddyd gwell i ddysgwyr drwy gydol eu haddysg er mwyn eu cefnogi gyda'u penderfyniadau ôl-18.[515] Roedd y Brifysgol Agored yn pwyso ar Lywodraeth Cymru a Medr, yn benodol, i gydnabod gwerth cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd ôl-16:

> *"We would also argue that IAG [Information, Advice and Guidance] cannot and should not be limited to pre-16 learners. In a Wales of second changes [sic], more and more adults are going to need and want to return to learning several times throughout life. We would argue that this is positive and is characteristic of a nation where lifelong learning is valued. … We*

[514] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraffau 92-95
[515] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 07 Grŵp Hyfforddi Educ8; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 19 Prifysgolion Cymru

*would welcome recognition of this by the Welsh Government, in terms of funding, and further believe that Medr has an important role to play in coordinating IAG across Wales."*[516]

**316.** Dywedodd rhai myfyrwyr chweched dosbarth wrthym fod rhai prifysgolion wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â nhw i drafod eu dyfodol ôl-18 tra roeddent yn y chweched dosbarth. Dywedodd eraill wrthym eu bod wedi mynd i ffair UCAS i'w helpu i wneud penderfyniadau am addysg a hyfforddiant ôl-18, a bod hynny'n ddefnyddiol iawn yn eu barn nhw.[517] Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymatebwyr i'n harolwg ar-lein yn llai cadarnhaol am y wybodaeth a gawsant am brifysgolion. Dywedodd nifer o bobl ifanc fod diffyg eglurder ynghylch prifysgolion, gan ddweud y byddent wedi hoffi cael canllawiau mwy manwl ar gyrsiau a'r gofynion mynediad. Roedd eraill yn gresynu ynghylch y pynciau Safon Uwch a ddewiswyd ganddynt oherwydd eu goblygiadau i'w siawns o ddilyn y cwrs yr oeddent am ei astudio yn y brifysgol.[518]

**317.** Fodd bynnag, dywedodd rhai rhanddeiliaid sy'n cynrychioli'r sector AU wrthym fod mynediad y sector at fyfyrwyr mewn ysgolion a cholegau wedi gwaethygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dywedwyd bod y cwricwlwm wedi'i orlwytho, ac o ganlyniad nid yw athrawon a darlithwyr yn teimlo y gallant greu lle yn eu hamserlenni i brifysgolion ymgysylltu â darpar fyfyrwyr.[519] Awgrymodd Gyrfa Cymru ac Undeb y Prifysgolion a'r Colegau y gallai dysgwyr nad oes ganddynt brifysgol yn eu hardal leol fod yn llai tebygol o ystyried AU.[520] Roedd gan Brifysgolion Cymru farn tebyg, gan bwysleisio pwysigrwydd gwneud pobl ifanc yn ymwybodol o'r cyfleoedd a gynigir gan AU.[521] Dadleuodd Undeb y Prifysgolion a'r Colegau yn gryf y dylid gwneud llawer mwy i helpu i godi ymwybyddiaeth dysgwyr o brifysgol fel opsiwn:

*"… why have we not got free transport on open days to all Welsh universities? Why, when you turn up, are there always nice cars in universities on open days? Why aren't there buses taking whole student groups? Why aren't there university lectures put*

---

[516] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 15 Y Brifysgol Agored yng Nghymru
[517] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 91
[518] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu', Mawrth 2025, paragraffau 42-44
[519] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 92
[520] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 232; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 71-78;
[521] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 19 Prifysgolion Cymru

*on for primary and secondary pupils? … We have this ridiculous scenario where people don't know what they want to do because there's no pathways booklet. There's no glossy document. There are cuts to career services and so on. No-one's putting this information together. There's no HE in schools where there should be."*[522]

## Rhwystrau i gynnydd yn 18 oed

### Tlodi a rhwystrau ariannol

#### Cost AU a chymorth i fyfyrwyr

**318.** Y farn gyffredinol yw mai'r pecyn cymorth i fyfyrwyr prifysgol a ddarperir yng Nghymru yw'r un mwyaf hael yn y DU.[523] Mae ffioedd dysgu wedi'u capio ar £9,535 y flwyddyn ar gyfer y flwyddyn academaidd 2025/26, a gellir talu'r gost ymlaen llaw gyda benthyciad, sydd i'w ad-dalu (ynghyd â llog, sydd ar hyn o bryd yn amrywio o 3.2% i 6.2% ar gyfer israddedigion) ar ôl i'r myfyriwr gwblhau ei gwrs. I helpu gyda chostau byw, mae myfyrwyr Cymru yn cael grant o rhwng £1,000 a hyd at £8,100 (£10,124 i ddysgwyr sy'n astudio yn Llundain), yn dibynnu ar incwm y teulu ac a fyddant yn byw gyda'u rhieni ai peidio. Gall myfyrwyr hefyd ychwanegu at eu grant costau byw gyda benthyciad, hyd at uchafswm o £12,345 (£15,415 i ddysgwyr sy'n astudio yn Llundain), unwaith eto yn dibynnu ar incwm y teulu ac a fyddant yn byw gyda'u rhieni ai peidio. Mae myfyrwyr ag anableddau a chyfrifoldebau gofal plant yn gallu gwneud cais am gymorth ychwanegol. Gall myfyrwyr sy'n astudio pynciau penodol (fel gofal iechyd, meddygaeth a gwaith cymdeithasol) hefyd fod â hawl i gael bwrsariaethau.[524]

**319.** O blith y myfyrwyr blwyddyn 11 a'r chweched dosbarth a siaradodd â ni a oedd yn ystyried mynd i'r brifysgol, ni wnaeth yr un ohonynt benderfynu yn erbyn hynny oherwydd y costau cysylltiedig.[525] Mae ymchwil gan y Sefydliad Polisi Addysg Uwch hefyd wedi canfod bod y cyhoedd yn gyffredinol yn goramcangyfrif yn sylweddol effaith negyddol dyled prifysgol ar fywydau graddedigion. Er bod y cyhoedd wedi dyfalu y byddai 49% o raddedigion yn dweud bod dyled prifysgol wedi effeithio'n negyddol ar eu bywydau, 22% o'r graddedigion eu hunain (sydd

[522] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 73
[523] The British Academy, 'Student Funding Across the United Kingdom', Gorffennaf 2023, tudalen 5
[524] Cyllid Myfyrwyr Cymru, 'Beth sydd ar gael'
[525] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraffau 98-100

wedi mynd i'r brifysgol o dan y system ffioedd bresennol) a ddywedodd fod dyled prifysgol wedi effeithio'n negyddol ar eu bywydau.[526]

**320.** Serch hynny, cost prifysgol oedd y rhwystr i AU a godwyd amlaf ymhlith y rhanddeiliaid. Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid yn cytuno bod y system ffioedd yn gwneud i fyfyrwyr benderfynu peidio â mynd i'r brifysgol, yn enwedig y rhai o gefndiroedd incwm is. Rhoddodd rhai y pryderon hynny ynghylch gwerth am arian yng nghyd-destun yr heriau sylweddol sy'n gysylltiedig â chostau byw.[527]

**321.** Adroddodd nifer o randdeiliaid fod diffyg ymwybyddiaeth o'r system benthyciadau myfyrwyr ymhlith dysgwyr. Ychwanegodd rhai fod hyn yn adlewyrchiad o weithgareddau codi ymwybyddiaeth gwael gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid.[528] Disgrifiodd Undeb y Prifysgolion a'r Colegau y gweithgaredd marchnata yng Nghymru fel 'echrydus'.[529] Mynegodd Prifysgolion Cymru bryder nad yw pobl ifanc yn manteisio ar gyfleoedd addysg prifysgol i hybu cyfleoedd bywyd, sy'n arwain at oblygiadau sylweddol i symudedd cymdeithasol a chyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru. Roedd o blaid ymgyrch codi ymwybyddiaeth well er mwyn gwella dealltwriaeth o'r hyn sydd gan brifysgolion i'w gynnig yng Nghymru. Roedd Gyrfa Cymru yn cytuno:

> *"I would definitely say there is an issue around awareness of that system. I think there's a fear of debt. There's a perception of young people coming through university and being £50,000 plus in debt, and not enough recognition of the way that student finance system works and how it's paid back, I guess, as a kind of tax, once they're earning a certain salary, and only paying a small percentage of it back. So, I think there's a lot more work to be done around working particularly with parents about understanding that, because parental influence, as we know—all the research tells us that parents have the major decision-making power, if you like, or the major influence over*

[526] Duffy, B. a Hillman, N., 'UK higher education: Public perceptions vs reality', Awst 2025
[527] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 20 Cymwysterau Cymru; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 237 (Gyrfa Cymru); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 03 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 189 (Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 34 Colegau Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 25 Estyn; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe
[528] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 19 Prifysgolion Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 45 Grŵp Colegau NPTC; Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 102
[529] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 110

*young people, and that awareness around student funding really is an issue."*[530]

**322.** Roedd barn gymysg ynghylch digonolrwydd system ffioedd Cymru a'r cymorth a gynigir i fyfyrwyr. Roedd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr ("NUS") Cymru yn cwestiynu rhesymeg y polisi o ran codi tâl am addysg uwch, a gofynnodd inni pam ei bod yn bosibl i wledydd eraill ddarparu hynny am ddim, neu am gost lawer is. Dadleuodd dros roi mwy o gymorth ariannol i fyfyrwyr, gan ddadlau, er gwaethaf y ffaith mai Cymru yw'r wlad fwyaf hael yn y DU, nad yw'r cymorth ariannol yn mynd yn ddigon pell.[531]

**323.** Fodd bynnag, pwysodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd arnom i fod yn ofalus wrth wneud cysylltiadau rhwng y modelau cymorth cyllido a grant cynhaliaeth yng Nghymru – yr oedd yn eu hystyried fel y rhai mwyaf blaengar yn y DU – a'r gostyngiad yn y cyfranogiad mewn AU (yr ydym yn ei drafod yn fanwl o baragraff 353 ymlaen). Mae'n dadlau bod heriau'n ymwneud â chyfranogi'n bodoli cyn i'r system ffioedd gael ei chyflwyno, ac y dylem osgoi priodoli'r achosion i gysylltiad rhwng y ddeubeth hyn.[532]

### Effaith anfantais

**324.** Canfu ymchwil gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024 fod dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn llai na hanner mor debygol o fynd i addysg uwch (19%) na dysgwyr nad ydynt yn gymwys (43%). Mae data gan UCAS yn cefnogi canfyddiadau'r ymchwilwyr.[533] Yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf (cwintel 1), fe wnaeth 20.5% o ddysgwyr 18 oed gais i fynd i'r brifysgol, o'i gymharu â 50.2% yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf (cwintel 5). Fel y noda ffigur 7, cyfradd gyfranogi gyffredinol Cymru yn 2025 a chyfraddau cyfranogi ei chwintel 1af, y 4ydd cwintel a'r 5ed cwintel yw'r isaf o blith holl awdurdodaethau'r DU.

---

[530] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 245
[531] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 179 a 189
[532] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 30 Prifysgol Metropolitan Caerdydd
[533] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 'Deall annhegwch mewn addysg drydyddol: Y prif ganfyddiadau a dadansoddi data', Hydref 2024, tudalennau 4-5

| Awdurdodaeth | Cyffredinol | C1 | C2 | C3 | C4 | C5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | **32.5%** | 20.5% | 26.4% | 31.4% | 35.7% | 50.2% |
| **Lloegr** | **42.0%** | 31.8% | 37.7% | 41.4% | 46.6% | 54.7% |
| **Yr Alban** | **34.5%** | 21.5% | 25.4% | 30.9% | 39.8% | 52.2% |
| **Gogledd Iwerddon** | **48.9%** | 32.0% | 42.2% | 51.7% | 56.7% | 64.5% |

***Ffigur 7. Cyfraddau y ceisiadau a wnaed i'r brifysgol erbyn dyddiad cau UCAS ym mis Mehefin 2025 ymhlith pobl 18 oed yn ôl awdurdodaeth ac yn ôl cwintel yn y Mynegai Amddifadedd Lluosog.***[534] ***Ffynhonnell: UCAS,*** *Ffigurau ymgeiswyr cylch 2025 – dyddiad cau 30 Mehefin* ***(Saesneg yn unig). Celloedd sydd wedi'u hamlygu mewn pinc yw'r isaf ar draws yr awdurdodaethau. Celloedd sydd wedi'u hamlygu mewn gwyrdd yw'r uchaf.***

**325.** Mae Prifysgolion Cymru wedi codi pryder drwy gydol yr ymchwiliad hwn ynghylch y bwlch rhwng cyfradd gyfranogi'r dysgwyr mwyaf difreintiedig yng Nghymru mewn AU. Fodd bynnag, maent hefyd yn dadlau na all ffactorau economaidd-gymdeithasol ar eu pen eu hunain esbonio cyfradd gyfranogi Cymru mewn AU. Maent yn tynnu sylw at ogledd-orllewin Lloegr, lle y maent yn dadlau bod y cyfraddau cyfranogi yn uwch na Chymru er gwaethaf y ffaith bod gan yr ardal ddemograffeg debyg.[535] Maent y dadlau:

> *"The social mobility and life-changing opportunities offered by tertiary education are not being grasped by those with the most to gain – and this must be addressed for Wales to be a progressive and prosperous nation where all can reach their potential and thrive."*[536]

**326.** Pwysodd NUS Cymru arnom i "sbio ar ein sefyllfa economaidd ni, tlodi plant, er enghraifft. Sut ydyn ni'n cefnogi pobl o wahanol gefndiroedd i ddod i'r sector addysg uwch".[537] Awgrymodd eraill fod prentisiaethau'n fwy deniadol nawr oherwydd bod rhai dysgwyr yn eu gweld fel llwybr mwy uniongyrchol allan o dlodi.[538]

[534] Dylid trin y cymariaethau hyn yn ofalus, oherwydd bod gwahanol rannau o'r DU yn defnyddio gwahanol ddulliau i sefydlu eu mynegai amddifadedd lluosog priodol.
[535] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 19 Prifysgolion Cymru
[536] Tystiolaeth ychwanegol: Prifysgolion Cymru – 6 Mawrth 2025
[537] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 173
[538] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 100

### Rhwystrau ariannol eraill

**327.** Roedd y pwyntiau a godwyd yn llai aml am rwystrau ariannol i addysg a hyfforddiant ôl-18 yn cynnwys:

- Dylid sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o gyfleoedd ôl-18 sy'n cyfuno astudio ag ennill cyflog er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynghylch cost.[539]
- Dylid darparu mwy o gyllid i bobl ifanc astudio'n rhan-amser, sydd ar hyn o bryd wedi'i gyfyngu i fyfyrwyr sy'n astudio ar ddwyster o 25% neu uwch.[540]
- Dylid cynyddu grant dysgu Llywodraeth Cymru (grant i fyfyrwyr 19 oed neu hŷn sy'n astudio cwrs Addysg Bellach yn y coleg).[541]

### Heriau o ran symud ymlaen o astudiaethau galwedigaethol i AU

**328.** Awgrymodd Cymwysterau Cymru, Gyrfa Cymru a Phrifysgolion Cymru oll y gallai'r duedd o ran y gostyngiad mewn cofrestriadau ar gyfer cymwysterau Safon Uwch a'r cynnydd mewn cyrsiau galwedigaethol yn 16-18 oed fod yn gysylltiedig â heriau cyfranogi mewn AU. Clywsom fod dysgwyr sy'n ymgymryd ag addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn llai tebygol o fynd ymlaen i'r brifysgol na'u cyfoedion sy'n astudio cyrsiau Safon Uwch.[542] Yn benodol, roedd Prifysgol Cymru, Undeb y Prifysgolion a'r Colegau a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd i gyd yn gresynu nad oes digon o ddysgwyr sy'n astudio am gymwysterau galwedigaethol – BTECs, er enghraifft - yn symud ymlaen i'r brifysgol.[543]

**329.** Awgrymodd Gyrfa Cymru, er y gall cymwysterau galwedigaethol arwain at AU, fod y llwybr yn llai llinol ac nad oes dealltwriaeth cystal ohono â llwybrau academaidd.[544] Dywedodd Prifysgol De Cymru ei bod wedi gweld gostyngiad yn nifer y dysgwyr ar ei chynllun partneriaethau AU mewn AB, a dadleuodd nad oes

[539] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 03 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
[540] Llythyr gan Brifysgol De Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ebrill 2025
[541] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 200 (NUS)
[542] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 30 Prifysgol Metropolitan Caerdydd
[543] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 19 Prifysgolion Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 20 Cymwysterau Cymru; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 239 (Gyrfa Cymru); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 36 Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 30 Prifysgol Metropolitan Caerdydd
[544] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 239

effaith o gyfnewid AU am AB, ond yn hytrach bod gostyngiad cyffredinol mewn cyfranogiad mewn sefydliadau sy'n draddodiadol yn gwasanaethu myfyrwyr heb gynrychiolaeth ddigonol.[545] Honnodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd a ColegauCymru ill dau y bydd cynyddu cyfranogiad mewn prifysgolion yn golygu annog dysgwyr o lwybrau galwedigaethol i fynd i'r brifysgol hefyd, ac nid dim ond drwy gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio cymwysterau Safon Uwch.[546] Aeth Undeb y Prifysgolion a'r Colegau gam ymhellach, gan ddadlau o blaid targedau ar gyfer myfyrwyr prifysgol o gefndiroedd galwedigaethol.[547]

### Cadw dysgwyr yng Nghymru a dysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg

**330.** Yn ôl data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch am garfan myfyrwyr y DU yn 2023/24, mae 71% o fyfyrwyr sydd â chyfeiriad parhaol yng Nghymru yn mynychu sefydliad AU yng Nghymru, a 28% yn mynychu sefydliad yn Lloegr. Mae hon yn gyfran is na gweddill y DU: mae 96% o fyfyrwyr sy'n byw yn Lloegr yn mynychu sefydliad AU yn Lloegr, mae 94% o fyfyrwyr sy'n byw yn yr Alban yn mynychu sefydliad AU yn yr Alban, ac mae 78% o fyfyrwyr sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon yn mynychu sefydliad AU yng Ngogledd Iwerddon.[548]

**331.** Clywsom bryderon mawr ynghylch cyfran y myfyrwyr o Gymru sy'n dewis astudio y tu allan i Gymru, yn enwedig gan gynrychiolwyr o'r sector AU yng Nghymru. Pwysodd Prifysgolion Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd ar Lywodraeth Cymru i adeiladu ar ei brand "Astudio yng Nghymru", y dywedant iddo fod yn llwyddiannus o ran denu myfyrwyr rhyngwladol, er mwyn annog pobl ifanc Cymru i astudio yng Nghymru.[549] Dadleuodd Prifysgol Abertawe y gallai cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru sy'n astudio ym mhrifysgolion Cymru wella cyfranogiad, a byddai hefyd yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol y sector (rhywbeth yr ydym yn ei drafod yn y bennod a ganlyn). Cyflwynodd Undeb y Prifysgolion a'r Colegau ddadleuon tebyg.[550]

**332.** Clywsom bryder hefyd nad yw dysgwyr Cymraeg eu hiaith bob amser yn ystyried astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol. Nododd y Coleg Cymraeg

[545] Llythyr gan Brifysgol De Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ebrill 2025
[546] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 30 Prifysgol Metropolitan Caerdydd; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 34 Colegau Cymru
[547] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 36 Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru
[548] HESA, 'Higher Education Student Statistics: UK, 2023/24', 20 Mawrth 2025
[549] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 19 Prifysgolion Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 30 Prifysgol Metropolitan Caerdydd
[550] Llythyr gan Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ebrill 2025; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 53

Cenedlaethol mai dim ond 32% o ddysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y chweched dosbarth a oedd yn ystyried parhau â'u hastudiaethau yn y Gymraeg, er gwaethaf 90% yn cydnabod gwerth sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle, ac er gwaethaf ysgoloriaethau i fyfyrwyr sy'n cyflawni o leiaf 40 credyd o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd wrthym fod nifer y dysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol wedi aros yn ei hunfan yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a mynegodd bryder fod y nifer cynyddol o ddysgwyr sy'n astudio y tu allan i Gymru yn cael effaith andwyol ar nifer y dysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.[551] Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno, gan ychwanegu bod hyn hefyd yn cael effeithiau andwyol ar nifer y bobl sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.[552]

**333.** Roedd rhai o'r sylwadau'n canolbwyntio ar y cyllid a oedd ar gael i brifysgolion addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfeiriodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Prifysgolion Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd oll at ymchwil Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a ganfu fod costau uwch a meintiau dosbarth llai yn gysylltiedig ag addysgu yn y Gymraeg, ac roeddent yn dadlau oes digon o gyllid ar eu cyfer mwyach.[553]

**334.** Pan wnaethom godi pryderon ynghylch cyfran y dysgwyr sy'n hanu o Gymru sy'n dewis mynd i brifysgol yng Nghymru, ac sy'n byw yng Nghymru ar ôl graddio, dywedodd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch wrthym ei bod yn anghytuno nad yw myfyrwyr Cymru eisiau aros yng Nghymru a chael addysg uwch yma. Pwysleisiodd fod 68% o fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru yn astudio mewn prifysgolion yng Nghymru[554], ac na fu gostyngiad ystyrlon yn nifer y myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru sy'n gwneud cais i ddarparwyr yng Nghymru. Dywedodd wrthym mai dim ond 60 yn llai o geisiadau a welwyd yn 2025 nag yn 2024 (14,690 o'i gymharu â 14,750), ac ychwanegodd fod y ffigurau hynny'n gynnydd o gymharu â 2019.[555]

[551] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 8
[552] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 32 Comisiynydd y Gymraeg
[553] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 109 (Coleg Cymraeg Cenedlaethol); Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 378 (Prifysgolion Cymru); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 30 Prifysgol Metropolitan Caerdydd
[554] Mae hyn yn wahanol i'r ystadegau ym mharagraff 330. Mae'r 71% a ddyfynnir ym mharagraff 314 yn ymwneud â *newydd-ddyfodiaid* (myfyrwyr newydd) ar gyfer 2023/24 yn unig, ac yn cynnwys ôl-raddedigion. Mae'r 68% a ddyfynnwyd gan y Gweinidog ym mharagraff 334 yn ymwneud â *phob myfyriwr israddedig* (h.y. nid dim ond myfyrwyr newydd, ond heb gynnwys ôl-raddedigion).
[555] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 103-106

## Rhwystrau eraill i gynnydd yn 18 oed

**335.** Dywedodd NUS Cymru wrthym fod nifer o rwystrau i symud ymlaen i AU, ac y dylid ystyried cyfranogiad mewn cyd-destun ehangach:

> *"Because it's often not just the education that's the impactful piece of their lives, there are so many other things around the individual. It's not just the lectures and the contact hours with the lecturers, it's the whole piece around housing, transport, mental health support, sexual health support—every other part of society students touch on. It's difficult to create a fair education system in an isolated sphere."*[556]

**336.** Mae rhwystrau eraill i addysg a hyfforddiant ôl-18 a godwyd yn y dystiolaeth a gawsom yn cynnwys:

- pryderon iechyd meddwl ymhlith dysgwyr: dywedodd Gyrfa Cymru wrthym fod rhai dysgwyr yn cael trafferth gyda gorbryder a gwneud penderfyniadau, sy'n golygu eu bod yn gohirio gwneud penderfyniadau fel mynd i'r brifysgol.[557] Dywedodd rhai gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc wrthym, oherwydd y pandemig, fod myfyrwyr chweched dosbarth yn iau ac yn llai annibynnol, ac felly nid ydynt yn teimlo'n barod ar gyfer y brifysgol.[558] Fe wnaethom edrych ar y materion sy'n ymwneud â chymorth iechyd meddwl mewn addysg uwch yn gynharach yn nhymor y Senedd hon, gan wneud 30 o argymhellion ar gyfer newid yr oeddem yn credu y byddent yn gwella'r cymorth a ddarperir i fyfyrwyr.[559]

- anableddau a/neu ADY: mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi cynghori y dylid ymgymryd â gwaith i ganfod pam mae llai o ddysgwyr anabl yn symud ymlaen i AU na'u cyfoedion nad ydynt yn anabl, ac a ellir goresgyn y rhwystrau hynny a sut[560];

---

[556] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 181
[557] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 239
[558] Senedd Cymru, 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16: Canfyddiadau'r digwyddiad i randdeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu', Mai 2025, paragraff 103
[559] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch, 29 Mawrth 2023
[560] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 'Deall annhegwch mewn addysg drydyddol: Y prif ganfyddiadau a dadansoddi data', Hydref 2024, tudalen 9

- cludiant: nododd Prifysgol Metropolitan Caerdydd y gall defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus fod yn heriol i ddysgwyr yng Nghymru, ac y gall astudio yn Lloegr fod yn fwy deniadol gan fod yr amseroedd teithio'n well.[561]

- opsiynau tai fforddiadwy: yn ôl Prifysgol Wrecsam, mae prinder tai fforddiadwy i fyfyrwyr eu rhentu yn gwneud i ddysgwyr o Gymru a ledled y DU benderfynu peidio â mynd i'r brifysgol.[562]

- profiad o fod mewn gofal: esboniodd NYAS Cymru fod dysgwyr sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal yn wynebu cyfres o rwystrau ychwanegol pan fyddant yn ystyried AU, gan gynnwys y ffaith nad oes ganddynt neb i'w cefnogi gyda'u cais UCAS, pryderon ariannol yn ymwneud â rhentu llety, dim llety ar gael iddynt y tu allan i'r tymor, ac amrywiadau yn yr hyn a gynigir gan brifysgolion i'r rhai sy'n gadael gofal[563]; a

- gadael addysg, hyd yn oed os yw hynny dros dro: awgrymodd yr NASUWT ac Undeb y Prifysgolion a'r Colegau fod rhai dysgwyr yn gadael addysg gyda'r bwriad o ddychwelyd - er mwyn cymryd blwyddyn i ffwrdd, er enghraifft, neu i gymryd seibiant i ddod o hyd i waith - ond yna gallant fod yn amharod i ddychwelyd.[564]

## Ein barn ni

### Cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd ôl-16

**337.** Fel y nodwn yn ein casgliad ym mhennod 3, dylai cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd ddechrau'n gynnar. Erbyn i ddysgwyr gyrraedd 16 oed, mae'n debygol y byddant eisoes wedi penderfynu beth maen nhw am ei wneud ar ôl iddynt orffen cam nesaf eu haddysg neu hyfforddiant. Yn anffodus, bydd opsiynau ôl-18 rhai pobl ifanc eisoes wedi'u cyfyngu gan eu profiadau, eu dewisiadau a'r cymorth a'r cyngor a gawsant yn ystod eu haddysg cyn-16.

**338.** Serch hynny, mae carfan sylweddol o ddysgwyr rhwng 16 a 18 oed a fyddai'n elwa o gael cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd pellach. Gallai hyn fod oherwydd eu

[561] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 30 Prifysgol Metropolitan Caerdydd
[562] Llythyr gan Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr Prifysgol Wrecsam at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 15 Mai 2025
[563] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 25 Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru
[564] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 29 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 99 (NASUWT); Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 36 Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru

bod wedi newid eu meddwl ynglŷn â'r hyn y maent am ei wneud ar ôl y chweched dosbarth neu'r coleg. Efallai nad yw eu llwybr sylfaenol wedi newid, ond mae angen help arnynt i ddeall pa opsiynau sydd ar gael iddynt i'w helpu i wneud penderfyniadau mwy manwl ynglŷn â'r hyn y maent am ei wneud nesaf neu ble y maent am fynd. Bydd angen cefnogaeth a sicrwydd ychwanegol ar rai i'w helpu i ymdopi â'u hastudiaethau ôl-16 a chymryd eu camau nesaf tuag at fod yn oedolion.

**339.** Nid yw'n glir pwy sy'n gyfrifol am roi cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed. Nid yw Gyrfa Cymru wedi cael ei fandadu i wneud hynny, ac yn amlwg nid oes ganddo adnoddau dros ben i ddarparu cymorth cenedlaethol i ddysgwyr ar ôl iddynt adael blwyddyn 11. Mae hynny'n golygu bod y cyfrifoldeb yn disgyn ar ysgwyddau darparwyr addysg a hyfforddiant. Gwyddom fod rhai yn darparu cefnogaeth dda i'w dysgwyr. Ond awgryma ein tystiolaeth nad yw hynny'n wir bob amser. Felly, gofynnwn i Lywodraeth Cymru nodi'n glir ei disgwyliadau ynghylch y cyngor a'r cyfarwyddyd gyrfaoedd y mae dysgwyr yn eu cael ar ôl 16 oed, gan gynnwys pwy sy'n gyfrifol am hynny a'r rôl y mae Estyn yn ei chwarae wrth ddwyn sefydliadau ôl-16 i gyfrif am y cymorth y maent yn ei ddarparu i'w dysgwyr i wneud y penderfyniadau sy'n iawn iddyn nhw pan fyddant yn cyrraedd 18 oed.

**Argymhelliad 13.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei disgwyliadau o ran sut y dylai darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 ddarparu cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd i bobl ifanc i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu camau ôl-18. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'n glir pwy sy'n gyfrifol am y cyngor hwnnw a rôl Estyn o ran dwyn sefydliadau i gyfrif am y cymorth y maent yn ei ddarparu.

## Cost AU a chymorth i fyfyrwyr

**340.** Nodwn y dystiolaeth ryfeddol o gyson rydym wedi'i chasglu sydd wedi tynnu sylw at rai paradocsau ynghylch cost mynd i'r brifysgol i ddysgwyr yng Nghymru:

- Mae'r cymorth ariannol a gynigir yng Nghymru i fyfyrwyr prifysgol yn hael o'i gymharu â gwledydd eraill y DU. Ac eto, mae cost mynd i'r brifysgol yn gwneud i lawer o ddysgwyr benderfynu yn erbyn hynny.
- Mae'r cyhoedd yn gyffredinol yn credu bod cost mynd i'r brifysgol yn cael mwy o effaith negyddol ar fyfyrwyr nag a adroddir gan fyfyrwyr sydd wedi bod i'r brifysgol mewn gwirionedd (ac, o ganlyniad, wedi profi effaith y costau drostynt eu hunain).

**341.** Fodd bynnag, nid ydym wedi ein hargyhoeddi mai ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth, y mae rhai wedi galw amdanynt, fyddai'r ateb cywir. Mae costau sylweddol yn gysylltiedig ag ymgyrchoedd o'r fath ac mae angen cefnogaeth wleidyddol hirdymor arnynt er mwyn iddynt gael unrhyw obaith o lwyddo. Hyd yn oed gyda hynny oll, nid ydym yn argyhoeddedig ynghylch pa mor llwyddiannus fyddai'r ymgyrchoedd hynny o ran cynyddu cyfraddau cyfranogi, na sut y byddent yn cyfrannu at sicrhau parch cydradd gwirioneddol ar draws llwybrau academaidd a galwedigaethol. Mae problemau diwylliannol dwfn ar waith yma, fel yr awgryma'r ail bwynt uchod, ac rydym yn ystyried y rhain mewn perthynas â chyfraddau cyfranogi mewn prifysgolion.

**342.** Yn hytrach, credwn y dylai'r ffocws fod ar wella ansawdd, hygyrchedd a chysondeb cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd, yn enwedig cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd a roddir i ddysgwyr cyn iddynt gyrraedd 16 oed. Rhaid i'r cyngor hwnnw egluro i ddysgwyr beth yw costau prifysgol a sut y mae'r costau hynny'n cael eu had-dalu fel rhan o becyn eang a chyfannol o gyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd ynghylch yr ystod gyfan o opsiynau sydd ar gael iddynt – boed yn academaidd neu'n alwedigaethol, yn draddodiadol neu fel arall. Fel y trafodwn ym mhennod 4 o'r adroddiad hwn, mae mwy i gyngor gyrfaoedd na dim ond cefnogi'r person ifanc. Mae'n ymwneud â chefnogi teuluoedd a hyd yn oed weithwyr addysg proffesiynol i sicrhau eu bod yn deall yr opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr ar ôl iddynt adael addysg orfodol. Dyma'r amser hollbwysig i gynghorwyr gyrfaoedd herio camsyniadau am gostau prifysgol, a sicrhau bod dysgwyr a'u teuluoedd yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud y penderfyniadau sy'n iawn iddyn nhw.

**343.** Felly rydym yn ailadrodd Argymhelliad 6 ac Argymhelliad 7 yn y cyd-destun hwn. Maent yn canolbwyntio ar egluro i ddysgwyr Cyfnod Allweddol 4 a'u teuluoedd y pecyn o gyngor, cyfarwyddyd a chyfleoedd y maent yn gymwys i'w gael, a rhoi cyhoeddusrwydd i hynny, a sicrhau bod gwasanaeth cyngor gyrfaoedd Gyrfa Cymru yn diwallu anghenion dysgwyr.

**344.** Rydym yn cydnabod pryderon NUS Cymru ac eraill bod llawer o fyfyrwyr yn ei chael hi'n anodd talu eu costau byw, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan fod costau byw wedi cynyddu mor sydyn. Yn amlwg, mae'r pwysau hyn yn effeithio ar unrhyw bobl ifanc sy'n mynd i'r brifysgol, yn enwedig pobl ifanc nad yw eu teulu mewn sefyllfa i'w cynnal yn ariannol. Fodd bynnag, nid ydym wedi casglu digon o dystiolaeth i wneud unrhyw argymhellion ynghylch y pecyn o gymorth ariannol a ddarperir i ddysgwyr, a fyddai y tu hwnt i gwmpas yr ymchwiliad hwn a byddai ganddo oblygiadau cost sylweddol iawn i Lywodraeth

Cymru. Nodwn sylwadau'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch am drafodaeth barhaus â Llywodraeth y DU ar gyllid i brifysgolion; rydym yn trafod hyn yn fwy manwl o baragraff 401 ymlaen.

# 7. Darpariaeth ar gyfer pobl ifanc 18+ oed

Mae data gan UCAS yn awgrymu bod pobl 18 oed yng Nghymru yn llai tebygol o fynd i'r brifysgol na'u cyfoedion ledled y DU, a bod dysgwyr o'r teuluoedd tlotaf yn sylweddol llai tebygol na'u cyfoedion o'r teuluoedd cyfoethocaf o fanteisio ar addysg uwch. Er gwaethaf cefnogaeth gan randdeiliaid a galw gan ddysgwyr a chyflogwyr, nid yw gradd-brentisiaethau yn atal y gostyngiad mewn cyfraddau cyfranogi mewn prifysgolion.

## Data ar gyrchfannau pobl ifanc 18+ oed

**346.** Y prif ffynonellau data i ddeall dewisiadau ôl-18 dysgwyr yng Nghymru yw:

- UCAS: data am geisiadau i brifysgolion. Mae'r data hyn wedi'u rhannu yn ôl awdurdodaeth y DU, rhywedd, cyfradd amddifadedd a chyfraddau cyfranogi yr ardal leol.[565]

- Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ("HESA"): data am niferoedd y myfyrwyr. Gellir dadansoddi'r data yn ôl awdurdodaeth cyfeiriad parhaol.[566]


- Gyrfa Cymru: cyrchfannau disgyblion ym Mlwyddyn 13 mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion anghenion arbennig, ar 31 Hydref y flwyddyn ganlynol.[567] Gweler ffigur 8 am gyrchfannau dysgwyr a oedd ym Mlwyddyn 13 yn y flwyddyn academaidd 2023/24.

- Mae Medr yn casglu data ar radd-brentisiaethau gan ddarparwyr fel rhan o broses casglu data o arolwg Ystadegau Cynnar Myfyrwyr Addysg Uwch (HESES) ym mis Tachwedd bob blwyddyn. Nid yw'r data manwl

[565] UCAS, Ffigurau ymgeiswyr cylch 2025 – dyddiad cau 30 Mehefin (Saesneg yn unig)
[566] HESA, 'Higher Education Student Data'
[567] Gyrfa Cymru, 'Hynt disgyblion'

hyn yn cael eu cyhoeddi ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae offeryn prentisiaethau rhyngweithiol Medr yn nodi cyfanswm y gradd-brentisiaethau a ddechreuwyd fesul blwyddyn academaidd.[568]

**Cyrchfannau dysgwyr a oedd ym mlwyddyn 13 yn y chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion arbennig yn y flwyddyn academaidd 2023/24 (nid oes data cyfatebol ar gael ar hyn o bryd ar**




***Ffigur 8. Cyrchfannau dysgwyr a oedd ym Mlwyddyn 13 yn y chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir neu ysgolion arbennig ôl-16 yn y flwyddyn academaidd 2023/24, ar 31 Hydref 2024. Ffynonellau: Gyrfa Cymru,*** *'Hynt disgyblion'.*

[568] Medr, Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd yng Nghymru: Mesur Targed Cyfredol (Saesneg yn unig)

**347.** Mae data UCAS a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025 am ymgeiswyr prifysgol yn awgrymu bod llawer llai o bobl ifanc 18 oed o Gymru (32.5%) yn gwneud cais i'r brifysgol na phobl 18 oed yn Lloegr (42%), yr Alban (34.5%) a Gogledd Iwerddon (48.9%). Mae data UCAS hefyd yn awgrymu bod dysgwyr o'r teuluoedd lleiaf cefnog yn sylweddol llai tebygol o wneud cais i fynd i'r brifysgol na'u cyfoedion o'r teuluoedd mwyaf cefnog. (Gweler ffigur 7.)

**348.** Dadleuodd Prifysgolion Cymru fod y data yn dangos yn bendant fod cyfranogiad mewn AU yn gostwng ymhlith pobl ifanc Cymru. Serch hynny, fe wnaethant ychwanegu hefyd nad oes un set o ddata sy'n cyflwyno darlun cyflawn o gyfranogiad, a bod yn rhaid bod yn ofalus wrth ddod i gasgliadau ar sail y data cyfredol. Roeddent yn croesawu ymrwymiadau Medr i wella'r set ddata am addysg a hyfforddiant ôl-16.[569]

**349.** Roedd eraill yn llai parod i ddod i gasgliadau pendant yn seiliedig ar ddata ôl-18. Awgrymodd Cymwysterau Cymru y gallai fod "esboniadau eraill posibl" am y gostyngiad ymddangosiadol yng nghyfranogiad dysgwyr.[570] Galwodd ColegauCymru am ragor o ddata a dadansoddiad mwy manwl cyn gwneud datganiadau pendant am ddewisiadau ôl-18 dysgwyr.[571] Yn ystod y pandemig, meddent, roedd Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu dadansoddiad manwl o ddilyniant disgyblion Blwyddyn 11 mewn addysg drydyddol. Roeddent yn dadlau y byddai'n werth ailgynnal y dadansoddiad hwnnw yn fwy manwl a'i wneud yn allbwn ystadegol rheolaidd er mwyn deall tueddiadau yn well y tueddiadau o ran y data.[572]

**350.** Roedd Medr yn cytuno. Awgrymodd nad yw'r data sydd ar gael yn awgrymu'n derfynol bod symudiadau amlwg o un rhan o'r sector trydyddol i'r llall. Roedd yn honni:

> *"… we are not lacking rich data. What we need is a more intelligent understanding of that data, and that is something that we are committing to do really quickly, because we need that baseline to, then, obviously, build the work patterns that we're taking forward."*[573]

[569] Tystiolaeth ychwanegol: Prifysgolion Cymru – 6 Mawrth 2025
[570] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 20 Cymwysterau Cymru
[571] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 34 Colegau Cymru
[572] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 20 Cymwysterau Cymru
[573] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 151 a 167

Yn yr un modd, cydnabu Coleg Gŵyr Abertawe hefyd fod bylchau yn y data, yn enwedig pan fydd dysgwyr yn gadael addysg ôl-16 heb symud ymlaen i AU. Roeddent yn dadlau dros uno systemau data presennol, fel y rhai a gedwir gan UCAS a Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi, i olrhain cynnydd dysgwyr ôl-16 ac ôl-18 mewn modd cynhwysfawr.[574]

**351.** Cydnabu Llywodraeth Cymru fod data UCAS ar gyfer y dyddiad cau ym mis Ionawr ar gyfer ceisiadau 2025 yn dangos gostyngiad cyffredinol yn nifer y bobl ifanc 18 oed sy'n gwneud cais, a "gostyngiad bach" yn nifer y rhai sy'n gwneud cais o'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf. Dadleuodd mai "rhan o'r darlun yn unig" yw data UCAS. Nododd fod gan Gymru gyfran uwch o fyfyrwyr aeddfed (21 oed+) a rhan-amser na Lloegr yn 2022/23: roedd 66% yng Nghymru o'i gymharu â 59% yn Lloegr yn fyfyrwyr aeddfed, ac roedd 36% yng Nghymru o'i gymharu â 23% yn Lloegr yn astudio'n rhan-amser. Dyfynnodd ddata a ddatblygwyd gan Medr, a elwir yn 'Fesur Cyfranogiad Cychwynnol Mewn Addysg Uwch Cymru', sy'n awgrymu, yn 2022/23, y bydd 54.6% o bobl sy'n byw yng Nghymru yn cymryd rhan mewn AU erbyn iddynt gyrraedd 30 oed.[575]

**352.** Yn ystod sesiwn graffu lafar, dadleuodd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch:

- fod y data ar gyfer Lloegr gyfan yn ystumio'r ffigurau'n sylweddol oherwydd ffigurau Llundain, gan fod Llundain mor wahanol. Mae'r gyfradd gyfranogiad yng Nghymru ar gyfer y dyddiad cau ym mis Ionawr (32%) yn debyg i gyfradd de-orllewin Lloegr (34.1%) a gogledd-ddwyrain Lloegr (sydd hefyd yn 32%).

- yn y flwyddyn ddiweddaraf pan oedd data cymharol ar gael, roedd cyfradd Cyfranogiad Cychwynnol mewn Addysg Uwch Cymru yn uwch na chyfradd Lloegr.

- yn ôl data cyfrifiad 2021, mae gwahaniaeth bach iawn rhwng cyfran y bobl 16 oed a hŷn sydd â chymhwyster Lefel 4 neu uwch yng Nghymru (31.5%) o'i gymharu â Lloegr (33.9%).[576]

[574] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 31 Coleg Gŵyr Abertawe
[575] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 47 Llywodraeth Cymru
[576] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 97-101

## Y cymysgedd o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 18+ oed

### Darpariaeth academaidd

#### Addysg Uwch

**353.** Y llwybr addysg a hyfforddiant ôl-18 mwyaf cyffredin yw gradd baglor mewn prifysgol. Fodd bynnag, fel nodwyd mewn perthynas â'r rhwystrau i AU (paragraff 324) ac mewn perthynas â'r data uchod, mae'n ymddangos bod y dystiolaeth yn awgrymu bod cyfraddau cyfranogi mewn addysg prifysgol ymhlith dysgwyr sy'n byw yng Nghymru, yn enwedig y rhai mwyaf difreintiedig, yn gostwng.

**354.** Daeth Prifysgolion Cymru i'r casgliad fod llai o bobl o Gymru wedi mynd i'r brifysgol yn y flwyddyn academaidd 2024/25 nag ar unrhyw adeg yn ystod y degawd diwethaf, a bod y bwlch cyfranogi rhwng Cymru a'r DU gyfan ar ei ehangaf a welwyd mewn hanes diweddar.[577] Roeddent yn dadlau bod y cyfranogiad yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog a nodir yn ffigur 7 yn dystiolaeth o'r bwlch sy'n ehangu rhwng y myfyrwyr lleiaf breintiedig a'r mwyaf breintiedig, a bod anghydraddoldeb rhwng y cenedlaethau wedi bwrw gwreiddiau.[578] Dywedwyd bod AU yn fuddiol i unigolion (erbyn iddynt gyrraedd 31 oed, roedd graddedigion yn ennill 37% yn fwy na phobl nad ydynt yn raddedigion sydd ag o leiaf ddau gymhwyster Safon Uwch) ac i gymdeithas yn gyffredinol, a chwestiynodd beth mae'r gostyngiad yn y gyfradd gyfranogi yn ei olygu i uchelgais Cymru ar gyfer ei dysgwyr:

> *"What I worry about is that we're having almost terminal conversations about people's ceiling that seals them off. The issue is how do we get them further from these things. If you're doing an apprenticeship, where else can you go? If you're doing a GCSE, where else can you go? It's about having that sense of stretch and aspiration through that system, I think, because, clearly, there seems to be a ceiling we're placing, when we have got a participation gap of six to seven percentage points from England in higher education. Again, I suspect nobody planned it."*[579]

---

[577] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 19 Prifysgolion Cymru
[578] Tystiolaeth ychwanegol: Prifysgolion Cymru – 6 Mawrth 2025
[579] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 364

**355.** Roedd rhai prifysgolion unigol yng Nghymru yn rhannu pryderon Prifysgolion Cymru.[580] Ond nid cynrychiolwyr y sector AU yn unig oedd yn pryderu am y gostyngiad mewn cyfranogiad mewn AU. Dywedodd Coleg Sir Gâr fod tystiolaeth glir o newidiadau yn newisiadau ôl-18 dysgwyr, gan gynnwys gostyngiad mewn cofrestriadau Addysg Uwch (AU).[581] Roedd yr NTfW yn cytuno, gan bwysleisio ei bod yn bwysig mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau sylfaenol i AU.[582] Dywedodd Gyrfa Cymru wrthym nad oes unrhyw dystiolaeth yn yr ystadegau bod dysgwyr yn dewis cyfleoedd addysg a hyfforddiant eraill yn lle'r brifysgol. Ychwanegodd fod gan Gymru hefyd y lefel uchaf o bobl sy'n rhoi'r gorau i gyrsiau Gradd Sylfaen o blith holl wledydd y DU.[583]

**356.** Clywsom rai awgrymiadau ynglŷn â sut y dylai prifysgolion Cymru newid er mwyn annog cyfranogiad. Roedd Prifysgolion Cymru yn cydnabod bod mwy i'w wneud i greu AU hyblyg a hygyrch er mwyn annog ystod ehangach o bobl i fynd i'r brifysgol.[584] Roedd y farn a fynegwyd yn nhystiolaeth y Brifysgol Agored yn debyg, ac adroddodd am dwf o 113% mewn myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig ers 2018, a thwf o 160% mewn myfyrwyr sy'n rhan o gynlluniau ehangu mynediad. Roedd yn annog Medr i adolygu ei ddulliau cyllido i gefnogi llwybrau dysgu rhan-amser a hyblyg yn well.[585]

**357.** Galwodd Prifysgolion Cymru hefyd ar brifysgolion i wneud mwy i recriwtio myfyrwyr o golegau AB.[586] Yn yr un modd, dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod colli rhai darpariaethau chweched dosbarth wedi lleihau cysylltiad rhai dysgwyr â'r brifysgol.[587]

**358.** Roedd Llywodraeth Cymru yn derbyn bod nifer y bobl 18 oed sy'n dewis astudio yn y brifysgol yn gostwng. Eglurodd fod mwy o ddysgwyr yn astudio ar lefel is na Lefel 3 yn 16-18 oed, a daeth i'r casgliad fod "cynnydd cyffredinol mewn cyfranogiad ôl-16, ynghyd â chynnydd yn nifer y bobl ifanc â chymwysterau hyd at lefel 3, yn elfen ragflaenol hanfodol o ran cynyddu cyfranogiad mewn addysg uwch. Dyma her tymor hwy." Dywed:

---

580 Llythyr gan Is-Ganghellor Prifysgol Bangor at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ebrill 2025; Llythyr gan Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ebrill 2025; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 30 Prifysgol Metropolitan Caerdydd; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 15 Y Brifysgol Agored yng Nghymru
581 Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 35 Coleg Sir Gâr
582 Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 40 Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTFW)
583 Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 17 Gyrfa Cymru
584 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 342
585 Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 15 Y Brifysgol Agored yng Nghymru
586 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 368
587 Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 30 Prifysgol Metropolitan Caerdydd

> *"… mae hi'n hanfodol inni barhau i roi blaenoriaeth i wella presenoldeb a chyrhaeddiad mewn ysgolion a cholegau, cyn-16 ac ôl-16, er mwyn sicrhau bod y genhedlaeth nesaf o ddysgwyr yn ystyried bod addysg uwch yn rhan o'u dyheadau."*[588]

**359.** Cydnabu'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch fod Llywodraeth Cymru eisiau i gyfraddau cyfranogi mewn AU fod yn uwch. Fodd bynnag, heriodd y casgliadau am gyfranogiad mewn AU y mae rhai wedi dod iddynt wrth edrych ar ddata UCAS yn unig (a amlinellir ym mharagraff 352). Awgrymodd, yn hytrach na pheidio ag astudio yn y maes AU o gwbl, fod pobl ifanc yng Nghymru yn cymryd mwy o amser i wneud penderfyniad ynghylch beth i astudio ac ymhle. Pwysleisiodd ei bod yn bwysig edrych ar y dystiolaeth ehangach hefyd, sy'n dangos bod cyfranogiad cyffredinol mewn AU gan bobl Cymru yn llawer iachach nag y mae'r un ffigur hwnnw gan UCAS yn ei awgrymu."[589]

### Y Diploma Mynediad i AU

**360.** Mae diplomâu Mynediad i AU wedi'u hanelu at oedolion sy'n dymuno astudio yn y brifysgol ond nad oes ganddynt y cymwysterau sydd eu hangen arnynt i wneud hynny. Esboniodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch fod y diplomâu fel arfer yn cael eu darparu gan golegau yng Nghymru, a'u bod yn gymhwyster cyfwerth â Safon Uwch a Bagloriaeth Uwch Cymru. Maent wedi'u targedu'n bennaf at ddysgwyr 19 oed neu hŷn (nid yw colegau'n derbyn cyllid ar gyfer dysgwyr sy'n iau nag 19), er bod yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn nodi bod cyfran y rhai dan 19 oed yn cynyddu bob blwyddyn. Eglurodd, yn 2023/24, fod 50% o ddysgwyr sy'n astudio Diploma Mynediad i AU wedi'u cofrestru o ardal ddifreintiedig, a bod 90.4% o raddedigion yn gyflogedig neu'n dilyn astudiaethau pellach 6 mis ar ôl graddio. Fodd bynnag, noda mai dim ond ar gyfer dysgwyr amser llawn y darperir cyllid. Dadleuodd y byddai cyllido opsiynau rhan-amser yn gwella hyblygrwydd y cymhwyster.[590]

**361.** Rhannodd ymchwilydd o Brifysgol De Cymru ganfyddiadau gwaith ymchwil am y Diploma Mynediad i AU. Fel yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch, tynnodd sylw at rôl y diplomâu wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau systemig mewn dysgu ôl-16. Nododd hefyd fod mwy a mwy o ddysgwyr iau yn cofrestru ar gyrsiau mynediad. Daw'r ymchwilydd i'r casgliad a ganlyn:

---

[588] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 47 Llywodraeth Cymru
[589] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 101
[590] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch

> *"Access to HE courses fosters inclusivity and social mobility within Wales' education system. By addressing regulatory disparities, supporting diverse learner demographics, and embracing the Welsh cultural context, these courses can continue to serve as a beacon of opportunity for non-traditional learners."*[591]

**362.** Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth hon hefyd yn codi rhai pryderon ynghylch y diplomâu, gan gynnwys rheoleiddio'r cyrsiau (a ddylent gael eu rheoleiddio yng Nghymru yn benodol), cyllid ar gyfer myfyrwyr o dan 19 oed (fel y'i codwyd gan QAA), a chydnabyddiaeth anghyson ymhlith sefydliadau AU.

### Darpariaeth alwedigaethol: gradd-brentisiaethau

**363.** Nid prifysgol yw'r unig gyrchfan addysg neu hyfforddiant ôl-18. Y prif ddewis galwedigaethol lefel uwch yn lle gradd baglor neu radd meistr yw gradd-brentisiaeth, a ddosberthir fel GNVQ Lefel 6 neu 7. Mae gradd-brentisiaethau yn cyfuno dysgu seiliedig ar waith â chymhwyster AU. Fe'u cynigir mewn nifer cyfyngedig o sectorau: digidol, peirianneg, gweithgynhyrchu uwch, ac adeiladu.

**364.** Mae data a ddarparwyd gan Medr yn nodi y dechreuwyd 295 o radd-brentisiaethau yn 2021/22, 305 yn 2022/23 a 385 yn 2023/24.[592] Mae wyth prifysgol yng Nghymru (gan gynnwys y Brifysgol Agored) yn cynnig gradd-brentisiaethau; h.y., pob sefydliad AU yng Nghymru ac eithrio Prifysgol Aberystwyth. Mae Medr yn cyllido cost y cwrs yn llawn ac mae'r brifysgol a'r cyflogwr yn talu cost cyflog y prentis.

**365.** Un o'r prif bryderon yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw nad yw'r dilyniant drwy gymwysterau prentisiaeth i brentisiaethau lefel gradd yn ddigon clir. Yn ei adroddiad yn 2023, daeth Dr Hefin David AS i'r casgliad fod "cwmpas gradd-brentisiaethau yn dal i fod yn gyfyngedig ac mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch y ddarpariaeth". Mynegodd bryder hefyd ynghylch rhaglenni gradd-brentisiaethau addawol sydd y tu allan i fframwaith peilot gradd-brentisiaethau Llywodraeth Cymru. Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid eraill i wella dewis, amrywiaeth a chysondeb prentisiaethau lefel uwch a gradd-brentisiaethau, a bod angen gwella integreiddio fertigol â lefelau is.[593]

---

[591] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 44 Mr J Whitcher Ymchwilydd PhD, Prifysgol De Cymru
[592] Medr, Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd yng Nghymru: Mesur Targed Cyfredol (Saesneg yn unig)
[593] Dr Hefin David MS, 'Pontio i Fyd Gwaith', Mehefin 2023, tudalennau 17-21

**366.** Yn yr un modd, argymhellodd adolygiad Lusher y dylai Llywodraeth Cymru a Medr weithio gyda rhanddeiliaid i ymchwilio i ddilyniant drwy ddarpariaeth alwedigaethol ymlaen i lefel 6 er mwyn sicrhau bod y model dilyniant yn integreiddio'n fertigol rhwng lefelau.[594]

**367.** Yn ei adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025 ar lwybrau prentisiaeth, mynegodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd safbwyntiau tebyg. Daeth i'r casgliad a ganlyn:

> *"Mae llwybr clir i bobl sy'n dechrau neu sy'n dymuno symud ymlaen drwy lefelau cymwysterau yn bwysig i wneud prentisiaethau yn ddeniadol ond hefyd i annog astudiaethau pellach. Mae hwn yn faes y mae'n rhaid i Medr a Llywodraeth Cymru weithio arno. Yn ddelfrydol, hoffem weld llwybr clir y gall dysgwyr ei ddilyn a'i ddeall yn hawdd… Mae'n amlwg bod gradd-brentisiaethau yn boblogaidd gyda dysgwyr, darparwyr a busnesau. Fodd bynnag, gan eu bod wedi gor-danysgrifio rydym yn cwestiynu a yw'r model neu'r cwantwm cyllid presennol yn addas i'r diben. Gan hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut gallant ehangu'r ddarpariaeth o radd-brentisiaethau i ateb y galw ond hefyd i sicrhau bod y gwerth gorau am arian yn cael ei fuddsoddi."*

Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i atebion cyllidol i ehangu'r cynnig gradd-brentisiaethau, ond rhaid iddi hefyd sicrhau gwerth am arian fel rhan o'r gwaith hwn.[595] Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn. Fodd bynnag, nododd ei hymateb fod cyfrifoldeb gweithredol dros ddatblygu gradd-brentisiaethau yn nwylo Medr, a bod Medr wrthi'n datblygu'r rhaglen prentisiaethau nesaf a gaiff ei gweithredu o fis Awst 2027.[596]

**368.** Clywsom gefnogaeth gyson i radd-brentisiaethau yn ystod ein hymchwiliad. Dywedodd Grŵp Colegau NPTC fod gradd-brentisiaethau yn ffordd effeithiol o ddiwallu gofynion sgiliau mewn rhai diwydiannau.[597] Yn ôl Make UK, mae gradd-

[594] Grŵp Llywio ar gyfer yr Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru, 'Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru', Gorffennaf 2023, tudalen 92-93
[595] Senedd Cymru, 'Llwybrau prentisiaeth', Gorffennaf 2025, paragraff 81 ymlaen
[596] Llywodraeth Cymru, 'Llwybrau prentisiaeth: Ymateb i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig', 3 Medi 2025
[597] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 45 Grŵp Colegau NPTC

brentisiaethau yn cynnig dull dibynadwy o ddatblygu sgiliau technegol dysgwyr i gyd-fynd â rôl swydd.[598]

**369.** Roedd ASCL[599] a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd yn cytuno bod galw mawr am radd-brentisiaethau gan ddysgwyr hefyd. Galwodd yr olaf am fwy o gyllid ar gyfer gradd-brentisiaethau i sicrhau bod y cyflenwad yn bodloni'r galw, gan ddadlau bod y model cyllido ar hyn o bryd yn tanseilio hyfywedd gradd-brentisiaethau.[600] Roedd galwadau Make UK yn canolbwyntio ar well cymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prentisiaethau lefel uwch yn gyffredinol, gan adrodd bod llawer mwy o ddysgwyr yn dechrau prentisiaethau uwch yn Lloegr o gymharu â Chymru.[601]

**370.** Gan adleisio pryderon a godwyd gan Dr Hefin David AS, dadleuodd Prifysgol Cymru y dylai sefydliadau AU gael yr ymreolaeth i ddatblygu fframweithiau gradd-brentisiaethau yn annibynnol er mwyn ymateb i anghenion y farchnad lafur, heb orfod aros i Lywodraeth Cymru wneud hynny ar eu rhan.[602]

## Yr heriau sy'n wynebu sefydliadau AU

### Ymatebion prifysgolion i'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r sector

**371.** Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae llawer o brifysgolion ledled y DU yn wynebau heriau ariannol. Ni chafodd yr heriau hyn eu cynnwys yn benodol yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad hwn. Fodd bynnag, daeth yn amlwg wrth inni ddechrau ymchwilio yn fwy manwl i'r heriau sy'n wynebu'r sector AU yng Nghymru bod gan y pwysau ariannol sy'n wynebu prifysgolion oblygiadau i newidiadau mewn dewisiadau ôl-18 dysgwyr - a'u bod, yn rhannol, yn ymateb i'r newidiadau hynny.[603]

**372.** Adroddodd y Swyddfa Fyfyrwyr fod 43% o'r sefydliadau a gynhwyswyd yn ei dadansoddiad o Loegr yn rhagweld diffyg ar gyfer 2024/25.[604] Dangosodd data a gasglwyd gan Undeb y Prifysgolion a'r Colegau fod prifysgolion ledled y DU wedi cyhoeddi eu bod yn bwriadu torri dros 5,000 o swyddi, gyda'r Ysgrifennydd

[598] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 33 Make UK
[599] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 12 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Cymru;
[600] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 30 Prifysgol Metropolitan Caerdydd
[601] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 33 Make UK
[602] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 414
[603] Senedd Cymru, 'Materion sy'n wynebu'r Sector Addysg Uwch', 11 Mawrth 2025
[604] Y Swyddfa Fyfyrwyr, 'OfS analysis finds continued pressure on university finances', 8 Mai 2025

Cyffredinol yn ofni y gallai tua 5,000 o swyddi ychwanegol gael eu colli pe bai prifysgolion yn blaenoriaethu diswyddo staff.[605]

**373.** Ar 28 Ionawr 2025, cyhoeddodd Prifysgol Caerdydd y byddai'n lansio ymgynghoriad ffurfiol ar newidiadau arfaethedig sydd â'r nod "wireddu ei hamcanion a diogelu dyfodol hirdymor y Brifysgol".[606] Roedd y newidiadau arfaethedig yn cynnwys cwtogi tua 400 o staff cyfwerth ag amser llawn o nifer y staff academaidd a rhoi'r gorau i addysgu rhai pynciau. Ar 18 Mehefin, cyhoeddodd y Brifysgol ei chynlluniau terfynol, a gafodd eu cwtogi o'r cynigion cychwynnol, ond a oedd yn dal i gynnwys gostyngiad o tua 219 o swyddi a rhoi'r gorau i addysgu a gwaith ymchwil mewn rhai pynciau.[607] Mae mesurau torri costau hefyd wedi cael eu cynnig mewn sefydliadau AU eraill yng Nghymru, gan gynnwys Prifysgol De Cymru[608] a Phrifysgol Bangor[609].

**374.** Yng ngwanwyn 2025, fe wnaethom ysgrifennu at brifysgolion Cymru i ofyn am ragor o wybodaeth am unrhyw heriau ariannol yr oeddent yn eu hwynebu, y rhesymau dros yr heriau hynny, a pha bolisïau ar lefel y DU neu ar lefel Cymru a oedd wedi effeithio'n sylweddol ar eu gallu i weithredu'n gynaliadwy. Nododd ymatebion y prifysgolion y canlynol:

- mae ffioedd dysgu yn annigonol: er gwaethaf y cynnydd diweddar i £9,535 y flwyddyn ar gyfer 2025/26, dywed prifysgolion fod ffioedd dysgu myfyrwyr y DU yn annigonol i dalu costau, yn enwedig yng ngoleuni pwysau yn sgil chwyddiant a chynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol gan gyflogwyr;
- mae'r gostyngiad yn niferoedd y myfyrwyr rhyngwladol wedi effeithio ar incwm: mae rhai prifysgolion wedi dibynnu ar recriwtio myfyrwyr rhyngwladol i sybsideiddio eu costau cyffredinol. Fodd bynnag, mae newidiadau gan Lywodraeth y DU i bolisi mudo a gwelliannau yn y ddarpariaeth AU mewn gwledydd a oedd yn arfer anfon myfyrwyr i'r DU wedi lleihau'r galw am sefydliadau AU yn y DU; a

---

[605] Undeb y Prifysgolion a'r Colegau, 'University crisis will see over 10,000 staff lose their jobs, fears UCU'
[606] Prifysgol Caerdydd, 'Diogelu ein Dyfodol Academaidd', 28 Ionawr 2025
[607] Wales Online, 'Cardiff University formally agrees sweeping cuts that will see departments shut', 18 Mehefin 2025
[608] Prifysgol De Cymru, 'Ymgynghoriad ar oblygiadau'r adolygiad o'n darpariaeth academaidd i'r gweithlu', 19 Chwefror 2025
[609] BBC, 'Prifysgol Bangor i ymgynghori ar dorri 78 o swyddi', 14 Mai 2025; Llythyr gan Is-Ganghellor Prifysgol Bangor at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ebrill 2025

- mae'r gostyngiad mewn cyfraddau cyfranogi yng Nghymru (fel y trafodir uchod) wedi lleihau incwm ffioedd.[610]

**375.** Nododd Is-Ganghellor Prifysgol Caerdydd yn glir ei phryderon ynghylch y pwysau ariannol sy'n wynebu prifysgolion ledled y DU. Tynnodd sylw at gostau cynyddol, megis codiadau cyflog, biliau cyfleustodau, cynnydd mewn yswiriant gwladol, ochr yn ochr â gostyngiad sylweddol yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol.[611] Roedd asesiad Cadeirydd Cyngor Prifysgol Caerdydd yn ddi-flewyn-ar-dafod. Dywedodd wrthym fod problem strwythurol ddofn gyda chyllid ar gyfer AU, ac nad oes gan brifysgolion hawl ddiymwad i fodoli; mae'n rhaid iddynt fyw o fewn eu modd, meddai.[612]

**376.** Nid yw pob sefydliad AU yng Nghymru yn cynnig torri costau mor helaeth â Phrifysgol Caerdydd, fodd bynnag. Prifysgol Wrecsam a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yw'r unig ddwy brifysgol yng Nghymru i beidio â gorffen y flwyddyn academaidd ddiwethaf gyda diffyg. Maent hefyd yn cynnig mwy o gyrsiau galwedigaethol na sefydliadau eraill yng Nghymru. Mae Is-Ganghellor Prifysgol Wrecsam wedi galw ar brifysgolion Cymru i wneud mwy i ddenu pobl ifanc lleol i wneud cais i sefydliadau AU. Yn yr un modd, dadleuodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd na fydd problemau cyfranogi AU yn cael eu datrys drwy dim ond drwy gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio cymwysterau Safon Uwch.[613]

**377.** Roedd Is-Ganghellor Prifysgol Caerdydd yn cytuno bod angen i brifysgolion wella cyfranogiad drwy newid model eu darpariaeth:

> *"Universities have traditionally not been very good at responding to the environment around them. We know we need to be more agile, better at responding to the needs of society, ensuring our students have the life skills they need to adapt and flex, delivering education to a wider range of people,*

---

[610] Llythyr gan Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ebrill 2025; Llythyr gan Is-Ganghellor Prifysgol Bangor at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ebrill 2025; Llythyr gan Lywydd ac Is-Ganghellor Prifysgol Metropolitan Caerdydd at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ebrill 2025; Llythyr gan Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr Prifysgol Wrecsam at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 15 Mai 2025; Llythyr gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Mawrth 2025
[611] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 9
[612] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 22
[613] Llythyr gan Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr Prifysgol Wrecsam at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 15 Mai 2025; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 30 Prifysgol Metropolitan Caerdydd

*particularly those who've been excluded from education before."*

Fodd bynnag, nododd yn ddiweddarach nad oedd ymdrechion Prifysgol Caerdydd ac eraill i ddenu rhagor o fyfyrwyr domestig drwy dderbyn dysgwyr â graddau is wedi bod yn llwyddiannus. Dadleuodd fod gwneud hynny yn peryglu profiad ei staff a phrofiad y myfyrwyr oherwydd nad oedd staff yn gallu darparu'r gefnogaeth yr oeddent yn dymuno ei darparu i gorff mwy amrywiol o fyfyrwyr. Ychwanegodd nad oedd unrhyw werth ariannol gwirioneddol i'r dull hwnnw ychwaith, oherwydd gwerth gwirioneddol ffioedd myfyrwyr cartref.[614]

**378.** Dadleuodd rhai rhanddeiliaid y gallai ymateb rhai sefydliadau AU Cymru i'r heriau ariannol y maent yn eu hwynebu arwain at oblygiadau negyddol pellach i bobl ifanc yng Nghymru ac economi Cymru yn ehangach. Awgrymodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd, pe bai rhai pynciau yn diflannu o ddarparwyr yng Nghymru, y gallai mwy o ddysgwyr o Gymru ddewis astudio yn Lloegr.[615]

**379.** Dywedodd Unsain wrthym fod prifysgolion yn ystyried eu hunain yn rhan o'r sector preifat pan maent yn dymuno hynny ac yn ystyried eu bod yn eistedd yn y canol pan mae hynny'n plesio, yn dibynnu ar yr hyn sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Dadleuodd y dylent fod yn fwy tryloyw oherwydd eu rôl wrth hyfforddi gweithwyr allweddol yn y sector cyhoeddus, fel gweithwyr cymdeithasol, athrawon, yr heddlu a staff meddygol.[616] Roedd NUS Cymru yn dadlau y dylai Llywodraeth Cymru ymyrryd:

*"Education doesn't stop after you leave school. You don't finish at 16 and then you're someone else's problem. The Welsh Government needs to recognise, I think, that you can't ignore the challenges faced, but also the uncertainty. These young people will be the future taxpayers, the future workforce, and to have a sustainable higher education sector is key to have that prosperous economy, to have that equitable society. We're talking about pressures on the NHS, pressures on public services, but also, within the business sector, we need qualified people who are competent and have those skills, which you do*

[614] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 10 a 200
[615] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 30 Prifysgol Metropolitan Caerdydd
[616] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 86

*gain through either universities, degree apprenticeships or apprenticeships."*[617]

**380.** Fe wnaethom godi ein pryderon ynghylch cynaliadwyedd y sector AU yng Nghymru gyda'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch. Cydnabu'r heriau sy'n wynebu'r sector AU, ledled y DU a thu hwnt. Dywedodd fod hyd at 90 o brifysgolion ledled y DU wedi torri costau, neu'n bwriadu torri costau yn y flwyddyn gyfredol. Dywedodd wrthym y byddai'n parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddod o hyd i atebion i'r problemau ledled y DU.[618]

## Seren

**381.** Cafodd rhaglen Seren Cymru, sy'n anelu at "gefnogi dyheadau ac uchelgeisiau'r dysgwyr mwyaf galluog" ei beirniadu gan nifer o randdeiliaid.

**382.** Dadleuodd rhai fod sefydliadau Cymru yn cael eu heffeithio'n negyddol gan y rhaglen, a bod hynny'n un o ganlyniadau anfwriadol annog rhai dysgwyr i fynd i Rydychen, Caergrawnt a'r prifysgolion gorau eraill ledled y DU a thramor. Roedd Prifysgol y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Aberystwyth ac Undeb y Prifysgolion a'r Colegau oll yn dadlau bod y cynllun yn rhoi sector AU Cymru dan anfantais drwy annog dysgwyr Cymru i adael Cymru.[619]

**383.** Dadleuodd Prifysgolion Cymru hefyd y gallai Seren fod yn cael effaith ar y canfyddiad o ba mor hygyrch yw addysg prifysgol. Roeddent o'r farn bod Seren:

> *"... is arguably perpetuating a message to a majority of able learners that university is 'not for them' – the selective nature of the scheme rules out plenty of school pupils that have the potential to gain a university education, while providing opportunities aimed at those already most likely to go to university"*

Fe wnaethant alw'r rhaglen yn 'ymgyrch astudio-yn-Lloegr', gan awgrymu bod angen ei hailystyried,[620] a galwodd am ddata yn edrych ar effaith Seren ar

[617] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 203
[618] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 105
[619] Llythyr gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ebrill 2025; Llythyr gan Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ebrill 2025; Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 36 Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru; Llythyr gan Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ebrill 2025
[620] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 390

geisiadau AU yn gyffredinol, yn hytrach na dim ond y garfan sy'n cymryd rhan yn y rhaglen.[621]


**384.** Dadleuodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol nad yw Seren yn cymell dysgwyr sy'n siarad Cymraeg i aros yng Nghymru ac astudio yn y Gymraeg. Dywedodd fod dysgwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sy'n cael graddau (ABB neu uwch) mewn gwirionedd yn fwy tebygol o gael eu derbyn i brifysgol y tu allan i Gymru na'u cyfoedion. Galwodd am adolygu deilliannau Seren, a rhoi mwy o bwyslais ar hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog o'r ansawdd uchaf.[622]

**385.** Nododd Llywodraeth Cymru mai cenhadaeth Academi Seren yw "cefnogi ein dysgwyr disgleiriaf i fynd i'r ddarpariaeth orau sydd ar gael". Fodd bynnag, dywedodd hefyd ei bod yn archwilio ffyrdd o gynyddu cyfleoedd i'r dysgwyr mwyaf abl o gefndiroedd difreintiedig gymryd rhan yn Seren. Ychwanegodd Llywodraeth Cymru y bydd, dros y flwyddyn nesaf, yn cynnal gwaith ymchwil i "wella tegwch cyfleoedd, sicrhau mynediad teg, a gwella'r ddarpariaeth o fewn Seren, gan roi blaenoriaeth i anghenion dysgwyr yn y bôn."[623]

## Pobl ifanc 18+ oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET)

**386.** Mae data cyhoeddedig yn awgrymu bod cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET yn sylweddol uwch na'r bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET. Yn ôl y ffynhonnell swyddogol ar gyfer amcangyfrifon o gyfran y bobl ifanc yng Nghymru sy'n NEET, sef y Datganiad Ystadegol Cyntaf, roedd 15.2% o bobl ifanc 19-24 oed yn NEET yn 2023 (gweler ffigur 9).

[621] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 19 Prifysgolion Cymru
[622] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 43 Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[623] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 47 Llywodraeth Cymru




***Ffigur 9. Canran y bobl ifanc 19 i 24 oed yng Nghymru sy'n NEET. Ffynhonnell: Ystadegau Cymru,*** *'Amcangyfrif o unigolion 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl gweithgarwch economaidd a grwpiau oedran'*

**387.** Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad ystadegol ad hoc a oedd yn dadansoddi data ar bobl ifanc 16-24 oed a oedd yn NEET yn ôl lefel cymwysterau. O gyfrifo'r cyfartaledd dros gyfnod o dair blynedd (2022 - 2024), roedd gan ganran uwch o bobl ifanc a oedd yn NEET gymhwyster Lefel 3 neu uwch (36.3%) o gymharu â chymhwyster Lefel 2 neu is (35.5%). Nid oedd gan 22.6% o unigolion a oedd yn NEET unrhyw gymwysterau o gwbl, ac nid oedd 5.6% yn gwybod. Deilliodd y data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth sy'n fwy amserol, ond yn llai cywir.[624]

**388.** Cododd yr Undeb Addysg Cenedlaethol bryderon ynghylch nifer y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET, gan awgrymu nad oes modd gwybod yr achos penodol dros y ffigurau NEET. Tynnodd sylw hefyd at ystadegau sy'n awgrymu bod bron i 40% o bobl ifanc anabl rhwng 19 a 24 oed yn NEET, sydd, yn eu barn nhw, yn arwydd o fethiant i gefnogi pobl ifanc anabl pan fyddant yn gadael oedran ysgol gorfodol.[625]

[624] Llywodraeth Cymru, 'Ceisiadau ystadegol ad hoc: 2 i 13 Mehefin 2025', 23 Mehefin 2025
[625] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 06 Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru

**389.** Yn y cyfamser, awgrymodd y Brifysgol Agored fod y gostyngiad mewn cyfraddau cyfranogi mewn AU yn arwain at bobl ifanc yn dod yn NEET. Dadleuodd nad oes tystiolaeth bod pobl ifanc nad ydynt yn mynd i'r brifysgol yn troi at fathau eraill o addysg yn lle hynny.[626]

## Ein barn ni

### Data ar gyrchfannau pobl ifanc 18+ oed

**390.** Mae absenoldeb data cyrchfannau am ddysgwyr mewn colegau yn fwlch clir ac amlwg yn y data sydd ar gael yn gyhoeddus am gyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae hyn hyd yn oed yn bwysicach o ystyried bod mwy o ddysgwyr sy'n hanu o Gymru bellach yn mynd i golegau nag sy'n mynd i'r chweched dosbarth, fel y noda ffigur 3 (paragraff 94). Rydym yn pwysleisio pwysigrwydd data sy'n dilyn llwybrau dysgwyr mewn perthynas ag Argymhelliad 10. Dyma enghraifft glir arall o gyfyngiadau'r data sydd ar gael ar hyn o bryd. Er bod Gyrfa Cymru yn darparu gwybodaeth yn rheolaidd am ddilyniant o'r chweched dosbarth, i bob pwrpas nid oes gennym unrhyw syniad am lwybrau ôl-18 dros hanner y bobl ifanc yng Nghymru.

**391.** Rydym wedi clywed yn aml yn ystod yr ymchwiliad hwn fod Cymru yn wynebu nifer o heriau o ran cyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant ôl-16. Ond yr hyn sy'n dal yn aneglur yw pam nad yw rhai pobl ifanc yn parhau â'u haddysg a'u hyfforddiant ar ôl 16 oed. Ni wyddom yr ateb i'r cwestiwn hwnnw'n llawn o hyd, a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gael trafferth i roi ymyriadau ar waith sydd ag unrhyw obaith o wella cyfranogiad os na fydd gennym wybodaeth sylfaenol ynghylch pryd a pham mae dysgwyr yn rhoi'r gorau i addysg a hyfforddiant. Rydym yn cydnabod y gallai hyn arwain at oblygiadau o ran adnoddau, fel sy'n wir i Gyrfa Cymru wrth gasglu data am fyfyrwyr chweched dosbarth. Ond mae'r buddsoddiad cymharol fach o ran adnoddau yn amlwg yn werth chweil er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth inni o lwybrau pobl ifanc ar ôl 18 oed.

**392.** Rydym yn dychmygu y bydd gan lawer o golegau eu data cyrchfannau eu hunain at eu dibenion mewnol neu ddibenion hysbysebu eu hunain. Felly, efallai mai'r her ar lefel genedlaethol yw sicrhau bod y data a ddarperir gan y colegau ledled Cymru yn gyson, yn gymaradwy, yn gywir ac yn ddibynadwy. Dylai mynd i'r afael â'r heriau hyn fod yn flaenoriaeth i Medr, ochr yn ochr â cholegau AB, wrth

[626] Tystiolaeth ysgrifenedig: RET 15 Y Brifysgol Agored yng Nghymru

iddo geisio datblygu ei ddealltwriaeth o sut y mae dysgwyr yn rhyngweithio ag addysg a hyfforddiant ar ôl iddynt adael yr ysgol.

**Argymhelliad 14.** Dylai Medr weithio gyda Colegau Cymru i ganfod y bylchau yn y data am ddysgwyr mewn colegau AB (megis eu cyrchfannau ôl-18), a chymryd camau i fynd i'r afael â'r bylchau hynny drwy ddatblygu set ddata fanwl gywir, amserol a dibynadwy gyda'r nod o'i rhyddhau'n flynyddol erbyn diwedd y flwyddyn academaidd 2025/26.

## Darpariaeth academaidd ôl-18: addysg uwch

**393.** Nid ydym yn credu mai mynd i'r brifysgol yw'r penderfyniad cywir i bob person ifanc. Nid ydym ychwaith yn credu y dylid dweud wrth ddysgwyr fod prifysgol yn rhywbeth y dylai pob person ifanc anelu ato. Mae'r brifysgol yn ddewis gwych i lawer o bobl ifanc, ac mae manteision gydol oes clir a phendant i addysg prifysgol. Ond yn amlwg nid yw'n addas i bawb. Ni ddylid byth gwneud i'r bobl ifanc hynny nad prifysgol yw'r dewis cywir iddynt gredu eu bod wedi methu mewn rhyw ffordd.

**394.** Fodd bynnag, rydym *yn* credu mewn bod yn uchelgeisiol ar gyfer pob dysgwr. Rhaid inni herio'r rhagdybiaethau a wneir am bobl ifanc, sy'n aml yn rhagdybiaethau a wneir pan fyddant yn ifanc iawn, sy'n cyfyngu ar eu twf a'u potensial. Rydym am i bob dysgwr gael y cyfle - a chael ei annog - i astudio neu hyfforddi i gael addysg o ansawdd uchel, ar lefel uchel sy'n rhoi pob cyfle iddo lwyddo pan fydd yn ymuno â'r farchnad swyddi. Rhaid i hyn gynnwys ffocws drwy gymdeithas gyfan ar wella cyfranogiad ôl-18 mewn addysg a hyfforddiant, beth bynnag fo ffurf yr addysg a'r hyfforddiant. Efallai nad prifysgol yw'r dewis cywir i bob person ifanc. Ond ni ddylid amddifadu unrhyw berson ifanc o gael y dewis hwnnw yn y lle cyntaf.

**395.** Felly, nodwn gyda phryder fod pobl ifanc yng Nghymru, yn enwedig y rhai o'r grwpiau incwm isaf, yn sylweddol llai tebygol na'u cyfoedion yn Lloegr a Gogledd Iwerddon o fynd i'r brifysgol (gweler ffigur 7). Mae'r heriau cyfranogi hyn yn gysylltiedig â llawer o'r rhwystrau i gyfranogiad ôl-16 yr ydym wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn. Rydym yn gobeithio y bydd ein hargymhellion yn mynd gam o'r ffordd tuag at fynd i'r afael â'r heriau hynny.

**396.** Fodd bynnag, yn y bôn, mae achosion sylfaenol cyfranogiad gwael mewn AU yng Nghymru yn ymestyn y tu hwnt i gwmpas yr ymchwiliad hwn. Maent yn symptomau tueddiadau diwylliannol ehangach, lle mae llawer o bobl ifanc a'u teuluoedd yn credu nad yw'r brifysgol yn addas iddyn nhw, nad ydynt yn ddigon

da nac yn ddigon clyfar, waeth beth fo'u potensial i lwyddo mewn AU gyda'r anogaeth a'r gefnogaeth gywir. Rhaid i bob un ohonom herio'r rhagdybiaethau negyddol hyn yn gadarn ar bob cyfle: addysgwyr, cynghorwyr gyrfaoedd, rhieni, a sefydliadau ôl-16. Ni ddylai prifysgolion eu hunain osgoi wynebu'r heriau hyn. Er mwyn gwella cyfranogiad mewn AU, rhaid i brifysgolion adeiladu ar eu hymdrechion hyd yma i ehangu cyfranogiad a symud y tu hwnt i'w cylch cysurus i ddiwallu anghenion darpar fyfyrwyr yn well. Mae ganddynt rôl hanfodol o ran sicrhau'r newid diwylliannol ehangach hwnnw.

### Darpariaeth alwedigaethol ôl-18: gradd-brentisiaethau

**397.** Mae gradd-brentisiaethau yn gynnig ôl-18 pwerus a hyblyg sy'n dangos sut y gellir pontio cymwysterau galwedigaethol ac academaidd i gyflwyno cymwysterau lefel uwch i ystod ehangach o ddysgwyr. Rydym yn cefnogi ac yn cymeradwyo'r rhaglen gradd-brentisiaeth yn llwyr. Ein hunig bryder yw bod cyn lleied o radd-brentisiaethau ar gael, a bod lefel y galw gan ddysgwyr a chyflogwyr yn llawer mwy na nifer y cyfleoedd i ymgymryd â phrentisiaeth o'r fath

**398.** Roedd galwadau clir i wella ac ymestyn y ddarpariaeth gradd-brentisiaethau yn y dystiolaeth a gawsom. Mae llawer wedi galw am fwy o gyllid. Mae eraill wedi dadlau o blaid rhoi mwy o ymreolaeth i brifysgolion i ddylunio eu fframweithiau gradd-brentisiaeth eu hunain er mwyn eu galluogi i ymateb yn well i anghenion y farchnad lafur.

**399.** Nodwn ymateb Llywodraeth Cymru i 'Llwybrau Prentisiaeth', adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, sy'n nodi y bydd Medr yn dylunio ei fframwaith gradd-brentisiaethau ac yn ei weithredu o fis Awst 2027 ymlaen. Rydym yn ymwybodol y bydd yn amhosibl i Medr ymdopi â galwadau am fwy o gyllid heb wneud toriadau i gyllid mewn meysydd eraill, ac nid ydym mewn sefyllfa i allu gwneud argymhellion i'r perwyl hwnnw. Fodd bynnag, credwn y gellid creu mwy o radd-brentisiaethau drwy archwilio modelau lle mae Llywodraeth Cymru a chyflogwyr yn rhannu cost ffioedd dysgu. Gallai hyn, ochr yn ochr â model datblygu fframwaith mwy hyblyg, greu cynnig mwy deinamig a hyblyg sy'n sbarduno cynnydd mewn darpariaeth.

**Argymhelliad 15.** Fel rhan o'i ddull o ddatblygu fframwaith gradd-brentisiaethau i'w weithredu o fis Awst 2027 ymlaen, dylai Medr gynnal asesiad o fanteision neu anfanteision y canlynol mewn perthynas â chynyddu nifer y gradd-brentisiaethau sydd ar gael:

- cyflogwyr yn cyfrannu at gost ffioedd dysgu gradd-brentisiaethau, ochr yn ochr â'r cyflog y maent yn ei dalu i'r prentis; a
- rhoi'r ymreolaeth i sefydliadau AU ddatblygu gradd-brentisiaethau yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

## Ymatebion prifysgolion i'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r sector

**400.** Nodwn y consensws clir yn yr holl dystiolaeth a gawsom nad yw'r dull a ddefnyddir i gyllido prifysgolion yn gynaliadwy. Yr hyn sy'n llawer llai clir, fodd bynnag, yw sut y gellir rhoi'r sector ar sylfaen ariannol iach a sefydlog ar gyfer y tymor hwy. Mae'r rhain yn faterion cymhleth a thechnegol iawn nad ydynt o fewn cwmpas yr ymchwiliad hwn, ac nad ydym wedi casglu digon o dystiolaeth amdanynt i ffurfio barn.

**401.** Fodd bynnag, mae'n anochel bod yr heriau y mae prifysgolion yn eu hwynebu, a'r penderfyniadau y mae rhai prifysgolion yn eu gwneud mewn ymateb i'r heriau hynny, yn cael effaith ar argraffiadau pobl ifanc o fynd i'r brifysgol. Maent hefyd yn cael effaith ar ganfyddiad pobl ifanc yng Nghymru o fanteision (neu anfanteision) addysg prifysgol *yng Nghymru*. Felly, maent yn uniongyrchol berthnasol i'r materion a drafodir yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â chyfranogiad pobl ifanc ôl-18 mewn addysg a hyfforddiant. Dywedodd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch wrthym ei bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ystyried atebion i'r problemau ledled y DU. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru am y wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau hynny.

**Argymhelliad 16.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar ei thrafodaethau parhaus â Llywodraeth y DU ynghylch sut y gellir mynd i'r afael â'r pwysau ariannol sy'n wynebu sefydliadau Addysg Uwch ar lefel y DU gyfan.

## Pobl ifanc 18+ oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET)

**402.** Mae cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET yn sylweddol uwch na chyfran y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET. Efallai na ddylai hyn fod yn syndod: mae gwell dealltwriaeth o lwybrau addysg a hyfforddiant i bobl ifanc 16 oed, ceir ystod ehangach o opsiynau galwedigaethol ac academaidd, ac mae'r gost i'r dysgwr unigol yn llawer is. Yn 18 oed, mae pobl ifanc yn symud ymlaen i addysg uwch (gyda'r gwahanol rwystrau i addysg uwch yr ydym wedi'u trafod uchod), i un o'r ychydig radd-brentisiaethau sydd ar gael, neu maent yn symud i farchnad swyddi a allai fod yn heriol.

**403.** Ond yr sydd *yn* syndod yw'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu am ddemograffeg pobl ifanc sy'n dod yn NEET rhwng 19 a 24 oed. Yn 16-18 oed, y duedd tymor canolig sefydledig yng Nghymru yw bod dynion ifanc yn fwy tebygol o fod yn NEET na menywod ifanc. Nid felly yn yr oedran hŷn hwn: ar wahân i'r blynyddoedd diwethaf, mae'r gwrthwyneb wedi bod yn wir. Yr un mor annisgwyl: mae gan gyfran uwch o bobl ifanc sy'n NEET rhwng 19 a 24 oed gymhwyster lefel 3 neu uwch o gymharu â'r rhai sydd â chymhwyster lefel 3 neu is. Mae hyn yn herio llawer o stereoteipiau am y grwpiau o oedolion ifanc sy'n debygol o fod yn y categori heb fod mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant ar yr oedran hwn. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â barn rhai rhanddeiliaid, sy'n credu bod cyfranogiad cyffredinol mewn addysg a hyfforddiant yn lleihau, yn hytrach na bod dysgwyr yn dewis opsiynau eraill yn lle y brifysgol.

**404.** Ni wyddom beth sy'n achosi'r tueddiadau hyn. Yn amlwg, mae angen gwneud gwaith i ddeall yr heriau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth iddynt symud rhwng addysg, hyfforddiant neu waith ar ôl blwyddyn 11. Yn anffodus, heb ddata, dibynadwy ac amserol ar lwybrau a chyrchfannau, mae'n anodd gweld sut y gellir ymgymryd â'r gwaith hwn. Felly rydym yn ailadrodd Argymhelliad 10 mewn perthynas â data ar bobl ifanc 18 oed a hŷn sy'n NEET, sy'n gam hollbwysig i ddeall ble mae angen ymyriadau gan Lywodraeth Cymru ac eraill i hybu cyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant ôl-18.

# Atodiad 1: Gweithgareddau ymgysylltu

| Dyddiad | Sefydliad lletya/digwyddiad | Crynodeb o'r gweithgaredd ymgysylltu |
|---|---|---|
| **22 Mawrth 2025** | Coleg Caerdydd a'r Fro | Ymwelodd yr aelodau â dosbarth o Brentisiaid Iau a sgwrsio ag arweinwyr y rhaglen. Aethant ar daith o amgylch y campws a chael sgwrs bord gron gyda grŵp o ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr AB 19 oed, prentisiaid, dysgwyr sy'n oedolion. |
| **22 Mawrth 2025** | Ysgol St Martin | Cyfarfu'r aelodau â myfyrwyr Blwyddyn 11 i drafod dewisiadau ôl-16 ac â myfyrwyr Blwyddyn 12/13 i drafod gwerth y chweched dosbarth. |
| **Ionawr – Mawrth 2025** | Arolygon | Cynhaliwyd dau arolwg, un wedi'i anelu at rieni/gwarcheidwaid pobl ifanc 16–20 oed ac un arall wedi'i anelu at bobl ifanc. |
| **Chwefror – Mawrth 2025** | Cyfweliadau | Cynhaliwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb hefyd gyda hwyluswyr a phobl ifanc mewn lleoliad addysg amgen i ategu'r arolygon. |

# Atodiad 2: Rhestr o'r rhai a fynychodd y digwyddiad i randdeiliaid

## 22 Ionawr 2025

| Sefydliad | Enw(au) |
|---|---|
| **Colegau Cymru** | David Hagendyk |
| **Addysg Oedolion Cymru** | Kathryn Robson |
| **Grŵp Llandrillo Menai** | Aled Jones-Griffith |
| **Coleg Cambria** | Yana Williams |
| **Coleg Caerdydd a'r Fro** | Sharon James-Evans |
| **Coleg Sir Gâr a Choleg** | Andrew Cornish |
| **Parents voices in Wales** | Ceri Reed<br>Karen Berel<br>Deb Austin |
| **Gyrfa Cymru** | Joanne Page<br>Toni-Jo Stables<br>Bobbie Doward<br>Sioned Balbini<br>Linda J Thomas |
| **Prifysgolion Cymru** | Yr Athro Elwen Evans<br>Yr Athro Jon Timmis<br>Gwen Williams<br>Marian Wyn Jones |
| **Awdurdodau Lleol** | Chris Millis<br>Elfed Morris<br>Gareth Jones<br>Sharon Davies |

# Atodiad 3: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **29 Ionawr 2025** | **Sion Amlyn, Swyddog Polisi a Gwaith Achosion,**<br>Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)<br>**Ioan Rhys Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol,**<br>Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)<br>**Mary van den Heuvel, Uwch Swyddog Polisi Cymru,**<br>Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru<br>**Deb Austin, Rhiant,**<br>Parents voices in Wales<br>**Karen Berrell, Rhiant,**<br>Parents voices in Wales |
| **6 Chwefror 2025** | **Simon Pirotte, Prif Swyddog Gweithredol,**<br>Medr<br>**Rhian Edwards, Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi,**<br>Medr<br>**Nerys Bourne, Cyfarwyddwr Strategaeth Cwsmeriaid a Datblygu Gwasanaethau,**<br>Gyrfa Cymru<br>**Mark Owen, Pennaeth Gwasanaethau i Randdeiliaid,**<br>Gyrfa Cymru<br>**Lisa Mytton, Cyfarwyddwr Strategol,**<br>Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTFW)<br>**Dr Ben Calvert, Is-Ganghellor Prifysgol De Cymru ac Is-gadeirydd,**<br>Prifysgolion Cymru<br>**Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr,**<br>Prifysgolion Cymru |
| **5 Mawrth 2025** | **Jessa Scott, Cyfarwyddwr Strategol,**<br>Estyn |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Catherine Evans, Cyfarwyddwr Cynorthwyol,** Estyn<br>**Mark Campion, Cyfarwyddwr Cynorthwyol,** Estyn |
| **13 Mawrth 2025** | **Dona Lewis, Prif Weithredwr,** y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol<br>**Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr,** Coleg Cymraeg Cenedlaethol<br>**Gwenllian Owen, Uwch-reolwr Addysg Uwch,** Coleg Cymraeg Cenedlaethol<br>**Dr Gwennan Schiavone, Prif Swyddog Gweithredol,** Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG)<br>**Matthew McAvoy, Arweinydd Uwchradd,** Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG)<br>**Faith O'Brian, Rheolwr Gyfarwyddwr,** Hyfforddiant Cambrian<br>**Jude Holloway, Rheolwr Gyfarwyddwr,** Grŵp Hyfforddi Educ8 |
| **26 Mawrth 2025** | **Y Cynghorydd Lis Burnett, Llefarydd,** Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)<br>**Sharon Davies, Pennaeth Addysg,** Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)<br>**Gwyn Tudur, Pennaeth Addysg Cynorthwyol Cyngor Sir Gwynedd,** Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)<br>**David Hagendyk, Prif Weithredwr,** Colegau Cymru<br>**Lisa Michelle Thomas, Pennaeth Coleg Merthyr a Chadeirydd Colegau Cymru,** Colegau Cymru |

Defnyddiodd yr ymchwiliad hwn hefyd y dystiolaeth a gafwyd ar gyfer yr ymchwiliad i'r materion sy'n wynebu'r sector addysg uwch. Rhoddodd y canlynol grynodeb a thystiolaeth lafar i'r Pwyllgor:

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **21 Mai 2025** | **Simon Pirotte, Prif Swyddog Gweithredol,** Medr |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **James Owen, Prif Swyddog Gweithredu,**<br>Medr |
| **12 Mehefin 2025** | **Yr Athro Wendy Larner, Llywydd ac Is-Ganghellor,**<br>Prifysgol Caerdydd<br>**Patrick Younge, Cadeirydd y Cyngor,**<br>Prifysgol Caerdydd |
| **25 Mehefin 2025** | **Lynne Hacket, Swyddog Arweiniol Addysg Uwch,**<br>UNSAIN Cymru<br>**Dan Beard, Cadeirydd Llyeg, Fforwm Addysg Uwch,**<br>UNSAIN Cymru<br>**Gareth Lloyd, Swyddog Cymru**<br>Undeb y Prifysgolion a'r Colegau<br>**Jamie Insole, Swyddog Polisi,**<br>Undeb y Prifysgolion a'r Colegau |
| **25 Mehefin 2025** | **Deio Owen, Llywydd,**<br>Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS) Cymru |

# Atodiad 4: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r Ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **RET 01** | Education Otherwise |
| **RET 02** | Parentkind |
| **RET 03** | Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) |
| **RET 04** | Mark Jones, Prif Weithredwr, Coleg Gŵyr Abertawe |
| **RET 05** | Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) |
| **RET 06** | Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru |
| **RET 07** | Grŵp Hyfforddi Educ8 |
| **RET 08** | Unigolyn |
| **RET 09** | Unigolyn |
| **RET 10** | Grŵp Llandrillo Menai |
| **RET 11** | Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch |
| **RET 12** | Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Cymru |
| **RET 13** | Hyfforddiant Cambrian |
| **RET 14** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) |
| **RET 15** | Y Brifysgol Agored yng Nghymru |
| **RET 16** | Cymdeithas Syndrom Down |
| **RET 17** | Gyrfa Cymru |
| **RET 18** | Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru |
| **RET 19** | Prifysgolion Cymru |
| **RET 20** | Cymwysterau Cymru |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **RET 21** | Dr. Katy Huxley a Rhys Davies, Prifysgol Caerdydd |
| **RET 22** | Coleg y Cymoedd |
| **RET 23** | Horticultural Trades Association |
| **RET 24** | Estyn |
| **RET 25** | Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru |
| **RET 26** | Cyngor Sir Powys |
| **RET 27** | Natspec a Chynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector |
| **RET 28** | Cymorth i'r Rhai sy'n Gadael Gofal a Myfyrwyr Cymru (CLASS Cymru) |
| **RET 29** | Gofal Cymdeithasol Cymru |
| **RET 30** | Prifysgol Metropolitan Caerdydd |
| **RET 31** | Coleg Gŵyr Abertawe |
| **RET 32** | Comisiynydd y Gymraeg |
| **RET 33** | Make UK |
| **RET 34** | Colegau Cymru |
| **RET 35** | Coleg Sir Gâr |
| **RET 36** | Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru |
| **RET 37** | Unigolyn |
| **RET 38** | Into Film Cymru |
| **RET 39** | Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol |
| **RET 40** | Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTFW) |
| **RET 41** | Medr |
| **RET 42** | Y Sefydliad Ffiseg |
| **RET 43** | Coleg Cymraeg |
| **RET 44** | Mr J Whitcher Ymchwilydd PhD, Prifysgol De Cymru |
| **RET 45** | Grŵp Colegau NPTC |
| **RET 46** | Dr Elisa Vigna ac Andrea Meek, Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, Prifysgol Caerdydd |
| **RET 47** | Llywodraeth Cymru |

## Gwybodaeth ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) | 18 Chwefror 2025 |
| Prifysgolion Cymru | 6 Mawrth 2025 |
| Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | 18 Mawrth 2025 |

Defnyddiodd yr ymchwiliad hwn hefyd y dystiolaeth a gafwyd ar gyfer yr ymchwiliad i'r materion sy'n wynebu'r sector addysg uwch. Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor:

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Prifysgol Caerdydd | 18 Chwefror 2025 |
| Ymgyrch dros y Gwyddorau Mathemategol | 6 Mawrth 2025 |
| Unigolyn | Chwefror 2025 |
| Prifysgol Caerdydd | 21 Mawrth 2025 |
| Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru | 25 Mawrth 2025 |
| Y Brifysgol Agored | 2 Ebrill 2025 |
| Prifysgol Aberystwyth | 9 Ebrill 2025 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 9 Ebrill 2025 |
| Prifysgol Abertawe | 9 Ebrill 2025 |
| Prifysgol De Cymru | 9 Ebrill 2025 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 9 Ebrill 2025 |
| Prifysgol Bangor | 11 Ebrill 2025 |
| Y Coleg Nyrsio Brenhinol | 25 Ebrill 2025 |
| Coleg Cymraeg Cenedlaethol | 12 Mai 2025 |
| Prifysgol Wrecsam | 15 Mai 2025 |
| UNSAIN | Mehefin 2025 |

## Gwybodaeth ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Prifysgol Caerdydd (Gwybodaeth Ychwanegol) | 23 Mai 2025 |

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Prifysgol Caerdydd (Gwybodaeth Ychwanegol) | 20 Mehefin 2025 |